

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE	
DYDD LLUN 16 GORFFENAF 2018 10.00 o'r gloch	MONDAY 16 JULY 2018 10.00 am	
SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGFNI	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/Party of Wales

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS, Robin Wyn Williams

Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 **MATERION BRYN A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion bryn ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

3 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018.

4 **COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 11 - 20)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2018.

5 **MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGFNI (YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN)** (Tudalennau 21 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau).

6 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 93 - 104)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Gwasanaethau y Democraidaidd.

7 **CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2017/18** (Tudalennau 105 - 134)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **STRATEGAETH GWRTH-DLODI** (Tudalennau 135 - 162)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18** (Tudalennau 163 - 206)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

10 **GWELEDIGAETH A STRATEGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: CYTUNDEB LLYWODRAETHIANT** (Tudalennau 207 - 266)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 267 - 268)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm”.

12 DYFODOL NEUADD Y SIR, LLANGEFNI (Tudalennau 269 - 276)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2018

YN BRESENNOL:	Y Cyngorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd) Y Cyngorwyr Ieuan Williams (Is-gadeirydd) Y Cyngorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS , Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 5) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitemau 10 &12) Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 9) Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) (ar gyfer eitem 6) Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ar gyfer eitemau 10 & 12) Rheolwr Sgriwtini (AGD) (ar gyfer eitem 4) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Dim
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cyngorwyr Aled M. Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Shaun Redmond, Peter Rogers

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. MATERION BRYN A ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

3. COFNODION

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith eu cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2018 fel rhai cywir.

4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Gorffennaf 2018 a Chwefror 2019.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini bod dau newid i'r Flaen Raglen Waith ers y cyfnod adrodd diwethaf, sef –

- Eitem 16 - Mae Protocol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei ail-raglennu o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 16 Gorffennaf, 2018 a bydd yn cael ei ystyried yn awr yn y cyfarfod ar 17 Medi, 2018.
- Eitem 28 – Mae Cyllideb 2019/20 yn newydd i'r Flaen Raglen Waith ac fe'i hystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod ar 18 Chwefror, 2019.

Yn ychwanegol at hyn, dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd angen trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith yn fuan er mwyn ystyried Bid Bargen Twf Gogledd Cymru.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Gorffennaf, 2018 i Chwefror, 2019 wedi ei diweddaru fel y'i cyflwynwyd.

5. ADRODDIAD CYNNYDD Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUEDD

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod y Gwasanaeth, yn ystod y cyfnod ers arolygiad AGC o'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn brysur yn sefydlu cyfres o newidiadau pwysig a fydd, fe dybir, yn darparu gwasanaethau a fydd yn cydymffurfio'n well â deddfwriaeth. Disgrifir y rhain yn yr adroddiad gyda phwyslais penodol ar ailstrwythuro'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar Ymyrraeth Gynnar ac Atal ac Ymyrraeth Ddwys; datblygu Strategaeth Atal gyda'r nod o leihau angen ar bob lefel; datblygu systemau a phrosesau ac ansawdd a chysondeb Ymarfer. Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn cyfarfod yn fisol ac wedi bod yn craffu yn ofalus y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y gwnaed llawer iawn o waith ar bob lefel o'r Gwasanaeth, mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae'r Gwasanaeth angen cyfnod yn awr i ganolbwyntio ar agweddau ymarferol Gwaith Cymdeithasol er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau; at ei gilydd, mae'r Gwasanaeth ar y trywydd iawn ac yn symud i'r cyfeiriad iawn.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y diweddariad ar gynnydd a gofynnodd am sicrwydd ynglŷn â'r pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith y bu'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth ddatblygu Strategaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar a bod gweithredu'r strategaethau hyn yn arwain at welliannau. O'r herwydd, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ar effaith y gwaith hwn o ran nifer yr achosion lle cymerwyd camau ymyrraeth gynnar yn ystod y chwe mis diwethaf ac a oedd hynny wedi arwain at well canlyniadau i'r Gwasanaeth ac i blant a theuluoedd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, er bod nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth wedi aros yn gyson, mae'r Gwasanaeth wedi medru ymateb mewn gwahanol ffyrdd yn dilyn cyfeiriad, e.e. drwy wneud defnydd cynyddol o ymatebion y Tîm o Amgylch y Teulu (TAT). Mae capasiti'r TAT wedi cael ei gynyddu o dri i chwe swyddog sydd, y cyfan ohonynt, â baich achosion llawn. Drwy ymyrryd yn y modd hwn, mae anghenion teuluoedd yr ystyrir eu bod yn fregus ac a fyddai fel arall yn cael sylw drwy'r system Gwaith Cymdeithasol, yn cael eu lleihau cyn iddynt ddod yn fwy difrifol. Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn hefyd wedi bod yn gweithio gyda phump o deuluoedd mewn modd rhagweithiol a hynny wedi arwain at ddelio gydag anghenion 8 o blant heb iddynt orfod mynd i mewn i'r system ofal. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn adolygu achosion a lle mae'n briodol, wedi bod yn rhyddhau Gorchmynion Gofal fel y gall plant ddychwelyd i fyw gyda'u teuluoedd heb gael eu rhoi mewn gofal.

- Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch a yw'r Gwasanaethau plant wedi gorfod ymyrryd ar fyr rybudd mewn achosion lle mae anghenion yn ddwys.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y gall ymyrraeth gymryd sawl ffurf ac y gall ddigwydd ar wahanol lefelau; mewn rhai achosion gall ymyrraeth gynnwys gan y trydydd sector a gwasanaethau cyffredinol yn gweithio gyda theuluoedd yn gynnwys iawn olygu nad yw'r plentyn yn dod i sylw Gwasanaethau Cymdeithasol o gwbl; mae'r Gwasanaeth wrthi'n adolygu'r modd y mae'n defnyddio adnoddau Teuluoedd yn Gyntaf a symud y rhain i sail tair blynedd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cryfhau ei gysylltiadau gydag ysgolion lle mae TAT yn rhan o'r ddarpariaeth gan olygu bod ymgysylltiad gyda theuluoedd yn digwydd yn llawer cynharach. Yn wyneb y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant, dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y Gwasanaeth hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar ochr ddwys y ddarpariaeth e.e. byddai'r 8 plentyn a fyddai fel arall wedi bod angen darpariaeth drwy'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Plant oni bai am fewnbwn y Tîm Teuluoedd Gwydn wedi rhoi pwysau sylweddol ar y gyllideb.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn weinyddol, wedi symud i system newydd, sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ac y cafwyd rhai problemau cychwynnol gyda'r system yn enwedig o ran prosesau llif gwaith. Mae'r problemau hyn wedi cael sylw gyda chymorth allanol. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am esboniad ynghylch a yw'r fewnbwn hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac a yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn fodlon bod y system yn awr yn ymateb i'w hanghenion.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod bwrdd wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y system yn cwrdd ag anghenion y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod blaenoriaeth yn cael ei rhoddi i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn enwedig felly'r strwythurau yn y Gwasanaeth. I'r perwyl hwn, mae'r Gwasanaeth wedi cael ei rhannu'n bedair adain gyda'r ffocws cychwynnol ar Deuluoedd yn Gyntaf a Theulu Môn. Cafwyd sgysiau gyda staff i sefydlu pa agweddau o'r system y mae angen eu hegluro ac/neu eu haddasu ac mae'r newidiadau a wnaed o ganlyniad yn yr ail wythnos o'u gweithrediad. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn y drydedd wythnos o'r cam nesaf o adolygu'r system o bersbectif yr ail adran sy'n ymwneud â Diogelu Plant a phlant sy'n mynd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac sy'n cael eu tynnu oddi arni. Mae'r gwaith felly'n mynd rhagddo yn gyflym gyda hyfforddiant lefel uchel yn cael ei gynnig i'r staff fel rhan o'r gweithdai yn ogystal â chamau i reoli'n well y problemau gyda'r system fel bod y problemau a gaiff aelodau unigol o staff yn cael eu hamlygu a hyfforddiant un i un yn cael ei ddarparu. Wedi bod yn rhan o'r newidiadau, mae'r staff yn awr mewn gwell sefyllfa i ddeall y system a sut y gall weithio iddyn nhw. Mae'n sefyllfa sy'n

gwella ac mae sgôp i wella'r system ymhellach wrth i'r Gwasanaeth wneud cynnydd gyda'r adrannau gweddilliol.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r canlynol -

- **Y camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd.**
- **Cyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

6. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid) yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer chwarter olaf blwyddyn ariannol 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd unrhyw bethau annisgwyl ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Cafwyd heriau yn y Gwasanaeth Dysgu; y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion lle yr oedd rhai meysydd yn tanberfformio fel y nodwyd yn yr adroddiad. Mae camau lliniaru, a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r rhain. Ar y llaw arall, mae datblygiadau newydd cyffrous yn digwydd yn y Gwasanaethau Oedolion a disgwylir i'r rheiny arwain at welliannau; mae'r rhain yn ymwneud â dyfarnu Contract Gofal Cartref newydd a diwygiedig; cynyddu capasiti yn Garreglwyd i gymryd unigolion a chanddynt broblemau dementia a datblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol Hafan Cefni.

Mewn perthynas â Rheoli Pobl, dywedodd yr Aelod Portffolio er bod y canlyniadau ar ddiwedd y flwyddyn o ran salwch wedi methu'r targed corfforaethol oherwydd cynnydd mewn absenoldebau salwch yn Chwarter 4 – sefyllfa a oedd yn gyffredin ar lefel genedlaethol - mae perfformiad yn parhau i fod yn Felyn ar y Cerdyn Sgorio oherwydd bod y cyfraddau yn Chwarteri 1, 2 a 3 of 2017/18 wedi bod ar y blaen i'r targed a'r gorau mewn tair blynedd. Mae'r gostyngiad yn nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd o fewn yr amserlen (73% o gymharu â 78% yn 2016/17) yn siomedig ac i'w briodoli i'r perfformiad gwael yn Chwarter 1 sydd wedi cael effaith ar y perfformiad cronol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae cyfanswm y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd (o fewn yr amserlen a'r tu allan i amserlen) yn 85% sydd ymhell islaw'r targed o 95%.

Mae'r perfformiad yn erbyn y DP Gwasanaeth Cwsmer wedi gwella gyda chynnydd nodedig yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu gyda'r Cyngor. Mae perfformiad o ran ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen yn 78% sy'n welliant o gymharu â'r 77% yn 2016/17 yn arbennig felly o ystyried y cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd - 7,527 yn 2017/18 o gymharu â 5,700 yn 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod rhaid cynnal y momentwm o welliant parhaus ar draws y Cyngor ac y gellir gwneud hyn wrth i'r holl wasanaethau weithio gyda'i gilydd i roi sylw i'r meysydd hynny ble mae tanberfformiad.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith y dirywiad mewn perfformiad o ran cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith. Oherwydd eu bod yn declyn rheoli pwysig i reoli absenoldeb salwch, nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y dylid gwneud ymdrech o'r newydd i wella nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhelir er mwyn codi perfformiad yn agosach at y lefel darged.

Dyweddod y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) fod y ffigyrau diweddaraf ar gyfer mis cyntaf 2018/19 yn dangos fod perfformiad o ran cynnal Cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn 87% sy'n welliant sylweddol ac yn cadarnhau'r hyn a ddywedodd wrth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gynharach yn y mis, sef bod Pennaethiaid Gwasanaeth yn canolbwyntio ar fonitro Cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gwella a chynnal perfformiad o ran cynyddu nifer y cyfweiliadau a gynhelir.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y perfformiad yn erbyn DP WMT/009b (% y gwastraff a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol a'i baratoi ar gyfer ei ailddedfnyddio ac/neu ei ailgylchu) wedi gwella eto eleni i 72.2% gan godi'r Awdurdod i'r safle cyntaf yng Nghymru ar gyfer y mesur perfformiad hwn. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod sgôp hefyd i'r Awdurdod adeiladu ar ei ymrwymiad i leihau gwastraff plastig drwy arwain ar, a gosod esiampl drwy weithio tuag at wneud i fwrdd â phlastigau a ddedfnyddir unwaith yn unig.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod tanberfformiad yn erbyn rhai o Ddangosyddion Perfformiad y Gwasanaeth Dysgu yn derbyn sylw drwy'r mesurau adferol penodol a amlinellwyd yn yr adroddiad; mae gwaith monitro a gwella yn mynd rhagddo hefyd drwy'r Byrddau Trawsnewid Addysg a Safonau Addysg ynghyd â'r Panel Adolygu Perfformiad Ysgolion.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 71 o gwynion wedi dod i law ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â 9 o gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y cyfan o'r cwynion wedi derbyn ymateb gydag 18 ohonynt wedi cael eu cadarnhau yn llawn, 5 yn rhannol a'r 48 arall wedi cael eu gwrthod. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch a yw gwasanaethau'n dadansoddi sylwedd y cwynion er mwyn dysgu ohonynt a nodi gwelliannau posibl.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fod gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar gwynion fel ffynhonnell o wybodaeth am wasanaethau a all arwain at welliannau; mae'r Panel Gwella Gofal Cwsmer hefyd yn gweithio ar sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau o ran canmoliaethau a chwynion.

Penderfynwyd –

- **Derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio am Chwarter 4 2017/18 a nodi ei gynnwys.**
- **Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y cânt eu nodi yn adran 1.4 yr adroddiad.**
- **Derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.**

7. DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD a Thrawsnewid) yn cynnwys y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2018/19.

Dyweddod yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol bod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol dros y 12 mis nesaf a bod hynny â chyswllt â'r dyheadau a'r amcanion a nodir yng Nghynllun y Cyngor Sir ar gyfer 2017-22.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y Ddogfen Gyflawni Flynyddol a bod ei gweledigaeth a'i chynnwys yn dangos bod yr Awdurdod yn Gyngor blaengar, egniol sy'n ymrwymedig i

fuddsoddi yn, a gwella ei wasanaethau mewn modd arloesol. Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith bawb – yn Aelodau a Swyddogion – a oedd wedi cyfrannu at gynhyrchu'r ddogfen uchelgeisiol hon.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cynnal y 'status quo' yn ystod y cyfnod hwn o lymders yn opsiwn ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor drawsnewid er mwyn gwasanaethu trigolion Ynys Môn yn y ffordd orau bosibl. Mae'r Ddogfen Gyflawni'n dangos fod y Cyngor yn barod i fynd i'r afael â'r her hon wrth iddo foderneiddio ei wasanaethau.

Penderfynwyd –

- **Derbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol am 2018/19.**
- **Rhoi'r hawl i'r Swyddogion drwy law'r Aelod Portffolio i ymgymryd â'r dasg o orffen drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni am 2018/19 ac argymhell ei bod yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2018.**
- **Cadarnhau bod modd gwireddu'r ddogfen fel cynllun sydd yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.**

8. ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor ym mis Chwefror, 2017, wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £30.614m am 2017/18 ar gyfer gwasanaethau nad oeddynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £9.889m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r tabl ym mharagraff 1.3 yr adroddiad yn rhoi manylion am y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 ynghyd â'r ymrwymadau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol oedd £39.800m a dim ond £20.064m oedd wedi ei wario ar 31 Mawrth, 2018 sy'n cyfateb i 50% o'r gyllideb. Y prif reswm am y tanwariant cyffredinol oedd y tanwariant mawr yn erbyn y saith prosiect mawr a restrwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad. Bydd cyfan o'r cynlluniau cyfalaf hyn yn cario drosodd i 2018/19 ynghyd â'r cyllid ar eu cyfer.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad oedd unrhyw gyllid wedi cael ei gollu oherwydd llithriad a bod yr arian yr oedd angen i'r Cyngor ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol wedi cael ei wario.

Penderfynwyd –

- **Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen Gyfalaf 2017/18 yn amodol ar archwiliad, a**
- **Chymeradwyo cario £9.348m drosodd i 2018/19 ar gyfer tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2018/19.**

9. MODERNEIDDIO YSGOLION AR YNYS MÔN - SYMUD DYDDIAD GWEITHREDU'R RHYBUDDION STATUDOL AR GYFER YSGOL SANTES DWYNWEN, YSGOL PARC Y BONT AC YSGOL BRYNSIENCYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ohirio dyddiadau gweithredu'r rhybudd statudol i gwblhau Ysgol Santes Dwynwen a'r rhybudd statudol i newid statws Ysgol Parc y Bont i 1 Ebrill 2019.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a'r Gwasanaethau Ieuencid bod yr Awdurdod ac Esgobaeth Bangor (Yr Eglwys yng Nghymru), ar 17 Mehefin 2016, wedi cyhoeddi dau rybudd statudol o'u bwriad i (1) gyfuno Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Niwbwrch yn ysgol newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ar safle yn Niwbwrch, a (2) i beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru, i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer bechgyn a genethod 3-11 oed ac i ffederaleiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall. Roedd y cynigion hyn i gael eu gweithredu ar 1 Medi, 2018. Fodd bynnag, oherwydd y ffactorau a nodir yn yr adroddiad, sef materion yn ymwneud â phrynu'r tir a phrosesau caniatâd cynllunio'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac yna'r oedi cyn yr Etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017 ac yna'r Etholiad cyffredinol ym mis Mehefin 2017, bu'n rhaid gwrthio dyddiad cychwyn y ddau gynnis yn ôl ac o'r herwydd, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried cymeradwyo ymestyn yr amserlen am gyfnod o 8 mis hyd at 1 Ebrill, 2019. Fel yr un a gynigiodd y bwriad yn y rhybuddion statudol gwreiddiol, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ganiatáu unrhyw newidiadau i'r amserlen.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu mai 4 Mawrth 2019 yw'r dyddiad targed o hyd ar gyfer agor yr ysgol newydd.

Siaradodd y Cynghorydd Peter Rogers fel Aelod Lleol a dywedodd ei fod, er yn cefnogi'r ysgol newydd ac yn gweithio'n galed i sicrhau ei llwyddiant, yn siomedig gyda'r oedi ac yn arbennig y sgil-effeithiau posibl ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol newydd gyda rhai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion y tu allan i'r ardal ac, yn fwy arwyddocaol, yr effaith bosibl ar y rhagamcanion mewn perthynas â niferoedd disgyblion yn ysgol uwchradd y dalgylch, sef Llangefni, gyda hynny efallai'n cael effaith ar ariannu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Lleol am ei sylwadau a dywedodd ei bod hi a'r Pwyllgor gwaith yn rhannu ei ymrwymiad i wneud yr ysgol newydd yn llwyddiant ar gyfer yr ardal a phlant yr ardal. Roedd heriau ychwanegol wedi bod ynghlwm wrth yr ysgol ond fel y disgrifir yn yr adroddiad, roedd y rheiny'n anffodus y tu draw i reolaeth yr Awdurdod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg bod newid y status quo yn anorfod yn mynd i fod yn heriol. Fodd bynnag, mae profiadau'r gorffennol o agor ysgolion newydd wedi profi bod y negeseuon, ar ôl goresgyn yr heriau cychwynnol, wedi bod yn gadarnhaol.

Penderfynwyd oedi gyda'r canlynol tan 1 Ebrill, 2019 –

- **Dyddiad gweithredu cynnis (1) i gwblhau Ysgol Santes Dwynwen.**
- **Dyddiad gweithredu cynnis (2) i newid statws Ysgol Parc y Bont.**

10. STRATEGAETH DDIGARTREFEDD RANBARTHOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn amlinellu'r ymagwedd y bwriedir ei mabwysiadu ar gyfer datblygu Strategaeth Ddigartrefedd ddrafft ar sail ranbarthol ynghyd â'r cynllun cyfathrebu arfaethedig.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau bod raid i awdurdodau lleol, yn unol â'r gyfraith, fabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd yn 2018 er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn yr adroddiad. Mae Penaethiaid Gwasanaeth Gogledd Cymru wedi cytuno y bydd Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn cael ei chynhyrchu yn seiliedig ar y farn y byddai sefydlu dealltwriaeth ac ymagwedd ranbarthol ar y cyd tuag at atal digartrefedd yn dod â'r manteision penodol a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad. Amlinellir yn yr adroddiad y modd y bydd bwriedir cyfathrebu gyda phartneriaid ynghylch datblygiad y cynllun gweithredu.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd y Strategaeth yng nghyd-destun adroddiadau cynyddol yn y cyfryngau ynghylch cynnydd mewn lefelau digartrefedd, yn arbennig ymysg pobl ifanc. Nododd y Pwyllgor Gwaith ei bod yn iawn i'r Awdurdod ystyried dulliau newydd a rhagweithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn a gwneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd gyda phartneriaid i gefnogi'r sawl sydd wedi eu heffeithio ac i ddatblygu datrysiadau ar gyfer achosion sylfaenol digartrefedd.

Penderfynwyd cymeradwyo –

- **Y dull o ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol gyda phwyslais ar ganlyniad wrth ddatblygu'r cynllun gwaith ar lefel rhanbarthol a lleol (Rhan 2 a 3 o'r adroddiad)**
- **Y dull o gyfathrebu wrth ddatblygu'r cynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a chymeradwyaeth terfynol.**

11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

12. RHAGLEN AILSEFYDLU FFOADURIAID O SYRIA

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn amlinellu'r cam nesaf o'r Rhaglen ar gyfer Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria. Yn yr adroddiad, amlinellwyd yr hyn a oedd wedi ei gyflawni dan y Rhaglen Ailsefydlu hyd yma o ran y tri theulu cyntaf i gael eu hailsefydlu ynghyd â'r ystyriaethau mewn perthynas ag ailsefydlu'r teuluoedd nesaf y bydd yr Awdurdod yn eu croesawu fel rhan o'r rhaglen.

Penderfynwyd –

- **Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â'r rhaglen hon i'r Aelod Portffolio ar sail anffurfiol ac ni fydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith oni bai bod raid gwneud penderfyniadau ynghylch polisi neu gyllid neu mewn amgylchiadau lle mae'r Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Aelod Portffolio yn gofyn am i adroddiad/ penderfyniad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Fel rhan o'r rhaglen, bydd y 4ydd, 5ed a'r 6ed teulu yn cael eu hail-sefydlu mewn ardaloedd yn seiliedig ar y ffactorau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws
Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2018

YN BRESENNOL: Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) (Yn y Gadair)

Cynghorydd Llinos Medi Huws (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)

Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)

Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)

Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant)

Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)

Dawn Owen (Rheolwr Tîm, Tîm Lleoli Plant)

Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg PDG)

Llinos Edwards (Nyrs PDG)

Kevin Thomas (Arweinydd Ymarfer) (ar gyfer eitem 5)

Dr Trish Girling (CAMHS) (ar gyfer eitem 4)

Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU: Dr Gwynne Jones (Cadeirydd), Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg), Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Liz Fletcher (BIPBC), Janw Hughes-Evans (BIPBC – Gwasanaeth Anableddau Dysgu Plant).

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 COFNODION CYFARFOD 11 RHAGFYR, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

- Gofynnodd y Panel am ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion gwelliant a nodwyd yn yr adroddiad gan yr Uned Ansawdd a Diogelu, a gyflwynwyd yn y cyfarfod blaenorol, mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Asesiadau PDG
- Sicrhau cynlluniau gofal a chefnogi ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal
- Adolygu a monitro'n gadarn y camau gweithredu a'r gwahaniaeth a wnaed
- Ansawdd a chysondeb cadw cofnodion
- Canolbwyntio ar gynllunio dyfodol parhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau niferoedd y plant mewn gofal.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y gwaith papur sydd angen ei wneud pan fydd plentyn yn dod i ofal wedi newid yn gyfan gwbl ers y

cyfarfod diwethaf. Mae'r ffurflenni gofal a chefnogi newydd yn rhai rhanbarthol ac mae'r gwasanaeth bellach wedi dechrau gweithio gyda'r ddogfennaeth newydd. Mae gweithrediad y trefniadau yn golygu y bydd angen i bob plentyn sy'n derbyn gofal dderbyn asesiad a bod cynllun gofal yn cael ei greu ar eu cyfer. Bydd materion ansawdd a monitro yn cael sylw yn y ddogfennaeth newydd; bwriad y Gwasanaeth, wrth iddi ddod yn amser cyfarfod adolygu pob plentyn y mae'r Awdurdod yn edrych ar eu holau, yw y bydd y plentyn yn mynd i'r adolygiad â'r ddogfennaeth newydd. Bydd y newid felly'n digwydd dros tua 10 mis gydag unrhyw broblemau cychwynnol, yn enwedig o ran mewnbwn asiantaethau eraill (gyda'r ffurflenni newydd yn canolbwyntio fwy ar agweddau gwaith cymdeithasol) yn cael eu gweithio trwyddynt. Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â chynllunio sefydlgorwydd; mae wedi adolygu nifer o gynlluniau ac wedi symud rhai ymlaen i Orchmynon Gwarcheidwaeth Arbennig tra hefyd yn rhyddhau ychydig o orchmynon gofal. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu ar ôl 6 mis o ddechrau defnyddio'r gwaith papur newydd er mwyn sefydlu pa elfennau sy'n gweithio a pha rai sydd ddim a sut y gellir eu datblygu ochr yn ochr ac Addysg ac Iechyd.

Dywedodd y Nyrs PDG mai un ystyriaeth o safbwynt iechyd yw sut mae'r asesiadau iechyd PDG yn cael eu hymgorffori o fewn y ddogfen newydd.

Cadarnhaodd y Swyddog Cyswllt Addysg PDG bod y wybodaeth wedi'i rhannu ag ysgolion a bod gohebiaeth wedi'i hanfon at Benaethiaid ynghyd â'r Templed ar gyfer y Cynlluniau Addysg Personol newydd a fydd yn ffurfio rhan o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth newydd. Y disgwyliad yw y bydd pob plentyn sy'n derbyn gofal yn derbyn y cynllun erbyn Tachwedd, 2018, bydd hyn yn digwydd beth bynnag ar gyfer y plant hynny sy'n newid ysgolion ym mis Medi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod cynnig o gymorth gyda'r newidiadau wedi'i wneud i ysgolion; mae yna ffurflen atgyfeirio newydd ar gyfer ysgolion hefyd. Mae'r gwasanaeth wedi mynd ati i baratoi'r ysgolion ar gyfer y newidiadau.

Dywedodd y Swyddog Adolygu Annibynnol bod yr IRO, yn y cyfarfod diwethaf, wedi cynnig templed newydd ar gyfer adroddiadau gwaith cymdeithasol. Bydd y ddogfennaeth newydd y cyfeirir ati uchod yn cynnwys yr agweddau a awgrymir gan y templed ac yn cael ei defnyddio yn y cyfarfodydd adolygu o hyn allan.

Bu'r Panel nodi a derbyn y wybodaeth a ddarparwyd yn y diweddariad.

GWEITHRED YCHWANEGOL: Adborth ar weithrediad y fformat gwaith papur newydd i gael ei gasglu drwy Benaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru dros y 6 mis nesaf ac adolygiad o effeithiolrwydd i'w gynnal yn dilyn hynny.

- Roedd y Panel wedi gofyn am gadarnhad o ganlyniadau adolygu a oedd wedi'u cynnwys o fewn adroddiad yr Uned Ansawdd a Diogelu i'r cyfarfod diwethaf.

Dywedodd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r hyn a archwiliwyd, sef sampl o adolygiadau o fis Medi, 2017 ac nid cyfanswm y plant a oedd yn derbyn gofal. Felly, darparwyd 7 dogfen adolygu trefniadau o flaen y cyfarfod adolygu – 27% o 26 adolygiad; mewn un achos fe gyflwynwyd dogfen arall hefyd sydd, allan o 26, yn 3.8%

Nododd y Panel yr eglurhad.

- Roedd y Panel wedi argymhell y dylid ymgynghori â Swyddogion ar wneud trefniadau amgen er mwyn sicrhau bod cyfweliadau dychwelyd adref ar gyfer plant ar goll yn cael eu cynnal hyd nes ceir cadarnhad bod gwasanaeth rhanbarthol wedi'i sefydlu.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, pan fydd plentyn sydd yng ngofal yr Awdurdod yn myn ar goll, cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal cyfweliad dychwelyd adref. Mae wedi dod i'r amlwg yn rhanbarthol fod y data y mae Heddlu Gogledd Cymru yn ei gasglu mewn perthynas â phlant ar goll yn wahanol i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei gasglu ac yn ymateb iddo e.e. roedd yr Heddlu wedi adrodd bod 150 o blant wedi mynd ar goll dros gyfnod o amser ar Ynys Môn er mai dim ond 140 o blant sydd gan Ynys Môn yn ei ofal, nifer ohonynt nad ydynt yn byw yn Ynys Môn. Mae'r Heddlu yn ystyried yr holl blant ym mhob lleoliad ar yr Ynys er bod nifer o'r plant hyn mewn lleoliadau sydd wedi'u trefnu gan awdurdodau o du allan i Ynys Môn a'r ardal gan olygu mai'r Awdurdod sy'n lleoli'r plant sy'n gyfrifol amdanynt ac nid Cyngor Sir Ynys Môn. Dywedodd y Swyddog ei fod yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau Gogledd Cymru ar sut i ddelio â phlant sy'n mynd ar goll o leoliadau o'r fath; gallai fod yn ddefnyddiol, lle mae awdurdod wedi lleoli plentyn mewn ardal awdurdod arall yng Ngogledd Cymru a bod y plentyn hwnnw'n mynd ar goll, i'r Awdurdod sy'n Lletya gynnal y cyfweliad dychwelyd adref ar ran yr Awdurdod sy'n Lleoli'r plentyn. Os mai Ynys Môn yw'r Awdurdod sy'n Lletya, yr agwedd a awgrymir mewn sefyllfaoedd lle mae'r Awdurdod sy'n Lletya y tu allan i ardal Gogledd Cymru, yw bod Ynys Môn yn cynnig cynnal cyfweliadau dychwelyd adref am ffi. Bydd yr agwedd hon yn cael ei thrafod mewn cyfarfod Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan ddydd Gwener yma er mwyn ystyried a ddylid gweithredu'r trefniant hwn yn genedlaethol ac nid dim ond yn rhanbarthol. Nododd y Swyddog fod angen cael trafodaeth â Heddlu Gogledd Cymru er mwyn cadarnhau'r gwahaniaeth rhwng plant sydd ar goll a phlant sy'n absennol heb ganiatâd h.y. plant nad ydynt yn y lle iawn ar amser penodol ond y mae rhywun yn ymwybodol o'u lleoliad - mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn nodi'r rhain fel plant ar goll hefyd. Mae protocol ar gyfer plant ar goll a'r bwriad yw adolygu a chytuno ar y protocol ac yna cyfarfod â Heddlu Gogledd Cymru er mwyn dod i ddealltwriaeth am y data a adroddir, yn enwedig o ran plant a leolir ar Ynys Môn ond nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod hwn. Mater arall yw nad yw'r Awdurdod yn Ynys Môn bob amser yn cael eu hysbysu gan awdurdodau eraill am y lleoliadau y byddant yn eu gwneud ar yr Ynys tan y bydd problem yn codi, er bod gweithdrefn yn bodoli ar gyfer hysbysu am leoliadau y tu allan i ardaloedd.

Mewn perthynas â'r cynnig bod tîm rhanbarthol yn cael ei sefydlu er mwyn cynnal cyfweliadau dychwelyd adref, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd mai barn y rhan fwyaf o awdurdodau yw bod ganddynt eisoes yr adnoddau mewnol er mwyn gallu cynnal y cyfweliadau dychwelyd adref, nad oes raid eu cynnal gan weithwyr cymdeithasol, a'i fod yn fater o ddod i gytundeb ar broses.

Gofynnodd y Panel am gadarnhad o ran y trefniadau addysgol ar gyfer plant a leolir ar Ynys Môn gan awdurdodau eraill. Dywedodd y Swyddog Cyswllt Addysg PDG fod GwE yn ceisio gwybodaeth am y nifer y plant mewn gofal ym mhob cyfnod allweddol ar draws y rhanbarth. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa yn Ynys Môn i'r Panel Rhiant Corfforaethol ychydig flynyddoedd yn ôl.

Derbyniodd y Panel y diweddariad a nodwyd y wybodaeth.

GWEITHREDOEDD YN CODI:

- **Papur arweiniol y Pennaeth Plant a Gwasanaeth Teuluoedd ar agwedd a gytunir arni ar gyfer plant sy'n mynd ar goll o leoliadau a drefnir gan awdurdodau y tu allan i'w rhanbarth i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Panel ym mis Medi.**
- **Y Panel hefyd i dderbyn diweddariad ar nifer y plant a leolir ar Ynys Môn gan awdurdodau eraill ac sy'n derbyn darpariaeth addysg gan yr Awdurdod.**
- **Y rhesymau dros y gwahaniaethau rhwng y data ar gyfer plant ar goll a adroddir gan yr awdurdodau lleol a'r data a adroddir gan Heddlu Gogledd Cymru [h.y. o ganlyniad i'r ffaith bod yr awdurdodau a'r heddlu yn defnyddio'r diffiniad "ar goll" ac "absennol heb ganiatâd" mewn ffyrdd gwahanol ac o ganlyniad, mae'r Heddlu yn cynnwys plant mewn lleoliadau a leolir gan awdurdodau o'r tu allan i'r ardal yn eu data] i gael ei adrodd yn ôl i Grŵp Prif Weithredwyr Gogledd Cymru er gwybodaeth.**

4 GWASANAETH IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC (CAMHS)

Rhoddodd Dr Trish Girling drosolwg i'r Panel o waith y gwasanaeth yn Ynys Môn o ran plant sy'n derbyn gofal, gyda chyfeiriad penodol at –

- Y Clinig Ymgynghori –

Bydd tri slot awr yr un yn cael eu cynnig o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio â phlant sy'n derbyn gofal neu hyd at 3 blynedd mewn lleoliad mabwysiadol. Ers mis Ionawr, mae'r ddarpariaeth wedi ei hystyngi i blant sydd ar drothwy gofal. Ni fydd unrhyw waith uniongyrchol â phobl ifanc yn cael ei wneud yn y fforwm hwn.

Os yw plentyn eisoes yn cael ei adnabod gan CAMHS yna dylid trafod y plentyn gyda rheolwr achos y plentyn yn lle hynny. Pwrpas yr ymgynghoriad yw cefnogi'r system o amgylch y plentyn er mwyn datblygu sefydlogrwydd, diogelwch a strwythur yn eu bywydau. Ystyrir bod yr elfennau hyn yn hanfodol os yw'r plentyn am fod yn barod i gael therapi fel y gall ddelio gydag a datrys trawma o'r gorffennol. Nid yw therapi uniongyrchol yn cael ei argymhell ar gyfer nifer o blant er gwaethaf ymddygiadau a/neu brofiadau anodd.

Mae dros 50 o ymgynghoriadau wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda rhai o'r rhain yn slotiau dwbl. Gall y rhesymau dros geisio ymgynghoriad fod yn amrywiol gan gynnwys gofalwyr maeth yn ei chael hi'n anodd delio ag ymddygiadau; angen cyngor ar drefniadau cyswllt neu angen help er mwyn adnabod anghenion ar gyfer cynlluniau gofal. Ers ailffurfio'r gwasanaeth y llynedd, mae'r galw am ymgynghoriadau wedi cynyddu; nid oes modd ystyried ceisiadau am fwy o amser yn bosibl oherwydd y galw cynyddol mewn perthynas â gwaith craidd CAMHS.

Mae gweithio drwy ymgynghoriad yn hytrach nag yn uniongyrchol â'r plentyn yn golygu nad yw plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hamlygu i fwy o gyswllt diangen â gweithwyr proffesiynol. Mae plant yn aml yn nodi bod cael nifer o bobl yn dod i mewn ac allan o'r bywydau yn peri dryswch a'i fod yn boenus pan fyddant yn gadael. Mae angen i blant sydd wedi dioddef trawma ac anawsterau ymlyniad angen ffurfio ymlyniadau â'u systemau cefnogi presennol h.y. eu gofalwyr maeth, athrawon, Cymorthyddion dosbarth, ac nid yr "help" sy'n dod o ffynhonnell allanol.

Mae rhai o'r anawsterau y daethpwyd ar eu traws yn cynnwys gorfod dibynnu ar wybodaeth ail-law mewn perthynas â phlant; dim sicrwydd y bydd argymhellion yn cael eu rhoi ar waith; pwysau gan y llysoedd i drefnu therapi i blentyn nad yw CAMHS yn ei argymhell ynghyd â dim digon o amser ar gyfer gwaith mwy rhagweithiol.

- Model Adferiad Trawma

Mae'r model yn cynnwys 7 haen o ymyrraeth sy'n cael eu gweithio trwyddynt er mwyn cyrraedd sefyllfa lle bydd gan y plentyn lefel uwch o bendantrwydd a hyder a'u bod yn cyflawni nodau. Fe'i ystyrir yn angenrheidiol i fod wedi gweithio trwy lefelau 1 i 4 cyn y bydd plentyn yn barod am ymyrraeth therapiwtig arbenigol.

- Ffyrdd eraill y bydd CAMHS yn darparu cymorth.
 - Darpariaeth hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac ar gyfer gofalwyr maeth.
 - Goruchwyliaeth ymchwil mewn perthynas â gofalwyr maeth Ynys Môn (enghraifft ddiweddar oedd astudiaeth ansoddol yn edrych ar rôl trugaredd mewn gofalwyr maeth)
 - Darparu cyngor pellach ac ymgynghoriad drwy fforymau megis y Panel Parhau â Gofal.

Daeth Dr Trish Girling â'i chyflwyniad i ben drwy amlinellu dwy enghraifft o achosion.

Diolchodd y Panel i Dr Trish Girling am ddarparu mewnwelediad gwybodus i'r gwasanaethau CAMHS ar Ynys Môn. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, nodwyd y pwyntiau canlynol –

- Yr angen i wella a bwrw ymlaen gyda'r Llwybr CAHMS.
- Yr angen i fapio allan pa fathau o therapi preifat sy'n cael eu comisiynu ac a yw'r rhain yn briodol.

NI CHYNGIWIYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL

5 BREUDDWYDION CUDD - ADRODDIAD DILYNOL AR GYNNYDD AWDURDODAU LLEOL AC ARFERION DA WRTH GEFNOGI'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL

Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd Ynys Môn ers yr adroddiad Breuddwydion Cudd a'r cyfraniadau er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer plant a phobl ifanc ar gyfer ystyriaeth y Panel.

Adroddodd Mr Kevin Thomas, Arweinydd Ymarfer, bod yr adroddiad Breuddwydion Cudd gan Gomisiynydd Plant Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, 2017 yn edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn perthynas â thai, addysg a chyfleoedd hyfforddiant a chefnogaeth bersonol ac emosiynol. Nid y gefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn unig sy'n effeithio ar y bobl ifanc hyn. Unwaith y bydd plentyn mewn gofal, mae angen i'r holl Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol, fel rhieni corfforaethol, fod yn bryderus am y plentyn hwnnw. Fe ddylai'r rhai sy'n gadael gofal ddisgwyl yr un lefel o ofal a chymorth ac y byddai eraill yn ei ddisgwyl gan riant rhesymol. Os yw'r Awdurdod Lleol, fel corff cyfunol yn gyfrifol am ofalu amdanynt a'u cefnogi, dylent hefyd sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt a fydd yn cynnwys cynnig mwy nag un cyfle iddynt wrth iddynt ddod i delerau â chymryd cyfrifoldeb wrthynt iddynt ddod yn oedolion.

Dywedodd y Swyddog fod Comisiynydd Plant Cymru wedi ymweld ag Ynys Môn ar 31 Mawrth, 2017 pan cafodd ei chyflwyno â gwybodaeth am y ffordd yr oedd yr Awdurdod wedi ymateb i'r adroddiad Breuddwydion Cudd yn ystod y 12 mis ers ei gyhoeddi. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu a chryfhau'r gefnogaeth gorfforaethol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn y ffyrdd canlynol –

- Drwy greu swydd Ymgynghorydd Personol parhaol ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, a ariennir drwy'r grant Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal. Mae hyn wedi cryfhau'r gwasanaeth gan ei alluogi i ddarparu cymorth amserol ar gyfer y rhai

sy'n gadael gofal er mwyn eu helpu i gyflawni eu dyheadau ac i wneud y trawsnewidiad llwyddiannus i fywyd fel oedolyn ac i fyw'n annibynnol.

- Drwy eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r Dreth Gyngor. Cyngor Ynys Môn oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Ngogledd Cymru i helpu pobl ifanc a oedd yn gadael ei ofal drwy eu heithrio rhag talu'r dreth gyngor. Wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, daeth y polisi newydd i rym ar 1 Ebrill, 2018 ac mae'n rhoi eithriad 100% yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n gadael gofal (18-21 oed).
- Drwy ddatblygu amrediad llwyddiannus o wasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, sy'n cynnwys 26 uned o Dai â Chymorth ac 14 uned o gefnogaeth hyblyg. Mae Prosiect Coedlys yn Llangedfni yn darparu 9 uned o lety â chymorth ar gyfer rhai o'r bobl ifanc fwyaf bregus. Pan fydd pobl ifanc yn gadael eu lleoliad gofal, mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod eu cartref newydd yn addas ar gyfer eu hanghenion ac yn gysylltiedig â'u cynlluniau a'u dyheadau ehangach – er enghraifft wedi ei leoli ger eu sefydliad addysg neu eu gwaith. Mae protocol Tai ac Ôl-ofal yn y Gwasanaethau tai yn sicrhau bod y llety a gynigir i'r unigolyn ifanc yn briodol.
- Drwy ddarparu profiad gwaith mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ynghlwm â menter newydd o fewn y Cyngor o'r enw Denu Talent lle cynigir profiad gwaith â thâl ar gyfer pobl ifanc er mwyn helpu i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith – cyfnod o hyd at 12 wythnos a chyflog gyda'r Cyngor.
- Drwy ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau penodol drwy Gronfa dydd Gŵyl Ddewi Llywodraeth Cymru a sefydlwyd er mwyn helpu pobl ifanc sydd, neu sydd wedi bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol i gael mynediad i gyfleoedd a fydd yn eu harwain tuag at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol weinyddu eu dyraniad o'r gronfa mewn modd hyblyg a chreadigol er mwyn bodloni anghenion eu pobl ifanc yn yr un ffordd ag y bydd rhieni genedigol yn cefnogi eu plant. Yn ystod 2017/18 fe ddarparodd yr Awdurdod gymorth ariannol ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gadael drwy roi talebau dillad i 15 o bobl ifanc (£200); gwersi gyrru i bobl ifanc (£200), blaendaliadau a rhent ar gyfer llety, nwyddau tŷ ar gyfer llety newydd, dillad awyr agored ar gyfer swydd newydd a llety ar gyfer cyfweiliad am swydd.
- Drwy sefydlu Gwobrau Cyrhaeddiad (Gwobrau'r Sêr) fel cydnabyddiaeth o lwyddiannau'r plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn Ynys Môn.

Cyfeiriodd y Swyddog at feysydd lle mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo er mwyn cryfhau'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer tenantiaeth rhywun ifanc; cadarnhau'r Polisi Cyllid ar gyfer rhai sy'n gadael gofal; gwrandao ar a dysgu o brofiadau'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn siapio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a chryfhau cysylltiadau â'r prosiect Cymunedau'n Gyntaf er mwyn darparu cymorth ymarferol ac emosïynol ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.

Fel rhiant corfforaethol, mae angen i'r Awdurdod barhau i gael dyheadau uchelgeisiol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal drwy sicrhau ei fod yn darparu'r cymorth gorau a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol er mwyn gallu rhoi'r dechrau gorau iddynt o ran byw'n annibynnol.

Nododd y Panel y wybodaeth a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Panel bod rhoi i'r sawl sy'n gadael gofal gyfleoedd gwaith yn allweddol er mwyn datblygu eu hannibyniaeth. Nododd y Panel ymhellach y byddai wedi disgwyl i'r Awdurdod allu darparu cyfleoedd o'r fath i'r 44 o bobl ifanc sy'n gadael gofal y mae'n gyfrifol amdanynt ac awgrymwyd y dylai sicrhau cynnydd yn hyn o beth fod yn flaenoriaeth.
- Gofynnodd y Panel am gadarnhad o'r trefniadau sy'n bodoli pan fydd person ifanc mewn gofal maeth yn gadael y cartref gofal maeth i fynd i'r brifysgol/addysg bellach. Dywedodd yr Arweinydd Ymarfer, os ydynt yn mynd i Brifysgol neu addysg bellach /

uwch y bydd y sawl sy'n gadael gofal yn dal i dderbyn y gwasanaeth gadael gofal llawn. Ar gyfer y rhai hynny sy'n dychwelyd dros y gwyliau, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu llety gwyliau. Y disgwyliad yw y byddant yn dychwelyd i'w lleoliad maeth blaenorol. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau amgen. Mewn perthynas â'r trefniant 'Pan dwi'n barod' (trefniant lle bydd person ifanc mewn gofal maeth yn aros gyda'u gofalwyr maeth y tu hwnt i 18 oed) mae'r rheoliadau yn nodi, os yw unigolyn ifanc yn mynd i ffwrdd i'r Brifysgol, y gallant ddychwelyd i gartref y gofalwr yn ystod y gwyliau ac y bydd y gofalwr yn gymwys i dderbyn cyllid dan y trefniant 'Pan dwi'n barod' pan fydd y person ifanc yn aros yn y cartref 'Pan dwi'n barod'. (Gweler yr atodiad ar gyfer y rheoliadau).

- Nododd y Panel y pwysigrwydd o geisio sicrhau parhad cronfa dydd Gŵyl Ddewi fel ffynhonnell o gyllid er mwyn galluogi'r plant mewn gofal/y rhai sy'n gadael gofal i ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn gwella eu llesiant, yn cynnal eu hannibyniaeth neu'n cyfrannu at eu datblygiad.

Cytunodd y Panel i dderbyn yr adroddiad ac i nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod wrth ymateb i'r adroddiad Breuddwydion Cudd.

DIM GWEITHREDOEDD YCHWANEGOL YN CODI

6 IECHYD – YSTADEGAU PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Darparwyd adroddiad gan BIPBC yn cynnwys y wybodaeth ystadegol ganlynol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2017 a 31 Mawrth, 2018 ar gyfer ystyriaeth y Panel –

- Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal o fewn a thu allan i siroedd Gogledd Cymru o dan gylch gwaith Awdurdod Lleol Ynys Môn (165)
- Cyfanswm nifer y lleoliadau LAC yng Ngogledd Cymru o du allan i ardal BIPBC (207)
- Dadansoddiad fesul Sir o'r 456 LAC byw a leolir o du allan i Ogledd Cymru yn y gwahanol Siroedd o fewn ardal BIPBC un ai cyn neu yn ystod y cyfnod (Ynys Môn – 49)
- Cipolwg yn ôl sir o'r boblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal fel ar 31 Mawrth, 2018.
- Dadansoddiad o blant sy'n derbyn gofal o du allan i Ogledd Cymru a leolir yn ardal BIPBC fel ar 30 Mawrth, 2018 a'u lleoliadau.
- Prydlondeb hysbysiadau a ddarperir gan awdurdodau Gogledd Cymru o ran pan fydd lleoliad LAC yn dechrau neu'n newid a hefyd LAC sy'n cael eu lleoli yn ardal BIPBC o'r tu allan i Gymru - mae Llwybr Hysbysu Cymru GIG ar gyfer LAC yn nodi bod yn rhaid anfon hysbysiadau o fewn 5 diwrnod i blant gael eu lleoli.

Nododd y Panel y canlynol –

- Bod y 49 o blant sy'n derbyn gofal a leolir ar Ynys Môn o'r tu allan i Ogledd Cymru yn nifer sylweddol pan y'i hychwanegir at y plant sy'n derbyn gofal a leolir ar Ynys Môn gan siroedd eraill yng Ngogledd Cymru a'r plant sy'n dod o dan gylch gorchwyl Ynys Môn ei hun.
- Nad oes patrwm amlwg i'r plant sy'n derbyn gofal a leolir yn Ynys Môn gan awdurdodau eraill.
- Bod Ynys Môn yn cymharu'n dda ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru o ran darparu hysbysiadau amserol am leoliadau.

Nododd y Panel y wybodaeth a ddarparwyd.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL

7 ADRODDIADAU GWASANAETH

7.1 Darparwyd diweddariad gwasanaeth gan y Swyddog Cyswllt Addysg PDG

Nododd y Panel y canlynol –

- Bod cyfanswm o 28 Cynllun Addysg Personol wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen tra bo 46 yn weddiill. Dywedodd y Swyddog Cyswllt Addysg PDG mai dyma'r ail flwyddyn academaidd lle mae ysgolion wedi bod yn gyfrifol am gwblhau'r cynlluniau ac er cael eu hatgoffa'n rheolaidd am y gofyniad, nid ydynt yn cael eu cwblhau yn unol â'r disgwyl. Gobeithir y bydd cyflwyno Rhan 6 y Cynlluniau Gofal a Chymorth o fudd i ysgolion fel y gellir gwella'r rhan sy'n ymwneud ag Addysg.
- Bod nifer y newidiadau ysgolion anhrosiannol wedi codi gyda 31 wedi eu cofnodi yn 2017/18 o gymharu ag 17 yn 2016/17. Dywedodd y Swyddog Cyswllt Addysg PDG fod hyn i'w briodoli'n rhannol i ddiffyg lleoliadau ond hefyd plant sydd wedi cael eu lleoli mewn cartrefi tymor hir, sy'n symud i ysgolion o fewn y dalgylch - sy'n beth synhwyrol. Mae newidiadau eraill yn ganlyniad i blant sy'n dychwelyd adref i fyw gyda'u teuluoedd sy'n newid positif ynddo'i hun.

Nodwyd y wybodaeth gan y Panel.

NI CHYNIGIWDYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL

7.2 Darparwyd diweddariad gwasanaeth gan y Rheolwr Tîm Lleoli Plant.

Nodwyd y panel y canlynol –

- Er yr ystyrir nad oes digon o ddewis o ran lleoliadau, mae Graff 1 yn dangos bod nifer o blant sy'n derbyn gofal yr Awdurdod mewn gwahanol fathau o leoliadau ar yr Ynys.
- Mai dim ond un teulu prif ffrwd newydd a gafodd ei gymeradwyo yn ystod chwarteri 3 a 4, fodd bynnag, cafodd llawer iawn o waith asesu ei wneud yn ystod y cyfnodau hynny er nad oedd modd dod â'r gwaith i gasgliad llwyddiannus.
- Bod yr adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un gweithiwr o'r Tîm Lleoli Plant ar adeg lle maent wedi profi nifer o newidiadau o ran gweithiwr cymdeithasol. Dywedodd y Rheolwr Tîm bod y newidiadau i weithwyr cymdeithasol yn amlwg yn Chwarter 3 a 4 ac wedi eu cynnwys yn adborth gofalwyr yn dilyn eu hadolygiadau blynyddol.

Nodwyd y wybodaeth gan y Panel.

NI CHYNIGIWDYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL

8 CYFARFOD NESAF

Nododd y Panel y cynhelir cyfarfod nesaf y Panel am 2pm ar ddydd Llun, 10 Medi, 2018.

**Dr Caroline Turner
Cadeirydd**

Pan fydd person ifanc yn bwriadu mynychu'r Brifysgol

- 11.1. *Lle bydd person ifanc yn dymuno byw gyda'u Gofalwr 'WIR' tra byddant yn mynychu Prifysgol leol, cynhelir cyfarfod er mwyn cadarnhau'r trefniadau cyllid a diogelu. Rhaid mynd â chanlyniad y cyfarfod a'r trefniant ariannu arfaethedig at y Prif Swyddog Rhiant Corfforaethol ar gyfer ei ardystio.*
- 11.2. *Os bydd y person ifanc yn mynd i ffwrdd i'r Brifysgol gallant ddychwelyd i gartref y Gofalwr yn ystod y gwyliau a bydd y Gofalwr yn gymwys i dderbyn cyllid trefniant 'WIR' pan fydd y person ifanc yn aros yn y cartref 'WIR'.*
- 11.3. *Lle bydd person ifanc yn dychwelyd at eu Gofalwr yn ystod y gwyliau a bod ganddynt blentyn/blant maeth, byddant yn cael eu trin fel aelod o'r cartref Gofal Maeth sy'n oedolyn ac felly byddant yn destun gwiriadau fel y byddai unrhyw Oedolyn arall.*

DRAFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	16 Gorffennaf 2018
Pwnc:	Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn ardal Llangefni: Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ac i ystyried yr argymhellion a nodwyd
Aelod(au) Portffolio:	Cyng R Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)
Pennaeth Gwasanaeth:	Arwyn Williams (Pennaeth Dysgu)
Awdur yr Adroddiad:	Annwen Morgan (Prif Weithredwr Cynorthwyol)
Aelodau Lleol:	Cyng Nicola Roberts Cyng Bob Parry Cyng Dylan Rees

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>Mae'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad(Atodiad 1) yn arwain at y casgliadau a ganlyn:</p> <p>i.Mae safonau yn y ddwy ysgol yn debyg o safbwynt y cyrhaeddiad disgwylidig (Lefel 4+). Serch hynny, mae tystiolaeth dros y tair blynedd ddiwethaf yn nodi bod Ysgol y Graig wedi llwyddo i ymestyn canran uwch o ddisgyblion i lefelau uwch yn y pynciau craidd. Yn sgîl hyn ni fyddai uno yn cael effaith negyddol ar safonau.</p> <p>ii.Byddai uno yn gwneud defnydd gwell o adnoddau'r Cyngor ac yn unioni cost y pen.</p> <p>iii.Byddai uno'r ddwy ysgol yn gallu creu'r amodau i'r Pennaeth gael amser digyswllt digonol ar gyfer arweinyddiaeth.</p> <p>iv.Byddai dod â'r ddwy ysgol ynghyd yn rhoi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw ac yn darparu adnodd unfed ganrif ar hugain ar gyfer defnyddwyr yr ysgol. Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y ddwy ysgol yn £369k gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i Ysgol Talwrn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Cydnabyddir fodd bynnag y gallai costau cludiant ychwanegol ddeillio o gludo plant ond mae'n anodd ar y pwynt hwn i bennu'r rhain ac o ganlyniad nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad. Cydnabyddir hefyd y byddai estyniad i Ysgol Y Graig yn ddrutach na'r drefn gyfredol ond fe wrthbwsir y gost ychwanegol yn rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Talwrn.</p>

Yn sgîl yr uchod, argymhellir cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.

Gwneir hyn trwy:-

- ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;
- codi 'Bloc' newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
- ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.

Byddai'r 'bloc' newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 19, 2016 penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn awdurdodi swyddogion i barhau i'r broses ymgynghori statudol, ac ymgynghori ar opsiwn A a B sydd wedi eu hamlinellu isod, mewn ymgais i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni.

Opsiwn A

Bydd hyn yn seiliedig ar:

Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Opsiwn 6a, adeiladu ysgol gynradd newydd yng Ngaerwen ar safle arall, ar gyfer 150 o blant. Ysgol I gymryd lle yr ysgol bresennol Ysgol Esceifiog

Opsiwn 7, ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. Bydd angen ymgynghoriad pellach ar y r opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn

Opsiwn 9, addasiadau i Ysgol Henblas

Opsiwn B

Bydd hyn yn seiliedig ar:

Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Opsiwn 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog

Opsiwn 7, ymestyn Ysgol y Graig i gymryd plant o Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn

Opsiwn 9, addasiadau i Ysgol Henblas

Mae'r ddau opsiwn uchod yn cynnwys ffedereiddio Ysgol Henblas efo ysgol arall. Mae'r gwahaniaeth rhwng opsiwn A a B yn berthnasol i Ysgol Esceifiog.

Ymgynghorodd y Cyngor efo rhieni, Llywodraethwyr a staff y chwech ysgol yn yr ardal,

aelodau etholedig lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 31ain Ionawr - 13eg Fawrth 2017 Yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i gymeradwyo opsiwn B.

Mae **Opsiwn B** yn cynnwys yr is-opsiynau canlynol:

Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Opsiwn 7, ymestyn Ysgol Y Graig i gymryd plant o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. Mae'r adroddiad yn cadarnhau nad oes llefydd digonol ar safle presennol yr ysgol i ymestyn, a chaniatáu digon o lefydd chwarae. Y cynnig yw - swyddogion i ymgynghori ymhellach efo rhanddeiliaid perthnasol ar yr holl opsiynau i ymestyn Ysgol y Graig, i gyd-fynd efo cynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Opsiwn 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog.

Opsiwn 9, adnewyddu Ysgol Henblas.

Ystyriwyd cyfanswm o 9 opsiwn yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Llangefni. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail ar gyfer cymeradwyo opsiwn B.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefnidaeth ysgolion.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw-gweler y pwynt uchod.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydyw-Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor gwaith ar 13 Ionawr 2014.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae sylwadau'r Uwch Dim Arweinyddiaerh wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Mae cyfrifiadau swyddogion Cyllid wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro	

	(mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dylid ymdrin ag unrhyw faterion Adnoddau Dynol (AD) sy'n codi o'r argymhellion yn unol a phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig.
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	<p>Trafodwyd y mater hwn yn y cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 , daeth y pwyllgor sgriwtini i'r casgliad fel a ganlyn :-</p> <p>Penderfyniad</p> <p>Wedi ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac ar bapur, Penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -</p> <ul style="list-style-type: none"> •Beidio â derbyn yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog. •Argymhell fel a ganlyn mewn perthynas â'r broses adrodd yn y dyfodol – •Bod unrhyw faterion mewn perthynas â pherchenogaeth tir yn cael eu hegluro ymlaen llaw. •Bod gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu mewn perthynas â chludiant ysgol a materion parcio. •Pan mae siaradwyr cyhoeddus yn annerch y Pwyllgor ar ran ysgol ac yn cyfeirio at ohebiaeth benodol a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, y bydd yr ohebiaeth honno ar gael i'r Pwyllgor ar yr amod fod yr awduron wedi rhoi eu caniatâd. <p>GWEITHRED YCHWANEGOL: Yn dilyn y cyfarfod, fod Penaethiaid Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn cael gwybod am ganlyniad trafodaethau'r Pwyllgor.</p>
9	Aelodau Lleol	Mae sylwadau'r aelodau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad.
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Mae sylwadau rhanddeiliaid eraill wedi eu

		hymgorffori yn yr adroddiad.
--	--	------------------------------

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	Cwblhawyd asesiad effaith fel rhan o'r broses ymgynghori statudol.(Atodiad 2.)
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:
Atodiad 1 - Adroddiad Ymgynghori Statudol - Ardal Llangefni (Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig) Atodiad 2 – Asesiad Effaith-- Ardal Llangefni (Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig)

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
Cynllun y Cyngor 2017-2022 www.ynysmon.gov.uk



SWYDDOGOL – OFFICIAL

**ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORI STATUDOL – ARDAL
LLANGEFNI**

(Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn)

STATUTORY CONSULTATION REPORT – LLANGEFNI AREA

(Ysgol Y Graig and Ysgol Talwrn)

1 Mai – 18 Mehefin 2018 / 1 May – 18 June 2018



**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
ADRAN DYSGU GYDOL OES / LIFELONG LEARNING DEPARTMENT**

www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk

Rhif	Cynnwys	Tudalen
1.	CYFLWYNIAD A CHEFNDIR	3
2.	GYRWYR NEWID	3
3.	Y BROSES YMGYNGHORI	5
4.	SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI	6
5.	YMATEBION O YSGOL TALWRN	6
6.	YMATEBION O YSGOL Y GRAIG	8
7.	YMATEBION ERAILL	9
8.	ADBORTH GAN DDISGYBLION	10
9.	YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD	14
10.	YSTYRIAETHAU ARIANNOL	19
11.	YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL	22
12.	CASGLIADAU ac ARGYMHELLIAD	23
13.	ADBORTH AR LEIN	24

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn am sicrhau'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symblu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor am foderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- sicrhau ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion, creu cyfuniad o ffederasiynau ysgolion, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgolion sydd yn bodoli neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad dynt yn addas i bwrpas.

2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO BYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gywyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal.

Codi safonau addysgol

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i godi safonau os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 150 o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd â mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gydag ystod ehangach o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oeddrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828, ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 (£3,962 y disgybl ar gyfartaledd) y trydydd uchaf yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeiladau ysgolion diweddaraf - Ysgol y Graig, Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys –

- cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau,
- cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf,
- manau chwarae addas,
- ardaloedd staffio a gweinyddu priodol,
- ynghyd â diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol.

Noda Estyn mewn adroddiad o 2007 bod “gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant.” Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dîm rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd 28% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

Yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-17 fe nodir:

“Ym mron pob ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o ran pennu effeithiolrwydd ysgol. Ceir heriau cynyddol wrth recriwtio penaethiaid, yn enwedig mewn ysgolion ffydd ac ysgolion bach mewn ardaloedd gwledig (Adroddiad Blynyddol Estyn 2016-2017)”

Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol

Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r

gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Lleihau nifer llefydd gweigion

Ym Medi 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 12.3%. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n digwydd rhwng 1 Mai hyd at 18 Mehefin 2018.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn.

Ysgol	Dyddiad (yn 2018)	Cyfarfod gyda
Y Graig	Dydd Mawrth 15 Mai	Sesiynau galw fewn
Talwrn	Dydd Mercher 16 Mai	Sesiynau galw fewn

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangedfni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol i'r ysgolion sydd yno yn bresennol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- yn sicrhau newid y sefyllfa o ran amser di-gyswllt i athrawon.
- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanegol yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir mwy o sylwadau yn rhannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn.

Ysgol y Graig

- Holwyd am safle posib ac amserlen posib y gwaith
- Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu
- Pryder am faint yr adeilad newydd a chyfleusterau yno
- Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol
- Holwyd am effaith posib y gwaith ar Dechrau'n Deg

Ysgol Talwrn

- Awgrymu dylai'r Awdurdod ddisgwyl tan i'r Còd Trefniadaeth Ysgolion newydd ddod i rym
- Y teimlad nad yw'r Awdurdod wedi gwranddo
- Beth am ffedereiddio neu ymuno gydag ysgolion eraill?
- Pryder beth fyddai'r sefyllfa o ran A.A.A.
- Yr ysgol yn llwyddo i feithrin penaethiaid
- Beth fyddai'r trefnaiadau ar gyfer clybiau ar ôl ysgol?
- Y teimlad nad yw'r Awdurdod wedi gwario ar yr ysgol
- Cost caban yn uchel yn nhyb rhai
- Pryder o ran plant ysgol gynradd fechan yn mynd i ysgol gynradd "o 400"
- Rhai'n amau nifer y datblygiadau tai yn y dalgylch
- Pryder am y traffig a'r daith posib i Llangefni
- Pryder am ddyfodol yr Eisteddfod leol, yr Ysgol Sul a darpariaeth Ti a Fi

5. YMATEBION O YSGOL TALWRN

- 5.1 Derbyniwyd tua 50 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda'r posibilrwydd o gau'r ysgol.
- 5.2 Barn swyddog yng Nghapel Nyth Clyd, Y Talwrn oedd ei fod yn "gadarn ei farn na ddylid cau yr ysgol". Roeddent yn teimlo fod yr ysgol yn sylfaen i'r Gymdeithas leol a hefyd yn cyfrannu'n eang iawn at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref". Petai Ysgol Talwrn yn cau, barn y swyddog oedd byddai'r "Cyngor yn euog o wrthod cyfle i greu dinaswyr cyfrifol". Yn ogystal â chanmol yr ysgol, roedd y swyddog yn crybwyll "canllawiau clir sydd ar fin cael eu cyhoeddi" gan Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru ynglŷn â pam na ddylid cau ysgolion gwledig oni fod seiliau cadarn i wneud hynny." Roedd yn teimlo "nad oedd seiliau cadarn yn bodoli yma"

- 5.3 Mewn llythyr gan Gangen y Talwrn o Ferched y Wawr, roedd yr Ysgrifennydd yn datgan gwrthwynebiad y Gangen i'r "bwriad o gau Ysgol y Talwrn". Roedd y Gangen yn dweud mai "dymuniad y gymuned a'r rhieni yw gweld yr ysgol yn parhau fel rhan ganolog o'r pentref a'r ardal". Dywedodd fod Ysgol Talwrn "yn ysgol lewyrchus, naturiol Gymraeg mewn pentref bywiog a dymunwn iddi aros felly". Roedd y Gangen "eisiau ysgol yn y pentref yn rhan annatod o gymuned hyfyw Gymraeg".
- 5.4 Cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 16 Gorffennaf 2018, bydd deiseb yn cael ei chyflwyno i Arweinydd y Cyngor. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn arwyddo'r ddeiseb i gytuno i "gadw ein Ysgol yn Agored". Mae'r ddeiseb wedi ei harwyddo gan 1010 o lofnodwyr.
- 5.5 Yn ei ymateb, dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod:
- "y ddogfen ymgynghorol hwn i bob pwrpas yw ail-gyhoeddi'r hen ddogfen ymgynghorol o'r ymgynghoriad diwethaf, os nad yr un cyn diwethaf! O ganlyniad mae llawer o'r cynnwys yn amherthnasol i'r cynnig dan sylw am y ddwy ysgol hyn, gan ei fod yn cyfeirio at ysgolion eraill.
 - Y Cyngor yn "anghyfrifol yn brysio i benderfynu ar ei thynged ychydig wythnosau cyn cyhoeddi'r Côd newydd."
 - llawer o'r opsiynau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn amherthnasol i sefyllfa Talwrn ac yn cyfeirio at y sefyllfa i'r gorllewin o Langefni nad ydynt yn destun i'r ymgynghoriad hwn.
 - Nid yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried pob ateb amgen CYN cynnig cau ysgol, yn ogystal ag ystyried pob opsiwn a gynigir yn ystod yr ymgynghoriad. Dyw swyddogion y Cyngor ddim wedi cyflawni'r naill ddyletswydd na'r llall. Maent wedi methu yn eu dyletswyddau statudol.
 - Am yr holl resymau hyn, y mae'r ymgynghoriad yn annilys a'r ddogfen yn gwbl annigonol.
- 5.6 Derbyniwyd ymateb gan Ysgrifennydd Pwyllgor Neuadd y Pentref a Chae Chwarae Talwrn oedd yn dweud:
- "Mae ein hysgol ni wrth galon ein pentref. Dros nifer o flynyddoedd mae'r ysgol a'r neuadd bentref wedi cydweithio ar nifer o weithgareddau, ac mae'r neuadd yn dibynnu ar yr ysgol am ei gefnogaeth. Mae disgyblion a rhieni wedi cefnogi digwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynorthwyo tuag at gostau cynnal a chadw hanfodol y neuadd a'i faes chwarae / cae chwarae. Yn ogystal â chefnogi cyfleuster sy'n cael ei ddefnyddio'n dda gan y gymuned leol, mae hefyd yn un sy'n cael ei defnyddio gan yr ysgol ar gyfer digwyddiadau megis gweithgareddau'r gampfa, Diwrnod Chwaraeon, cyngherddau Nadolig, ac ati. Yn ogystal, mae gennym nifer o gymdeithasau, gan gynnwys Cylch Meithrin, y Grŵp Mam a Phlentyn a'r The Guides, sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn y Neuadd, a fyddai'n dioddef hefyd os dylai'r ysgol gau. Yn arbennig, mae plant yr ysgol yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o eitemau o fewn Eisteddfod Talwrn, os nad y cyfan.
 - Bydd hyn nid yn unig yn arwain at fwy o draffig ar y ffyrdd i Langefni, ond bydd yn lleihau'r cyfleoedd i'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd wella eu hiechyd trwy gerdded neu feicio.
 - Nid oes gennym gynnig arall, o ran cau ysgolion eraill i ganiatáu i'n hysgol aros yn agored. Yn hytrach, byddem yn dadlau y bydd ansawdd uchel yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talwrn yn diflannu."
- 5.7 Yn ei lythyr, dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod y Talwrn:

- “Mae Ysgol Talwrn wedi darparu, ac yn dal i ddarparu, addysg dda i’r disgyblion. Mae hefyd yn rhan annatod o wead cymdeithasol y pentref. Camgymeriad annoeth yw ystyried yr ysgol yn nhermau cul ei gwaith statudol – mae yr ysgol yn ganolbwynt ardal ac yn galluogi pentref cyfan i fod yn rhan o ddatblygiad plant i greu dinasyddion da a chydwybodol.
- mai ystyriaethau ariannol a dogma’r sefydliad addysgol sydd tu ôl i’r bwriad i gau ysgolion gwledig ar yr Ynys.”

5.8 Derbyniwyd llythyr gan Staff Ysgol Y Talwrn oedd yn sôn am wahanol agweddau o’r ysgol:

- “Mae gan yr ysgol hanes o gynnal safonau uchel ac mae data eleni yn cadarnhau unwaith eto fod yr ysgol yn llwyddo. ... Gall data fod yn gamarweiniol o safbwynt ysgolion bach
- Mae pob plentyn mewn ysgol fechan yn derbyn cyfleoedd all-gyrsiol boed yn draws gwlad, cyfeiriannu, pêl-rwyd neu gala nofio gan dderbyn profiadau waeth be fo’u talent neu allu. Mae niferoedd ein grwpiau yn caniatu i’r plant nofio yn wythnosol o bedair oed. Nid yw hyn yn bosib mewn ysgolion mwy eu maint.
- Mae hyn hefyd yn wir am eisteddfodau. Nid oes angen clyweliadau i blant yr ysgol cyn dewis côr. Nid oes angen treialon dawnsio cyn cystadlu mewn cystadlaethau dawns. Nid yw’r plant yn cael eu siomi drwy beidio cael eu dewis ar gyfer ein parti llefaru. Mae pob un plentyn yn cael cyfle i fwynhau pob agwedd o ddiwylliant yn hytrach na goreuon yr ysgol yn unig.
- Dylid hefyd bwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth Ysgol y Talwrn i’r eisteddfod leol
- Byddai cau’r ysgol yn tramgwyddo dyfodol yr iaith yn y gymuned leol a thu hwnt.
- Hawl rhiant yw cael dewis y sefydliad gorau i’w plentyn, boed yn ysgol fawr neu ysgol fach o ran maint.”

6. YMATEBION O YSGOL Y GRAIG

6.1 Cafwyd 2 ymateb gan randdeiliaid Ysgol y Graig. Daeth y cyntaf gan y Pennaeth. Dyma oedd ei barn: “Wrth ystyried y gofod ar gyfer chwarae, byddai’n fuddiol cael tir aml-dywydd fel ei fod yn bosib ei ddefnyddio ar hyd y flwyddyn. Mae’r cae ysgol yn ddifrifol o wlyb, ac er ymdrechion i fynd i’r afael â hyn nid yw’n bosib ei ddefnyddio ond am ychydig o fisoedd yn yr haf. Byddai cael ardal aml-dywydd yn sicrhau cyfleoedd i fynd i’r afael â materion megis hyrwyddo ymarfer corff er mwyn lleihau gor-dewdra. Mae hefyd angen ystyried beth i’w wneud parthed y felin wynt, nad yw’n gweithio bellach.”

6.2 Mynegodd y rhanddeiliad arall ei gefnogaeth i’r cynllun a dywedodd byddai’n “rhaid i’r dyluniad newydd fod yn seiliedig ar lais yr athrawon a’r staff sydd wedi profi’r rhwystredigaeth o gael neuadd aml-bwrpas mor fychan fel bod trefnu cinio a gweithgareddau eraill i ysgol mor fawr wedi bod yn dipyn o gur pen.”

7. YMATEBION ERAILL

- 7.1 Yn ogystal â chwrrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:
- Cyngor Gwynedd;
 - Swyddogion Llywodraeth Cymru;
 - Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol a'r Aelod Seneddol
 - Estyn;
 - Undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
 - y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GwE;
 - y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
 - Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru;
 - y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
 - Mudiad Meithrin;
 - Gwasanaeth Ieuencid yr Awdurdod;
 - Ysgol Gyfun Llangefni.
- 7.2 Yn ei grynodedb o'i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, dywedodd Estyn "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf." Yn ogystal, roedd yr arolygiaeth o'r farn fod yr "awdurdod lleol wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y manteision disgwylidig a fwriedir o gymharu â'r sefyllfa bresennol o ran cyllid, lleoedd dros ben, safonau disgyblion, ansawdd yr amgylchedd dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Hefyd, mae'r cynigiwr yn esbonio'n briodol sut mae'r cynnig yn cydweddu â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod. Mae'r cynnig yn diffinio manteision disgwylidig y cynnig yn glir, ac mae'r rhain yn cysylltu'n briodol â'r diben datganedig a'r sail resymegol. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun yn debygol o gynnal safon addysg yn yr ardal o leiaf."
- 7.3 Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.E.U. Roedd eu swyddog yn dweud: "Mae undeb yr NEU yn derbyn yr achos busnes dros gau Ysgol Talwrn o ystyried y costau cynnal a chadw parhaus, mynediad i gyllid Llywodraeth Cymru a chost fesul disgybl o £1,050 yn fwy nag Ysgol y Graig. Gyda llefydd gweigion yn 12% ac yn debygol o gynyddu, gallwn weld buddion o uno'r ddwy ysgol oherwydd eu bod yn agos. Fel Undeb Llafur, yr ydym yn gwrthwynebu diswyddiadau gorfodol ac yn bryderus iawn nad oedd yr un o'n haelodau sydd wedi eu diswyddo hyd yma o ganlyniad i Santes Dwynwen wedi gallu dod o hyd i swyddi eraill trwy eu hadleoli. Mae angen pwysau mwy effeithiol gan yr Awdurdod ar Lywodraethwyr i sicrhau bod unrhyw staff addysgu / cefnogi sy'n cael eu diswyddo pe bai Ysgol Talwrn yn cau, yn cael ei gyfweld ar gyfer swyddi gwag."

Ymateb yr Awdurdod i sylw'r swyddog undeb yr N.E.U.

O ran y staff sydd yn y bedair ysgol fydd un uno i ffurfio Ysgol Santes Dwynwen sydd ar y rhestr adleoli – nid yw yr un ohonynt wedi eu hadleoli **hyd yma**. Mae'n rhaid cofio nad yw'r broses adleoli drosodd tan Mawrth 2019 a felly bydd y broses adleoli yn parhau hyd hynny.

Bydd yr Awdurdod yn gwneud bob dim posib ar gyfer rhoi cymorth i'r sawl sydd ar y rhestr adleoli. Er hynny, mae'r Awdurdod yn gweithredu o dan cyfyngiadau y Rheoliadau Staffio h.y. mae penderfyniadau ynghylch recriwtio yn nwylo pob Corff Llywodraethol unigol.

- 7.4 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan. Eu hymateb oedd: “Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'r farn leol i peidio cau yr Ysgol. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, a wedi bod efo 42 - 49 o ddisgyblion dros y blynyddoedd diwethaf ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol. Mae tua 100 o dai yn cael eu hadeiladu yn Llangefni. A fydd lle i blant o'r eiddo hyn y Ysgol y Graig? Bu diffyg yn y broses ddiwethaf ac mae'r cyngor cymuned yn teimlo nad yw'r Cyngor Sir yn gwranddo.”
- 7.5 Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir crynodeb o'r arolwg [10 o ymatebion] yn rhan 13.

8. ADBORTH GAN DDISGYBLION

- 8.1 Ymwelodd swyddogion y Cyngor ag Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig er mwyn cynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o'r ddwy ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Roedd yn gyfle i'r plant o'r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy'n mynychu'r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a'i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai'r rhesymau dros foderneiddio oedd:

- Mae gan ysgolion Ynys Môn gormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o'u hysgolion
- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig offer da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r plant:

Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?

Beth oedd eu barn am y cynnig o addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig?

A oeddent yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid?

Unrhyw sylwadau eraill

Mae'r ymatebion wedi eu cyflwyno isod. Yn ystod rhai o'r sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur a cyflwynir y rhain yn iaith y plant.

8.2 Barn Plant Ysgol Talwrn

Holwyd y Cyngor Ysgol yn y lle cyntaf. Yna cafodd grŵp o blant o oeddrannau gwahanol gyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Roedd rhieni'r plant hynny wedi mynegi diddordeb mewn cynnwys eu plant yn yr ymgynghoriad.

Cwestiwn: Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgol bresennol?

- Mae gan Ysgol Talwrn nifer o adnoddau. Mae'r Cyngor Ysgol wedi trefnu i godi arian er mwyn prynu offer pêl-rwyd. O ganlyniad bydd yr ysgol yn gallu cynnal clwb pêl rwyd ar ôl ysgol, pob dydd Iau.
- Nid ydym eisiau adnoddau fynd i wastraff
- Mae gennym drên newydd ar yr iard ac offer da yma
- Mae gwaith pawb yn yr ysgol yn cael mynd i fyny ar y waliau. Mewn ysgol fawr bydd llai o gyfle i arddangos gwaith gan mai ond y gwaith gorau fydd yn mynd i fyny.
- Rwy'n poeni bydd rhaid i blant blwyddyn 6 Ysgol Talwrn symud ysgol dwywaith mewn cyfnod byr. Symud i ysgol gynradd arall ac ysgol uwchradd.
- Mae'r staff yn Ysgol Talwrn yn adnabod pawb, a phawb yn adnabod y staff
- Rhestrwyd pobl o'r gymuned sy'n ymweld â'r ysgol - roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael profiadau gwerthfawr - ac mae un aelod yn cyfansoddi caneuon i ysgol Talwrn yn unig
- Cyfeiriwyd at Eisteddfod Talwrn sy'n cael ei gynnal yn y Neuadd Bentref ac mae peryg colli hyn os fydd yr ysgol yn cau. Dim ond y gorau sy'n cael eu dewis i gymryd rhan yn yr ysgolion mawr.
- Mae'r plant yn cael cyfle i ymgynnull yn y sgwâr ar ôl ysgol. Mae hyn yn draddodiad gan yr ysgol. Mae'r rhieni a'r plant yn gallu ymgynnull a chael sgwrs ar ôl ysgol
- Rydym yn cael gwersi beics yn yr ysgol
- Digon ac amrywiaeth a chyfleoedd
- Ffrindiau
- Chwarae
- Plant newydd yn ymuno â'r ysgol
- Rydym fel teulu yn adnabod ein gilydd.
- Rydym yn cael chwarae mewn tîm a phawb yn cymryd rhan
- Mae fy nghefnder yn mynd i ysgol fawr ac rwy'n clywed ganddo nad oes gymaint o gyfle i bawb gymryd rhan yno.
- Mae pawb yn edrych ar ôl ei gilydd
- Dim lot o blant yma
- Dysgu pethau newydd
- Rwyf yn gallu cerdded i'r ysgol
- Clwb pêl-rwyd
- Y trê ar yr iard
- Chwarae a ffrindiau cyfeillgar
- Beicio i'r ysgol
- Cerdded lawr i'r sgwâr ar ôl ysgol
- Dewisodd fy Mam yr ysgol yma oherwydd bod yr iaith Gymraeg yn dda yma
- Athrawon yn gwybod ein henwau
- Offer ac adnoddau newydd a mwy o glybiau
- Aelodau o'r gymuned yn darllen gyda ni
- Os mae plentyn yn brifo, mae plant eraill yn ofalgar ohonynt
- Cyfleoedd garddio hefo aelodau'r gymuned
- Llyfrau am natur
- Tripiâu ysgol

- ‘Gwesty Trychfilod’
- Natur o amgylch yr ysgol a’r dysgu amdano
- Eisteddfod Talwrn a’r cyfle i fod yn y côr
- Ras rhedeg yn y mabolgampau
- Ras traws gwlad
- Lot o glybiau
- Timau pêl droed ysgol a llwyddiant diweddar. Roedd gan y timoedd eraill 13 o blant a dim ond 8 oedd gan Talwrn, Roedd o felly yn glod i Ysgol Talwrn am lwyddo.
- Eisteddfod Talwrn
- Ymarfer corff tu allan
- Mewn ysgol fawr mae'r staff yn anghofio enwau gan fod mwy o enwau i’w cofio
- Rwyf wedi bod yn Ysgol y Graig a symudais i Ysgol Talwrn
- Digon o blant i chwarae gyda mi
- Cyfle i wyllo ffilm i’r plant ieuengaf a’r rhai hŷn ar y cyd
- Plant yn helpu ei gilydd
- Mwy o bres mewn ysgol fawr na sydd gan ysgol fach, ond mae digon o deganau yn yr ysgol yma.
- Dysgu rhywbeth newydd pob diwrnod
- Ar nosweithiau'r clwb celf sy’n cychwyn am 4yp, gallwn fynd lawr i’r sgwâr i chwarae ar ôl ysgol, a dod yn ôl fyny i’r ysgol erbyn 4.
- Mae rhai o’r plant yma wedi dod yma o Ysgol y Graig. Mae Ysgol Talwrn yn ysgol dda
- Y brecwast

Beth yw eich barn am y cynnig addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig?

- Nid wyf eisiau mynd i Ysgol y Graig, ella bydd plant yn cael eu bwlio yna.
- Nid yw’n syniad da. Yn Ysgol Talwrn mae’r plant bach a mawr yn cael gweld ei gilydd.
- Ni fydd hynny yn wir yn Ysgol y Graig.
- Rwy’n poeni pa ysgol uwchradd byddaf yn gorfod ei fynychu
- Mae yna gyfleoedd yma. Mae’r plant mawr yn cael eu ffilmio, ac yn cael eu recordio ar gyfer radio’r Urdd
- Cyfleodd dawnsio yma, ac rydym yn dysgu ein gilydd
- Mae athrawes newydd ar fin cychwyn yma, ni fydd hi’n cael cyfle yn yr ysgol. Yn ogystal mae yna blant sy’n cychwyn yn yr ysgol mis Medi nesaf
- Rydym wedi cael nifer o athrawon newydd a neis
- Weithiau byddwn yn cael gwrando ar gerddoriaeth cyn amser cinio
- Rydym yn cael cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol - dawnsio a dysgu dawnsfeydd gwledydd gwahanol, màths pen a defnyddio’r hwb, ap si-so, ttrackstars (times tables rockstars)
- Peintio
- Rydym yn helpu Anti Delyth i gadw offer y gegin a glanhau’r llawr. Bydd Anti Delyth yn chwarae gyda ni amser cinio ac yn gymhorthydd yn yr ysgol yn y p’nawn

A ydych yn cytuno efo’r rhesymau dros newid?

- Yn deall y rhesymau ond ddim yn cytuno gyda hwy.

<ul style="list-style-type: none"> • Efallai bod yr adeilad yn hen a ddim yn edrych yn dda o'r tu allan, ond mae'r hyn sy'n digwydd tu mewn i'r ysgol a'r addysg yn dda
Sylwadau pellach
<ul style="list-style-type: none"> • Dim cau'r ysgol • Roedd fy Mam yn mynd i Ysgol y Graig a chafodd ei bwlio yna • Angen sicrhau nad yw'r adnoddau yn mynd i wastraff • Mae digon o adnoddau modern yma - chromebooks ac apple computer

Barn Plant Ysgol y Graig - Cynrychiolaeth o'r Cyngor Ysgol

Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?
<ul style="list-style-type: none"> • Ffrindiau • Athrawon ffeind • Cinio • Amser chwarae • Ymarfer corff/ chwaraeon • Pêl-droed • Clybiau Celf • Clwb brecwast • Eisteddfod • Gwersi offerynnau • Offerynnau pres • Y gwaith • Gwrando yn yr ysgol

Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i addasu Ysgol y Graig ac i gau Ysgol Talwrn
<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'n deg bod rhaid i'r cyfnod Sylfaen symud i adeilad ar gyfer yr adran Iau. Nid ydym ni wedi gorfod gwneud hynny. • Mae'n bwysig cadw'r cysylltiad rhwng y cyfnod Sylfaen a'r adran Iau. Rhoddwyd enghraifft bod un plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn crio heddiw ac fe gysurwyd y plentyn wrth iddo weld ei berthynas hyn yn yr adran Iau. • Syniad da - bydd yn gyfle i gael mwy o ffrindiau • Bydd mwy o le yn yr ysgol • Bydd angen i'r Cyngor ystyried mwy o lefydd parcio ar gyfer Ysgol y Graig • Bydd angen i'r Cyngor ystyried cludiant i'r ysgol ar gyfer plant Ysgol Talwrn, oherwydd efallai nad oes gan y rhieni gar

<p>Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid: Yr angen i gynllunio lefydd priodol Gwneud yn siŵr fod pawb yn parhau i gael addysg dda Ysgol fodern ac offer da Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd cytundeb eu bod yn deall y rhesymau dros newid

Holwyd y plant am syniadau ar sut i gyfathrebu gyda hwy yn ystod y cyfnod addasu'r ysgol, os cymeradwyir y cynnig

- Y plant yn croesawu'r cyfle i sgwrsio gyda'r Pensaer am ddyluniad y bloc newydd ac addasiadau Ysgol y Graig bresennol
- E-bost
- Newyddlen / Llythyrau

Rhoddwyd y cyfle i gyflwyno sylwadau eraill

- Holwyd am y wisg ysgol ac os bydd Talwrn yn anghytuno gyda gwisg ysgol y Graig
- Holwyd beth sy'n digwydd os fydd gan blant y Talwrn unrhyw alergedd, sut fydd Ysgol y Graig yn gwybod hynny

9. YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

Diolchir i bawb am yr holl sylwadau. Gan fod cymaint ohonynt yn debyg, penderfynwyd eu gosod o dan themâu penodol Nid yw yn bosib ymateb i'r holl sylwadau unigol a dderbyniwyd am sawl rheswm gan gynnwys y ffaith fod nifer ohonynt yn debyg. Cyflwynir isod ymateb yr Awdurdod i'r rhai o'r prif themâu a gyflwynwyd mewn cymhariaeth â'r prif yrwyr newid yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion [adran 2].

9.1 Ysgol Talwrn

1. Safonau

Crybwyllodd nifer o randdeiliaid y canran o ddisgyblion oedd yn cyrraedd y safon disgwylidig yng Nghyfnod Allweddol 2 sef 100%. Er hynny, mae angen edrych ar y darlun llawn ac ystyried y Cyfnod Sylfaen yn ogystal. Roedd y ddogfen ymgynghori'n manylu ar hyn ac yn dangos y ffigyrau cyrhaeddiad gyda'r ddwy ysgol yn cael eu cymharu gydag ysgolion cyffelyb yn genedlaethol yn defnyddio set ddata meincnodi:

Ysgol	DCS*		
	2014/15	2015/16	2016/17
Talwrn	66.7	80.0	75.0
Y Graig	92.5	82.4	91.3
Ynys Môn	86.2	84.7	85.8
Cymru	86.8	87.0	87.3

* – Deilliant 5+ yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen

Chwartz uchaf ■ Canolrif Uchaf ■ Canolrif Isaf ■ Chwartz Isaf ■

Yn gyffredinol, mae peth amrywiaeth ym mherfformiad yr ysgolion. Gweler bod Ysgol Talwrn wedi bod yn y chwartz isaf yn amlach nag Ysgol y Graig ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y categori lliw o ddangosydd ysgol.

Gweler isod y patrwm dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Cyfnod Allweddol 2:

Ysgol	CA2* Canlyniadau Ysgol		
	2014/15	2015/16	2016/17
Talwrn	100	85.7	100.0
Y Graig	92.9	80.0	92.7
Ynys Môn	91.8	89.4	91.4
Cymru	87.7	88.6	89.5

*Lefel ddisgwylidig (Lefel 4) mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu cyfuno

Mae perfformiad y ddwy ysgol yn CA2 yn eithaf tebyg sef bod Ysgol Talwrn gyda 2 wyrdd ac 1 oren ac Ysgol y Graig gydag 1 gwyrdd a 2 felyn. Yr hyn sydd yn arwyddocaol yw nifer y disgyblion sef cyfartaledd o 7 yn y fintai i Ysgol Talwrn a chyfartaledd o 43 i Ysgol y Graig.

Gellir dadlau bod proffil arolygiad Ysgol y Graig yn rhagori rhyw ychydig

Nodir hefyd ymateb Estyn i'r ymgynghoriad hwn: "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf."

Yn ychwanegol, gellir edrych ar berfformiad y ddwy ysgol o ran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5+ sef un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig:

Ysgol	Pwnc	Lefel 5+ yn CA2* Canlyniadau Ysgol		
		2014/15	2015/16	2016/17
Talwrn	Gwyddoniaeth	0.0	14.3	44.4
	Mathemateg	0.0	14.3	44.4
	Cymraeg	0.0	14.3	44.4
	Saesneg	0.0	14.3	44.4
Y Graig	Gwyddoniaeth	33.3	55.6	46.3
	Mathemateg	47.6	73.3	75.6
	Cymraeg	26.2	42.2	46.3
	Saesneg	28.6	48.9	61.0
Ynys Môn	Gwyddoniaeth	40.9	40.4	49.5
	Mathemateg	40.9	40.4	49.5
	Cymraeg	38.1	35.3	38.3
	Saesneg	42.9	41.1	46.4
Cymru	Gwyddoniaeth	41.1	42.5	46.4
	Mathemateg	41.1	42.5	46.4
	Cymraeg	38.1	35.3	38.3
	Saesneg	40.8	42.0	44.7

O'r ystadegau uchod:

- Mae'r ddwy ysgol yn perfformio'n dda o safbwynt lefelau disgwyliedig
- Mae Ysgol y Graig yn llwyddo i gael canrannau uwch i lefel 5+ sydd yn awgrymu bod Ysgol y Graig yn llwyddo i ymestyn disgyblion yn dda ac yn cwrdd â lefelau uwch na'r lefelau ar gyfer Ynys Môn a Chymru

O safbwynt arolygiadau gellir dadlau bod proffil arolygiad Ysgol y Graig yn rhagori rhyw ychydig.

Nodir hefyd ymateb Estyn i'r ymgynghoriad hwn: "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf."

2. Mae maint Ysgol Talwrn yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.

3. Costau a chyflwr yr adeilad

Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch cost y disgybl o £4,447 sydd yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn (£3,972). Yn ogystal mae angen nodi bod ôl-groniad cynnal a chadw o £332,500 sydd yn adlewyrchu oedran a chyflwr yr adeilad.

Nid oedd llawer o rhanddeiliaid Ysgol Talwrn yn sôn am gyflwr yr ysgol heblaw am iddynt amau'r ffigurau ôl-groniad cynnal a chadw. Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol fod yr ôl-groniad gynnal a chadw yn £332,500 a bod £250,000 yn amcangyfrif o gost cael caban allanol newydd. Mae syrfewyr siartredig cymwysedig o'r Awdurdod yn cynnal arolygon o bob adeilad ysgol fel arfer bob dwy flynedd i benderfynu ar unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen ac i gyfrifo cost y gwaith hwnnw.

Er mwyn gosod caban newydd, byddai angen cael caniatâd gan berchennog y tir drws nesaf i'r ysgol, ac heb hyn, ni fydd cael uned newydd ar dir yr ysgol yn bosib. Yna, byddai angen cwblhau'r camau canlynol:

1. Dymchwel yr uned bresennol
2. Gwaith tanddaearol (sylfeini, rhedeg trydan, dŵr, ceblau ffôn a chyfathrebu a phibellau carffosiaeth ag ati)
3. Uned dosbarth newydd (yn cynnwys toiledau i'r plant yn ogystal i doiled staff/anabl)
4. Caniatâd cynllunio a rheoli adeiladau
5. Gwaith logisteg (Dymchwel ac ail adeiladu wal derfyn trwchus rhwng yr ysgol a'r cae drws nesaf, dymchwel ac ail adeiladu terfyn rhwng y cae drws nesaf a'r lôn), defnydd o sustem 'Trackway' ar y cae drws nesaf, cryfhau'r iard oddi dan y craen a.y.b.
6. Ramp a grisiau haearn i'r caban newydd
7. Gwaith gwelliannu/atgyweirio'r iard
8. Ffi am drefnu a gwneud y gwaith

Mae'r amcanbris o £250,000 yn cynnwys cludo a gosod caban newydd a cysylltu'r gwasanaethau i'r caban.

Gofynnodd rhai rhanddeiliaid os yw benthyciad am 50 mlynedd yn werth da am arian. Mae swyddogion cyllid o fewn yr Awdurdod yn cyfrifo costau benthycia arian am 50 mlynedd.

4. Awgrymiadau eraill

Cafwyd awgrymiadau ynglŷn â phosibiliadau eraill o ran dyfodol yr ysgol:

- Cyfuno Ysgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch, byddai 70-80 o ddisgyblion yn yr ysgol – mae'r trefniant yn parhau'n rhy fach o safbwynt cynailadwyedd. Ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â lleoedd gwag na chyflwr yr adeiladau.
- Ystyriwch ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag ysgol gynradd arall Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth, byddai tua 130 o ddisgyblion yn yr ysgol - ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â lleoedd gweigion, cyflwr yr adeiladau nag arbedion cyllidol.
- Defnyddiwch Ysgol Talwrn i hyfforddi penaethiaid Mae gan yr Awdurdod, ar y cyd â'r consortiwm addysgol rhanbarthol GwE, raglen hyfforddi ar gyfer darpar benaethiaid i ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid (CPCP). Dyma'r llwybr hyfforddi a ddefnyddir ar gyfer penaethiaid yn hytrach na hyfforddiant yn y swydd.
- Dylai'r Awdurdod "fuddsoddi mewn ysgol newydd" yn Talwrn.

Nid yw hyn yn ymarferol gan fod y rhagolwg ar gyfer niferoedd disgyblion yn y dalgylch naturiol yn fach iawn.

5. Llefydd gweigion

Yn Ysgol Talwrn, mae 12% o lefydd gweigion er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch [45%], yn gymharol uchel. Mae'r ffaith fod cynifer o'r disgyblion yn dod o du allan i'r dalgylch yn gwneud sefyllfa'r llefydd gweigion yn fwy bregus. Ym mis Medi 2017, roedd llefydd gweigion yn 1% yn Ysgol y Graig tra bod 12% o lefydd gweigion yn Ysgol Talwrn. Mae 19 disgybl yn teithio i mewn i bentref Talwrn o ddalgylchoedd eraill. Nid yw hyn yn sefyllfa gadarn yn y tymor hwy gan y byddai ansicrwydd o allu'r ysgol i gynnal niferoedd presennol yr ysgol ac y byddai hyn yn gwaethygu llefydd gweigion yn yr ysgol.

6. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cefnogi "datganiad diweddar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar ysgolion gwledig". Dylid nodi, fodd bynnag, mai rhagdybiaeth yn erbyn cau yw hyn, ac nid yw'r Côt Trefniadaeth diwygiedig yn dweud na ddylai ysgolion gwledig gau. Yn wir, mae'r Côt Trefniadaeth yn datgan bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig, ac yn wir mae'n cydnabod mai addysg yw'r ystyriaeth bennaf. Noder yma o'r wybodaeth sydd eisoes wedi ei gyflwyno fel rhan o'r adroddiad tra bod y ddwy ysgol yn perfformio'n dda o safbwynt y lefelau disgwylidig, bod Ysgol y Graig yn llwyddo i gael canrannau uwch i lefel 5+ sydd yn awgrymu bod Ysgol y Graig yn llwyddo i ymestyn disgyblion yn dda ac yn cwrdd â lefelau uwch na'r lefelau ar gyfer Ynys Môn a Chymru. Yn ogystal, nid yw Ysgol Talwrn ar y rhestr o ysgolion gwledig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Côt Trefniadaeth Ysgolion. Nid yw'r Côt Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig wedi dod i rym eto ond mae'r Awdurdod yn ceisio cyfarch ei gynnwys.

7. Amgylchedd

Pryder gan rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Talwrn yn arwain at gynydd mewn allyriadau carbon, Mae cyfrifiadau'n dangos na fyddai'r defnydd o hyd yn oed 2 fws yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd na chau Ysgol Gynradd Talwrn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod 45% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn teithio i'r ysgol o du allan i'r dalgylch.

8. Effaith posib ar y gymuned

Yr effaith posib o gau Ysgol Talwrn ar y gymuned oedd yn poeni nifer o randdeiliaid. Dyma rai o'r sylwadau a dderbyniwyd:

- Mae Ysgol Talwrn yn sylfaen i Gymdeithas leol ac mae hefyd yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref "
- Dylai'r Ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned
- Mae Eisteddfod y pentref yn rhoi cyfle i bobl ifanc feithrin hyder trwy berfformio ar y llwyfan. Byddai colli'r ysgol yn arwain at ddiwedd yr Eisteddfod
- Mae'r ysgol yn rhan ganolog o fywyd y pentref. Mae'r ysgol wedi'i leoli'n ddelfrydol ar gyfer astudiaethau lleol. Yr ysgol yw calon ac asgwrn cefn y gymuned.
- Byddai cau'r ysgol yn effeithio ar ddyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned leol a thu hwnt.
- Mae Neuadd y Pentref yn dibynnu ar yr ysgol
Mae hyn yn wir ond dim ond oherwydd nad yw neuadd yr ysgol yn ddigon mawr i fodloni'r gofynion presennol. Cynhelir y Cylch Meithrin yno sy'n annibynol o'r ysgol. O ran yr honiad fod 'ysgolion yn galon y gymuned' ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau, derbynnir bod hyn yn her. Er hynny, mae esiamplau penodol lle

bo ysgol newydd wedi creu cymuned 'ehangach'. Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau. Mae eisteddfodau yn parhau mewn pentrefi ar Ynys Môn lle nad oes ysgol e.e Marianglas.

9.2 Ysgol y Graig

1. Y Gymraeg

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr asesiad effaith Ieithyddol

2. Cludiant

Mae'r "sefyllfa draffig yn Ysgol y Graig yn beryglus" meddai rhanddeiliaid. Cwblhawyd asesiad traffig o'r ffyrdd o gwmpas Ysgol y Graig ar ôl cwblhau Lôn Gyswllt Llangefni. Roedd yr asesiad yn cadarnhau fod llai o draffig yn teithio heibio i Ysgol y Graig ers agor y ffordd newydd. Er enghraifft yn y bore, mae 114 o gerbydau a oedd yn pasio yr ysgol nawr yn defnyddio'r ffordd newydd at neu o'r Ysgol/Coleg Menai. Cyn adeiladu'r ffordd newydd, roedd yn rhaid i bob un o'r 114 cerbyd yma basio heibio i'r ysgol. Mewn cymhariaeth, mae 29 o gerbydau yn defnyddio'r lôn newydd fel cysylltiad rhwng y B5420 Lôn Penmynydd a'r B5109 Lôn Talwrn. Mae agor y ffordd newydd felly wedi gwella'r sefyllfa ar y briffordd gyhoeddus o flaen yr ysgol, ond gwaetha'r modd, mae parcio ger yr ysgol yn parhau yn broblem. Felly, os fydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gwblhau a bydd yn cynnwys y sefyllfa o rhan traffig o gwmpas yr ysgol a pharcio.

3. Dywedodd eraill byddai cerdded i Ysgol y Graig o bentref Talwrn yn beryglus. Cydnabyddir y pryder hwn. Os fydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gwblhau a bydd yn cynnwys y daith cerdded i Ysgol y Graig. Petai hyn yn cael ei wneud cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud ei benderfyniad, gellid dadlau fod yr Awdurdod wedi gwneud penderfyniad o flaen llaw. Ni ellir rhagdybio'r broses ond mae teithiau cerdded tebyg yn rhannau eraill o Fôn wedi cael eu hasesu i fod yn beryglus oedd yn ei dro'n golygu fod yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r plant.
4. Nid oedd rhai rhieni'n awyddus i'w plant bach fynd ar fws i Ysgol y Graig os yw'r cynnig yn cael ei wireddu. Er hynny, os yw'r cynnig yn cael ei wireddu, ni fyddai'r plant o angenrheidrwydd yn teithio ar fws a gallent deithio mewn tacsï. Mae plant 4-11 oed yn teithio ar fysus yn barod e.e. o Lanfachraeth, Llanddeusant, Rhydwyn a Llanfairynghornwy i Ysgol Rhyd y Llan ac o bentrefi Penmynydd a Star i Ysgol Llanfairpwll.
5. Fe roddir ystyriaeth i gyflwr y cae chwarae a thrwsio'r tyrbin gwynt.
6. Os fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, efallai byddai'n gyfle i ddatblygu arweinyddion i'r dyfodol yn yr ysgol e.e. rheolwr / is-bennaeth yn edrych ar ôl y cyfnod Sylfaen.

9.3 Sylwadau Cyffredinol

Derbyniwyd sylwadau oedd yn gyson ar draws yr ysgolion ac fe ymatebir i'r rhai mwyaf cyffredin isod.

- Roedd nifer o sylwadau ynghylch y Gymraeg ac yn cwestiynu effaith posib cau Ysgol Talwrn ar yr iaith. O ystyried fod 78% o ddisgyblion Ysgol y Graig yn siarad Cymraeg o'i gymharu a 60% yn Ysgol Talwrn, gellir dadlau byddai cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Graig yn cryfhau'r Gymraeg.
- Yn ogystal, yn ôl adroddiad Cylch Meithrin Ysgol Talwrn 2017, roedd "bron pob un o'r plant [16 ohonynt] o darddiad gwyn Prydeinig ac nid oes un ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith." Mae hyn yn awgrymu dirywiad yn niferoedd y plant sy'n siarad Cymraeg yn y dalgylch.
- Roedd eraill yn dweud bod maint ysgol yn effeithio ar ansawdd y Gymraeg. Mae yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg. Bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith. Yn ogystal, mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod ysgolion llai yn fwy effeithiol mewn perthynas â hyrwyddo safonau uchel yn y Gymraeg.
- Cyflwynir y sylw bod ysgolion mwy yn llai effeithiol mewn perthynas â chreu 'ymdeimlad o deulu' ac nad oes yr un cyfle i'r plant gael y cyfle i gynrychioli'r ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn wir - mae trefniadau mewn ysgolion cynradd i sicrhau cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfranogi e.e. timau blynyddoedd, corau oedran penodol.
- Honnir bod 'ysgolion yn galon y gymuned' ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau. Derbynnir bod hyn yn her ond mae esiamplau penodol lle bo ysgol newydd wedi creu cymuned 'ehangach'. Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau.

O ran y Siarter Iaith yr Awdurdod, mae Ysgol y Graig wedi cyrraedd y safon Aur ac mae Ysgol Talwrn wedi cyrraedd at y safon Efydd.

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn unol â'r asesiad ieithyddol o'r cynnig dan sylw, bydd yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (+4).

10. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Cyllidir costau cyfalaf unrhyw ysgol newydd a adeiladir dan Band A o raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau. Darperir 50% o'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru drwy grantiau cyfalaf a benthycia gyda chefnogaeth (cyllidir ad-daliadau dyled blynyddol a chostau llog yn y Grant Cymorth Refeniw). Mae'n rhaid cyllido'r 50% sy'n weddill gan yr Awdurdod Lleol drwy unrhyw incwm a gynhyrchir drwy werthu hen safleoedd ysgolion a drwy fenthycia di-gefnogaeth lle mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido'r gost flynyddol o ad-dalu dyled a llog blynyddol.

Mae adeiladu ysgolion newydd yn fuddsoddiad cyfalaf sylweddol a rhaid i'r gwerthusiad ariannol o'r opsiynau ystyried y rhwymedigaeth refeniw i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod y baich ariannol o adeiladu ysgolion newydd i genedlaethau'r dyfodol cyn lleied â phosib. Mae adeiladu ysgolion newydd mwy hefyd yn arwain at economïau maint a chostau refeniw llai.

Mae'r gostyngiad yng nghostau refeniw hefyd yn ffactor bwysig yn y gwerthusiad ariannol gan fod yr arbedion a gynhyrchir yn cyfrannu tuag at y costau cyllido cyfalaf ychwanegol.

Cynhyrchir arbedion refeniw gan fod rhedeg un ysgol fawr yn llai costus yn nhermau cynnal a chadw adeilad ac ynni, costau rheoli llai (un Pennaeth yn lle dau) a gellir gosod meintiau dosbarthiadau i'r lefel orau posib sy'n gostwng costau dysgu.

Mae'r gwerthusiad ariannol yn ystyried y gost o gyllido'r benthyciad, yr arbedion refeniw a gynhyrchir a'r costau ychwanegol o gludo disgyblion i'r ysgol newydd. Er mwyn ymgymryd â'r gwerthusiad ariannol, gwnaed y rhagdybiaethau isod.

- Fe gyllidir benthyciadau i gyllido'r ysgolion newydd dros gyfnod o 50 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 2%.
- Fe gyllidir benthyciadau i gyllido'r costau cynnal a chadw ôl-groniad dros gyfnod o 20 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 4%.
- Roedd y graddfeydd llog yn seiliedig ar y raddfa benthycia gyfredol.
- I gyfrifo costau refeniw'r ysgol newydd, defnyddiwyd y wybodaeth gyfredol ynglŷn â niferoedd disgyblion, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgiadol arbennig disgyblion, ac ati, er mwyn gwneud dyraniad amcangyfrifedig ar gyfer yr ysgol newydd.
- Ni chynhwyswyd costau unwaith ac am byth yn y gwerthusiad ariannol, e.e, costau diswyddiadau, diogelu cyflogau a chostau cynnal y gyn safleoedd. Fe gymerir y rhain i ystyriaeth pan lunnir y cynllun busnes manwl o'r opsiwn y cytunir arno.

Ni fyddai cynnal y 2 ysgol gyfredol yn arwain at gostau cyfalaf sylweddol, ond byddai angen rhoi sylw i'r cynnal a chadw ôl-groniad y ddwy ysgol o £369k, gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i Ysgol Talwrn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Fe all gostau ychwanegol godi wrth dalu i gludo plant i ysgolion arall, sydd y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti, yn enwedig yn Ysgol Y Graig, ond mae'n anodd pennu'r rhain ar yr adeg yma ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad.

Byddai estyniad i Ysgol Y Graig i gymryd lle Ysgol Talwrn yn ddrutach ond be wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Talwrn.

Fe welir yn y Tabl isod ganlyniadau'r gwerthusiad ariannol o'r 2 opsiwn :-

	Opsiwn 1 Gwneud Dim	Opsiwn 2 Estyniad i Ysgol Y Graig a chau Ysgol Talwrn
Amcangyfrif Cost Cyfalaf	£0	£3,870,660
Cost cynnal a chadw ôl- groniadol	£369,000	£0
Cyfanswm Costau Cyfalaf	£369,000	£3,870,660
Cyllid Llywodraeth Cymru	£0	(£1,935,330)
Derbyniadau Cyfalaf	£0	(£140,000)
Benthyca Di-gefnogaeth Net	£369,000	£1,795,330
Rhwymedigaethau Refeniw		
Cost flynyddol Darpariaeth Refeniw Isaf	£18,450	£35,910
Cost Llog Blynyddol @ 2.3%	£8,490	£41,290
Costau Cludo Ychwanegol	Heb ei gyfrifo	£28,000
Cyfanswm Costau Refeniw Ychwanegol	£26,940	£105,200
Arbedion Refeniw	£0	(£39,540)
Costau Refeniw Ychwanegol Net	£26,940	£65,660

Noder bod cyllideb yr Awdurdod yn cael ei rannu rhwng yr ysgolion drwy eu trin yn yr un ffordd drwy fformiwla. Mae cyllideb ysgolion yn cael ei bennu ar sail fformiwla cymhleth sy'n ystyried nifer o ffactorau yn ychwanegol i nifer y disgyblion yn yr ysgol ym mis Medi o'r flwyddyn ysgol penodol honno.

Bydd lleoliad adeilad yn amodol ar ganfod safle ac astudiaethau dichonoldeb o'r safleoedd hynny cyn eu hasesu a'u sgorio er mwyn dewis opsiwn ffafredig. Felly ar hyn o bryd ni wyddys beth fydd safle na chyfeiriad unrhyw adeilad newydd.


Bydd yr ysgol gynradd yn parhau i fod yn un cyfrwng Cymraeg ac yn ysgol gymunedol, a'r Awdurdod Lleol fydd yr awdurdod mynediad i bob un ysgol gynradd, beth bynnag fydd y cyfluniad terfynol.

Byddai llwybrau teithio a chludiant i unrhyw ysgol newydd yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod adeiladu. Gellid dadlau byddai asesu'r rhain cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud y penderfyniad terfynol yn edrych fel petai'r Awdurdod wedi gwneud y penderfyniad yn barod.

O ran y llwybrau cerdded i safle'r ysgol arfaethedig newydd, byddai angen cynnal asesiad diogelwch o'r llwybrau hyn yn dilyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor.

Petai rhan newydd i'r ysgol gynradd yn cael ei hadeiladu, byddai newid yn nhrefniadau teithio i ddysgwyr o gyfeiriad Talwrn. Byddai swyddogion yr Awdurdod yna'n penderfynu'n ffurfiol pa un ai i ddarparu cludiant i Ysgol Y Graig, ar ôl asesiad diogelwch o'r llwybrau teithio.

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu a bod ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu ac yn agor yn 2021, byddai'r effaith ar niferoedd fel a ganlyn (mae hyn yn cymryd byddai rhieni yn caniatáu i'w plant symud i'r ysgol gynradd newydd) :



11. YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

Cafodd Strategaeth Ynni'r Awdurdod ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn 2017. Nod y strategaeth yw lleihau allyriadau carbon yr Awdurdod o 15% erbyn 2022.

Gweler isod wybodaeth am wariant yr Awdurdod ar danwydd a thrydan, dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, am yr ysgolion:

Ysgol	Gwariant (ar drydan a thanwydd)			Cyfartaledd (y flwyddyn)		
	2014-2015	2015-2016	2016-2017	Cost	Y disgybl	Y m ²
Y Graig	£15,208	£15,362	£13,790	£14,787	£44.14	£5.87
Talwrn	£4,228	£4,634	£3,233	£4,032	£87.65	£13.35

Gweler bod y gwariant y disgybl a gwariant y medr sgwâr (m²) yn uwch yn Ysgol Talwrn.

Mae'r tabl isod yn manylu ar allyriadau carbon deuocsid o'r ysgolion dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf:

Ysgol	Tunnell CO ₂ (trydan a thanwydd)			Cyfartaledd		
	2014-2015	2015-2016	2016-2017	(tunnell CO ₂)	Y disgybl	Y m ²
Y Graig	65	58	61	61	0.184	0.024
Talwrn	15	26	14	18	0.397	0.060

Gweler bod yr allyriadau carbon deuocsid y disgybl ac allyriadau carbon deuocsid y fedr sgwar (m²) uchaf yn Ysgol Talwrn.

12. CASGLIADAU AC ARGYMHELLIAD

12.1 Ceisir isod grynhoi'r prif faterion a gyflwynir yn yr adrannau blaenorol a cheisio defnyddio hynny i gyflwyno argymhelliad ar gyfer sylw'r Pwyllgor Gwaith.

12.2 Dygir sylw yn yr adroddiad at y materion allweddol a ganlyn.

- i. Mae safonau yn y ddwy ysgol yn debyg o safbwynt y cyrhaeddiad disgwylidig (Lefel 4+). Serch hynny, mae tystiolaeth dros y tair blynedd ddiwethaf yn nodi bod Ysgol y Graig wedi llwyddo i ymestyn canran uwch o ddisgyblion i lefelau uwch yn y pynciau craidd. Yn sgîl hyn ni fyddai uno yn cael effaith negyddol ar safonau.
- ii. Byddai uno yn gwneud defnydd gwell o adnoddau'r Cyngor ac yn unioni cost y pen.
- iii. Byddai uno'r ddwy ysgol yn gallu creu'r amodau i'r Pennaeth gael amser digyswllt digonol ar gyfer arweinyddiaeth.
- iv. Byddai dod â'r ddwy ysgol ynghyd yn rhoi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw ac yn darparu adnodd unfed ganrif ar hugain ar gyfer defnyddwyr yr ysgol. Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y ddwy ysgol yn £369k gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i Ysgol Talwrn nesáu at ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Cydnabyddir fodd bynnag y gallai costau cludiant ychwanegol ddeillio o gludo plant ond mae'n anodd ar y pwynt hwn i bennu'r rhain ac o ganlyniad nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad. Cydnabyddir hefyd y byddai estyniad i Ysgol Y Graig yn ddrutach na'r drefn gyfredol ond fe wrthbwsir y gost ychwanegol yn rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhrychir drwy werthu safle Ysgol Talwrn.

12.3 Yn sgîl yr uchod, argymhellir cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn. Gwneir hyn trwy

- ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;
- codi 'Bloc' newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
- ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.

Byddai'r 'bloc' newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.


13. ADBORTH AR LEIN

Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir isod grynodedb o'r arolwg.


Rydym yn ddiolchgar i'r 10 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg gyda chynrychiolaeth o'r ddwy ysgol dan sylw.

Mae ymateb yr Awdurdod i nifer o'r pwyntiau sy'n cael eu codi yn yr arolwg ar lein wedi eu cynnwys yn rhan 9 o'r adroddiad.

Holwyd y rhanddeiliaid pa grŵp roeddent yn eu cynrychioli, a dyma'r ymateb:



Dyma grynodedb o gynrychiolaeth yr ysgolion dan sylw, gyda rhai unigolion wedi dewis mwy nac un ysgol.



Holwyd y rhanddeiliaid os yn eu barn nhw, a fydd cynnig i ehangu Ysgol y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn cael effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg?

Bydd effaith negyddol	Dim effaith negyddol
70%	30%

Dyma grynodedb o brif fesurau lliniaru a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid i leihau'r effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg, os cymeradwyir y cynnig.

Ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg gan fod nifer llai o ysgolion yn haws i'w reoli.
Ni all. Mae ymestyn capasiti mewn un ysgol i ddarparu lle i blant o ysgol arall yn cael effaith niweidiol ar eu haddysg ac yn ei dro bydd yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.
Mae Ysgol Talwrn yn ganolog i gymuned Gymraeg y pentref. Bydd cau'r ysgol yn gamgymeriad mawr fydd yn lladd diwylliant yr iaith Gymraeg.
Bydd defnydd yr iaith yn lleihau a bydd maint y dosbarthiadau'n rhy fawr i sicrhau defnydd o'r iaith.
Dim ond drwy gadw'r ysgol ar agor fyddwch chi'n sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg yn y pentref.
Byddai'n rhaid i chi fuddsoddi'n drwm mewn gweithgareddau cymunedol h.y. eisteddfod.
Cadw Ysgol Talwrn ar agor

Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r uchod am y pryderon am yr Iaith Gymraeg


Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwiliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir - yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion bydd y Cyngor yn rhoddi ystyriaeth i gydbwysu anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau.

Mae'n ddisgwiliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.

Bydd yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.


Holwyd y rhanddeiliaid 'Yn eich barn, pa fath o berthynas sydd gan yr ysgol a'r gymuned leol?'




Rhestrwch aelodau o'r gymuned sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gyfrannu at gyfoethogi profiadau dysgu.

Ddim yn siŵr
Mae 'na nifer
Mae'r Ysgol yn ganolog i nifer o weithgareddau'r pentref. Gyda'r Ysgol yn chwarae rhan allweddol yn lwyddiant Eisteddfod y Talwrn. Mae'r Ysgol ar Athrawon (presennol a'r gorffennol) yn hynod gefnogol o'r Eisteddfod sy'n ganolog i ddyfodol yr iaith Gymraeg a'n diwylliant.
Mae 'na nifer o aelodau'r gymuned sy'n ymweld â'r gymuned sy'n ymweld â'r ysgol. Mae 'na dipyn mwy na sydd o Langefni sy'n ymweld ag Ysgol y Graig yn reolaidd.
Ansicr gan fod fy merch yn y cylch meithrin ar y funud ac ni fydd yn dechrau ysgol yn Talwrn tan y flwyddyn nesaf.
Y Parchedig, athro cerdd.
Nifer o'r gymuned yn ymweld i gyfoethogi dysgu.

A ydych yn ymwybodol o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn eich ysgol yn wythnosol / fisol, tu allan i oriau ysgol? Ticiwch os gwelwch yn dda.



Pa gyfleusterau / gwasanaethau eraill sydd ar gael yn nalgylch yr ysgol?



Pa fath o ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn nalgylch eich ysgol, heblaw am yr ysgol, os y gwyddwch?

Ddim yn gwybod
Gofalwyr plant sy'n annibynnol i'r meithrin yn yr ardal
Dim
Nid oes unrhyw ddarpariaeth gofal plant arall ar gael
Cylch meithrin yn neuadd y pentref.
Cylch Meithrin.

Yn eich barn, pa fath o effaith fydd y cynnig yn ei gael ar deuluoedd lleol?

Bydd yn dod a mwy o deuluoedd lleol o wahanol rannau.
Mae gormod o blant yn Ysgol y Graig, yn ogystal gan fod cynlluniau am dai newydd, bydd y dosbarthiadau'n fwy, mae traffig eisoes yn broblem gyda cheir parcio bob man!
Mae gan Coleg Menai estyniad enfawr a bydd y traffig oddi yno hefyd yn fater anferth gan fod goryrru yn tuag at y coleg eisoes yn broblem!!
Bydd Talwrn yn colli ei galon gymunedol ac ni fydd gan blant yno enw mwyach, dim ond gosodiad cyson gan y byddai'r Graig yn enfawr ac mae'r plant yn dod yn anadnabyddus.
Bydd effaith andwyol gyda'r angen i deithio fydd yn ei dro'n cynyddu'r ôl troed carbon.
Mi fydd cau ysgol Talwrn yn anhwylyd i deuluoedd wrth orfod teithio i fynd/nol plant or ysgol yn Langefni.
Bydd yn cael effaith ar blant wrth golli cysylltiadau lleol.
Bydd yr effaith yn niweidiol iawn i deuluoedd lleol gyda'r angen i deithio i Ysgol Y Graig o'r pentref. Bydd hefyd yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y teuluoedd lleol hynny
Rwy'n credu y bydd yn dinistrio teuluoedd lleol, yr ysgol yw canolbwynt y gymuned. Bydd plant a rhieni yn colli'r gallu i gerdded i'r ysgol.
Bydd yn cynyddu cost, bydd yn cael effaith niweidiol ar eu bywyd cymdeithasol, effeithio prisiau tai, bydd ysbryd cymunedol yn cael ei ddinistrio. Bydd y siop gymunedol yn cael ei effeithio'n andwyol.
Bydd cau'r ysgol yn golygu llai o deuluoedd gyda plant yn dod i'r pentref

Beth yn eich barn fydd yr effaith yn gyffredinol ar gymunedau?

Bydd yn dod â chymunedau at eu gilydd drwy i rieni siarad gyda'i gilydd wrth giatiau'r ysgol.
Bydd Talwrn yn colli rhan hollbwysig o'i gymuned!! Yn ogystal, bydd ei chadw'n agored yn rhywle i anfon gorboblogi o'r Graig mewn ychydig o flynyddoedd!!!
Bydd Talwrn yn ddiffaith, mae gan Langefni 2 ysgol (gynradd) fawr yn barod.
Effaith na ellir ei fesur. Yr ysgol yw calon y gymuned ac mae hi'n hollbwysig ar gyfer ffyniant y gymuned.
Bydd cau'r ysgol yn chwalu'r gymuned, ac yn cael effaith ar weithgareddau'r gymuned.

Rydw i yn rhagweld pobl ifanc fel ni yn symud allan o'r pentref er mwyn gallu dewis yr addysg orau i'n plant.
Yr ysgol yw calon y gymuned. Ni ellir amcangyfri'r effaith andwyol.
Bydd y gymuned yn dioddef yn enfawr trwy golli'r ysgol leol, bydd yn rhwygo'r galon allan o bentref Cymreig ffyniannus a bydd Talwrn yn colli ei eisteddfod.
Bydd yn cael effaith andwyol ar y gymuned leol.
Lladd y gymuned.

Unrhyw sylwadau pellach

Mae uno Ysgol Talwrn gydag Ysgol Y Graig yn syniad da gan ei fod yn rhoi safon gwell o addysg i blant lleol sydd yn bwysicach na chadw adeiladau.
Ni ddylid cau'r ysgol, yn enwedig pan nad oes capasiti mewn ysgol arall. Mae cynyddu'r gallu mewn ysgol arall yn lleihau ansawdd yr addysg.
Fel cwpwl lleol sydd wedi derbyn addysg mewn ysgolion cynradd cymunedol yn lleol - yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd addysg mewn ysgol glos gymunedol.
Fel cwpwl lleol sydd yn gobeithio cael plant, ac yn gobeithio eu hanfon i Ysgol Talwrn, byddai cau'r ysgol yn gwneud i ni ystyried ail leoli er mwyn sicrhau cael yr addysg ydym yn dymuno i'n plant. Mae cael ysgol gymunedol glos fel Talwrn yn ganolbwynt i'n cymuned, ac rydw i yn bryderus am yr effaith fydd cau'r ysgol yn cael ar y gymuned.
Dwi o'r farn fod plant Sy'n mynychu yr 'Super Schools' yn colli allan gymaint, ddim yn cael y chwarae teg y cawsom ni fel plant mewn ysgol gymunedol.
Rydym yn llawn werthfawrogi yr addysg wych gawsom ym Modffordd a Talwrn gan roi y cychwyn gorau i ni mewn bywyd, gan gael pob cyfle oedd yn cael ei gynnig i ni.
Byddai'n benderfyniad gwael i gau yr ysgol hon yn enwedig gan fod angen cynyddu capasiti yn Ysgol Y Graig. Bydd yr angen i gynyddu capasiti yn arwain at effaith andwyol ar lefel a safon yr addysg sydd ar gael yn yr ysgol.
Ystyriwch efallai uno Talwrn gydag ysgol wledig arall ac nid Ysgol Y Graig. Mae Talwrn yn ysgol wych ac mae ganddi gefnogaeth yr holl rieni, mae'n hanfodol ei chadw'n agored.
Mae'r prosiect cyfan yn ymddangos yn wastraff o arian ac amser. Ni yw'r defnyddwyr terfynol, ac nid ydym am i Dalwrn gau. Gwrandewch ar y disgyblion a'r rhieni, nid yw hyn o fudd iddynt.

Mae ymateb yr Awdurdod i nifer o'r pwyntiau sy'n cael eu codi yn yr arolwg ar lein wedi eu cynnwys yn rhan 9 o'r adroddiad.



**CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**ADRAN DYSGU
LEARNING DEPARTMENT**

**CYNLLUN MODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD ARDAL
LLANGFNI**

ASESIADAU EFFAITH

Ebrill 2018

Dyddiad yr asesiad	Fersiwn 1 – Ebrill 2018 Mae'r ddogfen yma yn un weithredol.
Y Swyddog sydd â chyfrifoldeb am yr Aseiad	Arwyn Williams
Dyddiad Adolygu	Gorffennaf 2018 (yn dilyn y cyfnod ymgynghoriad statudol).

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	4
2. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol	5
3. Aseiad Effaith Cydraddoldeb	8
3.a Yr Aseiad Effaith	9
4. Aseiad Effaith Ieithyddol	15
4.a Defnyddio'r Gymraeg yn yr Ysgol	18
5. Aseiad Cymunedol	28
5.a Niferoedd yn yr ysgolion	29
5.b Ffactorau Teithio a Daearyddol	33
5.c Ymateb Cymunedol	33
5.d Mwy o wybodaeth am yr ysgolion	37

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal ymgynghoriad statudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Llangefni. Yr ysgolion cynradd sy'n rhan o'r broses ymgynghori dan sylw yw Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol pan maent yn ymgynghori ar gynigion sy'n effeithio ar ein hysgolion, gynnal asesiadau effaith ar y gymuned, cydraddoldeb a'r Gymraeg, gan roddi sylw i'r effaith ar bob ysgol sy'n rhan o'r cynnig i newid a phawb arall y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion (Isle of Anglesey County Council *et al.*, 2016). Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae proses ymgynghori Moderneiddio Ysgolion yn cynnwys cyfarfodydd ymgynghori efo grwpiau amrywiol, rhoi'r ddogfen ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn a rhoi cyfle i randdeiliaid anfon eu sylwadau at swyddogion perthnasol yn yr Adran Ddysgu. Cysylltwyd yn ogystal â grwpiau penodol yn unol â'r rhestr rhanddeiliaid sydd wedi ei gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013).

Aeth adroddiad ar ymgynghoriad Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 26ain Fawrth 2018. Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ynghylch moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac i gynnal ymgynghoriad statudol pellach.

Y cynnig dan sylw yw:

- Ehangu Ysgol y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.

Mae swyddogion Dysgu yn mynd allan i ymgynghori'n statudol rhwng 1af Fai a'r 11eg Fehefin, 2018 a bydd ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal gyda phlant yr ysgolion dan sylw yn ystod yr un cyfnod.

2. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a chymryd i ystyriaeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) byddent yn rhoddi sylw i greu cymunedau mwy gwydn, yn cyfathrebu efo'n cymunedau, sefydlu partneriaeth leol, a chynnwys ein cymunedau yn y gwaith cynllunio tymor hir. Y bwriad yw ein bod yn dilyn proses o'r fath er mwyn galluogi darparwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen, yn gallu annog rhannu adnoddau ac arwain at wariant mwy effeithlon hirdymor.

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae Cynllun Llesiant wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft yn bresennol o dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Bydd trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ymateb i flaenoriaethau'r Cynllun Llesiant.

Amlinellir isod sut y rhagwelir y Bydd prosiect ar gyfer ysgolion cynradd yn ardal Llangefni yn cyfrannu tuag at y 7 nod Llesiant.

7 nod llesiant	Sut bydd y cynnig ar gyfer ardal Llangefni yn cyfrannu tuag at y 7 nod llesiant
Ffyniannus	Bydd y prosiect yn sicrhau bod adeiladau yn addas i bwrpas a sicrhau bod capasiti a photensial pob disgybl i lwyddo yn cael ei gyflawni.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gynyddu gwerth pob punt y mae'r Awdurdod Lleol yn ei wario, a gellir gwireddu hyn drwy'r defnydd o fanteision cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori manteision cymunedol (e.e. cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleol) ym mhob prosiect Moderneiddio Ysgolion gan gynnwys prosiect Llangefni. Mae hi hefyd yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 i ysgolion hyrwyddo cyfle cyfartal ac osgoi gwahaniaethu.
Cydnherth	Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd efo siroedd eraill y

	<p>Gogledd, ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd</p> <p>Rydym yn ymgymryd â phroses ymgynghori statudol i ymateb i bryderon a chanfod barn. Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd grŵp rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu, er mwyn parhau'r â'r cydweithio a'r cyfathrebu rhwng yr Awdurdod a'r rhanddeiliaid.</p> <p>Bydd hefyd gyfle ar wahân, yn ogystal i blant gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, a chyfrannu trwy gydol oes datblygu y prosiect.</p> <p>Yn ogystal bydd Corff Llywodraethu yn cael ei sefydlu ac yn cyfrannu tuag at ddatblygiad y prosiect.</p> <p>Bwriad y rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw cyfarnu tuag at y Strategaeth Cynllunio Lle (Place Shaping) trwy hyrwyddo'r egwyddor o berchnogaeth leol ar gyfer datblygu cymunedol.</p>
Iachach	<p>Mae'r Asesiad Cymunedol sy'n rhan o'r pecyn yma yn cadarnhau bod ysgolion presennol yn ardal Llangefni yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.</p> <p>Ymhellach i hyn, bydd ysgolion sy'n cael eu haddasu / adeiladu yn sgîl rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael eu defnyddio fel hybiau cymunedol sy'n hyrwyddo cymunedau iachach.</p> <p>Bydd yr ysgolion sy'n cael eu hadeiladu / haddasu yn sgîl y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cwrdd â safonau lechyd a Diogelwch a Llesiant.</p>
Cymunedau cydlynus	<p>Fel rhan o'r broses ymgynghori anstatudol mae'r rhanddeiliaid wedi cael y cyfle i leisio barn a chynnig sylwadau. Mae cyfle pellach yn sgîl yr ymgynghoriad statudol sy'n mynd rhagddo i fynegi barn a holi swyddogion ymhellach am y cynnig. Rhagwelir mwy o</p>

	<p>weithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau mewn perthynas â lles, iechyd a chyflawni potensial.</p> <p>Bydd yr ysgol hefyd yn cyfrannu tuag at isadeiledd cymunedol yr ardal.</p>
<p>Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Mae'r asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg ynghlwm. Mae'r ddwy ysgol yn ardal Llangefni, yn ysgolion cyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd sy'n rhan o'r cynnig yn parhau gyda'r nod o gryfhau'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol, ac yn ceisio dylanwadu ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn gymdeithasol.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang</p>	<p>Hyd yma, mae moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig wedi eu halinio â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, gweithio gyda'n holl rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall.</p> <p>Mae addasiadau i'n hysgolion yn cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni.</p>

3. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Pan fo cynnig i newid trefniadau presennol yn digwydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith 'polisiau ac ymarferion'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effeithiau tebygol neu wirioneddol ei bolisiau a'i ymarferion ar grwpiau a amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth briodol' i'r canlyniadau asesu hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw'r polisi na'r arfer yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau a amddiffynnir
- ystyried sut mae'r polisi neu'r ymarfer yn hybu gwell cyfleoedd cyfartal
- ystyried a yw'r polisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau

Mae'n angenrheidiol cwblhau asesiadau pan gynigir neu adolygir polisi neu arfer. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Mae'n rhaid i'r awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fydd asesiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor, wrth iddi gefnogi ei waith i ystyried yr angen am:

- ddiddymu gwahaniaethau, aflonyddwch ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad ydynt .

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth lunio achosion busnes moderneiddio ysgolion ac yn ystod y broses o ddatblygu prosiectau. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddarau'n gyson. Er mwyn sicrhau ystyriaeth deg i bawb.

O dan y ddeddf mae'n rhaid rhoi sylw yn benodol i ddileu gwahaniaethau a hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred.

Y data a'r dystiolaeth a gasglwyd i bwrpas yr asesiadau isod oedd Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2018. Yn ogystal anfonwyd holiaduron at benaethiaid y 2 ysgol, er mwyn canfod gwybodaeth benodol am yr Iaith a gweithgareddau cymunedol.

3.a Yr Asesiad Effaith

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma mae'r Awdurdod wedi cymryd i ystyriaeth yr effaith negyddol a chadarnhaol o'r cynnig.

Meini Prawf Effaith Cydraddoldeb	Effaith Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol	Beth yw'r effaith a beth yw'r dystiolaeth	Sylwadau				
Oedran	Cadarnhaol a Negyddol	<p>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn nodi bod 369 o ddisgyblion (4-11oed) yn mynychu'r ddwy ysgol sef:</p> <table border="1" data-bbox="779 751 1391 890"> <tr> <td>Ysgol y Graig</td> <td>326</td> </tr> <tr> <td>Ysgol y Talwrn</td> <td>43</td> </tr> </table> <p>Rhagwelir y bydd disgyblion o bob oedran yn cael eu heffeithio gan y newid, gan eu bod yn rhan o'r broses o newid.</p>	Ysgol y Graig	326	Ysgol y Talwrn	43	<p>Mae gan Yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg llawn-amser i blant a phobl ifanc o'r oedran 5-16. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau addysg orau i ardal Llangefni, ac yn parhau i gefnogi ysgolion wrth wella safonau addysg, a sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ar gyfer pob grŵp oedran</p> <p>Bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal efo cynrychiolaeth o blant y 2 ysgol dan sylw. Bydd cyfle iddynt roi mewnbwn i mewn i'r cynllun moderneiddio ar gyfer eu hardal.</p> <p>Os bydd penderfyniad i gau ysgol/ion yn cael ei gymeradwyo bydd cyfle i'r disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau uno, gyda'r rheiny wedi eu trefnu ar y cyd er mwyn sicrhau bod</p>
Ysgol y Graig	326						
Ysgol y Talwrn	43						

			cyfleoedd a phrofiadau yn cael eu rhannu cyn y broses o drosglwyddo.																			
Anabledd	Niwtral	<p>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau bod llai na 7 o blant rhwng y 2 ysgol efo datganiad AAA.</p> <p>Dyma'r sefyllfa bresennol yn y 2 ysgol mewn perthynas â chydymffurfio gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>Ramp?</th> <th>Mynediad rhwydd at doiledau</th> <th>2 lawr?</th> <th>Lifft</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Graig</td> <td>Oes</td> <td>Oes</td> <td>D/B</td> <td>D/B</td> </tr> <tr> <td>Talwrn</td> <td>Mae mynediad gwastad, ond nid ymhob un o'r drysau mynediad</td> <td>Oes, ond ystafelloedd cyfyngedig yn yr ysgol yn gyffredinol.</td> <td>D/B</td> <td>D/B</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol	Ramp?	Mynediad rhwydd at doiledau	2 lawr?	Lifft	Graig	Oes	Oes	D/B	D/B	Talwrn	Mae mynediad gwastad, ond nid ymhob un o'r drysau mynediad	Oes, ond ystafelloedd cyfyngedig yn yr ysgol yn gyffredinol.	D/B	D/B	<p>Bydd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn y cymorth ychwanegol sy'n ymateb i'w anghenion addysgol unigol.</p> <p>Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion.</p> <p>Bydd gofynion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol .</p> <p>Bydd addasiadau i'r ysgolion presennol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd yn sicrhau bod gan unigolion anabl fynediad llawn i'r ysgol, y cwricwlwm a gwybodaeth - heb gyfyngiad na dibynnu ar eraill i'w cynorthwyo. Bydd hefyd doiled anabledd ac ystafell newid/ymolchi a fydd yn caniatáu i ddisgyblion anabl gyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau a bydd yn hybu annibyniaeth gyda sgiliau hunan-gymorth a hylendid.</p>				
Ysgol	Ramp?	Mynediad rhwydd at doiledau	2 lawr?	Lifft																		
Graig	Oes	Oes	D/B	D/B																		
Talwrn	Mae mynediad gwastad, ond nid ymhob un o'r drysau mynediad	Oes, ond ystafelloedd cyfyngedig yn yr ysgol yn gyffredinol.	D/B	D/B																		

Rhyw	Cadarnhaol	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Rhyw</th> <th>Graig</th> <th>Talwrn</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Bechgyn</td> <td>51.5% (168)</td> <td>37% (16)</td> </tr> <tr> <td>Merched</td> <td>48.5% (158)</td> <td>63% (27)</td> </tr> </tbody> </table> <p>CYBLD Ionawr 2018</p>	Rhyw	Graig	Talwrn	Bechgyn	51.5% (168)	37% (16)	Merched	48.5% (158)	63% (27)	<p>Bydd mwy o ddisgyblion yn gwella cydbwysedd o ran disgyblion a grwpiau blwyddyn.</p> <p>Mae perfformiad yr holl ddisgyblion yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant mwy abl a thalentog. Gweithredir cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched, a'r grwpiau gwahanol yn seiliedig ar hynny.</p>
Rhyw	Graig	Talwrn										
Bechgyn	51.5% (168)	37% (16)										
Merched	48.5% (158)	63% (27)										
Ethnigedd	Cadarnhaol	<p>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau'r data isod. Nid yw'r PLASC yn cynnwys manylion y cyfanswm disgyblion ar y gofrestr yn yr achos yma:</p> <table border="1"> <tbody> <tr> <td colspan="2">Ysgol y Graig</td> </tr> <tr> <td>Gwyn Prydeinig</td> <td>92% (264)</td> </tr> <tr> <td colspan="2">Ysgol Talwrn</td> </tr> <tr> <td>Gwyn Prydeinig</td> <td>82% (33)</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol y Graig		Gwyn Prydeinig	92% (264)	Ysgol Talwrn		Gwyn Prydeinig	82% (33)	<p>Os oes disgyblion o gefndir ethnig arall yn mynychu'r ysgolion, ni fyddent yn cael eu trin mewn ffordd wahanol ar sail eu tras ethnig. Pe byddai staff o gefndiroedd ethnig eraill yn yr ysgol newydd, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tras ethnig.</p>	
Ysgol y Graig												
Gwyn Prydeinig	92% (264)											
Ysgol Talwrn												
Gwyn Prydeinig	82% (33)											
Crefydd neu gred	Niwtral / Cadarnhaol	<p>Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma.</p>	<p>Gall y cynnig rod-di cyfle i wella dealltwriaeth y disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynydd yn y disgyblion.</p>									

			<p>Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am grefydd/ gred eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau.</p> <p>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir.</p>			
Gogwydd Rhywiol	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma	<p>Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Gogwydd Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn digwydd gyda staff ysgol.</p> <p>Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am gogwydd rhywiol eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau.</p> <p>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir.</p>			
Iaith Gymraeg	Cadarnhaol a Niwtral	<p>Mae ffigurau CYBLD Ionawr 2018 yn dangos bod canrannau isod o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref (yn rhugl) 3-11oed.</p> <table border="1" data-bbox="779 1161 1243 1361"> <tr> <td>Ysgol y Graig</td> </tr> <tr> <td>78% (293)</td> </tr> <tr> <td>Ysgol Talwrn</td> </tr> </table>	Ysgol y Graig	78% (293)	Ysgol Talwrn	<p>Ni fydd categori ieithyddol yr ysgolion yn newid. Categori ieithyddol y 2 ysgol yn bresennol yw 'Cymraeg'.</p> <p>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.</p>
Ysgol y Graig						
78% (293)						
Ysgol Talwrn						

		60% (26)		Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Niwtral	Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol.		
Newid Rhyw	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma		Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd gyda staff yr ysgol. Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir.
Arall Cymdeithasol economaidd. Ysgolion Bach a Gwledig		Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Aseiad Effaith Cymunedol' isod. Nid yw un o'r ddwy ysgol dan wedi eu cynnwys yn y rhestr o ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cyhoeddwyd Mehefin 2017 fel drafft) Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru (2006)" yn dynodi nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach ac ysgolion mawr, ond "gall fod yn fwy anodd i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith i		Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig, fel pob ysgol yn Ynys Môn, ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion i'r dyfodol bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i gydbwysu anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau, a hynny drwy gydweithio.

Niferoedd y plant sy'n gymwys am brydau ysgol di-dal.	Cadarnhaol	anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n sylweddol yn nhermau oed a chymau datblygiad ". Mae hyn yn berthnasol i ysgolion llai. Mae hydwythdedd o safbwynt staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy eu maint.		Gall y cynnig fod yn gadarnhaol trwy roddi mwy o gyfleoedd i grŵp o ddisgyblion fanteisio ar yr adnoddau a darpariaeth iddynt.
		Y Graig	Talwrn	
		23.62%	14%	

Yn unol â'r asesiad effaith uchod mae'n ymddangos bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol (+6)¹.

¹¹ 1. Mae'r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.

- Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio -1, 'Niwtral' yn sgorio 0 a 'Cadarnhaol' yn sgorio 1.

4. Aseiad Effaith Ieithyddol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir - fel prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd yng Nghymru efo presenoldeb cryf o'r iaith Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad y Gymraeg.

Mae Polisi Iaith Adran Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrywmo i'r nod ac amcanion isod.

Nod:

Bod pob disgybl sydd yn mynd trwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

Amcan Cyffredinol:

1. Datblygu gallu holl ddisgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
2. Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y gweithlu addysgol a plant a phobl ifanc sydd yn mynychu sefydliadau addysgol o fewn yr Awdurdod ac hefyd fel cyfrwng dysgu.
3. Bydd holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Amcanion Penodol:

1. **Blynyddoedd Cynnar:** Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol ac effeithlon drwy gynnwys dulliau trochi, i bob plentyn beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol i roi sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted â phosibl.
2. **Cyfnod Sylfaen:** Adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y Blynyddoedd Cynnar drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses i ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg erbyn diwedd y cyfnod.
3. **Cyfnod Allweddol 2:**
 - Parhau i ddatblygu medrau y plant yn y Gymraeg a'r Saesneg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith gan sicrhau - trwy gynllunio pwrpasol - lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y Cyfnod;
 - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy'r Canolfannau Iaith Cynradd.
4. **Cyfnod Allweddol 3:**
 - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
 - bod ymyrraeth briodol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 er mwyn iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol;
 - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA3, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy ddarpariaeth briodol yn CA3.

5. Cyfnod Allweddol 4:

- Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
- sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a Saesneg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll arholiad mewn cymhwyster cydnabyddedig yn y ddwy iaith ar ddiwedd CA4;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
- ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA4 sicrhau eu bod yn derbyn Sylfaen yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth briodol erbyn diwedd y Cyfnod.

6. Cyfnod Allweddol 5:

- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr ddilyn pynciau trwy'r Gymraeg.
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr ôl-16 wybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy raglenni ymwybyddiaeth iaith cynhwysfawr a chyfoethogi'r Cwricwlwm Cymreig trwy holl ysgolion yr Awdurdod, gan eu datblygu i fod yn ddinasyddion hyderus dwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

7. **Addysg Arbennig:** yn achos disgyblion ag anawsterau dysgu dwys rhoddir hawl i Bennaeth - mewn ymgynghoriad â'r Adran Dysgu - roi ystyriaeth unigol i bob achos, tra'n sicrhau bod disgyblion gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol iddynt ymdopi fel oedolion o fewn eu cymunedau.

4.a Defnyddio'r Gymraeg yn yr Ysgol

Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid y 2 ysgol dan sylw i'w holi am y sefyllfa yn eu hysgolion

	Ysgol y Graig	Ysgol Talwrn
Categori leithyddol yr ysgolion presennol	Cymraeg	Cymraeg

Meini Prawf leithyddol	Sylwadau	Effaith	Mesurau Lliniaru				
Demograffeg (laith y cartref)	<p>Siaradwyr Cymraeg Rhugl Gartref</p> <table border="1"> <tr> <td>Ysgol y Graig</td> <td>78% (293)</td> </tr> <tr> <td>Ysgol Talwrn</td> <td>60% (26)</td> </tr> </table>	Ysgol y Graig	78% (293)	Ysgol Talwrn	60% (26)	Cadarnhaol	Bydd y cynnig yn rhoddi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol.
Ysgol y Graig	78% (293)						
Ysgol Talwrn	60% (26)						
Statws leithyddol yr ysgolion presennol	<p>Y Graig - Cymraeg</p> <p>Talwrn - Cymraeg</p> <p>Statws y Siarter laith</p>	Niwtral	Gan fod disgyblion yn y ddwy ysgol yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid				

	<p>Y Graig Yn gweithio tuag at Aur</p> <p>Talwrn Efydd</p>	<p>yn hyn o beth. Fodd bynnag, dylai datblygu disgyblion hollol ddwyieithog fod yn ganolbwynt parhaus a phwysig mewn Cynllun Datblygu Ysgol.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd trefniant dosbarth yn anelu at ddatblygu anghenion ieithyddol penodol y fintai. 2. Bydd tracio disgyblion yn ystyried eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd. 3. Bydd adroddiadau'r Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau o ddisgyblion ym mhob mintai iaith. 4. Cynnydd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol
--	--	--

			<p>5. Cynnydd yr ysgol gyda'r Siarter laith</p> <p>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurdod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. Rhan annatod o weithdrefnau'r siarter yw'r ymwneud â rhieni, Llywodraethwyr a'r gymuned leol. Mae llwyddiant y Siarter laith a'i hamcanion yn ddibynnol ar gydweithrediad yr holl randdeiliaid.</p> <p>Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.</p>
Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned	Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 57% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran wedi gostwng dros y degawdau diwethaf - yn 1981 roedd 62% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae ardal Aethwy a Seiriol wedi gweld twf o 2% dros y 30 mlynedd diwethaf (Asesiad Llesiant Ynys Môn 2017)	Cadarnhaol	<p>Angen hybu'r defnydd o'r laith Gymraeg (Asesiad Llesiant Ynys Môn 2017).</p> <p>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion</p>

			yn ymwybodol o'r hyn a gyflawnir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er mwyn ystyried sut y gallent gydweithio i hybu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y gymuned, a chyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.																												
Darpariaeth addysg/ asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (7oed) a Cyfnod Allweddol 2(11 oed).	<p>% o ddisgyblion sy'n cyrraedd Deilliant 5 neu uwch yn y Cyfnod Sylfaen mewn sgiliau Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Talwrn</td> <td>83.33</td> <td>80</td> <td>100</td> </tr> <tr> <td>Disgyblion sy'n cyflawni</td> <td>5</td> <td>8</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td>Cohort</td> <td>6</td> <td>10</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td>Y Graig</td> <td>96.23</td> <td>84.3</td> <td>91.3</td> </tr> <tr> <td>Disgyblion sy'n cyflawni</td> <td>51</td> <td>43</td> <td>42</td> </tr> <tr> <td>Cohort</td> <td>53</td> <td>51</td> <td>46</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol	2015	2016	2017	Talwrn	83.33	80	100	Disgyblion sy'n cyflawni	5	8	4	Cohort	6	10	4	Y Graig	96.23	84.3	91.3	Disgyblion sy'n cyflawni	51	43	42	Cohort	53	51	46	Niwtral	<p>Gan fod yr holl ddisgyblion yn y tair ysgol yn cael asesiad athro mewn Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid yn hyn o beth.</p> <p>Mae adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion yn rhoi sylwadau ar lefaredd, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â'u</p>
Ysgol	2015	2016	2017																												
Talwrn	83.33	80	100																												
Disgyblion sy'n cyflawni	5	8	4																												
Cohort	6	10	4																												
Y Graig	96.23	84.3	91.3																												
Disgyblion sy'n cyflawni	51	43	42																												
Cohort	53	51	46																												

	<p>Canran o'r disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn y Saesneg</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Talwrn</td> <td>80</td> <td>85.71</td> <td>100</td> </tr> <tr> <td>Disgyblion sy'n cyflawni</td> <td>4</td> <td>6</td> <td>9</td> </tr> <tr> <td>Cohort</td> <td>5</td> <td>7</td> <td>9</td> </tr> <tr> <td>Y Graig</td> <td>92.86</td> <td>84.44</td> <td>92.68</td> </tr> <tr> <td>Disgyblion sy'n cyflawni</td> <td>39</td> <td>38</td> <td>38</td> </tr> <tr> <td>Cohort</td> <td>42</td> <td>45</td> <td>41</td> </tr> </tbody> </table> <p>Canran o'r disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Talwrn</td> <td>80</td> <td>85.71</td> <td>100</td> </tr> <tr> <td>Disgyblion sy'n cyflawni</td> <td>4</td> <td>6</td> <td>9</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol	2015	2016	2017	Talwrn	80	85.71	100	Disgyblion sy'n cyflawni	4	6	9	Cohort	5	7	9	Y Graig	92.86	84.44	92.68	Disgyblion sy'n cyflawni	39	38	38	Cohort	42	45	41	Ysgol	2015	2016	2017	Talwrn	80	85.71	100	Disgyblion sy'n cyflawni	4	6	9		cynnydd at fod yn hollol ddwyieithog.
Ysgol	2015	2016	2017																																								
Talwrn	80	85.71	100																																								
Disgyblion sy'n cyflawni	4	6	9																																								
Cohort	5	7	9																																								
Y Graig	92.86	84.44	92.68																																								
Disgyblion sy'n cyflawni	39	38	38																																								
Cohort	42	45	41																																								
Ysgol	2015	2016	2017																																								
Talwrn	80	85.71	100																																								
Disgyblion sy'n cyflawni	4	6	9																																								

	Cohort 5 7 9 Y Graig 88.1 82.22 90.24 Disgyblion sy'n cyflawni 37 37 37 Cohort 42 45 41			
	Ffynhonell: Setiau Data Craidd Cymru Gyfan			
Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, clwb brechwast, clybiau ar ôl ysgol	Y Graig	Talwrn		Niwtral / Cadarnhaol
	50% Saesneg 50% Cymraeg	Cymraeg		
				Bydd yr ysgol sydd wedi ei gynnwys yn y cynnig yn parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg a gweithredu'r siarter ac amcanion cyfathrebu a hyrwyddo defnydd anffurfiol o iaith y disgyblion Wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn bennaf yn y clybiau ac yn ystod amser egwyl yr ysgol, bydd yn parhau i gael

				effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
Ymwneud yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg	Y Graig	Talwrn		Cadarnhaol
	- Yn weithgar iawn efo'r Urdd – ymweld â gwersylloedd, chwaraeon, Celf a Chrefft, Eisteddfod. Cystadlu gyda gwaith Celf a Chrefft yn Eisteddfod Marianglas yn flynyddol.	Urdd Eisteddfod Talwrn y		
Defnydd o'r ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg	Y Graig	Talwrn		Niwtral
	Dim	Hybu'r iaith ymysg rhieni di-Gymraeg e.e Menter Môn yn cynnal stondin yn ystod nosweithiau		

		rhieni, rhannu digwyddiadau ar welyfr yr ysgol, cyflwyniad i rhieni newydd am ddwy-ieithrwydd.			
		Aelod o staff clwb brechwast (dysgwraig) yn mynychu gwersi a chael ymarfer darllen a Chymraeg lafar gyda'r plant			
Gallu staff addysgu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	Y Graig Pob aelod o staff yn gwbl rhugl ac hyderus 100%	Talwrn Pob aelod o staff addysgu yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 100%		Niwtral	Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws ieithyddol.

Gallu staff cefnogi i gynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg	Y Graig	Talwrn		Niwtral	Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws ieithyddol.
	Pob aelod o staff yn gwbl rhugl ac hyderus 100%	Pob aelod o staff cefnogi yn cynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg 100%			
Canran o lywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg	Y Graig	Talwrn		Niwtral	Bydd cyfansoddiad ieithyddol yn ddibynnol ar broses ethol y Corff i'r dyfodol. Er hynny bydd y Corff Llywodraethu yn cefnogi nod ac amcanion polisi laith yr Awdurdod.
	Pob aelod yn gwbl rhugl ac hyderus	100%			
laith a ddefnyddir fwyaf yn ystod cyfarfodydd Llywodraethwyr, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon a Staff	Y Graig	Talwrn		Niwtral	Bydd y cyfarfodydd yn cefnogi nod ac amcanion polisi laith yr Awdurdod.
	Cymraeg	Cymraeg			

Yn unol â'r asesiad uchod bydd yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (+4).²

-
1. ² byddai'r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.
 2. Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio -1, 'Niwtral' yn sgorio 0 a 'Cadarnhaol' yn sgorio 1.

5. Asesiad Cymunedol

Mae'r asesiad hwn yn ystyried yr effaith y gallai'r cynnig cyfredol ei chael ar deuluoedd a'r gymuned leol.

Methodoleg

Rydym fel Awdurdod yn ystyried yn ofalus effaith cymunedol y cynnig ar pob ysgol. Holwyd penaethiaid y 2 ysgol am berthynas yr ysgol â'r gymuned a'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol. Fel y cyfeirwyd uchod mae'r ddogfen yn un weithredol a bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu tuag at yr asesiad effaith. Darperir manylion pellach isod

Ysgolion Bro

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod hyn o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

Ysgolion Lleol (dalgylchoedd)

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion (Cynradd) yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol. Bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgylch yn gasgliad o strydoedd.

Ysgolion gwledig


Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

5.a Niferoedd yn yr ysgolion

Ysgol	Y Graig	Talwrn
Ystod oedran	3 – 11	4 - 11
Capasiti ac eithrio darpariaeth feithrin	330	49
Niferoedd Meithrin – Ionawr 2018	52	7
Niferoedd ar y gofrestr –Ionawr 2018 (4-11)	326	43
Lleoedd dros ben	4 (1%)	6 (12%)
Disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch (Medi 2017)	12%	45%

*Niferoedd y meithrin yn y Cylch Meithrin

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion (4-11oed) yn y ddwy ysgol dros y 6 mlynedd diwethaf yn Ionawr bob blwyddyn. Ni chynhwysir disgyblion meithrin yn y rhagolygon:




Ysgol	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Talwrn	37	36	50	53	42	44	47	47	43
Y Graig	297	293	315	310	327	333	333	339	326

Mae cyfanswm y disgyblion wedi cynyddu ers 2009 i 386 yn 2016. Bu nifer y genedigaethau'n uwch yn y blynyddoedd diweddar, mewn cymhariaeth â gweddill Ynys Môn a Chymru, ac mae nifer y disgyblion yn y blynyddoedd is wedi cynyddu.

Yn ôl ystadegau gan y gwasanaeth iechyd, mae nifer y plant o dan bedair oed hefyd yn uwch. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Y Graig yn cynyddu tra fydd niferoedd yn aros yn gyson yn Ysgol Talwrn dros y blynyddoedd nesaf – gweler y graff isod.


Rhagolygon niferoedd disgyblion (4-11 oed)



Yn unol â'r uchod, rhagwelir y bydd nifer disgyblion yn amrywio fel a ganlyn:

Ysgol	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Talwrn	42	42	36	37	35	32
Y Graig	343	339	335	336	334	325

Rhagamcanion % llefydd gweigion



YSGOL	2017	2018	2019	2020	2021	2022
Talwrn	14%	14%	27%	24%	29%	35%
Y Graig	0%	0%	0%	0%	0%	1.5%
CYFANSWM	2%	2%	3%	3%	4%	6%

Mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd llefydd gweigion yn cynyddu yn Ysgol Talwrn ac yn parhau i fod yn 0% yn Ysgol y Graig am y dyfodol rhagweladwy. Bydd ffactorau eraill yn effeithio ar niferoedd y disgyblion megis y Cynllun Datblygu Lleol h.y. tai newydd yn cael eu hadeiladu yn nalgylchoedd rhai o'r ysgolion. Bydd yr Awdurdod yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn cyd-gynllunio ar ragolygon niferoedd plant y dyfodol.

5.b Ffactorau Teithio a Daeryddol

Mae Llywodraeth Cymru'n datgan na ddylai disgyblion o oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol.

Mae'r ALI (Awdurdod Lleol) yn darparu cludiant di-dâl ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch.

Mae Polisi Cludiant yr Awdurdod hefyd yn datgan:

“na ddarperir cludiant ar gyfer disgyblion meithrin rhan-amser”

“Mae'r ALL yn darparu cludiant ysgol ddi-dâl ar gyfer disgyblion o dan 16 fel a ganlyn:

a) Ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer cludiant ... ond sy'n teithio i'r ysgol ar hyd llwybr a ystyrir gan y Cyngor Sir i fod yn beryglus.”

5.c Ymateb Cymunedol

Manylion yr ymgynghoriadau a'r ymgysylltu	Y grwpiau a ymgynghorwyd / ymgysylltwyd â hwy	Nifer a fynychodd	Prif faterion a godwyd
Ymgynghoriad Statudol 26ain Fedi – 13eg Tachwedd 2017	Staff, llywodraethwyr a rhieni	Ysgol y Graig – 16 Ysgol Talwrn - 51	<u>Ysgol Y Graig</u> Pryder am faint yr adeilad newydd a chyfleusterau yno. Holwyd am amserlen posib y gwaith.

			<p>Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu.</p> <p>Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol.</p> <p>Pryder am effaith posib staffio, swyddi a lleoliad yr adeilad newydd.</p> <p>Holwyd am effaith posib y gwaith ar Dechrau'n Deg.</p> <p><u>Ysgol Talwrn</u></p> <p>Pryderon am swyddi'r staff.</p> <p>Pryderon o ran pa lais fyddai llywodraethwyr Ysgol Talwrn yn ei gael yn Ysgol Y Graig ddiwygiedig.</p> <p>Holodd rai am ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg am ysgolion gwledig.</p>
--	--	--	---

			<p>Pryderon am gludiant i unrhyw ysgol gynradd arall petai Ysgol Talwrn yn cau.</p> <p>Pryderon am effaith posib cau ysgol Talwrn ar neuadd y bentref a'r eisteddfod leol.</p> <p>Dymuniad rhai rhieni i Ysgol Talwrn gael ei huno gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth gan eu bod nhw yn "ysgolion gwledig".</p>
Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at nifer o randdeiliaid eraill	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyngor Gwynedd; ▪ Swyddogion Llywodraeth Cymru; ▪ Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol ▪ Estyn; ▪ Undebau'r athrawon ac Undebau staff ategol; ▪ Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe; ▪ Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sef Taith; 		<p>Ymateb yr N.U.T.:</p> <p>Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.U.T. Roedd eu swyddog yn "gwerthfawrogi angen yr Awdurdod i foderneiddio'r ystâd ysgolion" ond yn "gresynu gyda'r angen am ddiswyddiadau gorfodol fel sy'n digwydd yn ad-drefniad</p>

	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru; ▪ Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf; ▪ Mudiad Meithrin; ▪ Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod; ▪ Ysgol Gyfun Llangefni. 		<p>Ysgol Santes Dwynwen”.</p> <p>Barn Estyn:</p> <p>Mae Estyn o’r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.</p>
Sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid		I’w gadarnhau	

Rhwng y cyfnod 26ain Fedi – 13eg Tachwedd 2017 cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd ardal Llangefni. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i drigolion lleol sy’n cael ei effeithio gan y cynigion i holi swyddogion y Cyngor ymhellach ac i leisio barn a chyflwyno sylwadau. Trafodwyd sawl agwedd gwahanol yn ystod y cyfarfod, gyda chrynodeb wedi’i baratoi uchod. Pwysleisiwyd perthynas agos sy’n bodoli rhwng yr ysgolion a’u cymunedau. Yn anochel roedd yr ansicrwydd am ddyfodol yr ysgolion yn codi pryder o ran ddyfodol y cymunedau, a’u cynaliadwyedd heb ysgol leol.

Bydd cyfle pellach fel rhan o’r ymgynghoriad statudol i drigolion lleol gyfrannu tuag at y cynnig a gyflwynwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Fe’ch gwahoddwyd yn ogystal i gyfrannu tuag at yr asesiad effaith gymunedol trwy gwblhau arolwg er mwyn gallu annog y cydweithio rhwng yr Awdurdod, yr ysgolion, rhieni a disgyblion. Mae’r dolen gyswllt wedi ei ddarparu isod. Dyddiad cwblhau yw 11eg Fehefin 2018.

XX

5.d Mwy o wybodaeth am yr ysgolion

Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith bydd yr ysgol yn parhau i fod yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol. Dengys felly bod effaith gymunedol ar hyn o bryd (heb fewnbwn y gymuned leol) yn Bositif. Os bydd effaith negyddol yn cael ei amlygu, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno mesurau posib i liniaru hynny. Unwaith eto pwysleisir mai bwriad yr Awdurdod yw cydweithio efo cymunedau wrth i'r newid i drefniant presennol y 2 ysgol ddigwydd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	16 Gorffennaf 2018
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd 01248 752108 JHuwJones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddarau'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Awst 2018 - Mawrth 2019**;

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgrwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddarau'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw.

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddarau.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo	
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
8	Sgriwtini	Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Amherthnasol.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

FF - Atodiadau:
Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Awst 2018 - Mawrth 2019.

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

* *Allwedd i'r Categoriâu:*
Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol
Gweithredol – darparu gwasanaethau
Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddarwyd 5 Gorffennaf 2018



Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 96

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Awst 2018 – Mawrth 2019** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

* *Allwedd:*

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddariwyd 5 Gorffennaf 2018

Medi 2018							
Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)	
1	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
2	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi 2018	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
3	Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
4	Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddarwyd 5 Gorffennaf 2018

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Tudalen 98	5	Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018
	6	Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn		Dysgu	Arwyn Williams Pennaeth Dysgu Cyng R Meirion Jones	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol w/c 10 Medi 2018 (i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018
	7	Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol		Gwasanaethau Plant	Fôn Roberts Pennaeth Gwasanaethau Plant Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi, 2018 Panel Gwella Gwasanaethau Plant (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018
	8	Safonau Ansawdd Tai Cymru – methiannau Derbyniol		Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun W Mummery		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddariwyd 5 Gorffennaf 2018

Tudalen 99

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
9	Polisi ymdrin â gwaith a safonau Cynnal a Chadw Tai		Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun W Mummery		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
10	Protocol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol		Gwasanaethau Cymdeithasol	Caroline Turner Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	25 Medi 2018
11	Adroddiad Blynyddol lechyd a Diogelwch		Rheoleiddio a Datblygu Economaid	Dylan Williams Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyng Richard Dew		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
Hydref 2018							
12	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 29 Hydref 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddarwyd 5 Gorffennaf 2018

Tudalen 100

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
13 Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18) Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn.	Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018	Pwyllgor Gwaith 29 Hydref 2018	30 Hydref 2018
14 Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith 29 Hydref 2018	
Tachwedd 2018						
15 Cyllideb 2019/20 (S) Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgyngori.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 7 & 14 Medi 2018 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018	Pwyllgor Gwaith 12 Tachwedd 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddarwyd 5 Gorffennaf 2018

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
16	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Gwaith 26 Tachwedd 2018	
17	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2018/19 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Tachwedd 2018	Pwyllgor Gwaith 26 Tachwedd 2018
18	Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch2 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 26 Tachwedd 2018
19	Polisi Gamblo Argymhell i'r Cyngor llawn y dylid cymeradwyo'r polisi.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor.	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Dylan Williams Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyng Richard Dew	Pwyllgor Gwaith 26 Tachwedd 2018	11 Rhagfyr 2018

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddariwyd 5 Gorffennaf 2018

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Rhagfyr 2018						
20	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 17 Rhagfyr 2018
21	Strategaeth Digartrefedd Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori.		Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun W Mummery	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Tachwedd 2018	Pwyllgor Gwaith 17 Rhagfyr 2018
Ionawr 2019						
22	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 28 Ionawr 2019
Chwefror 2019						
23	Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 18 Chwefror 2019

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Awst 2018 – Mawrth 2019

Diweddariwyd 5 Gorffennaf 2018

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)	
24	Cyllideb 2019/20 (S) Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Chwefror 2019	Pwyllgor Gwaith 18 Chwefror 2019	27 Chwefror 2019
25	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 18 Chwefror 2019	
Mawrth 2019							
26	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 15 Mawrth 2019	
27	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2018/19 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 11 Mawrth 2019	Pwyllgor Gwaith 15 Mawrth 2019	

Tudalen 103

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	16 GORFFENNAF 2018
PWNC:	CRYNODEB O'R CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2017/18
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU)
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES
AWDUR : RHIF FFÔN: E-BOST:	BETHAN H OWEN 01248 752663 BethanOwen2@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol
A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau	
<p>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r drafft o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2017/18 a'r Fantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr arian wrth gefn a'r balansau.</p> <p>Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio eto ac y gallant newid o'r herwydd. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau.</p> <p>Argymhellion:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Bod aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2017/18; 2) Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran arian wrth gefn clustnodedig ac yn cymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4; 3) Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £0.513m fel a nodir yn nhabl 3 isod; 4) Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion; 5) Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balansau'r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2018; 6) Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r Costau Ymgynghori ar gyfer Chwarter 4. 	
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol	
C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.	
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi	

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn o gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi		
DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Dim sylw
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim Sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall(erail)	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad 1 – Adroddiad yn crynhoi'r prif ddatganiadau ariannol a'r effaith ar arian wrth gefn; • Atodiad 2 – Datganiad Drafft Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2017/18; • Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018; • Atodiad 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2017/18; • Atodiad 5 – Balansau Ysgol fesul Ysgol; • Atodiad 6 – Costau Ymgynghorwyr Chwarter 4; • Atodiad 7 – Crynodeb o'r Gwariant ar Ymgynghorwyr Ch1 –Ch4. 		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):		
<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Mai 2018 ar alldro cyllideb referniw 2017/18; • 19 Chwefror 2018 – Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar ddefnyddio arian wrth gefn a balansau. 		

1. PWRPAS

Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Cyflwynir hefyd grynodeb o'r holl gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor i'w cymeradwyo.

2. CEFNDIR

- 2.1** Bob blwyddyn, rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r gyfraith, gynhyrchu set ddrafft o gyfrifon a rhaid i'r Swyddog Adran 151 eu llofnodi erbyn 30 Mehefin. Mae'r cyfrifon drafft ar gyfer 2017/18 wedi cael eu cwblhau a chychwynnodd yr archwilwyr allanol, Deloitte LLP, ar y gwaith o'u harchwilio ar ddydd Llun 11 Mehefin 2018. Rhaid llofnodi'r cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, 2018/19, erbyn 15 Mehefin 2018 yn unol â'r gofyniad cyfreithiol newydd i gwblhau'r Datganiad Cyfrifon yn gynt. Bydd y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon ar gyfer 2020/21 a'r blynyddoedd dilynol gael eu cwblhau'n gynharach byth – bydd angen llofnodi'r Datganiad Cyfrifon drafft erbyn 31 Mai bob blwyddyn.
- 2.2** Cyflwynwyd y datganiad cyfrifon drafft llawn ar gyfer 2017/18 i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Mehefin 2018. Cyflwynir y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor llawn ym mis Medi 2018.
- 2.3** Caiff y prif ddatganiadau ariannol drafft, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2017/18 a'r Fantolen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 eu cyflwyno isod.
- 2.4** Bydd angen i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio ar 25 Medi 2018.

3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT AR GYFER 2017/18

- 3.1** Caiff y drafft o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer 2017/18 ei gyflwyno yn Atodiad 2.
- 3.2** Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'n cyflwyno costau'r gwasanaethau yn wahanol i'r modd yr adroddwyd arnynt ar gyfer yr alldro ariannol drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Mai 2018.
- 3.3** Adroddir ar yr alldro ariannol ar sail strwythur y sefydliad ac adroddir ar gostau a gyllidir drwy'r Grant Cymorth Refeniw a'r Dreth Gyngor ac ati. Mae'r penawdau gwasanaeth ar y CIES, o 2017/18, wedi eu trefnu yn seiliedig ar strwythur y sefydliad ar lefel Gwasanaeth/Swyddogaeth. Fodd bynnag, mae'r CIES hefyd yn cynnwys addasiadau cyfrifo statudol megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn. Nid yw'r rhain yn cael effaith ar yr alldro ac, o'r herwydd, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng yr adroddiad ar yr alldro a'r CIES.
- 3.4** Mae'r CIES yn dangos mai £143.869m oedd cost net y gwasanaethau gyda'r diffyg o £28.708m ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, mae gwarged o £50,472k ar wariant ac incwm cynhwysfawr arall yn codi o addasiadau cyfrifo mewn perthynas ag ailbriso asedau nad ydynt yn gyfredol megis Tir ac Adeiladau ac ailfesur yr Atebolrwydd Pensiynau. Mae cyfanswm y gwariant ac incwm cynhwysfawr ar y CIES yn warged o £21.764m ar wasanaethau. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag addasiadau cyfrifo yn hytrach na gwir gost y gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth yn derbyn na ddylai trethdalwyr orfod cyllido'r addasiadau cyfrifo hyn. O'r herwydd, nid yw cyfrifon yr awdurdod lleol yn cynnwys effaith y rhain ac fe sonnir amdanant yn y nodyn Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido dan y Rheoliadau (nodyn 7 yn Natganiad Cyfrifon yr Awdurdod). Mae'r nodyn hwn ar gyfer 2017/18 yn dangos gwerth £25.219m o addasiadau cyfrifo sydd wedi cael eu canslo allan yn y Datganiad ar Symudiad yn y Gronfeydd wrth Gefn (MIRS). Mae hyn yn golygu fod gwir effaith darparu gwasanaethau ar arian wrth gefn y Cyngor a'r CRT yn gostwng o £27.788m i £2.489m.

- 3.5** Roedd yr adroddiad ar y alldro drafft dyddiedig 21 Mai 2018 yn amlygu gorwariant net amcangyfrifedig o £1.704m. Yr alldro ar gychwyn y cyfnod archwilio oedd £1.663m. Gwellodd Gronfa'r Cyngro gan £41k oherwydd defntddiwyd disgowntiau o ail-ariannu hanesyddol yn ystod y cyfnod cau lawr. Fodd bynnag, gall hyn newid os yw'r archwilwyr yn argymhell unrhyw addasiadau yn dilyn eu harchwiliad.
- 3.6** Bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn gostwng gan y swm hwn o gymharu â pherfformiad ariannol y Cyngor yn 2017/18. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yn y gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y flwyddyn yn dilyn symud £0.630m ar gyfer eitemau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y gwelir yn Nhabl 1 isod. Cafodd gwerth £0.286m o arian wrth gefn clustnodedig ei ddychwelyd i Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor oherwydd nad oedd ei angen mwyach ar gyfer y pwrpas y cafodd ei glustnodi'n wreiddiol ar ei gyfer. Mae hyn yn golygu gostyngiad net o £2.007m yn y balansau cyffredinol. Ceir crynodeb o'r symudiad yn yr arian wrth gefn cyffredinol yn Nhabl 2 yn adran 5 isod.

Tabl 1 – Symudiadau o Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn ystod 2017/18

£'000	Rheswm
95	Cymeradwywyd am waith rhagarweiniol ar gyfer Ffordd Biwmares yn dilyn tirlithriad ar ôl tywydd garw
28	Wedi'i gymeradwyo i ariannu tynnu'r Rovacabins i lawr
221	Trosglwyddo o Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar gyfer Creu Cronfa Contractau Staffio Gofal Cymdeithasol
238	Trosglwyddiadau o gronfa wrth gefn gyffredinol i ariannu diswyddiadau ysgolion
12	Ariannu Diswyddiadau
36	Diogelu Cyflogau Ysgol Syr Thomas Jones a cost unwaith ac am byth tîm Rheoli Stadau
630	

4. MANTOLEN DDRAFFT FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2018

- 4.1** Mae Atodiad 3 yn cyflwyno'r fantolen ddrafft ar gyfer y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018.
- 4.2** Mae hon yn dangos asedau ac ymrwymadau'r Cyngor fel yr oeddynt ar y dyddiad hwnnw. Roedd gan y Cyngor £400.951m o asedau anghyfredol (£374.535m ar 31 Mawrth 2017). Mae hyn yn ymwneud ag asedau gweithredol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu ei wasanaethau sy'n cynnwys eiddo offer cyfarpar. Mae hefyd yn cynnwys asedau treftadaeth, eiddo y buddsoddwyd ynddynt, asedau anniriaethol a dyledwyr tymor hir. Roedd gwerth asedau anghyfredol wedi cynyddu £26.416m, roedd hyn o ganlyniad i gyfuniad o wariant ar asedau newydd neu asedau a atgyweiriwyd ac enillion ar ôl ailbriso asedau.
- 4.3** Mae'r fantolen hefyd yn amlygu asedau cyfredol net o £35.215m (£39.035m ar 31 Mawrth 2017). Mae'r rhain yn cynnwys asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu, stoc, dyledwyr tymor byr ac arian a chywerthoedd arian. Gellir priodoli'r prif newidiadau i: ostyngiad o £7.151m mewn arian a chywerthoedd arian; cynnydd o £4.395m o ran dyledwyr y mae arnynt arian i'r Cyngor a gostyngiad o £1.082m yn yr asedau a delir i'w gwerthu. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys am ddefnyddio'r balansau arian i gyllido gwariant cyfalaf yn hytrach na thrwy fenthycu newydd. Mae'r gostyngiad yn yr arian a chywerthoedd arian yn adlewyrchu'r strategaeth yma.

- 4.4** Mae cyfanswm yr ymrwymadau cyfredol yn £35.256m (£28.88m ar 31 Mawrth 2017), sy'n cyfeirio at y symiau sy'n ddyledus i eraill. Mae £12.413m o'r swm hwn yn ymwneud â benthyciadau sydd i'w talu'n ôl yn ystod y 12 mis nesaf. Mae £18.251m yn ymwneud â chredydwy'r tymor byr, er enghraifft ar gyfer cyflenwadau a dderbyniwyd yn 2017/18 ond na chafwyd anfonebau ar eu cyfer / ni dalwyd amdanynt erbyn 31 Mawrth. Mae £0.695m yn ymwneud â darpariaethau tymor byr lle mae angen i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ymrwymadau yn y dyfodol yn codi o ddigwyddiadau yn 2017/18 neu cyn hynny. I gloi, mae £3.897m i'w briodoli i grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gafwyd ymlaen llaw, un o'r rhain oedd cyfraniad o £1.6m gan Lywodraeth Cymru tuag at ddatblygu Adeilad Diwydiannol Penrhos yn 2018/19.
- 4.5** Mae ymrwymadau tymor hir yn dod i gyfanswm o £214.327m (£219.863m ar 31 Mawrth 2017), mae £106.913m yn ymwneud â benthyciadau tymor hir yn bennaf gan y PWLB. Mae £104.632m yn ymwneud â'r prisiad actiwaraid o'r ymrwymiad Pensiwn.

Mae asedau net y Cyngor yn £186.583m (£164.819 ar 31 Mawrth 2017). Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn, £158.727m, yn cael ei ddal fel cronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy, sef cronfeydd cyfrifyddu wrth gefn megis y gronfa wrth gefn ailbriso, y cyfrif addasiad cyfalaf a'r gronfa bensiwn wrth gefn. Mae'r balans sy'n weddill yn cael ei ddal fel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sy'n dod i £27.856m (£31.345m ar 31 Mawrth 2017). Mae'r rhain yn cynnwys cronfa gyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig; balansau ysgolion a chronfeydd wrth gefn y CRT a gaiff eu trafod isod. Mae'r gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i'w briodoli i'r defnydd a wnaed o gronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido'r gwariant yr oedd y cronfeydd wedi eu neilltuo ar eu cyfer.

5. ARIAN WRTH GEFN CRONFA'R CYNGOR

5.1 Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol

Ffyniannus a Diogel - nod yw creu economi yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'r genedl.
Iach ac Egnïol – nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Uchelgeisiol ac yn Dysgu – nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod.

Unedig a Chysylltiedig - nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd.

Nol yn 2010, cyflwynwyd LLC Mesur Plant a Theuluoedd, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i gynnwys ymrwymiad i drechu tlodi plant yn ei deddfau. Fe gyhoeddwyd i Strategaeth Tlodi Plant i Gymru gyda'r bwriad o wella canlyniadau aelwydydd incwm isel, gan roi dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus i gydweithio i daclo tlodi plant.

Mewn adolygiad y 2015, maent yn cydnabod nad ydynt am wireddu'r uchelgais o gael gwared â thlodi plant erbyn 2020, fel y nodir yn Neddf Tlodi Plant, 2010. Mae LLC felly am ddatblygu dull amgen mwy realistig, lle byddent yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o dlodi plant y gall Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus ledled Cymru ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt. Un dull o gyflawni hynny yw drwy'r Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Datganiad Amcanion Lles y Cyngor yn adlewyrchu asesiad 'drafft' o lesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn nodi fel Cyngor, byddwn yn gweithio tuag at Ynys sy'n datblygu ac yn meithrin:

- unigolion annibynnol o fewn teuluoedd cryf sy'n byw mewn cymunedau iach sydd yn:
 - ffynnu
 - llewyrchus
 - fywiog ac yn
 - gwydn

Amcanion Llesiant

Mae Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar yr asesiad drafft a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr amcanion Llesiant yw:

- Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob trigolyn lwyddo, waeth beth fo'u cefndir.
- Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial.

- Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da sy'n addas i unigolion a busnesau fel ei gilydd
- Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy ac o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith ar yr ynys.

Mae Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd ac Ynys Môn yn blaenoriaethu effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau gan adnabod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi.

<https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/>

Mae safle we Llesiant Gwynedd a Môn yn rhoi linc i wybodaeth am ddata sydd yn berthnasol i Ynys Môn

<https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-4-4-22-2-Tablau-Data-Aseiad-o-Leisant-Lleol-Gwynedd-a-M244n.pdf>

Cynllun Corfforaethol Mon,2017-22

Fel nodwyd eisoes mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r angen i weithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus' ar angen i gydlynu yn effeithiol i daclo tlodi.

Ers 2013 mae pob ymgynghoriad gan y Cyngor wedi derbyn neges glir i gefnogi'r bobl fwyaf bregus, datblygu'r economi a sicrhau llesiant pobl yr Ynys. Y blaenoriaethau hyn felly yw sail y meysydd ffocws yn y cynllun corfforaethol.

5. Pam bod angen taclo tlodi?

Wrth lunio'r Strategaeth daethpwyd ar hyd nifer o wybodaeth am effaith tlodi, mae'r isod yn crynhoi ychydig o'r gwaith ymchwil:

Mae gwybodaeth gan Uned Ystadegau ac Ymchwil yn dangos gwybodaeth ddiweddaraf am dlodi ar draws Cymru, gweler y linc isod:

https://www.slideshare.net/YstadegauCymru/tlodi-incwm-cymharol-prif-ffigurau-2018?next_slideshow=1

<https://gov.wales/statistics-and-research/households-below-average-income/?lang=cy>

Tlodi Tanwydd

Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio nifer o bobl oherwydd:

- Cynnydd mewn costau ynni
- Dim cynnydd mewn incwm ac effaith diwygio lles
- Tai preifat aneffeithiol lle na all tenant wella ei sefyllfa ei hun
- Dulliau gwresogi aneffeithiol, yn enwedig o fewn sector breifat
- Tariff ynni yn tueddu i fod yn uwch i bobl fregus oherwydd nad ydynt yn newid cyflenwyr neu yn defnyddio 'meters pre-paid'

Gweler map ar y linc:

<https://gov.wales/docs/desh/policy/090129fuelmapangleseven.pdf>

Mae gofynion ECO ar gwmnïau ynni yn golygu bod rhaid iddynt roi cymorth i rai sydd yn stryglu i gynhesu eu cartref sef rhai sydd ar gyflogau isel ac yn fregus.

Mae Gwaith Ymchwil gan **JRF** yn dangos mai costau tŷ sydd yn cael effaith mwyaf ar aelwydydd ym Mhrydain, gyda 3.4 miliwn yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf gyda llawer yn byw yn y sector breifat, gyda 70% yn gwario mwy na thraen eu hincwm ar gostau tŷ.

Gall tenantiaid tai cymdeithasol gael eu heffeithio yn ogystal, gan fod y berthynas rhwng pa mor sensitif yw lefelau rhenti i lefelau tlodi yn agos iawn. Mae budd dal tai wedi bod o gymorth i rai sydd yn methu talu eu costau tŷ, tra ar yr un pryd wedi cyfrannu at ddiffyg cymhelliad ariannol i weithio ac wedi creu cylch tlodi. Mae Credyd Uniongyrchol yn symud i ffwrdd o hyn. Ond, mae gosod lefel ar faint all aelwyd ei hawlio mewn budd dal yn golygu bod llawer yn gorfod defnyddio arian sydd i fod yn rhan o gostau byw ar gyfer costau tŷ.

Mae LLC wedi comisiynu cyfres o adroddiadau ar effaith Diwygio Lles

<https://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?skip=1&lang=cy>

Mae gwybodaeth gyfredol gan Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod

- 98 % yn hawlio Credyd Cynhwysol Gwasanaeth Llawn (UCFS) ar lein
- 54% yn gallu cofrestru cais heb unrhyw gymorth
- 30% yn gweld hi'n anodd gwirio eu hunain ar-lein (Identity verification)
- 43% o hawlwrwyr angen mwy o gefnogaeth i gofrestru eu cais
- 31% angen cefnogaeth barhaol i reoli ei chyfiri digidol UCFS
- 33% gydag ôl-ddyled rhent ag yn cael hi yn anodd talu rhent

Rhentu yn y sector breifat

Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Sheffield Hallam yn dangos bod tenantiaid sydd yn byw mewn tai sector preifat yn goddef tai oer gan eu bod yn poeni am gostau gwresogi uchel a byddent yn cael eu taflu allan os byddent yn cwyno.

Tlodi a Phobl Hyn

Mae diwygio lles a mesuriadau caledi wedi golygu llai o wariant ar wasanaethau ar gyfer pobl hyn. Mae Age Uk yn nodi bod bron i filiwn o bobl hyn hefo gofynion gofal cymdeithasol sydd ddim yn cael eu cwrdd.

Wrth gymharu data o'r Cyfrifiad, mae pobl sydd a'i gweithgareddau wedi cyfyngu 'llawr' oherwydd problem iechyd neu anabledd yn uwch na 3 y cant yn uwch yn Gymru (11.9%) na Lloegr (8.3%) yn 2011.

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilityinenglandandwales/2013-01-30>

Tlodi mewn gwaith oherwydd cyflogau isel

Adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn dangos cynnydd mewn tlodi i deuluoedd sydd mewn gwaith. Mae diffiniad o gyflog isel yn cael ei osod ar £7.43 yn y gwaith ymchwil hwn.

Mae rhai sydd yn gweithio o fewn gwasanaethau arlwyo a llety mwyaf tebygol o fod ar gyflogau isel, gyda bron i 60% o weithlu Cymru o fewn y categori hwn. Mae rhai sydd yn

gweithio o fewn gofal preswyl, cyfanwerthu a mân-werthu hefo lefel isaf o gyflogau, gyda thua 40% o'r gweithlu yn y categori hwn.

Mae adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn cydnabod fod mynediad i waith yn anos pan mae unigolion yn byw mewn ardal wledig.

<http://ppi.w.org.uk/files/2016/06/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf>

Bydd datblygiadau cynlluniau mawr ar yr Ynys yn cael effaith ar gyflogau dros y blynnyddoedd nesaf.

Effaith ar ffordd mae pobl yn gwneud penderfyniadau

Mae adroddiad gan JRF yn dangos fel mae byw mewn tlodi yn effeithiol ffordd mae pobl yn gwneud penderfyniadau:

<https://www.jrf.org.uk/report/how-poverty-affects-peoples-decision-making-processes>

Mae'r astudiaethau yn dangos bod rhai sydd yn byw mewn tlodi neu yn agos at dlodi yn profi newid yn eu prosesau seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol a all llesteirio eu gallu i wneud penderfyniadau fyddai o fudd yn y tymor hir. Mae nifer o benderfyniadau ac ymddygiad isymwybod yn delio gyda'r presennol yn hytrach na'r dyfodol a'r damcaniaethol. Mae penderfyniadau felly wedi eu haddasu a'u cyfyngu i'r amgylchiadau presennol.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)

Mae [Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod \(ACEs\)](#) yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac maent yn cael eu cofio drwy gydol oedolaeth.

Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef cam-drin meddyliol, rhywiol a chorfforol i gael eu magu mewn cartref lle ceir cam-drin domestig, cam-drin alcohol, rhieni'n gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau.

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac o ansawdd isel yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd a gwrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, ac yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn troseddau ac yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o'r gymdeithas yn y pen draw.

Tlodi Plant

Mae data gan End Child Poverty, 2018 yn dangos bod 3812 p blant mewn tlodi, sef 27.2% o blant mewn tlodi.

<http://www.endchildpoverty.org.uk/poverty-in-your-area-2018/>

ONS code	Percentage of children in poverty, July-Sept 2017 Local Authority and wards*	BEFORE HOUSING COSTS		AFTER HOUSING COSTS	
		Number of children	%	Number of children	%
W06000001	Isle of Anglesey/Ynys Môn	2,425	17.33%	3,812	27.24%
W05000981	Aethwy	125	10.27%	202	16.63%
W05000982	Bro Aberffraw	118	17.85%	185	27.97%
W05000983	Bro Rhosyr	139	13.40%	221	21.38%
W05000984	Caergybi	407	22.53%	631	34.97%
W05000985	Canolbarth Môn	345	16.85%	545	26.60%
W05000986	Llifôn	176	13.98%	281	22.29%
W05000987	Lligwy	167	17.26%	261	27.01%
W05000988	Seiriol	113	11.74%	181	18.88%
W05000989	Talybolion	253	19.65%	392	30.50%
W05000990	Twrcelyn	250	18.14%	392	28.40%
W05000991	Ynys Gybi	311	22.58%	476	34.65%

Ardalen 145

6. Gosod Gwaelodlin

Mae'r tablau isod yn rhestr y gweithgareddau fydd yn digwydd ar draws Gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a hir gan ddefnyddio'r 5 thema strategol gan ddiffinio tymor byr o fewn y flwyddyn, tymor canolig 2-3 blwyddyn, a thymor hir yn 4-5 mlynedd:


Blaenoriaeth1:	Twf economaidd i bawb- drwy gael swyddi gwell, swyddi lleol a chymorth i bobl allu cael gwaith gweithredu drwy:		
Datblygu Economaidd	<p>Tymor byr</p> <p>Cyflawni cynlluniau TRI Llywodraeth Cymru gan ddarparu gwybodaeth am nifer ac effaith y cynlluniau</p>	<p>Tymor Canolig</p> <p>Peilota Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol</p> <p>Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol https://futuregenerations.wales/cy/documents/mae-fframwaith-cenedlaethau-dyfodol/</p> <p>Future Generations Framework</p> <p>Cefnogi a dylanwadu Cais Twf, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru</p>	<p>Tymor Hir</p> <p>Sicrhau buddsoddiad o fewn sector fusnes preifat er mwyn cynyddu swyddi yn lleol</p> <p>Uchafu buddion economaidd lleol drwy Wylfa Newydd a datblygiadau newydd eraill</p>

Blaenoriaeth 2:	Cynnydd mewn addysg a sgiliau - sicrhau safon uchel o ddysgu, prentisiaeth, sgiliau ar gyfer oedolion a chyngor gyrfael da gan weithredu drwy:		
Addysg	<p>Tymor Byr</p> <p>Cynnig gwasanaeth gofal plant i ardaloedd penodedig gyda bwriad o'i gyflwyno ar draws yr Ynys</p> <p>Addysg gydol oes- darparu hyfforddiant ar wella sgiliau digidol gan adrodd ar nifer fydd hefyd o gymorth ar gyfer newidiadau diwygio lles</p>	<p>Tymor Canolig</p> <p>Darparu gweithgareddau i annog teuluoedd gymryd rhan mewn digwyddiadau celf a chymdeithasol gan adrodd ar nifer sydd wedi cymryd rhan</p> <p>Nifer sydd wedi cymryd rhan drwy Dechrau'n Deg</p>	<p>Tymor Hir</p> <p>Rhaglen moderneiddio Ysgolion er mwyn rhoi'r cyfleusterau gorau i wella cyfleoedd addysg</p> <p>Cyflawni Strategaeth STEM Ysbrydoli Pobl Ifanc Ynys Môn</p>

Blaenoriaeth 3:	Cryfhau teuluoedd a chymunedau -darparu gwasanaethau sydd yn cefnogi teuluoedd a chymorth blynyddoedd cynnar, mynediad amserol i wasanaethau fel iechyd ag ati		
Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Plant	Tymor byr Adolygu dulliau ymyrraeth a chynnal teuluoedd er mwyn gallu targedu adnoddau yn effeithiol Adrodd ar nifer o blant sydd wedi gwireddu eu hamcanion o fewn Cynlluniau drwy Teulu Môn	Tymor Canolig Cynnig gwasanaethau ataliol drwy Teulu Môn a Dechrau'n Deg Gwireddu Strategaeth Ataliol ar gyfer Plant a Theuluoedd	Tymor Hir Gallu mesur effaith o gyfrannu at wydnwch teuluoedd
Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Oedolion	Tymor byr Darparu gwasanaeth Cydlynwyr Cymunedol er mwyn atal unigedd a hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasu	Tymor Canolig Datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol	Tymor Hir Datblygu model o gyd- weithredu er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau
Gweithio gyda thrydydd sector a phartneriaid	Adnabod cyfleoedd yn ystod cyfnod y Strategaeth gan sicrhau gwerth cymdeithasol i unrhyw ymyrraeth ar y cyd		

Blaenoriaeth 4:	Arbed costau a lleihau'r galw- drwy ddarparu tai fforddiadwy a gwasanaethau fel trafnidiaeth, we a lleihau gofynion fel costau ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni drwy weithredu yn ystod y tymor byr / canolig ar:
Gwasanaethau Tai	Gwireddu Cynllun Busnes HRA - Tymor Hir Gwireddu Strategaeth Asedau Tai- Tymor Byr Gwireddu Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl – Tymor Canolig
Gwasanaethau Cymdeithasol	Cynnig gwasanaethau drwy Teulu Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau yn Deg, Taliadau Uniongyrchol – Tymor Byr
Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth	Darparu dulliau digidol sydd yn eu gwneud yn hawdd i drigolion gysylltu gyda'r Cyngor- Tymor Byr
Gwasanaeth Refeniw a Budd daliadau	Mabwysiadu Polisi Casglu Dyledion Corfforaethol – Tymor Canolig
Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Darparu gwasanaeth Cludiant Cymunedol Mon gan ddangos nifer sydd yn defnyddio'r gwasanaeth Darparu gwasanaeth cludiant cyhoeddus sydd yn seiliedig ar anghenion teithwyr i allu cyrraedd canolfannau sydd yn rhan o strategaeth cynllunio lle- tymor byr

Blaenoriaeth 5:	Cefnogaeth i bobl sydd mewn tlodi gan weithredu drwy:		
Ar lefel gorfforaethol	Tymor byr Gweithredu ar gynllun gwaith Hwb Diwygio Lles Sicrhau bod gwasanaethau ataliol ar gael drwy fframwaith ataliol- Gwasanaethau Oedolion, Plant a Chefnogi Pobl	Tymor Canolig Datblygu Strategaeth Cynllunio Lle Ymateb i amcan o fewn Cynllun Llesiant i adnabod effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau	Tymor Hir Adolygu Strategaeth Gwrth Dlodi sydd yn seiliedig ar ddata er mwyn helpu pobl rhag mynd i dlodi

	<p>Paratoi ar gyfer dosbarthu grant ataliol wedi ei gyfuno gan LLC,2019 ymlaen gan asesu effaith hyn</p> <p> Cymraeg.pdf</p>	<p>Cydweithio gyda'n partneriaid er mwyn cynnig gwasanaethau amgen ac sydd yn cynnal pobl rhag mynd i dlodi</p>	
--	---	---	--

7. Ymatebion dilyn cyfnod ymgynghori

Mae ymgynghori wedi digwydd drwy safle we'r Cyngor, cyfryngau cymdeithasol a linc wedi ei yrru at brif bartneriaid; o'r ymatebion roedd pob un yn ymateb ar ran sefydliad.

Mae'r crynodeb isod:

- Pob ymateb yn cytuno bod angen Strategaeth
- Mae pawb yn cytuno gyda pwrpas y Strategaeth
- Gan ddefnyddio data sydd yn berthnasol i Ynys Mon gellir cael gwaelodlin a ellir ei ddatblygu yn bellach
- Mae ymatebion yn dangos bod gan y Cyngor rol ganolog mewn cydlynu a chael effaith ar dlodi. Mae rhai ymatebion yn benodol i wasanaethau ac byddent yn cael eu rhannu gyda hwy.
- Mae'r trydydd sector a phartneriaid yn cydnabod bod ganddynt rôl mewn delio gyda thlodi ac yn barod i weithio hefo'r Cyngor.

Cyngor Sir Ynys Môn - Templed ar gyfer Aseu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
0.1	2.7.18	drafft

Cam 1: Y Cefndir	
1 - Beth sy'n cael ei aseu?	Strategaeth Gwrth-Dlodi
2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?	newydd
3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?	Strategaeth yn cael ei gyflwyno er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> • Cael cytundeb ar ddiffiniad o dlodi yn gorfforaethol • Codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgaredd Gwasanaethau a phartneriaid • Datblygu dull o fesur effaith Gwasanaethau a'r daclo tlodi o fewn ein cymunedau
4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei aseu?	Pob Gwasanaeth
5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?	Gwasanaethau Tai, Uned Strategol

Tudalen 152

Cam 1: Y Cefndir	
6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?	Gwasanaethau a phartneriaid
7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith?	Gall bob bolisi gael effaith ar dlodi
8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?	Trigolion Ynys Mon

9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?	Ydy'	Nac ydy'
Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu	x	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	x	
Meithrin perthynas dda	x	
Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol	x	
Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir.		

Cam 2: Casglu gwybodaeth	
10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?	yndi
11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?	oes
12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?	Na fydd
13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?	Bydd
<p>Mae Atodiad 1 i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.</p> <p>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai prif bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.</p>	
14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?) (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1).	Nag oes

Cam 2: Casglu gwybodaeth		
15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? (Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2)	Cymru lewyrchus	x
	Cymru gydnerth	x
	Cymru iachach	x
	Cymru sy'n fwy cyfartal	x
	Cymru o gymunedau cydlynus	x
	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	x
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	x
16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?	Cyfnod o ymgynghori wedi bod	
17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.	Data cenedlaethol a lleol	
18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?		

Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.

*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

Tudalen 157

Y grwp a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith	Camau i liniaru effaith negyddol
Oed	Cadarnhaol		
Anabledd	Cadarnhaol		
Rhyw	Cadarnhaol		
Newid Rhyw	Dim effaith		
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim effaith Dim effaith		
Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd	Dim effaith		
Crefydd neu Gred	Dim effaith		
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith		
Yr iaith Gymraeg	Cadarnhaol		
Hawliau Dynol	Cadarnhaol		
Priodas neu bartneriaeth sifil	Cadarnhaol		
Unrhyw fater arall perthnasol, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig			

Cam 4: Canlyniad yr asesiad	
20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol (sef crynodeb o'r tabl uchod).	Dim effaith negeddyol wedi ei adnabod
21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	
22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd). (Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2)	Strategaeth yn hyrwyddo cyfleoedd pobl i allu cymryd rhan yn eu cymuendau ac i fod yn wydyn
23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma? (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).	Nag oes
24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?	Pwyllgor Sgrwtini yn argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth
25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?	Cynllun gwaith mewn lle

Cam 5 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog arweiniol	Amserlen

Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd

Erthygl 3: Gwahardd artaith

Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol

Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch

Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg

Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith

Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol

Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull

Erthygl 12: Yr hawl i briodi

Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu

Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo

Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg

Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd

Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	16 Gorffennaf 2018
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2017/18
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyngorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Awdur yr Adroddiad:	Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Prif Weithredwr Cynorthwyol
Swyddog Cyswllt: Ffôn: E-bost:	Elin Williams / Emma Edwards 01248 751813 / 751887 ElinWilliams@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl Aelodau

A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Pwrpas yr adroddiad:

Derbyn a gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Statudol. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwelliant am y flwyddyn nesaf.

Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr adroddiad terfynol, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio PGD rhyngweithiol – a fydd yn caniatáu ar gyfer linciau electronig i wefannau ac astudiaethau achos ac ati – a fydd yn gwneud yr adroddiad yn fwy diddorol a lliwgar o safbwynt gweledol. Mae'r templed ar gyfer yr adroddiad yn cael ei ddylunio gan ein Dylunydd Graffig a'n Swyddog Marchnata Digidol.

Diwrnod Herio'r Gwasanaeth

Cynhaliodd y Gwasanaeth sesiwn herio ar 14 Mehefin 2018 ac fe wahoddwyd sefydliadau partner, sefydliadau trydydd sector, gofalwyr, darparwyr a chynrychiolwyr y defnyddiwyd gwasanaeth i'r digwyddiad. Daeth nifer dda i'r digwyddiad.

Cyflwynwyd i'r sawl a oedd yn bresennol negeseuon trosolwg allweddol gan Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a chan Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Roedd y Diwrnod Herio Gwasanaeth yn gyfle pwysig i ymgysylltu gyda'n cydranddeiliaid allweddol i adolygu cynnydd ac i nodi blaenoriaethau.

Amserlen

Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol ar 5 Gorffennaf 2018 ac mae'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf 2018 ac yna chyda'r Cyngor Llawn ar 25 Medi 2018. Ymhellach, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ffurf PDF Rhyngweithiol.

Argymelliadau

- 1.1. Gwahoddir aelodau i roi sylwadau ar gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18.
- 1.2. Argymhellir bod yr aelodau'n ystyried:
 - a) a yw'r adroddiad yn cyfleu sefyllfa gyfredol y Cyngor o ran y modd y mae'n darparu ei Wasanaethau Cymdeithasol;
 - b) a yw'r adroddiad yn adlewyrchu'n gywir ei flaenoriaethau gwella mewn perthynas â'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd am y flwyddyn nesaf;
 - c) a yw'r adroddiad yn adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â'i Wasanaethau Cymdeithasol.

B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?

Ddim yn berthnasol.

C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae angen cael cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2017/18.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 26 Mehefin 2018.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Fel yr uchod.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Amherthnasol
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Craffu	<p>Rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyriaeth fanwl i Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 a phenderfynwyd fel a ganlyn:</p> <p>Penderfynwyd derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cyhoeddus am 2017/18 ac argymhell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.”</p>
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
10	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol

E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Amherthnasol
2	Gwrth-dlodi	Amherthnasol
3	Trosedd ac Anrhefn	Amherthnasol
4	Amgylcheddol	Amherthnasol
5	Cydraddoldebau	Amherthnasol
6	Cytundebau Canlyniad	Amherthnasol
7	Arall	Amherthnasol

F - Atodiadau:
Atodiad A- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2017/18

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

CC-016749-LB / 229501

Drafft 2.0 26^{ain} o Fehefin 2018

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017-18

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Chrynodeb o Berfformiad

Rwy'n falch o gyflwyno'r trydydd Adroddiad Blynyddol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rwy'n falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y deuddeng mis diwethaf wrth weithio'n gorfforaethol gyda'r Gwasanaethau Tai ac Addysg i roi cefnogaeth integredig. Mae ein cydweithrediad â phartneriaid hefyd wedi gwella, yn enwedig felly gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn y Trydydd Sector.



Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod 2017-18, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cydnabod hyn yn eu llythyr ym mis Ionawr 2018. Mae nifer o elfennau allweddol wedi bod i hyn:

- Rydym wedi adolygu'r gefnogaeth a roddir i'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc sydd naill ai'n Derbyn Gofal, ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu'n derbyn Cynllun Gofal a Chymorth. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn darparu'r lefel fwyaf priodol o gefnogaeth. Mae hyn yn fodd i'n Gweithwyr Cymdeithasol ganolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd y mae angen cymorth arnynt ac y mae angen eu hamddiffyn.
- Rydym hefyd wedi cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd nad oes angen ymyrraeth Gweithwyr Cymdeithasol arnynt, ond y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar hyn o bryd. Mae Teulu Môn yn dîm newydd sydd wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2017, ac mae ganddo adnoddau ychwanegol sylweddol. Bydd y Strategaeth Atal ac Ymyrraeth gynnar newydd yn ein galluogi i gomisiynu ymyrraethau wedi'u targedu ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan wneud defnydd effeithiol o'r grant Teuluoedd yn Gyntaf.
- Sefydlwyd y Tîm Teuluoedd Gwydn ym mis Hydref 2017 ar gyfer y teuluoedd hynny y mae eu hanghenion yn fwy, ac mae eisoes wedi rhoi cefnogaeth ddwys i deuluoedd sydd mewn perygl o fod â'u plant yn mynd i ofal, neu hwyluso rhai plant a phobl ifanc i ddychwelyd adref, lle bo hynny'n briodol.

Hoffwn ddiolch i Leighton Rees a Llŷr Bryn Roberts am arwain y Gwasanaeth mor effeithiol yn ystod 2017. Roeddwn yn falch o groesawu Fôn Roberts i swydd y Pennaeth Gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2017. Mae ein taith gwella'n parhau, a'n nod yn ystod gweddill 2018 fydd sicrhau bod ymarfer proffesiynol ymhlith ein Gweithwyr Cymdeithasol yn gyson dda, ac y gwelwn welliant yn ein Dangosyddion Perfformiad. Byddwn hefyd yn ceisio cynyddu nifer y gofalcwyr maeth a'r lleoliadau preswyl i blant "sy'n derbyn gofal" yn nes at eu cartrefi. Byddwn yn cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc wrth iddynt baratoi i adael ein gofal, gan roi cefnogaeth a chymorth iddynt ddod yn oedolion ifanc cyfrifol ac annibynnol. Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac yn rhoi enghreifftiau o welliannau iddynt, wrth i ni baratoi ar gyfer arolwg arall yn nes ymlaen yn 2018.

Mae ein cefnogaeth i bobl Ynys Môn yn gyfrifoldeb corfforaethol, ac nid yw wedi'i gyfyngu i'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion statudol. Rydym wedi gwneud gwaith arloesol eleni i godi ymwybyddiaeth o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac rydym hefyd wedi trefnu i holl weithwyr y Cyngor gael hyfforddiant ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae cynnydd bychan ond sylweddol mewn troseddau difrifol ar yr Ynys, gyda rhai o'r rheiny wedi'u targedu at bobl fregus, boed yn oedolion neu'n blant. Mae'r problemau yr ydym yn eu cysylltu yn draddodiadol â dinasoedd mewnol bellach yn cael effaith ar Ogledd Cymru, ac yn ei dro, ar Ynys Môn. Felly, bydd ein gwasanaethau'n parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaid y Trydydd Sector i roi cefnogaeth i'r rhai y mae hyn yn cael effaith arnynt, ond hefyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith ein cymunedau i geisio atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i'r gweithgarwch hwn. Mae'r Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi bod yn arbennig o weithgar yn eu cefnogaeth gan dargedu nifer o gymunedau y cafodd y materion hyn effaith arnynt yn ystod 2017, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Rwy'n falch o'r cynnydd y mae Gwasanaethau Oedolion wedi'i wneud eleni, yn arbennig gydag ailfodelu Garreglwyd yng Nghaergybi fel y gallwn ddarparu cymorth arbenigol i bobl hyn â dementia, a'u gwneud yn bosib iddynt aros yn Ynys Môn, yn nes at deulu a ffrindiau. Bydd Hafan Cefni, y cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Llangefni, yn agor yn nes ymlaen yn 2018, a bydd hefyd yn galluogi mwy o bobl i aros yn eu cymuned wrth i'w hanghenion gofal a chymorth gynyddu. Rydym wedi dechrau'r broses o dendro am drefniadau Gofal Cartref newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at ddyfarnu'r contractau yn fuan. Bydd hyn hefyd yn gwella gwasanaethau ar Ynys Môn, ac yn sicrhau mynediad gwell a chysondeb gwasanaeth ar draws yr Ynys. Bydd yr holl welliannau hyn yn fodd i ni gefnogi'n cydweithwyr ieched wrth i ni geisio lleihau'r broblem o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal o'n hysbytai.

Byddwn yn parhau i adolygu a gwella'n cefnogaeth i'r rheiny ag Anableddau Dysgu, gan sicrhau bod y trefniadau'n briodol a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Byddwn yn cyd-gynhyrchu unrhyw drefniadau newydd gyda darparwyr y trydydd sector, gan wrando ar farn defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a darparwyr gwasanaeth wrth i ni wneud unrhyw newidiadau. Rwyf yn falch ein bod wedi gweld gwelliant yng nghanran gofalwyr oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad yn eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi gweld gwelliant yng nghanran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi - oedolion nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach. Mae galluogi pobl i gynnal neu adennill eu hannibyniaeth, ac aros yn eu cartref lle bo'n bosib, yn bwysig ar gyfer ansawdd bywyd y rheiny yr effeithir arnynt, a bydd y gefnogaeth a roddir gan deuluoedd a chymunedau'n dod yn gynyddol bwysig wrth i'r pwysau ar gyllidebau cyhoeddus barhau, gan adeiladu ar draddodiad cryf o ofalu am ein teuluoedd a'n

cymdogion yn ein cymunedau.

Hoffwn ddiolch i'n Haelodau Etholedig am eu her a'u cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu cyfraniad i bolisiâu wedi cryfhau rhai o'n cynigion, ac mae'n bwysig gan eu bod yn gallu mynegi barn eu hetholwyr. Yn benodol, mae gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi bod yn allweddol wrth oruchwylio'r gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd trwy gydol y flwyddyn a chryfhawyd y trefniadau a'u ffurfioli fel rhan o'r trefniadau Sgriwtini yn dilyn etholiadau'r awdurdod lleol ym Mai 2017. Mae'r rhyngweithio rhwng Aelodau'r Panel a rheolwyr o'r Gwasanaethau Plant, yn ogystal â'r ymweliadau Laming rheolaidd sydd wedi'u hailsefydlu'n ddiweddar, wedi bod o gymorth i aelodau ddeall cymhlethdod y gwasanaethau a ddarperir i blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan arwain at her a chraffu ehangach, ond hefyd at well cefnogaeth wrth i ni barhau i wneud newidiadau a gwella'r gwasanaeth.

Dr Caroline Turner
Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau
Cymdeithasol

Sut mae Pobl yn Llunio'n Gwasanaethau?

Mae ein busnes yn troi o gwmpas pobl, ein dinasyddion, ein cleientiaid, ein staff a'n partneriaid. Paratowyd hyn mewn fformat mwy hygyrch, i annog pobl Ynys Môn i'w ddarllen, i ddatblygu dealltwriaeth o ehangder ein gwasanaethau ac i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau ynghylch y ffyrdd y gallwn wella'n gwasanaethau.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn parhau i weithio tuag at Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Mwy Na Geiriau', ac ar hyn o bryd mae 81% o staff y Gwasanaethau Plant a 74% o staff y Gwasanaethau Oedolion a ymatebodd bron yn rhugl eu Cymraeg neu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn gynnydd ar ffigurau blynyddoedd blaenorol.

Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd gydag unigolion a sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn casglu gwybodaeth a barn. Defnyddiwyd ymgynghoriadau, cyfarfodydd, digwyddiadau a holiaduron dros y flwyddyn i'n helpu i ddeall beth sy'n bwysig i'r rhai yr ydym yn ceisio'i helpu fwyaf. Mae hyn yn ei dro yn helpu i lunio'n cynlluniau gwella ac yn helpu i flaenoriaethu'n gwaith. Enghreifftiau o hyn fyddai cysylltiad Ward Seiriol â datblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol.

Mae gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn hanfodol bwysig yn yr hinsawdd gyfredol. Mae cyd-gynhyrchu gofal a chymorth gydag unigolion, cymunedau a sefydliadau'n ein galluogi i wneud hyn ac i herio, addasu a newid modelau gofal cyfredol.

Mae datblygiad Gŵyl Indeg yn enghraifft gadarnhaol o gyd-gynhyrchu. Dyma syniad a ddaeth gan riant ac fe dyfodd a dod yn realiti trwy baroddrwydd Gwasanaeth Arbenigol Plant / Teuluoedd yn Gyntaf a'r Trydydd Sector (Cynnal Gofalwyr) i weithio mewn partneriaeth i gynnal y digwyddiad. Fe'i cynhaliwyd ar yr 28ain o Fawrth 2018 ac roedd yn llwyddiant ysgubol gyda llawer o blant, teuluoedd ac oedolion yn dod yno. Roedd stondinau gwybodaeth, gweithgareddau, gweithdai cerdd a bandiau byw.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda'r gymuned, sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid eraill i gryfhau gweithio mewn partneriaeth. Rydym hefyd yn parhau i weithio o fewn y gymuned trwy'n Timau Amlddisgyblaethol a Chydlynwyr Asedau Lleol.

Mae gennym Fforwm Gofal Maeth Ynys Môn sydd â'r nod o wella a datblygu'r gwasanaeth maethu ar Ynys Môn trwy gydweithio fel tîm, er mwyn gwella ansawdd bywyd Plant sy'n Derbyn Gofal ar Ynys Môn. Mae gennym hefyd arolwg blynyddol yn gofyn i ofalwyr maeth am eu barn ar bopeth o'r gefnogaeth a gânt i'r hyfforddiant y maent wedi'i gael. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun mentora newydd gyda'n gofalwyr maeth fel rhan o brosiect peilot gyda'r rhwydwaith maethu. Fel rhan o hwn,

cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda gofalwyr maeth a chafodd yr adborth ei gynnwys mewn polisiau a chanllawiau.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys Ynys Môn wedi cyhoeddi cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer sut y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru i bawb. Fe'i hysgrifennwyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth a amlygodd gynnydd yn yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl ledled Gogledd Cymru wedi cymryd rhan i gael dweud eu dweud am hanfod gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cynllun ar gael yn: <https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment/regional-plan/>

Mae Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn hefyd yn drafftio'u cynllun comisiynu ar gyfer y dyfodol a chaiff ei gyhoeddi ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19.

Rydym hefyd yn dysgu o gwynion a wneir ac mae nifer y cwynion ynghylch y Gwasanaethau Plant wedi gostwng yn ystod ail ran y flwyddyn. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn gwneud yn dda wrth gwrdd ag achwynwyr i drafod cwynion ond mae angen i ni sicrhau ein bod yn ysgrifennu at bob achwynydd o fewn pum diwrnod i gyfarfodydd. O ran sylwadau cadarnhaol, cofnodwyd cyfanswm o 232 o sylwadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn (96 am y Gwasanaethau Plant a 136 am y Gwasanaethau Oedolion) - cynnydd o 202 ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol.

Safon Ansawdd 1

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

Oedolion

Ein **Pwynt Mynediad Sengl** neu **SPOA** yw'r man cyswllt cyntaf ac mae'n rhoi cyfle i unigolion gael gwybodaeth, cyngor a chymorth clir a dealladwy, a lle bo angen, mae'n ystyried a oes angen asesiad pellach ar yr unigolyn. Mae'n cefnogi oedolion 18 oed a throsodd, gan gynnwys gofalwyr.

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd ein gwasanaeth SPOA i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni adolygu ein **trefniadau eirioli** a sefydlu contract newydd, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Mae Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru bellach yn darparu eiriolaeth dan gyfarwyddyd ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr sy'n oedolion, cefnogaeth hunaneiriolaeth ac ymgysylltu â phrosiectau penodol. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa well i gwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac i hyrwyddo arfer gorau.

Mae **Cyswllt Cymunedol Môn**, y Trydydd Sector a'r pwynt mynediad cymunedol sydd dan ofal Medrwn Môn yn parhau i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ynghylch gweithgareddau, grwpiau a dosbarthiadau cymunedol. Mae'r Cyngor a Medrwn Môn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gwahanol adrannau'r Cyngor a sefydliadau lleol i roi gwybodaeth leol am y ddarpariaeth i gefnogi lles pobl ar wefan **Dewis Cymru**.

Plant a Theuluoedd



Canolfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yw **Teulu Môn** sydd wedi'i sefydlu mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n cynnwys dyletswyddau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dan Ddeddf Gofal Plant 2006. Rydym yn frwd dros sicrhau bod pob plentyn, teulu a phob gweithiwr proffesiynol yn ei chael yn hawdd cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfoes. Yn ddiweddar,

rydym hefyd wedi gwneud trefniadau gyda Dewis Cymru fydd yn ei gwneud yn bosib i deuluoedd Ynys Môn gael gwybodaeth trwy eu gwefan.

Mae'r swyddogion ymgysylltu wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau Môn i hyrwyddo'r gwasanaeth. Ymhlith y digwyddiadau hyn mae diwrnodau o hwyl i'r teulu, gwyliau, yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Môn a gŵyl unigryw sy'n hyrwyddo cynnwys plant ag anableddau.


Mae swyddogion ymgysylltu yn Nheulu Môn yn cael y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gydag unigolion i ystyried sut gellir eu cefnogi i ddefnyddio'u cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i gael lles a chanlyniadau personol. Mae lles yn troi o amgylch rhywun sy'n

hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd ac â'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant i'r swyddogion ymgysylltu ar Gyfweld Ysgogol a Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion er mwyn ychwanegu at y set sgiliau sydd gennym ar hyn o bryd a'i wella. Nododd cynrychiolydd o Ofal Cymdeithasol Cymru a dreuliodd y diwrnod gyda Theulu Môn fod y staff yn hapus iawn ac wedi ymrwymo i'w gwaith ac yn cyflwyno gwasanaeth drws ffrynt ardderchog i bobl oedd yn galw o ran eu sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid.

Wrth asesu anghenion cymwys, gan ddechrau gyda'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', mae gweithwyr nawr yn canolbwyntio ar gryfderau pobl a chefnogaeth gymunedol sydd ar gael a gweithio gydag unigolion (gan gynnwys gofalwyr) ar y ffordd orau o ddefnyddio'r hyn sydd ar gael iddynt i ddiwallu eu hanghenion. Mae'n hanfodol ystyried y deinamig teuluol yn y broses hon. Wedi gwneud hyn, a'r farn yw bod angen gofal ffurfiol i gynorthwyo unigolyn neu deulu, datblygir cynllun gofal a chymorth.

Yr hyn yw ymyrraeth gynnar yw helpu i atal pobl ifanc a theuluoedd â phlant o bob oed rhag datblygu problemau sy'n anodd eu goresgyn. Drwy roi i deuluoedd y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt yn gynnar, rydym yn fwy tebygol o'u hatal rhag mynd i anawsterau yn nes ymlaen, ac yn fwy tebygol o helpu teuluoedd i feithrin cylchoedd rhyng-genhedlaeth o riantu, perthnasoedd ac ymddygiad cadarnhaol. Drwy adeiladu ar gryfderau rhieni, gallwn eu helpu i greu amgylchedd cefnogol a chyfoethog i'w plant gyflawni eu potensial ac i adlewyrchu eu hymddygiad cadarnhaol.

Beth mae'r Ddeddf yn ceisio'i gyflawni: Atal



Ein nod yw galluogi teuluoedd bregus i allu rheoli eu problemau'n well a rhoi amgylchedd addas, diogel i'w plant. Byddai hyn yn golygu:

- **ADEILADU** gwydnwch ymhlith plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r gymuned.
- **ATAL** angen rhag gwaethygu trwy nodi materion yn gynnar ac ymyrryd yn effeithiol.
- **DIOGELU** rhag niwed sylweddol trwy gynnig ymyrraeth ddwys ac effeithiol.

Mae model Teulu Môn yn gweithio'n dda os yw teuluoedd yn cael eu cymell i fynd am ddarpariaeth a chefnogaeth ac os yw'r ddarpariaeth ar gael ac mae modd cael ati. Fodd bynnag, yn aml nid yw teuluoedd sy'n cael eu cyfeirio'n uwch yn sylweddoli bod ganddynt broblemau neu mae o fudd iddynt beidio â bod yn agored am eu hamgylchiadau.

Mae ein tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallwn ddarogan pwy yw'r teuluoedd mwyaf bregus ac y gwyddom amdanynt eisoes yn rhywle yn y system.

Felly, yr amcanion ar gyfer ein Gwasanaeth Teulu Môn yw: -

- Sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o adnoddau a gwasanaethau mewn fformat sy'n hygyrch ac ar gael i blant a theuluoedd.
- Bod y ddarpariaeth hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael adnoddau priodol.
- Sefydlu cysylltiad â gwasanaethau gwybodaeth a chyngor eraill ac o bosib intigreiddio â nhw.
- Creu cysylltiadau a pherthynas â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn y broses ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen.
- Sefydlu systemau, sgiliau a phrosesau i gasglu cynnwys angenrheidiol y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r asiantaethau cyfeirio.
- Sefydlu systemau gwybodaeth er mwyn casglu gwybodaeth ehangach a chanfod maint a natur y risg a'r bregusrwydd.

Rydym yn cynnig ymyrraeth weithgar mewn amgylchiadau lle mae risg sylweddol o broblemau'n gwaethygu gyda'r bwriad o liniaru'r angen hwnnw. Yn y cyd-destun hwn, yr hyn yr ydym yn bryderus yn ei gylch yw'r: -

- Perygl niwed arwyddocaol / cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant
- Yr angen i fynd i'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)
- Yr angen i fynd i Achosion Gofal
- Yr angen i blant aros yn y system plant sy'n derbyn gofal.

Lle bo'n bosib ac yn briodol, mae ein model o ymyrraeth yn ceisio ymdrin â materion ar lefel y gwasanaethau cyn statudol. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd y Gwasanaeth Ymyrraeth ac Atal Cynnar yn ymdrin â phob amgylchiad nad yw'n cynnwys ymchwiliad Adran 47 neu gael gwared â gofal, yn y modd hwnnw. Bydd hyn yn cael ei wneud gan staff a ddynodir yn y grwpiau Tîm o amgylch y Teulu, grwpiau ymarfer Gweithwyr Cymdeithasol a gwasanaeth camu ymlaen newydd. Y grwpiau ymarfer Gwaith Cymdeithasol fydd yn arwain y gwaith ymchwilio i mewn i niwed arwyddocaol (ymchwiliadau A47), asesiad gofal a chymorth cymhleth neu symud i ofal.

Mae **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** yn brofiadau a all gael effaith ar ddatblygiad plant a chael effaith ar eu hiechyd, eu hymddygiad a'u cyfleoedd pan fyddant yn oedolion. Rydym yn awyddus i wreiddio'n gwybodaeth o amgylch agenda Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac rydym wedi darparu hyfforddiant i bob aelod o staff i wella eu dealltwriaeth.

Gwasanaethau Arbenigol Plant

Mae cael y Gweithiwr Cymdeithasol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth pwrpasol wedi bod yn ffordd effeithiol o reoli cyfeiriadau newydd sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth. Gan nad oedd yn ymarferol i'r Gweithiwr Cymdeithasol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth barhau i asesu'r cyfeiriadau newydd oedd yn benodol ar gyfer gwasanaethau lechyd, megis rheoli ymddygiad, datblygu sgiliau, ac anghenion iechyd cymhleth, mae tîm nyrsio anabledd dysgu cymunedol y plant wedi sefydlu clinigau 'sgrinio' fel ffordd o asesu cyfeiriadau newydd.

Blaenoriaethau 2018/19

- Byddwn yn parhau i weithio gyda phob sefydliad a phartner i gryfhau gwaith partneriaeth, a gwella'n cymunedau i'n holl ddinasyddion.
- Cwblhau gwaith gwerthuso ac ailfodelu'n SPOA i sicrhau ei fod yn integreiddio'n llwyr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Medrwn Môn.
- Defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i dreialu swydd hybrid newydd - Cydlynnydd Anabledd a Lles. Mae hyn yn dilyn gwaith datblygu Teulu Môn ac adolygu'r broses gyfeirio.
- Byddwn yn gwella arfer ar draws y Gwasanaethau Plant cyfan ac yn sicrhau cysondeb o ran asesiadau, ymweliadau statudol, cofnodi a rhoi cefnogaeth.
- Ymgorffori ffyrdd newydd o weithio, gan sicrhau bod pob cyfeiriad at y tîm integredig yn dod i'r Gwasanaeth Arbenigol Plant trwy Deulu Môn, a chwblhau sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'. Yn ei dro, bydd yr Arweinydd Ymarfer yn penderfynu sut dylid symud ymlaen gyda'r cyfeiriadau, mynd naill ai i'r Tîm o amgylch y Teulu / Teulu Môn, Gwasanaethau Arbenigol Plant neu eu cyfeirio at wasanaethau cyffredinol neu wasanaethau anstatudol amgen.
- Bydd Teulu Môn yn parhau ac yn ychwanegu at y Strategaeth Ymgysylltu bresennol, gan greu cysylltiadau â chymunedau, teuluoedd ac unigolion ar Ynys Môn.
- Creu Awdurdod Lleol sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac i staff fod yn ymwybodol o drawma.

Mesur Safonau Ansawdd 1:

- 94.25% yn dweud iddynt gael eu trin ag urddas a pharch
- 91.92% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi / oeddech chi gyda'r gwasanaethau gofal a chymorth a gawsoch?"
- 92.60% o oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn
- 92.60% o oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn dweud eu bod yn fodlon ynglŷn â'r modd yr oedd y gwasanaethau yr oeddynt yn ei dderbyn yn bodloni eu hanghenion

Safon Ansawdd 2

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

Oedolion

Mae **Tîm Gofal Uwch Môn** yn parhau i gefnogi gwaith i atal pobl fregus, henoed â chyflyrau iechyd lluosog rhag gorfod mynd i'r ysbyty.

Mae'r Tîm hwn yn chwarae rhan mewn hyrwyddo annibyniaeth ac ailalluogi. Bellach mae Uwch-barmedig Ymarfer wedi ymuno â'r Tîm. Gyda'r rôl hon mae'r gwasanaeth wedi gallu derbyn gartref mwy o gleifion sy'n ddifrifol wael, a hynny'n uniongyrchol gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Gwasanaeth Tîm Gofal Uwch Môn Medi 2017 - Mawrth 2018:	
Nifer y cleifion a gyfeiriwyd	117
Ymweliadau wedi'u cwblhau	533
Nifer y bobl na fu raid iddynt fynd i'r ysbyty	91
Dyddiau gwely wedi'u harbed	409

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Unigrwydd ac Arwahanrwydd gyda'r holl randdeiliaid yn cyfrannu, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol ac Age Cymru Gwynedd a Môn. Nodwyd mai'r prif reswm dros unigrwydd ac arwahanrwydd oedd nad oedd yna gludiant cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac, yn sgil hyn, cynhelir uwchgynhadledd ar y mater penodol hwn i lunio dull cydgysylltiedig i roi sylw i'r mater hwn.


Fel rhan o waith parhaus datblygu Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar, mae Hybiau Cymunedol yn cael eu datblygu ar draws yr Ynys a bydd hyb wedi'i leoli yn y cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Llandefni

Mae gwasanaeth Tylluanod y Nos yn rhoi gofal a chymorth parhaus i bobl dros nos yn eu cartrefi eu hunain

Mae Gwasanaethau Oedolion bellach yn rhoi Gwasanaeth Saith Diwrnod llawn sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol; gan osgoi anfon pobl i'r ysbyty heb fod raid neu oedi cyn eu rhyddhau

Rydym yn parhau i sefydlu Cynghreiriau Cymunedol trwy ein Model Creu Cymunedau. Mae Cynghrair Gymunedol Seiriol wedi'i hen sefydlu.

Rydym yn darparu ac yn comisiynu ystod o gyfleoedd gofal dydd a gwaith ar draws Ynys Môn i unigolion ag anableddau dysgu, gan gynnwys pobl ag anghenion cymhleth iawn. Mae'r gwasanaethau'n cynnig cyfleoedd gwahanol, gan gynnwys datblygu sgiliau byw'n annibynnol, sgiliau gwaith, sgiliau cymdeithasol, presenoldeb cymunedol, a rhoi seibiant i ofalwyr. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau agwedd fasnachol sy'n cynnig gwasanaethau garddio, gwaith coed, celf a chrefft, gan ei gwneud yn bosib i unigolion brofi amgylchedd busnes go iawn.



"Mae'n galonogol gwybod bod yna unigolion dychmygus, gweithgar, clinigol i eirioli ar ran ein grŵp cleientiaid a symud gwasanaethau ymlaen i'r dyfodol. Maent yn ymroddedig iawn gan wrando ar gefnogaeth a chyngor a gynigir, a chwestiynu ymarfer lle bo'n briodol. "

Mae'r **Tîm Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** yn rhan hanfodol o'n gwaith darparu cymorth iechyd meddwl yn y gymuned. Mae'r tîm yn cael arian grant gan **Gefnogi Pobl** ac mae'n rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Rhoddir cymorth i bobl ag anghenion cymedrol i gymhleth mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol gan gynnwys pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn dau gynllun byw â chymorth lle mae unigolion yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw'n annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector tai i sicrhau llety addas i symud ymlaen o'r cynlluniau tai â chymorth. Mae'r tîm yn frwd o ran hyrwyddo adferiad a lles ac yn gweithio gydag ystod o ddarparwyr lleol yn y Trydydd Sector i leihau stigma, hyrwyddo cynnwys cymdeithasol a rhoi cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r **Gwasanaeth Ailalluogi** ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd i'w cael 'yn ôl ar eu traed' trwy adennill eu hannibyniaeth yn dilyn cyfnod o salwch, anabledd neu golli hunanhyder a'u grymuso i reoli eu hiechyd a'u lles. Rhan annatod o'r gwasanaeth hwn yw darparu offer a thechnoleg gynorthwyol sy'n cefnogi annibyniaeth. Darperir llawer o'r offer hwn trwy siop fenthyciadau a ddarperir ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy a Gwynedd.

Rydym yn parhau i fod â thri gwely gofal canolraddol penodol ym Mhlas Mona yn Llanfairpwll. Mae'r rhain yn parhau i gael eu defnyddio i hwyluso achosion o bobl yn gadael yr ysbyty lle mae angen cyfnod pellach o ailalluogi. Fe'u defnyddir hefyd fel gwelyau 'camu i fyny' i atal pobl y mae angen cyfnod asesu pellach arnynt rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Y bwriad yw y bydd gwelyau gofal canolraddol ar gael yn ein cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhenucheldre a Hafan Cefni yn ystod y flwyddyn nesaf.

Tîm Amlddisgyblaethol - Rydym yn parhau i fod â thimau amlddisgyblaeth yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi, Canolfan Iechyd Amlwch a Phlas Mona. Yn ogystal, rydym yn dal i gael adnoddau gofal canolraddol ar gyfer lleoliadau tymor byr mewn cartrefi gofal ar yr Ynys i reoli sefyllfaoedd argyfwng a hefyd i gyflymu gwaith rhyddhau pobl o'r ysbyty. Mae'r Timau Amlddisgyblaethol yn hanfodol i arfer da. Rydym wedi parhau i gryfhau gwaith amlbartneriaeth trwy Fodel Môn ac rydym yn gwella gwaith partneriaeth ymhellach gyda'n darparwyr gofal cartref.

Un elfen allweddol o'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yw '**Atal Codymau**'. Gyda phartneriaeth rhwng Adran Hamdden y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, mae'r Gwasanaeth yn parhau i gynnig ystod eang o ymyriadau i'r rhai dros 65 oed ar Ynys Môn i helpu i leihau'r perygl o gael codwm a bod ofn cael codwm.

Plant a Theuluoedd

Gofalwyr ifanc - Mae darparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc yn hanfodol i gynorthwyo a chefnogi plant a phobl ifanc i gael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod. Rydym yn comisiynu Gweithredu dros Blant i gyflawni'r gwaith hwn ac asesu gofalwyr ifanc a'u hanghenion ledled Ynys Môn.

Mae **Partneriaeth y Bont** yn parhau i roi gwasanaeth gan Weithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Arbenigol Plant a Chydlynnydd Pontio sy'n gweithio o Ganolfan Addysg Y Bont yn wythnosol. Mae hyn wedi creu perthynas waith agosach rhwng y ddau wasanaeth ac wedi datblygu ffordd o gynorthwyo unigolion a theuluoedd mewn ffordd fwy ymatebol a chydlynol pan gyfyd unrhyw faterion neu bryderon.

Blaenoriaethau 2018/19

- Cynnal adolygiad o wasanaethau dydd mewnol i oedolion ag anableddau dysgu, gan ganolbwyntio ar ddilyniant, dewis cleientiaid a chanlyniadau.
- Cryfhau a datblygu ymhellach ein Tîm Amlddisgyblaethol sy'n gweithio yn y tair ardal mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, partneriaid y trydydd sector a darparwyr gofal cartref er mwyn darparu ymatebion amserol a sicrhau bod modd cael at ddarpariaeth integredig yn lleol.
- Gweithredu ein contract gofal cartref newydd ym mis Mehefin 2018 a sicrhau y caiff ei drosglwyddo'n llyfn a'i gyfleu'n dda i ddarparwyr llwyddiannus.
- Cefnogi'r gwaith o fwrw ymlaen â model cymunedol Cynghrair Seiriol.
- Hoffai Gwasanaethau Arbenigol Plant ddatblygu'r gwasanaeth i gynnig sesiwn 'galw heibio' rheolaidd i'r holl blant, pobl ifanc a theuluoedd / gofalwyr sy'n mynd i Ganolfan Addysg Y Bont. Gallai'r sesiynau hyn gynnwys cyngor / cymorth gan dîm nyrsio anabledd dysgu cymunedol plant, sesiynau Teulu Môn / Tîm o gwmpas y Teulu / Llwybr Niwroddatblygiadol gan ddibynnu ar anghenion y plentyn anabl, y person ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr.
- Bod Gwasanaethau Plant yn recriwtio i'r swyddi a ganlyn:

- **Gweithiwr Lles Emosiynol** (bydd y gweithiwr hwn yn gweithio gyda phlant y credir eu bod yn cael anawsterau gyda chyflyrau cyffredinol o bryder).
- **Gweithiwr Teulu Trais yn y Cartref** - bydd y gweithiwr hwn yn rhoi cymorth i'r plant lle mae trais yn y cartref wedi'i adnabod ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan gan gynnwys gyda'r rhieni.
- Bydd **Gweithiwr Cydberthynas Iach** yn gweithio'n agos gydag ysgolion, gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd cymunedol i adnabod arwyddion cynnar o ymddygiad rhywiol niweidiol ymhlith plant oedran cynradd ac uwchradd.
- **Gweithiwr Iechyd Meddwl Rhieni a Chamddefnyddio Sylweddau** - bydd y gweithiwr yn ymyrryd yn seiliedig ar dystiolaeth yng nghyswllt rhieni a theuluoedd a allai fod yn dioddef o iselder lefel isel neu anhwylder gorbryder cyffredinol.

Mesur Safonau Ansawdd 2:

- 573 o oedolion angen gofal preswyl arnynt ryw adeg yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 637 y llynedd.
- 366 o oedolion mewn gofal preswyl y 31^{ain} o Fawrth 2018 o'i gymharu â 396 yn 2017.

*"Roeddech i gyd mor garedig. Nid oedd dim yn ormod i chi – rydych yn staff gofalgar a thosturiol. Yn wir, rydych chi'n dîm gwych, mi alla i dystio i hynny. Mewn gwirionedd mae Brwynog yn gartref oddi cartref. Diolch yn fawr i chi i gyd. "- **Brwynog, Gwasanaethau Oedolion***

*"Yn syml, y lle gorau. Tîm Fantastig. Awyrgylch hyfryd, cyfeillgar, tawel. Wedi mwynhau bob eiliad ym Mhlas Crigyll. Alla i ddim diolch ddigon i chi. "- **Plas Crigyll***

Safon Ansawdd 3

Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Trefniadau Diogelu Corfforaethol

Mae "Diogelu" yn gyfrifoldeb ar bawb yn y Cyngor. Er mai Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Gwasanaeth arweiniol ar gyfer ymdrin ag ymholiadau ynghylch honiadau / pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn cael niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod mewn perygl, beth bynnag yw rôl yr unigolyn. Trwy waith ei Fwrdd Diogelu Corfforaethol, mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu nifer o bolisiau allweddol i gynnal ei drefniadau Diogelu Corfforaethol, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gwblhau'r camau i'w cymryd yn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol.

Cyflawniadau allweddol

- Adolygu'r Polisi Diogelu: i sicrhau ei fod yn gyfredol, a bod Dyletswyddau Caethwasiaeth Fodern a Dyletswyddau Atal yn cael eu gwreiddio yn y trefniadau corfforaethol.
- Darparu hyfforddiant i staff yn unol â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae dros 1600 o staff wedi bodloni'r gofynion i gwblhau'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Lefel 1 fel rhan o'n cyfrifoldebau yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Cymeradwywyd y Polisi Trwyddedu Tacsis diwygiedig, sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol (hyfforddiant ar Blant y Manteisir arnynt yn Rhywiol) i yrwyr tacsis, a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol ochr yn ochr â hyfforddiant i'r heddlu yn ystod 2017/18.
- Parhau i sicrhau bod goblygiadau diogelu datblygiadau mawr yn cael eu hadnabod, a datblygu gwaith lliniaru.

Cyd-destun Rhanbarthol ac Amlasiantaethol

Mae'r Cyngor yn chwarae rhan lawn yng ngwaith a blaenoriaethau Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer plant ac oedolion: yn rhanbarthol a lleol. Mae hyn wedi cynnwys cefnogaeth ariannol ac amser swyddogion. Ni chynhaliwyd Adolygiadau Ymarfer Plant nac Oedolion mewn perthynas â'n gwaith yn ystod 2017/18. Datblygwyd ein trefniadau sicrhau ansawdd amlasiantaethol yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi parhau i chwarae rhan yn y trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA) a Chynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol (MARAC). Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn parhau i fonitro a rheoli risg yn amlasiantaethol o ran unigolion sy'n cael eu hasesu fel risg uchel i'r cyhoedd.

Gwasanaethau Oedolion

Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithredu'r gofynion diogelu diwygiedig dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan symud i ffwrdd o iaith y broses POVA i ddangos tystiolaeth y cydymffurfir â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i werthuso'n harfer diogelu'n annibynnol. Er ei bod yn ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddysgu gan y bobl sy'n derbyn ein gwasanaethau.

Fel gyda Gwasanaethau Plant, mae gwerthuso ymarfer yn dangos bod enghreifftiau o arfer da, o ran diogelu oedolion a allai fod mewn perygl. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod angen gwella cadernid y broses ddiogelu a gwneud y defnydd gorau o gyfnod ymholiadau'r broses Oedolion mewn Perygl. Mae nifer o faterion i'w datblygu'n amlasiantaethol, gan gynnwys dwyn yr asiantaethau sy'n bartneriaid i mewn i'r Broses Oedolion mewn Perygl ac ansawdd yr Adroddiadau Diogelu a wneir gan asiantaethau sy'n bartneriaid.

Yn y Panel VARM (Panel Oedolion Bregus a Rheoli Risg) rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru i gydlynu'n gwaith wrth gefnogi unigolion ar draws gwasanaethau cyhoeddus sy'n arddangos anghenion cymhleth. Dengys y gwaith gwerthuso y bu gwella mewn ymgysylltiad â gwasanaethau cefnogi, trwy weithredu'n amlasiantaethol, gyda llai o alwadau ar yr Heddlu ac Ambiwlans Cymru. Roedd lleihad yn natur fregus oedolion a'r risgiau iddynt o ganlyniad uniongyrchol i'w cyfeirio at VARM. Dangosodd adborth gan weithwyr proffesiynol a aeth i VARM fod y panel yn effeithiol wrth sicrhau gweithredu'n amlasiantaethol wrth weithio gydag unigolion bregus.

Gwasanaethau Plant

Elfen allweddol o Gynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant yw gwella'r arfer o fewn y gwasanaeth ar gyfer diogelu plant bregus. Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio'n galed i newid a gwella yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd hyfforddiant / mentora i ymarferwyr i wreiddio Model Risg Gwynedd / Thornton yn well yn y broses asesu ac ar wahanol bwyntiau i gefnogi dadansoddiad cadarn a hyderus o angen / risg, gan ystyried y dystiolaeth gyfan ym mhob achos.

Er bod enghreifftiau o arfer da, ar y cyfan, mae arfer yn parhau i fod yn anghyson ar draws y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod lle mae angen gwelliannau pellach ac yn gweithio'n galed i gyflawni'r rhain.

Rydym wedi canolbwyntio ar ddeall y rhesymau pam fod plant yn dod dan Gynllun Amddiffyn Plant. Adolygwyd yr holl achosion lle mae enw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant er mwyn sicrhau bod camau amserol a chyflym yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon diogelu. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd gostyngiad sylweddol yn niferoedd y plant ar y gofrestr. Rydym yn deall y rhesymau y tu ôl i

hyn, a gallwn ddangos bod rhywfaint o waith effeithiol yn digwydd i gyfeirio achosion yn uwch i dir mwy statudol / neu achosion lle mae'r gwaith a gwblhawyd wedi gweld y teulu'n gwneud newidiadau.

Sicrhau Ansawdd a Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol

Cryfhawyd yr Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd gydag adnoddau ychwanegol a chan ganolbwyntio ar fwy o bethau.

- Mae'r uned wedi ymateb yn bositif i'r heriau o fewn y Cynllun Gwella Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)
- Datblygu a gweithredu Fframwaith Gwella Ansawdd y Gwasanaethau Plant
- Mewn cydweithrediad ag ymarferwyr, gosod safonau ar gyfer meysydd ymarfer, safonau y caiff yr arfer ei arfarnu arnynt.
- Sicrhau bod proses archwilio ffeiliau achos cynlluniedig a systematig, archwiliadau / astudiaethau thematig, adolygiadau rheoli ac Archwiliadau Amlasiantaethol yn gwreiddio yn y gwasanaethau, gyda'r canfyddiadau yn cefnogi gwelliannau'n ymarferol.
- Darparu a hwyluso cyfleoedd dysgu'n seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiadau.
- Gwaith sylweddol i wella'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd Rhan 4. Mae mwy o eglurder ar y trothwyon ar gyfer cynnal cyfarfod Rhan 4, gwell sylw i amseroldeb a phenderfyniadau clir.
- Adolygu trefniadau ar gyfer sicrhau bod ceisiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn cael eu hateb yn effeithiol a chynyddu capasiti Lles Gorau. Yn sgil hyn, cafwyd buddsoddiad o £ 172k yn 2018/19 i gefnogi Gwasanaethau Oedolion i fynd i'r afael â hyn.

Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Gwella Prosesau Amddiffyn Plant - canolbwyntio ar well gwaith paratoi, cynllunio, gan ddangos bod y trothwyon hynny ar gyfer niwed sylweddol a chofrestru wedi'u bodloni, adrodd ar newid a'i fesur a sicrhau diogelwch / canlyniadau.
- Gwella Prosesau Adolygu Statudol - canolbwyntio ar well gwaith paratoi, craffu ar waith gofal a chefnogaeth i blant yn fwy cadarn, a rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses adolygu.
- Buddsoddi er mwyn cynyddu capasiti'r Asesydd Lles Gorau fel bod y rhestr aros DOLS yn cael ei leihau, ac y cynhelir adolygiadau o adael DOLS yn amserol.
- Gwella cadernid y broses diogelu oedolion, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Ymdrin ag Achosion Unigol o Oedolion mewn Perygl (sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd), pan gaiff ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Byddir yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gyfnod ymholiadau'r Broses Oedolion mewn Perygl; canolbwyntio ar

amseroldeb ymatebion a dwyn asiantaethau eraill i mewn i'r Broses Oedolion mewn Perygl yn well; cofnodi achosion yn well a gwell annibyniaeth i'r broses amddiffyn plant.

Mesur Safonau Ansawdd 3:

- 90.48% o ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Ydyw cefnogaeth a sefydlwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'ch helpu i deimlo'n ddiogel yn eich cartref?"
- 96% o gynlluniau gofal a chymorth (neu gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc) wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn, o fewn amser y cytunwyd ag o, a hynny o gymharu â 88% y flwyddyn flaenorol.

Safon Ansawdd 4

Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Oedolion

Datblygwyd Cynllun Gweithredu a Strategaeth Dementia Ddrafft yn lleol fydd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Dementia Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2018-2022. Mae'r Strategaeth Dementia ddrafft yn cyd-fynd â themâu'r Strategaeth Pobl Hŷn, sef:

- Unigolion annibynnol / cymunedau cryf
- Eich helpu chi i fyw gartref
- Pan nad yw byw gartref yn opsiwn bellach.

Yn gynwysedig yn y Strategaeth mae gwella gwybodaeth gyfredol, mwy o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal a datblygu mwy ar y gwasanaeth Dementia RED (Parch, Empathi ac Urddas) ar draws yr Ynys. Mae trafodaethau hefyd wedi dechrau ar gryfhau'r Tîm Aml-ddisgyblaethol sy'n gweithio ym maes Dementia gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae yna dri Chaffi Dementia yn parhau ar yr Ynys; mae'r rhain yn rhoi lle i bobl fynd os ydynt yn gofalu am berson â Dementia, os ydynt yn poeni am gof rhywun, neu i gwrdd â phobl eraill y mae Dementia'n cael effaith arnynt.

Mae'r **gwasanaeth ymateb mewn argyfwng** ym Mhlas Crigyll ar fin dechrau, a bydd yn rhoi gwasanaeth cymorth y tu allan i oriau i Ofalwyr pobl sydd â Dementia y mae angen cefnogaeth frys arnynt yn ystod y nos.

Mae'r **Prosiect Ochr yn ochr** hefyd wedi bod yn cael ei gynnal, ac mae'r Rhaglen Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr a Sesiynau Galw i Mewn Cefnogaeth gyda Dementia wedi cael eu cynnal ar draws yr Ynys, sy'n rhoi cyfle i bobl y mae Dementia'n cael effaith arnynt siarad â Gweithiwr Cefnogi Dementia.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o arian ychwanegol a neilltuir ar gyfer Dementia yn y flwyddyn i ddod ac mae'n dechrau cynllunio sut i wneud y defnydd gorau o'r adnodd hwn.

Bellach mae tair **Cynghrair Dementia** wedi'u sefydlu **ar Ynys Môn**. Mae Cynghrair Dementia Biwmares wedi parhau i ddatblygu ac mae cynghreiriau newydd wedi'u sefydlu yng Nghaergybi a Llangefni. Mae gan bob un ohonynt gynllun gweithredu tri phwynt i weithredu Cymunedau Dementia Gyfeillgar yn yr ardaloedd hynny. Caiff y rhain eu cydlynu gan y Cydlynwyr Asedau Lleol. Maent yn cydweithio i ennill cydnabyddiaeth swyddogol gan Gymdeithas Alzheimer a'r gobaith yw y bydd Seiriol yn **Gymuned Dementia Gyfeillgar**. Eu nod yw hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o newidiadau syml a all wneud byd o wahaniaeth i rywun sy'n byw â Dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, fel bod modd eu cefnogi, eu deall a'u cynnwys.

Mae **Hybiau Cymunedol** yn cynnig ystod o wasanaethau fel y pwynt cyswllt cyntaf a mynediad at gymorth e.e. sesiynau trin traed, dosbarthiadau codymau,

Mae'r **Cynllun 'Homeshare'** yn galluogi unigolion i gael cefnogaeth yng nghartref gofalwr proffesiynol er mwyn ychwanegu at sgiliau bywyd presennol a sefydlu cysylltiadau gwell yn y gymuned. Mae hyn hefyd yn rhoi seibiant i'r unigolion sy'n gofalu am berson â Dementia.

grwpiau cerdded a sesiynau Cyngor ar Bopeth ar fudd-daliadau a hawliau. Maent yn ganolbwynt i feithrin mwy o weithgarwch cymunedol, lleol a dod â thrigolion at ei gilydd i wella ansawdd bywyd yn eu hardaloedd a chyfrannu at leihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Ceir Hybiau Cymunedol yng Nghaergybi, Amlwch, Llangefni, Llanfaelog, Llangoed, Llanddona, Biwmares, Bryngwran a Llanfairpwll. Mae rhagor o ddatblygiadau'n cael eu cynllunio i'r dyfodol ar gyfer Niwbwrch. Rydym hefyd yn arbrofi gyda gwaith darparu gofal personol mewn hybiau cymunedol mewn partneriaeth â Menter Môn, sefydliad Trydydd Sector lleol.

Mae **Cydlyniad Asedau Lleol** yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae rôl y Cydlynnydd Asedau Lleol wedi'i sefydlu'n dda yn Ward Seiriol. Mae gwasanaethau Seiriol a sefydlwyd trwy'r rhaglen Cydlyniad Asedau Lleol yn cynnwys Siediau Dynion, cyfleoedd dyddiau dementia yn yr hybiau cymunedol a Chynghrair Dementia (cylch gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu i sefydlu Seiriol fel Cymuned Dementia Gyfeillgar). Ariennir y Cydlynwyr Ardal Leol yng Nghaergybi a Llangefni drwy'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae'r **Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru** ar gyfer unigolion 50 oed a throsodd a'i nod yw datblygu Strategaeth Ataliol yr Awdurdod Lleol trwy sefydlu tair canolfan Heneiddio'n Dda sy'n gweithio ar yr egwyddor o gynhwysiant trwy gyfeirio a gwella mynediad at gymorth prif ffrwd a chyffredinol. Mae'r canolfannau hyn yn parhau i weithredu yn Amlwch, Llangefni a Brynsiencyn.

Cynlluniau Cyflogadwyedd - Mae Ynys Môn yn darparu cymorth i bobl ifanc ac oedolion y mae angen cymorth arnynt i gael gwaith, gan weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i gael mynediad at grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi'r gwaith hwn:

- Mae'r prosiect **TRAC** yn cefnogi dysgwyr 11-16 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (dim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).
- Nod **AdTRAC** yw lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac sy'n dod ar draws rhwystrau rhag symud ymlaen i lwybrau cadarnhaol.
- Datblygwyd gweithrediad **OPUS** yng Ngogledd Cymru i ymgysylltu â'r bobl economaidd anweithgar a'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, y rhai y'u hystyrir y pellaf o'r farchnad lafur ac sydd â rhwystrau lluosog rhag cael cyflogaeth a dod â nhw'n nes at y farchnad lafur. Mae OPUS yn rhoi cefnogaeth ac ymyrraeth fydd yn rhoi'r sgiliau priodol i'r cyfranogwyr gael cyflogaeth gynaliadwy.

Partneriaeth rhwng chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Gyrfa Cymru yw prosiect TRAC. Mae'n cefnogi disgyblion bregus rhwng 11 a 16 oed i barhau a llwyddo mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Hyd yma, mae 329 o bobl ifanc wedi cael eu cyfeirio at y prosiect ar Ynys Môn, mae 13 o gwmnïau'n darparu cyrsiau cwricwlwm uwch ac mae 26 o bobl ifanc wedi llwyddo i sicrhau lleoliadau gwaith rheolaidd. Yn 2017 symudodd 97% o bobl ifanc Blwyddyn 11 ymlaen yn llwyddiannus i Addysg Bellach. Dywed yr holl bobl ifanc y bu gwelliant yn un o'r chwe maes datblygu craidd. Caiff cynlluniau cefnogi pwrpasol eu llunio rhwng y dysgwyr, y tîm TRAC, yr ysgol a, lle bo'n berthnasol, Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a CAMHS a'u cydlynu gan Weithwyr Ieuencid a Gweithwyr Therapiwtig. Targedir cymorth penodol at blant mewn gofal ac mae enghreifftiau rhagorol o becynnau gofal wedi'u haddasu ar gyfer y bobl ifanc hyn.

Trwy **Gronfa Gofal Canolraddol** Llywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu i fod mor annibynnol â phosib. Cyflawnir hyn trwy gefnogi pobl i nodi a chyflawni eu hanghenion lles eu hunain a mesur llwyddiant ymyrraeth gan Wasanaethau Plant trwodd i wasanaethau Oedolion:

- **Atal ac ymyrraeth gynnar** - Mae Cynlluniau Cymorth Gweithgar yn fodd i bobl ifanc gefnogi gwaith datblygu sgiliau a chynlluniau cymorth y bydd modd eu cludo trwy'r Cyfnod Pontio i Wasanaethau Oedolion.
- **Llais a rheolaeth** - rydym yn cefnogi unigolion i ddatblygu Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr unigolyn a phenderfynu ar ganlyniadau a ddymunir a throï'r rhain yn gynlluniau dilyniant.
- **Cyd-gynhyrchu** - rydym yn cyd-gynhyrchu cynllun cymorth cludadwy i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth dydd presennol i hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth trwy ddatblygu cynlluniau dilyniant.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Mae **Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol** Ynys Môn wedi'i drawsnewid dros y deunaw mis diwethaf – bu i ni ganolbwyntio ar newid y meysydd yr ystyriai pobl oedd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol eu bod yn broblem iddynt. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol wedi bron â dyblu, o 59 ym mis Medi 2016 i 112 ym mis Mawrth 2018. Ein bwriad yw parhau i gadw mewn cysylltiad â holl ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol cyfredol yn ystod 2018/19 er mwyn canolbwyntio ar wneud rhagor o welliannau lle credir eu bod yn angenrheidiol. Isod mae dolenni i'r storïau sut mae Taliadau Uniongyrchol wedi newid bywydau dau deulu ar yr ynys.

Stori Dylan - yn Gymraeg gydag isdeitlau Saesneg:

<http://www.anglesey.gov.uk/health-and-care/adult-services/care-in-the-home/direct-payments/see-dylans-story-on-video/>

Stori William- yn Saesneg gydag isdeitlau Cymraeg:

Plant a Theuluoedd

Mae'r **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yn ymestyn dros ardal dwy sir, Gwynedd a Môn, ac mae'n cynorthwyo plant a phobl ifanc yn y system gyfiawnder neu sydd mewn perygl o fynd i mewn iddo. Am y chweched flwyddyn yn olynol, cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn ganlyniadau cadarnhaol yn y chwe Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Mae cyfraddau a niferoedd y Bobl Ifanc sy'n dod i mewn i'r Gwasanaeth am y tro cyntaf yn parhau i ostwng. Mae'r defnydd a wneir o'r ddalfa'n parhau i fod yn isel (gan adlewyrchu tuedd genedlaethol). Er bod cyfraddau aildroseddu wedi parhau'n gyson uchel yn y blynyddoedd diwethaf, roedd y Tîm Rheoli a'r Bwrdd yn falch o weld cyfraddau ac amllder oedd ychydig yn is o gymharu â gweddill Gogledd Cymru a Chymru. Y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn 2018-19 yw datblygu mwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ni ei wneud i leihau cyfraddau aildroseddu a gwella'r gwaith darparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wrth wraidd gwaith datblygu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i blant a phobl ifanc, gyda mwy o gefnogaeth ariannol gan y Bwrdd Cynllunio Ardal. Awn i mewn i 2018-19 yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau plant a theuluoedd wrth greu tîm Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau gwell i'r ardal dwy sir.

Mae **Gwasanaethau Arbenigol Plant** wedi datblygu sesiwn 'galw heibio' reolaidd i'r holl blant, pobl ifanc a theuluoedd / gofalwyr sy'n mynychu Canolfan Addysg Y Bont. Gallai'r sesiynau hyn gynnwys cyngor a chefnogaeth gan Dîm Nyrsio Anabledau Dysgu Cymunedol Plant, sesiynau Teulu Môn / Tîm o amgylch y Teulu / Llwybr Niwroddatblygiadol, gan ddibynnu ar anghenion y plentyn ifanc, y person ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr.

Rydym yn defnyddio grant y Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu'r defnydd a wneir o **Gymorth Gweithredol a Dilyniant**. Mae'r gwaith unigol ar blant a phobl ifanc anabl bellach yn mynd rhagddo yn ein canolfan cefnogi arbenigol ym Mryn Hwfa. Mae'r rheolwr gwasanaethau cefnogi bellach yn creu cynlluniau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar y gwaith cymdeithasol neu'r asesiad nyrsio, ac yn cysylltu â chynlluniau Cymorth Gweithredol a ddefnyddir gan Ganolfan Addysg Y Bont. Mae'r Gweithwyr Cymorth yn gallu defnyddio'r rhain i greu dewislen o weithgareddau y gellir eu defnyddio i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

Nod **Cronfa Rhwydwaith Grwpiau Cymunedol** yw creu gwydnwch yn ein cymunedau, ac mae'n rhan arwyddocaol o'r Strategaeth Atal Plant a Theuluoedd. Bydd y gronfa fach hon yn helpu:

- I gynorthwyo grwpiau cymunedol newydd i gael eu sefydlu ar draws yr ynys.
- Grwpiau cymunedol presennol i gynorthwyo i brosesu grwpiau newydd.

- I ymgysylltu â chymunedau, cynnal digwyddiadau.
- I wella ar gynnwys plant ag anableddau mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.

Ein nod tymor hir yw sefydlu Hybiau Cymunedol Lles. Pwrpas yr hybiau hyn fydd darparu gwasanaethau'n lleol i deuluoedd, gan ddangos yn glir bod gwasanaethau ataliol o fudd i bawb.

Mae ein **Strategaeth Chwarae** yn cynorthwyo cymunedau trwy annog gwaith rhiantu cadarnhaol, da trwy chwarae. Nod yr elfen chwarae yw:

- Cynyddu'r cyfleoedd i chwarae o fewn cymunedau.
- Annog gwaith datblygu ardaloedd chwarae i blant a phobl ifanc o fewn cymunedau.
- Annog chwarae cadarnhaol a chymryd risg priodol.

Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Gweithredu Strategaeth Dementia Ynys Môn yn llawn a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Dementia Lleol, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid y trydydd sector.
- Cynnal adolygiad o wasanaethau dydd mewnol, gan ganolbwyntio ar ddilyniant, dewis cleientiaid a chanlyniadau.
- Gwneud y mwyaf posib o'r cyfleoedd y mae'r prosiectau OPUS yn eu cynnig i gynorthwyo pobl a busnesau.
- Gweithio tuag at barhau i gynyddu nifer y rhai sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol.
- Bod â chytundeb amlasiantaethol fel bod pob gweithiwr proffesiynol yn defnyddio Cymorth Gweithredol. Byddwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i'r holl staff perthnasol iddynt ddefnyddio mwy ar Gymorth Gweithredol ym mhob lleoliad ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, gan gynnwys yn y cartref.
- Defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gyflogi Cydlynedd Anghenion Ychwanegol a Lles. Bydd deilydd y swydd yn gweithio gyda theuluoedd i'w cynorthwyo a'u helpu i wella eu lles.

Mesur Safonau Ansawdd 4:

- 85.28% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Ydych chi'n teimlo bod y gefnogaeth a gewch gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich helpu i wneud y pethau sy'n bwysig i chi?"

"Mae'r profiad hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae [y gweithiwr cymdeithasol] wedi gwirioneddol fy helpu gyda'm dyfodol yn ogystal â'r presennol. Buaswn yn hapus iawn yn defnyddio'r gwasanaeth hwn eto.

Diolch yn fawr iawn i chi "-

Gwasanaethau Ymyrraeth ac Atal Cynnar, Plant a Theuluoedd

Safon Ansawdd 5

Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach

Oedolion

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â **Phartneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn** ac wedi datblygu Strategaeth Gofalwyr ar gyfer Gwynedd a Môn a chytuno arni. Mae gan y bartneriaeth aelodau o Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid y Trydydd Sector sy'n gweithio gyda Gofalwyr.

Mae grŵp lleol, **Grŵp Gofalwyr Ynys Môn** wedi bod yn datblygu Cynllun Gweithredu lleol i sicrhau y gweithredir y Strategaeth yn lleol. Yn canolbwyntio ar:

1. Hyrwyddo cymunedau 'cyfeillgar i ofalwyr'.
2. Gweithredu hawliau gofalwyr o bob oed i gael asesiad o'u hanghenion a datblygu llwybrau cyfeirio effeithiol ac effeithlon.
3. Hyrwyddo gwaith adnabod anghenion cynhalwyr o bob oedran yn gynnar, a sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau cefnogol, amserol a phriodol i wella'u hiechyd a'u lles.

Mae yna ddau Swyddog Gofalwr penodol sy'n gweithio o fewn Gwasanaethau Oedolion ac sy'n gallu cefnogi pob Gofalwr (gofalwyr ifanc ac oedolion) yn ei rôl o ddydd i ddydd, ac a all hefyd ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Ofalwyr. Maent yn asesu anghenion gofalwyr, eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn rhoi cysylltiadau iddynt â sefydliadau statudol a gwirfoddol, megis Cynnal Gofalwyr.

Mae seibiant yn parhau i gael ei roi gartref ac o fewn lleoliadau gofal, yn unol â dewis Gofalwyr unigol. Mae hyn yn eu cefnogi i gael cyfleoedd cymdeithasol yn ogystal â chyfleoedd addysgol. Cynigia seibiant ddilyniant gofal, ac egwylion ystyrllon i sicrhau bod anghenion y gofalwyr a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth yn cael eu diwallu, a'u cynorthwyo i barhau i weithredu fel Gofalwyr. Mae'r Awdurdod Lleol wedi derbyn cyllid gan Grant Gofal Seibiant Gofalwyr Llywodraeth Cymru, a ddefnyddir i roi opsiynau seibiant gwahanol i Ofalwyr o bob oed.

Rydym yn gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid a rhanddeiliaid i gyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu newidiadau i wasanaethau ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu - yn enwedig felly wasanaethau llety.

Plant a Theuluoedd



Mae Tîm o Amgylch y Teulu (a sefydlwyd yn 2012 drwy'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) yn parhau i roi ymyrraeth gynnar gynhwysfawr i Blant a Phobl Ifanc 0-25 oed, i'w gwarcheidwaid / rhieni, ac i aelodau eraill o'r

teulu. Y nod yw gweld eu problemau'n gynnar, gyda'r gobaith ein bod yn gwella'u sefyllfa er gwell er mwyn cydweithio i atal problemau rhag datblygu i fod yn rhywbeth mwy difrifol. Rydym wedi cefnogi 1,003 o deuluoedd dros y chwe blynedd diwethaf. Symudodd y Tîm o Amgylch y Teulu i'r Gwasanaethau Plant yn 2017 ac mae bellach yn rhan o'r hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth: Teulu Môn. Mae'r tîm hwn yn parhau i weithio'n agos gydag amrywiol asiantaethau i gyfoethogi, gwella a hyrwyddo ethos y gwasanaeth ymyrraeth gynnar trwy weithio'n amlasiantaethol. Nododd adroddiad arolygu'r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd yn 2016 bod tystiolaeth sylweddol o waith rhagweithiol gan y Tîm o Amgylch y Teulu gyda phlant a theuluoedd oedd yn cefnogi eu hannibyniaeth ac yn gwella lles. Rydym wedi cynyddu nifer gweithwyr y tîm o ddau Weithiwr Cymorth i chwech; bydd hyn yn cefnogi'n nod o roi mwy o gymorth cynnar wedi'i dargedu i deuluoedd sydd â'r angen mwyaf.

"Mae'ch cefnogaeth wedi bod yn help garw. Rydym wedi elwa o'ch cyngor a'ch dealltwriaeth. Rydych wedi bod yn ardderchog. Rydych wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rydym yn teimlo'n lwcus iawn o fod wedi cael eich help. Diolch."

Sefydlwyd y **Tîm Teuluoedd Gwydn** yn ystod y flwyddyn gyda chyllid ychwanegol y cytunodd aelodau etholedig iddo. Mae'r tîm bach o Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd bellach yn gweithio'n ddwys gyda theuluoedd a'r nodau craidd yw:

- atal plant rhag mynd i ofal,
- dychwelyd plant adref yn ystod yr wyth wythnos gyntaf o fynd i ofal a gweithio gyda theuluoedd i dychwelyd eu plant yn ddiogel,
- adolygu gwaith dychwelyd plant yn ddiogel mewn gofal tymor hir.

Er mwyn gweithio tuag at y nodau craidd hyn a chwrdd â nhw'n gyson, bydd y Tîm yn dod yn grŵp o weithwyr amlddisgyblaethol medrus iawn sy'n ymyrryd â theuluoedd sy'n amlygu lefel uchel o angen.

Mae **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd Gwynedd ac Ynys Môn** yn darparu tîm medrus, amlddisgyblaethol iawn i ymyrryd â theuluoedd sy'n amlygu lefel uchel o angen a risg oherwydd bod y rhieni / gofalwyr yn camddefnyddio sylweddau, a hynny er mwyn lleihau lefel y risg a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant mwyaf bregus. Cyflawnir hyn trwy ganolbwyntio'n barhaus a chanolbwyntio trwy'r system gyfan ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn seiliedig ar dystiolaeth

gadarn o effeithiolrwydd ac arfer gorau. Mae'r tîm yn cynnwys tri Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol a gweithiwr a fu'n gweithio yn y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn flaenorol.

Nod y Gwasanaeth yw creu newid parhaol o fewn teuluoedd fel bod modd i blant aros yn y cartref os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny. Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi gweithio gyda theuluoedd sydd wedi gallu dangos newidiadau parhaol yn eu bywydau – newidiadau sydd wedi cadw eu plant yn ddiogel. Ceir teuluoedd hefyd nad ydynt wedi gallu newid eu hymddygiad ac mae cynllun arall wedi'i wneud ar gyfer eu plant. Cyflawnwyd ein nod o weithio gyda 40 o deuluoedd yn ystod 2017/18.

Mae ein **Rhaglen Rhiantu** yn parhau i gefnogi teuluoedd sy'n agored i Wasanaethau Plant, i atal cyfeirio'r angen yn uwch ac i roi tystiolaeth ac asesu sgiliau rhiantu. Mae rhieni'n dysgu sgiliau a thechnegau newydd trwy ddilyn rhaglen 12 wythnos o'r enw'r Blynnyddoedd Rhyfeddol. Mae prosiect wedi'i gomisiynu ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a'r Gwasanaethau Plant i dreialu a monitro'r rhaglen rhiantu gyda gofaluwr maeth. Bydd canfyddiadau hyn yn helpu i gynhyrchu dogfen am faterion ymddygiadol plant mewn amgylchedd gofal maeth a nodi sut i ddatrys y materion hyn.

Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

- Gweithio gyda phartneriaid, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth i foderneiddio'n gwasanaethau ar gyfer y rhai ag Anableddau Dysgu
- Sicrhau fod teuluoedd gael gwybodaeth a chyingor amserol ac o ansawdd da.
- Sicrhau fod plant a theuluoedd gael ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n hyrwyddo rhiantu da.
- Gostyngiad yn nifer y plant y mae angen Cynllun Gofal a Chymorth arnynt.
- Cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau mewn Cyfathrebu Cydweithredol.
- Datblygu agwedd gymunedol y strategaeth Atal.
- Cynyddu cyfraddau cyfeirio o Wasanaeth Plant a Theuluoedd Ynys Môn i'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Ymgorffori Gweithiwr OEDI / MYFYRIO, fydd yn gweithio gyda merched sydd wedi gweld plant yn cael eu symud o'u gofal sawl gwaith, neu sydd mewn perygl o hyn yn digwydd iddynt.

Mesur Safonau Ansawdd 5:

- 94.50% o ofalwyr sy'n oedolion y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu hawl eu hunain
- 90.16% o ofalwyr sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn ystod y 6 mis diwethaf, ydych chi'n teimlo eich bod wedi cymryd cymaint o ran neu wedi ymgynghori cymaint ag yr oeddech chi'n ei

ddymuno, mewn trafodaethau ar y gefnogaeth a roddir i'r person yr ydych yn gofalu amdano?"

"Hoffem achub ar y cyfle hwn i fynegi pa mor broffesiynol y bu'r tîm maethu trwy gydol ein profiad maethu, ac ni allwn ddatgan ddigon sut gwnaeth [y gweithiwr cymdeithasol] y profiad cyfan yn haws. Mae hi'n sensitif, yn gefnogol iawn, yn hynod o effeithlon a threfnus, gan bob amser ymdrin ag unrhyw broblemau a gawsom yn syth. Mae hi'n llysgennad ardderchog dros faethu."

Safon Ansawdd 6

Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Oedolion

Parhawyd i ddatblygu **Hafan Cefni, Llangefni** yn ystod 2017-18 ac mae disgwyl cwblhau'r adeilad yn ystod haf 2018. Bydd yna 63 o fflatiau, cymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely, ar gyfer oedolion cymwys dros 60 oed. Caiff 15 o fflatiau eu dylunio a'u haddasu'n benodol ar gyfer pobl hŷn y mae eu cof yn mynd neu sy'n byw gyda dementia. Dyma'r ail gynllun Tai Gofal Ychwanegol ar yr Ynys, ac ychwanegiad pwysig i gyfleuster Gofal Ychwanegol Penucheldre yng Nghaergybi. Mae Swyddog Hafan Cefni wedi'i benodi ac mae'r broses ymgeisio ar gyfer gwneud cais am fflat yn Hafan Cefni wedi agor. Mae Panel Gosod wedi'i sefydlu ac mae fflatiau wedi dechrau cael eu neilltuo. Mae proses dadgomisiynu cartref gofal preswyl Plas Penlan yn Llangefni wedi bod yn ei le wrth i ni baratoi ar gyfer agor Hafan Cefni yn y dref. Mae disgwyl y bydd Plas Penlan yn cau yn ystod yr haf.

Cafwyd cyfnod o ymgysylltu rhwng Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018 yn ward Seiriol ynglŷn ag opsiynau datblygu cynllun Tai Gofal Ychwanegol ar safle Ysgol Gynradd Biwmares. Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, cytunodd y Pwyllgor Gwaith gyda'r argymhelliad i adeiladu'r cynllun Tai Gofal Ychwanegol ar safle Ysgol Gynradd Biwmares. Rydym bellach yn disgwyl am ganlyniad ymgynghoriad yr Adran Addysg ar ddyfodol ysgolion ar yr Ynys. Bydd canlyniad y broses honno'n pennu a fydd y Cyfleuster Gofal Ychwanegol yn rhannu'r safle gydag ysgol, ynteu a oes modd adeiladu cyfleuster pwrpasol a mwy ar y safle.

Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu model gwasanaeth i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia sy'n amlygu cymeriad gynyddol heriol ac anghenion gofal cymhleth. Mae **Garreglwyd** yn lleoliad preswyl gyda llety ac amgylchedd priodol i fodloni safonau gofal dementia. Mae yno staff hyfforddedig arbenigol a chefnogaeth mwy o weithwyr iechyd arbenigol ar ffurf Nyrs Seiciatrig Gymunedol a Nyrsys Ardal sy'n gweithio pedair awr ar hugain y dydd saith niwrnod yr wythnos. Mae'r model gwasanaeth yn fodd i bobl sy'n byw gydag anghenion cymhleth gael gwasanaeth yn eu cymuned eu hunain. Mae hyn yn ymateb yn rhannol i ddiffyg gwelyau Gofal Nyrsio Dementia ar yr Ynys, ac yn lleihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r Sir.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y dylid defnyddio £60m o **Gronfeydd Gofal Canolraddol** i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth, aros yn eu cartrefi eu hunain ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu i ofal preswyl heb fod rhaid. Yn lleol, rydym yn y broses o ddatblygu hyb cymunedol seiliedig ar lety wedi'i anelu at denantiaid sy'n byw mewn llety gwarchod yn Amlwch, gan ddefnyddio arian cyfalaf y Gronfa Gofal Canolraddol i gefnogi'r gwaith.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi asesu pob ardal ar draws yr Ynys i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio gwariant cyfalaf er mwyn gwella cymunedau, gan ei gwneud yn bosib i bobl fod yn fwy gwydn ac annibynnol yn eu hardaloedd, a chynhaliwyd trafodaethau ynglŷn ag anghenion lleol. Ystyriwyd bod Amlwch yn faes

a fyddai'n elwa o gyfran o'r Gronfa Gofal Canolraddol, yn benodol felly, stad William Williams VC, gan ymestyn allan i drigolion Madyn Dysw a Chartref Preswyl Brwynog.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn dau gam. Y cam cychwynol yw datblygu'r cyfleusterau cymunedol, sydd o fewn cyrraedd oddeutu 65 o bobl hŷn bregus yn Amlwch. Bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar wella'r amgylchedd, edrychiad y llety, yn enwedig y rhan gymunedol, a mabwysiadu model hyb cymunedol, gyda mynediad a chylchrediad o gwmpas y cynllun yn rhoi amgylchedd awyr agored sy'n oed gyfeillgar. Bydd Cam 2, a gaiff ei gwblhau o fewn 5 mlynedd fel rhan o waith cynnal a chadw cynlluniedig yr Adran Dai, yn cael ei ariannu'n llwyr o gronfeydd y Cyngor / y Cyfrif Refeniw Tai. Cymeradwyir cyfanswm o £228,000, sydd ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig. Mae ymgysylltu â thenantiaid a chymunedau yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect hwn, gan sicrhau bod yr anghenion yn cael eu diwallu trwy rannu syniadau ac awgrymiadau ar sut i fwrw ymlaen â hyn.

Gwasanaethau Plant

Rydym wedi datblygu **Protocol Tai a Gadael Gofal ar y cyd** er mwyn ymyrryd yn gynnar wrth gefnogi person ifanc mewn gofal pan fydd yn symud i annibyniaeth. Mae'r protocol yn ceisio sicrhau bod cyfrifoldeb corfforaethol ar y cyd i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc 16-25 oedran o ran llety, sy'n cwrdd â'r meini prawf fel y'u diffinnir dan Adran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal, heb orfod gwneud cais digartref. Bydd yn sefydlu rolau a chyfrifoldebau ac yn diffinio'r berthynas rhwng y ddau wasanaeth. Dylid nodi nad yw'r naill wasanaeth na'r llall yn annog byw'n annibynnol o 16 mlwydd oed. Byddir yn cefnogi person ifanc sydd â Chynllun Llwybr ac sy'n dangos yn glir y dymuniad a'r gallu i wneud hynny.

Ar unrhyw adeg benodol, bydd gan Gyngor Ynys Môn gyfrifoldebau i Blant a Phobl Ifanc y mae'n ofynnol, trwy statud, iddynt asesu eu hanghenion a darparu gwasanaethau ar gyfer eu lles cyffredinol, gan gynnwys tai. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn gosod dyletswydd ar y Cyngor a'i holl wasanaethau i sicrhau bod Pobl Ifanc yn cyflawni'r Canlyniadau Lles Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys eu cyfrifoldeb Corfforaethol dros bobl ifanc sy'n gadael gofal, fel y nodir yng nghategori 1 i 6 (gweler atodiad 1). Mae'r protocol ar y cyd:

- yn derbyn cyfrifoldeb am blant / bobl ifanc sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol
- yn sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn flaenoriaeth
- yn dymuno bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael yr un canlyniadau ag y byddai unrhyw riant da yn eu dymuno i'w plant

Gwasanaethau Tai

Rydym wedi datblygu **Pwynt Mynediad Sengl Tai (SPoA)** sy'n cyfeirio unigolion a theuluoedd bregus at wasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl, gyda'r bwriad o leihau digartrefedd a gwella'r gefnogaeth i'r aelwydydd mwyaf bregus ar ein hynys.

Mae SPoA newydd tai yn cael ei ariannu gan y rhaglen Cefnogi Pobl, ac mae wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2017. Gall y Llwybr Sengl helpu cwsmeriaid i gael

mynediad at wasanaethau cymorth tai priodol, gan ddibynnu ar feini prawf. Yn gyffredinol, cynigir cefnogaeth dros ychydig fisoedd, yn dibynnu ar yr angen. Fodd bynnag, gall y gefnogaeth barhau am hyd at ddwy flynedd ar y mwyaf, ac erbyn hynny dylai pobl feddu ar y sgiliau cywir i fyw'n annibynnol a chynnal tenantiaeth.

Mae gan rai darparwyr yr opsiwn o "ddipio" i mewn ac allan o'r gwasanaeth pan fo'r gofyn, ac atal amgylchiadau anodd rhag dod yn argyfwng. Mae'r gwasanaeth yn hyblyg a gellir cael mynediad ato pan fo angen a gall atal sefyllfa rhag mynd yn ddifrifol yn y man pan fo angen amdano.

Llwybr Iechyd Meddwl i unigolion ag anghenion llety

Mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn, Gwasanaethau Oedolion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y broses o ddatblygu Llwybr Iechyd Meddwl i unigolion, gan ganolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion llety. Y nod yw datblygu Llwybr Iechyd Meddwl i unigolion sydd â heriau iechyd meddwl ac a all gael trafferth i gynnal eu heiddo y maent yn ei rentu neu y maent yn berchen arno, a hynny yn ystod cyfnod o argyfwng personol. Gallai hyn fod naill ai trwy gymorth cam i lawr pan fydd unigolion yn gadael Hergest neu unrhyw ward iechyd meddwl arall. Unwaith y bydd y llwybr wedi'i gwblhau, byddwn yn mapio'r cymorth sydd ei angen yn ein cymunedau ar gyfer unigolion ag iechyd meddwl wrth gynnal eu heiddo. Bydd hyn yn gysylltiedig â SPoA Tai. Y nod yw darparu gwasanaeth cofleidiol i unigolion ag anghenion iechyd meddwl a sicrhau bod eu profiad o adael yr ysbyty (cam i lawr) mor gyfforddus â phosib ac yn eu hadfer cymaint â bo modd. Byddwn yn blaenoriaethu:

- Gwasanaeth camu i lawr i unigolion nad oes ganddynt gartref sefydlog fel rhan o'u cynllun gadael ysbyty
- Cefnogaeth tenantiaeth i unigolion â phroblemau iechyd meddwl yn y gymuned er mwyn cynnal eu tenantiaeth
- Ystyried llety brys i unigolion sy'n ddigartref ac sydd â phroblemau iechyd meddwl (nad ydynt o reidrwydd wedi bod yn yr ysbyty) lle na fyddai llety Gwely a Brechwast yn briodol o ystyried eu hanghenion.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc mewn un ardal ar yr Ynys. Mae hyn, yn ei dro, wedi cael effaith ar ystadegau troseddu pobl ifanc ac ar y gymuned ehangach. Gweithredwyd ar y mater difrifol hwn a chafwyd ymyrraeth iddo wrth i'r Gwasanaethau Plant, Tai, Heddlu Gogledd Cymru a Chyfiawnder Ieuencid weithredu'n amlasiantaethol. Trwy rannu gwybodaeth a digwyddiadau'n aml a chyflwyno pecyn cymorth pwrpasol i'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc dan sylw, cafwyd gostyngiad cadarnhaol mewn adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc yn yr ardal hon dros y flwyddyn. Mae gwasanaethau wedi'u haddasu i ddiwallu dymuniadau a dyheadau pob person ifanc, gan leihau'r diflastod, gan sicrhau

tryloywder gyda'r bobl ifanc o ran yr effaith y caiff eu hymddygiad yn y gymuned a datblygu ymyriadau y mae eu hangen ar y bobl ifanc a'u teuluoedd.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Oedolion

Mae dwy stad Cyngor ar yr Ynys wedi arddangos materion arwyddocaol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith ar ddioddefwyr a throseddwyr, yn ogystal ag ar y gymuned ehangach. Yn aml, nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r unigolyn dan sylw gan nad yw'n derbyn gwasanaethau ein Hadran Gwasanaethau Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr nac unrhyw gorff statudol arall. Dull gweithredu a fabwysiadwyd oedd mynd i'r afael â'r materion yn uniongyrchol gyda'r stadau dan sylw, oedd yn cynnwys troseddwyr a dioddefwyr honedig. Digwyddodd hyn mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a darparwyr y rhaglen Cefnogi Pobl. Dros y 12 mis diwethaf, roedd oddeutu 400 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol tenantiaid. Trwy weithredu'n ataliol ac ymyrryd yn gynnar, rydym yn ceisio lleihau'r niferoedd hyn a dylai hyn, yn ei dro, wella lles y gymuned.

Blaenoriaethau 2018/19

- Parhau i weithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i gynnig cyfleoedd i'r rheiny ag Anableddau Dysgu chwarae rhan weithgar yn y gymuned a chyflawni eu nodau personol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tai a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu'r Llwybr Tai Iechyd Meddwl
- Parhau i hyrwyddo'r Grwpiau Lles Cymunedol trwy gyfeiriadau gofal sylfaenol ac eilaidd i hyrwyddo lles ac adferiad yn y gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Mesur Safonau Ansawdd 6:

- Atebodd 95.33% ie i "Yn ystod eich asesiad, ailasesiad neu adolygiad, oeddech chi'n gallu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?"
- 98.76% o gleientiaid sy'n oedolion ac sy'n gofyn am wasanaeth yn Gymraeg sy'n mynd ymlaen i dderbyn eu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

"Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac am yr holl newidiadau yr ydych wedi'u gwneud sydd wedi newid y gofal yr wyf wedi'i gael yn sylfaenol. Alla i ddim pwysleisio ddigon pa mor ddiolchgar ydw i i chi am wella ansawdd fy mywyd." **Oedolion Tîm y Gogledd, Gwasanaethau Oedolion**

Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Ein staff yw ein hased mwyaf, a chredwn fod angen eu cefnogi trwy gynnig cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus cryf, hyfforddiant a datblygu eu gyrfa. Mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu yn parhau i drefnu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r bartneriaeth gofal cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn, gan gynnwys staff a rheolwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau Gofal Preswyl.

Ym mis Hydref 2017 gweithredwyd y strwythur newydd ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i fodloni anghenion y busnes yn llawn a rhoi gwell cefnogaeth. Rydym wedi ailstrwythuro'r Gwasanaeth fel bod Gweithwyr Cymdeithasol mewn Grwpiau Ymarfer bychan. Fel hyn, mae modd i'r Arweinydd Ymarfer ddod i adnabod yr achosion a gefnogir gan eu Gweithwyr Cymdeithasol yn dda, rhoi arweiniad clir a Goruchwyliaeth reolaidd. Rydym wedi recriwtio nifer sylweddol o Weithwyr Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag ehangu nifer y Swyddogion Ymgysylltu. Cafodd cynllun hyfforddi a datblygu'r gwasanaeth ei lywio ar gyfer y flwyddyn gan strwythur gwasanaeth newydd y defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â chan gynllun gwella'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen ymsefydlu Arweinwyr Ymarfer ac elfennau allweddol megis Goruchwyllo yn Canolbwyntio ar Ganlyniad. Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio hefyd i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol i'r gwasanaeth.

Parhau bu hanes gwaith ymgorffori egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar ddulliau sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnwys Sgwrsio Cydweithredol, Cyfweld Ysgogol ac Ymarfer Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Darparwyd hyfforddiant arbenigol hefyd ar y Model Risg, Masnachu Plant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae datblygiadau mewn Gwasanaethau Oedolion wedi parhau i ganolbwyntio ar gefnogi a galluogi unigolion annibynnol a chymunedau cryf. Mae hyfforddiant dementia wedi cynnwys amryw o sesiynau ar elfennau megis gweithgareddau hamdden, deall ymddygiad a chynllunio gofal i gryfhau gwybodaeth a sgiliau rheolwyr, gweithwyr rheng flaen a gofalcwyr ar draws y sector. Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i gydlynu Cynhadledd lwyddiannus Dementia Gogledd Cymru a roes gyfle gwerthfawr i drafod ymchwil cyfredol a phrofiadau byw a myfyrio arnynt.

Un o brif flaenoriaethau eleni oedd sicrhau bod gennym weithlu sydd â sgiliau a chymwysterau addas i gwrdd â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Bu nifer o sesiynau ymwybyddiaeth yn ogystal â hyfforddiant mwy penodol ar gyfer Unigolion Cyfrifol. Mae Canolfan Anterth yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y gweithlu'n cadw lefel y cymwysterau angenrheidiol ac a argymhellir ar gyfer eu rôl. Cefnogwyd unigolion i gwblhau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 2, 3 a 5, Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Dyfarniad Lefel 2 a 3 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Dementia a Dyfarniad Lefel 2 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Gofal Diwedd Oes.

Mae'r cyfleoedd cymhwyso ac ôl-gymhwyso a gynigiwn yn rhan bwysig o recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol yn y sector. Drwy ein partneriaeth â Phrifysgol

Bangor sydd wedi hen ennill ei phlwyf, bu i ni gefnogi'r amrywiaeth cyfleoedd dysgu arferol ar gyfer ein myfyrwyr M.A. Gwaith Cymdeithasol yn y sector statudol a'r trydydd sector. Rydym hefyd wedi rhoi cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr sy'n astudio B.A. mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Agored Cymru. Bu i ni recriwtio dau Fyfyriwr Gwaith Cymdeithasol dan hyfforddiant sy'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae un ar hyn o bryd yn astudio tuag at B.A. mewn Gwaith Cymdeithasol trwy Brifysgol Agored Cymru ac mae'r llall yn astudio tuag at M.A. ym Mhrifysgol Bangor.

Ar ben hynny, rydym wedi parhau i gefnogi ymarferwyr sydd newydd gymhwyso trwy eu tair blynedd gyntaf yn ymarfer – gwaith sy'n cynnwys y Rhaglen Cydgrynhoi, Porth Agored. Rydym hefyd wedi cefnogi gweithwyr cymdeithasol profiadol trwy gymwysterau ôl-gymhwyso amrywiol, gan gynnwys Gwobr Addysgu Ymarfer, Rhaglen Uwch-ymarferydd, Rhaglen Datblygu'r Rheolwr Tîm a Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cydnabyddedig.

Mae tri o'n Huwch-reolwyr wedi cwblhau'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol yn llwyddiannus.

Enwebodd yr adran bedwar aelod o staff o'r Gwasanaethau Plant i fod yn llysgenhadon ar gyfer y Rhaglen Llysgennad Gofal. Mae'r llysgenhadon gofal yn gweithio gydag ystod eang o bobl, yn ogystal â myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau sy'n dymuno ystyried gweithio mewn gofal cymdeithasol; blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Rhoesom hefyd gyfleoedd i ymarferwyr oedd heb gymhwyso ac sy'n cynnal asesiadau i ymgymryd â Gwobr Ymarferydd y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn unol â'n Fframwaith Hyfforddi Diogelu Corfforaethol, cydlynwyd hyfforddiant Diogelu Sylfaenol a Chyffredinol gennym ar draws y sefydliad, hyfforddiant a gyflwynir fel rhaglen dreigl. Darparwyd hyfforddiant arbenigol hefyd, megis Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, Masnachu Plant a Hunanesgeulustod. Yn unol ag agenda Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod wedi sicrhau bod hyfforddiant e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lefel 1 yn cael ei roi i gynyddu ymwybyddiaeth staff. Bydd rhagor o fodiwlau e-ddysgu mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Atal yn cael eu cyflwyno yn ystod y misoedd nesaf.

Gan edrych ymlaen, rydym yn rhagweld rhagor o weithio'n rhanbarthol, gan gynnwys meysydd megis Hyfforddiant Ymchwilio ar y Cyd, Fframwaith Maethu Cenedlaethol, Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Rhaglen hyfforddiant rhanbarthol Gofal Iechyd Parhaus a'r Fframwaith Dysgu a Datblygu ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ymateb i newidiadau dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, megis cofrestru, cymwysterau a gwreiddio'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ein Hadnoddau Ariannol a sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus a hirfaith; mae'r cyllid a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng o £101m yn 2013/14 i £95.8m yn 2018/19. Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, mae'r Cyngor wedi gwneud dros £18m o doriadau i'r gyllideb dros yr un cyfnod, gan ddod â'r gyllideb net i lawr o £129.3m yn 2013/14 i £125.6m yn 2018/19 (mae hyn ar ôl caniatáu dyfarniadau cyflog, chwyddiant a chynnydd mewn prisiau eraill).

Roedd sefyllfa diwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £1,992k yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18. Roedd y Gwasanaethau Plant wedi gorwario £1,778k, yn bennaf oherwydd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, a honno'n nifer nad oedd wedi'i gweld o'r blaen. Rhoddwyd cyllid ychwanegol o £582k i'r Gwasanaeth ar gyfer 2016/17 i 2018/19 i sefydlu tîm Ymyl Gofal gyda'r bwriad o leihau nifer y Plant sydd mewn Gofal. Gorwariodd Gwasanaethau Oedolion £215k yn 2017/18, yn bennaf oherwydd pwysau ffioedd a newidiadau deddfwriaethol. Mae cyllid ychwanegol wedi'i roi i'r Gwasanaeth Plant i gwrdd â'r pwysau hwn.

Serch hynny, mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod y llymder sydd ohoni ac yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli'r galw, gyda Gwasanaethau Oedolion yn cyfrannu at £559k o arbedion yn 2017/18, gyda chytundeb wedi'i roi am ragor o arbedion, sef, £350k, ar gyfer 2018/19. Mae'r Gwasanaethau Plant yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn lleol i blant sy'n derbyn gofal.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod a chynllunio cyllideb effeithiol a reolir yn dda, ac mae aelodau etholedig yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen gynllunio gylchol a chraffu ar osod a monitro cyllidebau.

Mae gwaith amcangyfrif newidiadau yn y dyfodol yn heriol, oherwydd nad oes gwybodaeth gywir am aneddiadau llywodraeth leol yn y dyfodol ond mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld y gallai fod angen gwneud hyd at £5.25m o doriadau ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf o 2019/20 i 2021/22.

Yn y tabl isod amlinellir cyfrifon ariannol ein Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18:

	Cyllideb £	Gwirioneddol £	Gwahaniaeth £
GWASANAETHAU PLANT	8,291,420	10,069,077	1,777,657
GWASANAETHAU OEDOLION			
POBL HŶN	6,142,940	5,940,211	-202,729
ANABLEDDAU CORFFOROL	1,562,890	1,786,149	223,259
ANABLEDDAU DYSGU	5,378,650	5,859,647	480,997
IECHYD MEDDWL	1,884,450	1,993,671	109,221
GWASANAETHAU CEFNOGI	1,306,110	1,133,565	-172,545
UNED DARPARU (GOFAL MÔN/ GWASANAETHAU ERAILL)	6,128,480	5,904,137	-224,343

GWASANAETHAU ERAILL	65,480	58,374	-7,106
CYFANSWM	30,760,420	32,744,831	1,984,411

Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, ein Llywodraethiant a'n Hatebolrwydd

Mae llywodraethiant gwleidyddol yn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac wedi mesur gwaith craffu cynnydd.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol ac ar y Pwyllgor mae'r Arweinydd ac wyth Aelod Portffolio, Ers etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2017 mae'r Arweinydd wedi cymryd y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol. Dangosir effeithiolrwydd cynyddol y Pwyllgor wrth iddo wneud penderfyniadau anodd megis *Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn* (er enghraifft, mae gwaith adeiladu Tai Gofal Ychwanegol yn Llangedfni bron â'i gwblhau - Hafan Cefni). Wedi edrych ar safleoedd, penderfynwyd codi adeilad Gofal Ychwanegol arall yn ward Seiriol a neilltuo adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant

Gweithio mewn Partneriaeth

Sefydlwyd Panel newydd o Aelodau Etholedig ar ôl etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant. Daw'r aelodaeth o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol, ac mae wedi rhoi cyfle i'r Aelodau wella eu gwybodaeth am y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth a'u dealltwriaeth ohono, gan arwain at graffu'n well.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydnabuwyd hyn fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol i ni adeiladu arnynt. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i fod yn rhan weithredol o agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu trwy gydweithredu.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Mae gan y Gydweithredfa raglen gynhwysfawr o welliant yn ei lle trwy gydweithio, gan ganolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir gweld tystiolaeth bellach o'r ethos partneriaeth hwn trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r Bwrdd Cyflenwi Integredig. Cyfarfu'r Bwrdd Cyflenwi Integredig bob dau fis yn ystod 2017-18 gyda swyddogion strategol allweddol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector yn bresennol. Pwrpas y Bwrdd Cyflenwi Integredig yw sicrhau y bydd anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn cael eu gwasanaethu'n well wrth i wasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol gael eu hintegreiddio'n well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflenwi Integredig, gyda chyfrifoldeb dros gyflwyno'r Rhaglen Waith fanwl.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn a phobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae'r Gronfa Gofal

Integredig wedi'i gwario ar ddatblygu Garreglwyd fel cartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a gwasanaethau Gofal Uwch Môn a Thylluanod y Nos o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae bwrdd partneriaeth ar y cyd i Wynedd a Môn wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys prif sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan i 14 ardal lai (chwe ardal i Ynys Môn). Cynhaliwyd ymchwil ar ran y Bwrdd ar bob un o'r meysydd i ddysgu a deall mwy am eu lles. Cynhaliwyd nifer o sesiynau galw heibio cyhoeddus ac roedd holiadur ar-lein er mwyn i drigolion gael dweud eu dweud am eu cymunedau. Canlyniad yr ymchwil oedd yr Asesiad Llesiant ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Defnyddiwyd yr asesiad hwn gan bartneriaid y Bwrdd i ddrafftio'r cynllun Llesiant i'w fabwysiadu yn ystod 2018/19.

Rydym yn parhau i ymgynghori'n agos â'r Trydydd Sector a gweithio mewn partneriaeth agos â nhw trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol sy'n cwrdd bob chwarter. Rydym yn cydnabod rôl y **Trydydd Sector** yn lleol fel partner strategol ac rydym wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn, er enghraifft, rôl Medrwn Môn ar grŵp gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu grŵp partneriaeth y trydydd sector sy'n gyfrifol am gyflawni amcanion y Cyngor a sicrhau y cydymffurfir â thechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid.

Perfformiad

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ymgorffori fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mabwysiadwyd y fframwaith hwn i sicrhau bod y meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai gwaith ei fonitro adnabod materion cyn y byddir yn tanberfformio - rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion.

Mae'r arfer hwn wedi gweld gwelliannau mewn nifer o ddangosyddion gwasanaethau cymdeithasol, gyda llwyddiant arbennig yn cael ei weld ym mherfformiad dangosyddion gofal a ddarperir i Oedolion. Gwellodd Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant yn ail hanner 2017-18, er i danberfformio yn ystod y chwe mis cyntaf gael effaith ar y canlyniadau cronol ar gyfer y flwyddyn. Bydd gwelliannau mewn perfformiad a chysondeb ymarfer yn flaenoriaethau ar gyfer 2018-19.

Y Panel o Aelodau Etholedig fydd yn goruchwyllo'r cynnydd a geir yn gweithredu Cynllun Gwellar Gwasanaeth Plant (caiff hyn ei weithredu'n gyflym gyda chynnydd sylweddol yn erbyn 16 o'r 21 cam gweithredu. Bydd cwblhau'r gwaith ar y pum cam gweithredu arall yn flaenoriaeth ar gyfer 2018-19).

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	16 Gorffennaf 2018
Pwnc:	Gweledigaeth a Strategaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru: Cytundeb Llywodraethiant
Aelod(au) Portffolio:	Arweinydd y Cyngor Deilydd Portffolio – Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd
Pennaeth Gwasanaeth:	Dylan J Williams (Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd)
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Dr Gwynne Jones 01248 752102 Gwynnejones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Perthnasol i bawb

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

1. Bod y cynnydd ar ddatblygiad y Bid Bargen Twf yn cael ei nodi a'i groesawu.
2. Bod cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethiant yn cael ei gymeradwyo, ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trefniadau Anweithredol h.y. y trefniadau sgrwtini.
3. Y Cyngor i gael drafft terfynol o'r Bid Bargen Twf ar gyfer ei adolygu a'i gymeradwyo ym Medi/Hydref 2018 cyn iddo gyrraedd cam y Penawdau Telerau gyda'r ddau Lywodraeth.
4. Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn cydweithrediad â'r Arweinydd i gwblhau amodau'r Cytundeb Llywodraethiant yn unol i raddau helaeth â'r drafft sydd ynghlwm yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn.
5. Bod y trefniadau Gweithredol sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethiant yn cael eu cynnwys yn y Cyfansoddiad a gofyn i'r Cyngor gynnwys y trefniadau Anweithredol yn ymwneud a sgrwtini yn y Cyfansoddiad.

CRYNODEB

Yn dilyn adroddiadau'r Pwyllgor Gwaith a dderbyniwyd ar 19/9/16, 14/2/17 a 18/9/17 mae Aelodau wedi mabwysiadu Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Mae'r weledigaeth yn gosod uchelgais gyfunol a strategol i Ogledd Cymru o ran datblygiad isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Mabwysiadwyd y

CC-20677-LB/444215

strategaeth hefyd gan y pum Cyngor arall yr ydym yn bartneriaid â nhw yn y rhanbarth.

Yna, gwahoddwyd Gogledd Cymru yn ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth fel Bid Bargaen Twf ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a chadarnhawyd pwerau i'r rhanbarth gan Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar y pryd, cafodd model cydbwyllgor statudol ei fabwysiadu, gan yr holl bartneriaid, fel yr un a ffafrwyd ar gyfer gwaith llywodraethu ar y Bid.

Mae'r Pwyllgor Rhanbarthol wedi mabwysiadu'r teitl 'Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru' gan y cyn gorff ymgynghori rhanbarthol a oedd â'r un enw. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno y Cytundeb Rhyng-awdurdod ar gyfer y cam cyntaf o weithio rhanbarthol. Defnyddir y term Cytundeb Llywodraethiant yn lle Cytundeb Rhyng-awdurdod gan fod gan y bartneriaeth aelodaeth sydd y tu hwnt i awdurdodau lleol yn unig. Daw'r cyn Fwrdd Uchelgais Economaidd yn grŵp rhanddeiliaid â chynrychiolwyr dethol o'r sectorau twf a sylfaenol sy'n ffurfio'r economi ranbarthol.

Mae angen Cytundeb Llywodraethiant er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol a chyflwyno pwerau gwneud penderfyniadau i'r Bwrdd o fewn y cyfyngiadau penodedig. Bydd Bwrdd yn gyfrifol am reoli dau gam o'r broses o ddatblygu'r Bid. Y cam cyntaf, yn arwain at gytundeb â'r Llywodraethau ar Fargaen Twf, yw'r cam o baratoi a datblygu'r Bid. Bydd hyn yn rhedeg tan ganol 2019. Yr ail gam, yn dilyn cytuno ar y Bid, a fydd yn rhedeg o ganol 2019 fydd y cam o weithredu a darparu'r Bid. Mae'r Cytundeb Llywodraethu hwn yn ymdrin â'r cam cyntaf. Bydd ail Gytundeb Llywodraethu, mwy cynhwysfawr, yn cael ei ddrafftio ar gyfer yr ail gam.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno cynnwys y Bid Bargaen Twf mewn unrhyw fanylder gan mai prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Cytundeb Llywodraethu ar gyfer ei fabwysiadu. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cytuno ar Gynigiad Strategol ar gyfer y Bid yn ei gyfarfod nesaf a bydd ar gael i aelodau'r cyrff partner unwaith y bydd fersiwn derfynol wedi'i llunio.

MANYLION YR ADRODDIAD

1.00	CYNNYDD WRTH DDATBLYGU'R BID BARGEN TWF
1.01	Mae Bid Bargaen Twf yn gais ffurfiol ar gyfer buddsoddiad gan y Llywodraeth ac yn gadarnhad o ddatganoli pwerau. Mae angen i ranbarthau sy'n ymgeisio gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, ochr yn ochr â Llywodraeth(au), mewn dyraniadau cyfalaf, rhannu benthyca cyfalaf, y defnydd o dir ac asedau ac wrth geisio cael capasiti proffesiynol a phrosiect. Bydd gan bob cais amcanion a thargedau sydd wedi'u negydu. Ar gyfer Gogledd Cymru,

	Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe, mae'r broses fidio yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
1.02	<p>Ers yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Gwaith mae'r model llywodraethu o bwyllgor statudol ar y cyd wedi'i sefydlu ar 'ffurf cysgodol'. Ystyr 'ffurf cysgodol' yw bod y Pwyllgor yn cyfarfod ac yn gweithredu drwy gytundeb yr holl bartneriaid ac ar ffurf baratoadol ond heb y capasiti i wneud penderfyniadau rhwymol ar ran y partneriaid. Mae angen Cytundeb Rhyng-awdurdod er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol ac er mwyn rhoi pwerau gwneud penderfyniad i'r Bwrdd o fewn y cyfyngiadau perthnasol.</p> <p>Mae angen Cytundeb Llywodraethu er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol a chyflwyno pwerau gwneud penderfyniadau i'r Bwrdd o fewn y cyfyngiadau penodedig. Bydd y Bwrdd yn rheoli dau gam o'r broses o ddatblygu'r Bid. Y cam cyntaf, yn arwain at gytundeb ar Fargen Twf gyda Llywodraethau, yw'r cam o baratoi a datblygu'r Bid. Bydd hyn yn rhedeg tan ganol 2019. Yr ail gam, yn dilyn cytuno ar y Bid, ac a fydd yn rhedeg o ganol 2019 ac am nifer o flynyddoedd fydd y cam o weithredu a darparu'r Bid.</p>
1.03	Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r teitl gwaith 'Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru' gan y bwrdd cynghori rhanbarthol a oedd â'r un enw. Aelodau llawn y Bwrdd yw'r chwe awdurdod unedol yn yr ardal. Mae Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a (Choleg) Grŵp Llandrillo-Menai a Chyngor Busnes Merswy Dyfrdwy Gogledd Cymru yn aelodau ymgynghorol o'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ar gyfer ei fabwysiadu, y Cytundeb Rhyng-asiantaeth ar gyfer y cam cyntaf o weithio rhanbarthol. Defnyddir y term Cytundeb Llywodraethu yn lle'r Cytundeb Rhyng-awdurdod gan fod gan y bartneriaeth aelodau sydd y tu hwnt i awdurdodau lleol yn unig.
1.04	Bydd y cyn Fwrdd Uchelgais Economaidd yn dod yn grŵp rhanddeiliaid gydag aelodaeth o'r sectorau twf a sylfaenol sy'n ffurfio'r economi ranbarthol. Bydd y grŵp rhanddeiliaid yn grŵp cyfeirio pwysig er mwyn mewnbynnu cysyniadau a chynigion ar gyfer twf ranbarthol, er mwyn darparu cyngor arbenigol a thystiolaeth, er mwyn hysbysu penderfyniadau ac i ddal y Bwrdd yn atebol ar gyfer y cynnydd gyda'r weledigaeth a'r strategaeth ranbarthol a'r Bid Bargen Twf. Bydd Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid yn cael ei wahodd i fod yn aelod ymgynghorol o'r Bwrdd newydd yn unol â'i ddisgresiwn. Bydd y berthynas ffurfiol â'r grŵp rhanddeiliaid, sydd yn y broses o gael ei ffurfio, yn cael ei fewnosod yn yr ail Gytundeb Llywodraethu.
1.05	Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno cynnwys y Bid Bargen Twf mewn unrhyw fanylder gan mai prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Cytundeb Llywodraethu ar gyfer ei fabwysiadu. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cytuno ar Gynigiad Strategol ar gyfer y Bid yn ei gyfarfod nesaf a bydd ar

	<p>gael i aelodau'r cyrff partner unwaith y bydd fersiwn derfynol wedi'i llunio. Mae'r chwe Cyngor yn cael eu hannog i gynnal briffiau mewnol â'u haelodau er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac er mwyn ystyried eu safbwyntiau fel rhan o ymgynghori ac ymgysylltu parhaus.</p>
1.06	<p>Mae'r Bid Bargaen Twf yn seiliedig ar y prif themâu a ganlyn ar gyfer y rhaglen:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tir ac eiddo • Ynni • Technoleg ac arloesedd • Twf Busnes Rhanbarthol • Sgiliau a chyflogaeth • Canolfannau Rhagoriaeth • Cysylltedd digidol • Trafnidiaeth Strategol
2.00	Y MODEL LLYWODRAETHU A'R CYTUNDEB LLYWODRAETHU
2.01	<p>Mabwysiadodd yr holl bartneriaid i'r Bid Bargaen Twf y model llywodraethu a ffeifrir yn 2017 ac mae bellach yn fodel sydd wedi'i sefydlu'n ac sydd ar y trywydd iawn ar gyfer cyflwyno Bid i'r Llywodraethau ar gyfer cytundeb cychwynnol yn 2018. Mae Cytundeb Llywodraethu wedi'i ddatblygu ar gyfer y cam cyntaf hwn o'r Bid Bargaen Twf ar gyfer ei fabwysiadu gan holl bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cytundeb Llywodraethu wedi'i ddatblygu gan y rhwydwaith Penaethiaid Cyfreithiol rhanbarthol a gyda chyngor arbenigol ac annibynnol yr ymgynghorwyr cyfreithiol Pinsent Masons. Mae nodweddion allweddol y Cytundeb Llywodraethu wedi'u crynhoi yn y paragraffau canlynol.</p>
2.02	<p>Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ei hun yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol (yr arweinwyr), y ddwy brifysgol a dau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Merswy Dyfrdwy Gogledd Cymru. Dros amser, bydd y Bwrdd yn cael ei gefnogi gan nifer o is-fyrddau arbenigol. Bydd yr is-fyrddau hyn yn ehangu'r amrywiaeth o randdeiliaid sydd ynghlwm â'r model llywodraethu. Mae darlun diagramatig o'r Bwrdd a'r is-fyrddau wedi'i atodi fel Atodiad 2. Mae Cylch Gorchwyl drafft wedi'i baratoi ar gyfer y Bwrdd a'r is-fwrdd sy'n trafod aelodaeth, cadeirio, rolau, swyddogaethau, cyfrifoldebau a phwerau, siarad a gwneud penderfyniadau.</p>
2.03	<p>Y model llywodraethu sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer y Bwrdd yw cydbwyllgor gweithredol h.y. cydbwyllgor o gabinetau/pwyllgorau gwaith. Nid yw'r model hwn yn ddelfrydol ar gyfer y ffordd y mae'r bwrdd yn dymuno gweithredu, er enghraifft ni all y partneriaid nad ydynt yn awdurdodau lleol</p>

	fod yn aelodau pleidleisio o gydbwyllgor gweithredol, ond mae'r model gorau sydd ar gael o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Er mwyn gweithio o amgylch y cyfyngiadau hyn, mae dull gweithredu'n cael ei argymhell lle bydd y Bwrdd yn ceisio dod i gonsensws cyn cymryd pleidlais ffurfiol. Disgwylir y bydd model deddfwriaethol, sy'n caniatáu cyfranogiad llawn gan yr holl bartneriaid, yn cael ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru yn y Bil diwygio Llywodraeth Leol sydd i'w ddisgwyl yn ddiweddarach eleni.
2.04	Mae'r Cytundeb Llywodraethu yn cynnwys yr hawl i unrhyw ddau barti ofyn am fater i gael ei ail ystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer "cyfnod cnoi cil" a byddai'n rhoi mwy o amser i'r Bwrdd ddod o hyd i ddatrysiad mewn perthynas â phenderfyniadau heriol. Mae'r ddarpariaeth yn atgyfnerthu'r bwriad i weithio drwy gonsensws a gwarchod y partion hynny nad oes ganddynt bleidlais ffurfiol.
2.05	Bydd rhai prif feysydd o'r broses gwneud penderfyniadau, y cyfeirir atynt fel "materion wrth gefn", y tu allan i awdurdod dirprwyedig y Bwrdd. Byddai penderfyniad arfaethedig y Bwrdd yn achos mater wrth gefn, yn y lle cyntaf, angen ei ystyried a'i ganiatáu gan bob corff partner i'r Bwrdd. Yn achos y chwe Chyngor, byddai hyn yn gofyn am benderfyniad ffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor. Mae rhestr y materion wrth gefn yn cynnwys:- <ul style="list-style-type: none"> • Cytundeb o swyddogaethau i'w rhoi i'r Bwrdd; • Cytundeb o gyfraniadau cyllideb blynyddol ar gyfer y Bwrdd a'r Awdurdod; • Ymrwymïadau buddsoddi a benthyca a lefelau amlygiad i risg; a • Dyraniad tir ac asedau eraill ar gyfer eu rhannu
2.06	Golyga hyn, ar gyfer y chwe Chyngor, y bydd y penderfyniadau pwysicaf yn cael eu cymryd yn lleol gyda gwaith y Bwrdd yn cael peth cyfeiriad gan yr aelodaeth ehangach. Mae darpariaethau cyfansoddiadol o'r math hwn yn ffynhonnell o sicrwydd ar gyfer aelodau ac maent yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r rôl y swyddogaeth trosolwg a sgrwtini lleol. Yn ystod y cam cyntaf o'r gwaith ar y Bid fe argymhellir y dylai argymhellion y Bwrdd ar gyfer y Bid fod yn destun sgrwtini lleol drwy'r pwyllgor sgrwtini mwyaf priodol ym mhob Cyngor, yn hytrach na chyflwyno ffurf ranbarthol o sgrwtini a allai gael ei weld fel rhywbeth mwy pellennig.
2.07	Mae gan y Bwrdd y capasiti i greu Is-fyrddau a allai un ai fod â sail statudol neu sail ymgynghorol, yn dibynnu ar eu swyddogaethau, pwerau ac aelodaeth. Y byrddau cyntaf i gael eu creu yw'r Is-fwrdd Trafnidiaeth a'r Is-

	fwrdd Darpariaeth Ddigidol. Bydd y ddau yn cael eu sefydlu'n ffurfiol fel is-bwyllgorau, ar sail statudol, fel bod modd cael pwerau wedi'u dirprwyo iddynt. Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli, a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, yn adrodd yn ddeublyg i Lywodraeth Cymru ac i'r Bwrdd fel Is-fwrdd ymgynghorol. Bydd y set o Is-fyrddau a argymhellir y bydd eu hangen ar gyfer ail gam y Bid Bargaen Twf wedi'u cynnwys yn yr ail Gytundeb Llywodraethiant.
2.08	Mae'r Cytundeb Llywodraethu hefyd yn cynnwys goblygiadau cyfatebol rhwng y partneriaid a pha bynnag awdurdod a ddewisir fel yr awdurdod sy'n gweinyddu'r Bwrdd, megis rhannu atebolrwydd ar gyfer costau cyflogaeth. Bydd yr holl bartneriaid yn arwyddo'r Cytundeb Llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd iddynt am raddau eu rhwymedigaethau a'u hatebolrwydd.
2.09	Mae'r Cytundeb Llywodraethu a gyflwynir yma ar gyfer cam cyntaf gwaith y Bwrdd yn unig. Bydd Cytundeb Llywodraethu mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno ar gyfer yr ail gam – gweithredu a darparu'r Bid – yn gynnar yn 2019.
3.00	CAMAU NESAF DATBLYGIAD Y BID BARGEN TWF A CHYMERADWYAETH
3.01	Mae'r Bid Bargaen Twf bellach wedi cael ei datblygu i lefel uchel gyda chynnwys y Bid ar fin cael ei flaenoriaethu yn unol ag (1) dewis rhanbarthol ac uchelgais (2) cyngor anffurfiol gan y Llywodraeth ar y rhaglenni a'r prosiectau a allai fod yn gymwys ar gyfer eu cymorth a (3) asesiadau achos busnes.
3.02	Bydd y Bid Bargaen Twf yn symud drwy ddau gam cymeradwyo. Yn gyntaf, Cytundeb Penawdau Telerau ar y cynnwys strategol ar gyfer datblygiad pellach ac, yn ail, cytundeb terfynol o'r cynnwys manwl a gefnogir gan dystiolaeth a dadansoddiadau y model pum achos busnes llawn a therfynol. Ein nod yw llunio Cytundeb Penawdau Gwasanaeth yn ystod yr Hydref eleni, a'r cytundeb terfynol erbyn y flwyddyn ariannol newydd 2019/20.
3.03	Bydd partneriaid y Bwrdd a llofnodwyr y Cytundeb Llywodraethu yn cael drafft terfynol o'r Bid Bargaen Twf ar gyfer ei adolygu a'i gytuno arno ym mis Medi/Hydref cyn y cam o ddod i gytundeb ar y Penawdau Telerau gyda'r ddau Lywodraeth.
3.04	Nid y Fargaen Twf yw'r unig ymyriad sy'n cefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth a'r strategaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn isadeiledd trafnidiaeth yr ardal ochr yn ochr â'r Bid, yn ffyrdd a rheilffyrdd, a

CC-20677-LB/444215

	<p>buddsoddiadau eraill megis agor safle Porth y Gogledd ar gyfer buddsoddiad mewnol a'r Uwch Sefydliad Ymchwilio i Weithgynhyrchu ym Mrychdyn. Mae'r strategaeth Trac Twf 360 ar gyfer buddsoddiadau rhwydwaith rheilffordd draws-ffiniol yn datblygu ar lefel Llywodraeth y DU. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar Fasnachfrait Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau gyda gwelliannau isadeiledd a gwelliannau i'r gwasanaeth. Gallai rhaglenni buddsoddi pellach gael eu trafod ar wahân. Mae undod yr ardal sydd y tu ôl i'r weledigaeth a'r strategaeth a fabwysiadir yn ffactor pwysig er mwyn cael pwrpas, hygrededd a dylanwad wrth negydu.</p>
--	---

4.00	GOBLYGIADAU ADNODDAU
4.01	<p>Mae Bid Bargen Twf yn fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraethau mewn ardal gyda'r risgiau a'r buddion yn cael eu rhannu â'r awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y rhanbarth. Mae'r capasiti buddsoddi yn ystyriaeth sylweddol wrth ddylunio'r Bid. Bydd goblygiadau cost llawn y Fargen Twf yn cael eu hadrodd ar y cam Penawdau Telerau.</p>

5.00	YMGYNGHORIADAU ANGENRHEIDIOL / A GYFLAWNIR
5.01	<p>Mae ymgynghori helaeth ar draws y sectorau ar ddatblygiad y Bid a'r cynnwys y mae angen rhoi blaenoriaeth iddo. Mae partneriaid y Bid hefyd wedi cael eu hannog i gynnal sesiynau briffio mewnol gyda'u haelodau perthnasol. Mae ymgysylltiad y sector preifat wedi bod yn barhaus, yn bennaf drwy Gyngor Busnes Merswy Dyfrdwy Gogledd Cymru. Mae ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar lefel Ysgrifennydd Cabinet ac Ysgrifennydd Gwladol.</p>

6.00	RHEOLI RISG
6.01	<p>Adroddir ar yr asesiad risg llawn o'r Fargen Twf posibl ar y cam Penawdau Telerau. Mae dadansoddiad risg yn cael ei adeiladu i mewn i'r modelu achos busnes ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau sy'n ffurfio'r Bid datblygol.</p>

7.00	ATODIADAU
7.01	<p>Atodiad 1: Cytundeb Llywodraethiant 1 Atodiad 2: Llun Diagramatig o'r Model Llywodraethu</p>

8.00	RHESTR O'R DOGFENNAU CEFNDIR Y GELLIR CAEL MYNEDIAD ATYNT
8.01	Gweledigaeth a Strategaeth Rhanbarthol; Papurau agneda'r Bwrdd Cysgodol.

9.00	RHESTR TERMAU
9.01	<p>Cytundeb Rhyng-Awdurdod neu Gytundeb Llywodraethu – termau ymgynwidiol ar gyfer cytundeb cyfreithiol rhwng partneriaid sy'n cydweithio er mwyn rheoleiddio gwaith cyfansoddiadol a rhannu risg a buddion.</p> <p>Bargen Twf - darperir cyllid drwy Bartneriaethau Menter Lleol yn Lloegr a phartneriaethau awdurdod lleol yng Nghymru, ar gyfer rhaglenni ymyrraeth economaidd a fydd yn elwa'r rhanbarth a'i economi.</p> <p>Bargeinion Datganoli - dim fformat penodol ond yn cynnwys datganoli pwerau a chyllidebau ar gyfer darparu rhaglenni ymyrraeth a gwasanaethau ar draws rhanbarth.</p> <p>Cyngor Busnes Merswy Dyfrdwy Gogledd Cymru - corff sy'n cynrychioli'r sectorau preifat a busnes yng Ngogledd Cymru ac is-ranbarth Merswy Dyfrdwy.</p> <p>Model Busnes Pum Achos – dull sefydledig ar gyfer gwneud achosion busnes er mwyn cefnogi buddsoddiadau a weithredir o dan ganllawiau'r Trysorlys.</p>

ATODIAD / ENCLOSURE

1

CC-20677-LB/444215

- (1) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
- (2) CYNGOR SIR DDINBYCH
- (3) CYNGOR SIR Y FFLINT
- (4) CYNGOR GWYNEDD
- (5) CYNGOR SIR YNYS MÔN
- (6) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
- (7) PRIFYSGOL BANGOR
- (8) PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM
- (9) COLEG CAMBRIA
- (10) GRŴP LLANDRILLO MENAI

CYTUNDEB LLYWODRAETHU 1
yn ymwneud â chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru



CYNNWYS

Cymal

1	DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU	2
2	CYCHWYN, OES A THERFYNU	5
3	EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL	6
4	Y CORFF ATEBOL	7
5	DYLETSWYDDAU'R CORFF ATEBOL	8
6	DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL	9
7	CYNLLUN BUSNES	9
8	GWNEUD PENDERFYNIADAU	10
9	CYD-BWYLLGOR	10
10	CRAFFU	14
11	TÎM GWEITHREDOL	14
12	YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU	15
13	LLINIARU	19
14	CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON	19
15	TYNNU'N ÔL	20
16	CANLYNIADAU TERFYNU	20
17	EIDDO DEALLUSOL	20
18	CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU	21
19	CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)	21
20	DATRYN ANGHYDFOD	21
21	DIOGELU DATA	22
22	RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL	24
23	HYSBYSIADAU	25
24	CYFRAITH LYWODRAETHOL	25
25	ASEINIO	25
26	ILDIO HAWL	25
27	Y CYTUNDEB CYFAN	26
28	GWRTHRANNAU	26

29	PERTHYNAS Y PARTÏON	26
30	CYFRIFOLDEBAU STATUDOL	26
	ATODLEN 1 - POLISI DIRPRWYO	31
	ATODLEN 2 - CYLCH GORCHWYL	33
	RHAN 1 - CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR	33
	RHAN 2 - CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL	35
	RHAN 3 – CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU	36
	ATODLEN 3 - MANYLION Y PARTÏON	37
	ATODLEN 4 - PENAWDAU GWARIANT	38
	ATODLEN 5 - CYFNODAU CYFRIFYDDU	39
	ATODLEN 6 - COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR Y BWRDD UCHELGAIS	40
	ATODLEN 7 - MANYLION Y CYNRYCHIOLWYR	43
	ATODLEN 8 - FFRAMWAITH SICRWYDD	44
	ATODLEN 9 - CYNLLUN GWEITHREDU	45

RHWNG

- (1) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** o [xxx] ("Cyngor Conwy");
- (2) **CYNGOR SIR DDINBYCH** o [xxx] ("Cyngor Sir Ddinbych");
- (3) **CYNGOR SIR Y FFLINT** o [xxx] ("Cyngor Sir y Fflint");
- (4) **CYNGOR GWYNEDD** o [xxx] ("Cyngor Gwynedd");
- (5) **CYNGOR SIR YNYS MÔN** o [xxx] ("Cyngor Sir Ynys Môn");
- (6) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** o [xxx] ("Cyngor Wrecsam"),

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "y Cyngorau" ac yn unigol fel "Cyngor "); a

- (7) **PRIFYSGOL BANGOR** o [xxx];
- (8) **PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM** o [xxx];
- (9) **COLEG CAMBRIA** o [xxx];
- (10) **GRŴP LLANDRILLO MENAI** o [xxx];

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Ymgynghorwyr" ac yn unigol fel "Ymgynghorydd").

CRONICLIADAU CEFNDIROL

- (A) Mae'r Partïon wedi cytuno i gydweithio ac ymrwmo i'r Cytundeb hwn i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru hyd at y pwynt pan gaiff y Cynllun Twf ei lofnodi gan y Partïon, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- (B) Mae'r Partïon wedi cytuno i greu Cyd-bwyllgor gyda threfniant llywodraethu cadarn a fydd, yn y pendraw, yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf. Mae manylion pellach ynghylch y Cyd-bwyllgor wedi'u nodi yng Nghymal 9 (Cyd-bwyllgor) ac mae ei swyddogaethau wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).
- (C) Bydd rhwymedigaethau manylach yng nghyswllt y Cynllun Twf wedi'u hymgorffori mewn ail gytundeb llywodraethu, (y "**GA2**") a gaiff ei ddatblygu gan y Partïon ac yr ymrwymir iddo wedi i'r Cynllun Twf gael ei gadarnhau. Caiff swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor eu diweddarau ymhellach yn GA2.
- (D) Mae'r Partïon wedi cytuno i benodi Cyngor Gwynedd i weithredu fel Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partïon a chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac yn unol â'r Cytundeb hwn.
- (E) Dymuna'r Cyngorau ymrwmo i'r Cytundeb hwn a chyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddynt dan Adranau 101, 102, 111 ac 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 1 Deddf Awdurdod Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970, Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Adran 2, 19 a 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru a'r holl bwerau galluogi sydd bellach wedi'u breinio i'r Cyngorau.

1. DIFFINIADAU A DEHONGLI

1.1 Yn y Cytundeb hwn a'r cronicliadau, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, bydd y termau isod yn golygu'r hyn a nodir isod:-

"Corff Atebol"	sef y Cyngor a benodwyd dan Gymal 4 (<i>Corff Atebol</i>) a fydd yn gyfrifol am dderbyn a gwario arian ar gyfer ac ar ran y Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac y mae eu dyletswyddau wedi'u nodi dan Gymal 5 (<i>Dyletswyddau'r Corff Atebol</i>)
"Cyfnod Cyfrifyddu"	sef y cyfnodau hynny sydd wedi'u nodi yn Atodlen 6 (<i>Cyfnodau Cyfrifyddu</i>) fel y caiff ei diwygio o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn
"yr Ymgynghorwyr"	sef y cyrff a'r unigolion sydd wedi'u rhestru isod ynghyd ag unrhyw unigolion a/neu gyrff pellach y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu gwahodd yn y rhinwedd hwnnw o bryd i'w gilydd : <ul style="list-style-type: none">• Prifysgol Bangor• Coleg Cambria• Grŵp Llandrillo Menai• Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy
"Cyllideb Flynyddol"	sef cyllideb flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar gyfer ac ar ran y Partïon ac fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 (<i>Cyllideb Flynyddol</i>) sy'n cynnwys talu unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn
"Fframwaith Sicrwydd"	sef systemau, prosesau a phrotocolau'r Partïon i asesu prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Partïon er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt y Cynllun Twf a atodir yn Atodlen 8 (<i>Fframwaith Sicrwydd</i>) y Cytundeb hwn
"Diwrnod Busnes"	sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a/neu Lloegr
"Rhanbarth Gogledd Cymru"	sy'n cynnwys chwe ardal weinyddol Cyngor Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Wrecsam
"CEDR"	sef y Ganolfan Datrys Anghydfod
"Cynllun Twf"	sef y cytundeb sydd i'w lofnodi gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r [Partïon] sy'n nodi telerau Cynllun Twf Gogledd Cymru
"Dyddiad Cychwyn"	sef dyddiad y Cytundeb hwn

"Gwybodaeth Gyfrinachol"	yr holl wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol, ariannol, technegol neu fel arall sy'n perthyn i fusnes, materion neu ddulliau yr holl Partion neu unrhyw un ohonynt, sydd wedi'i chynnwys neu y gellir ei chanfod mewn pa ffurf bynnag (gan gynnwys, heb gyfyngiad, meddalwedd, data, lluniau, ffilmiau, dogfennau a chyfryngau y gellir eu darllen ar gyfrifiadur), a boed wedi'i marcio neu ei dynodi'n wybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth berchnogol neu beidio, neu'n cael ei datgelu ar lafar neu drwy ei dangos, ac y'i disgrifir ar adeg ei datgelu fel gwybodaeth gyfrinachol, neu sy'n amlwg yn wybodaeth gyfrinachol o natur ei chynnwys neu gyd-destun y datgeliad.
"Deddfwriaeth Diogelu Data"	sef Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
"Tîm Gweithredol"	sef y tîm a benodir felly o bryd i'w gilydd gan y Partion i gynrychioli buddiannau'r Partion yng nghyswllt materion gweithredol y Cynllun Twf, gan weithio dan gyfarwyddyd y Cyd-bwyllgor ac o fewn ystod y ddirprwyaeth sydd wedi'i nodi yn y Polisi Dirprwyo yn Atodlen 1 (<i>Polisi Dirprwyo</i>)
"GA2"	sef yr ail gytundeb llywodraethu i ymrwymo iddo gan rai neu'r holl Gynghorau ac Ymgynghorwyr i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru unwaith y bydd y Cynllun Twf wedi'i lofnodi.
"Cod Ymddygiad GA"	sef y cod ymddygiad ar gyfer ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais sydd wedi'i nodi yn Atodlen 6
"TEM"	sef Trysorlys Ei Mawrhydi, adran weinidogol o Lywodraeth y DU
"Cyfraniad TEM"	sef yr arian a ddarperir gan TEM yn unol â'r Cynllun Twf ac fel y cyfeirir ato yng Nghymal 12.5 (<i>Cyfraniadau</i>)
"Cynllun Gweithredu"	sef y cynllun gweithredu a fydd yn gosod, ymhlith pethau eraill, y broses er mwyn cytuno a blaenoriaethu prosiectau i'w caffael, yn unol â'r Cynllun Twf a bydd y profforma ar gyfer hyn yn cael ei drafod a'i gytuno gan y Cyd-bwyllgor yn unol ag Atodlen 9 (<i>Cynllun Gweithredu</i>) y Cytundeb hwn
"Eiddo Deallusol"	unrhyw a phob patent, nod masnach, enw masnach, hawlfraint, hawliau moesol, hawliau wrth ddylunio, hawliau mewn cronfeydd data, medr a phob hawl eiddo deallusol arall, boed y rheini'n gofrestredig neu'n bosib eu cofrestru neu beidio, ac yn bodoli yn y Deyrnas Unedig neu mewn unrhyw ran arall o'r byd neu beidio, ynghyd â phob neu unrhyw ewyllys da sy'n perthyn iddynt a'r hawl i wneud cais i'w cofrestru

"Costau Mewnol"	sef fel y diffinnir ym mharagraff 1.1 Atodlen 4 (<i>Penawdau Gwariant</i>)
"Deunydd ED"	sef yr Eiddo Deallusol yn y Deunydd
"Cyd-bwyllgor"	sef y cyd-bwyllgor a sefydlir gan y Partïon yn unol â Chymal 9 (<i>Cyd-bwyllgor</i>) y Cytundeb hwn
"Costau'r Cyd-bwyllgor"	sef fel y diffinnir ym mharagraff 1.2 Atodlen 4 (<i>Penawdau Gwariant</i>) ac eithrio unrhyw Gostau Mewnol (oddieithr Costau Mewnol y Corff Atebol y gellir cyfrifo amdanynt fel Costau'r Cyd-bwyllgor)
"Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor"	sef cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor sy'n cwrdd yn briodol yn unol â Chymal 9 (<i>Cyd-bwyllgor</i>)
"Awdurdod Lleol"	sef prif gyngor (fel y diffinnir yn Adran 270 Deddf Llywodraeth Leol 1972) neu unrhyw gorff llywodraethol yng Nghymru a sefydlir yn olynedd i brif gyngor
"Deunydd"	sef yr holl ddata, testun, graffeg, delweddau a deunyddiau neu ddogfennau eraill a grëir, a ddefnyddir neu a gyflenwir gan Barti mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, oni bai fod y Parti, cyn eu defnyddio neu eu cyflenwi am y tro cyntaf, yn hysbysu'r Partïon eraill nad yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r data neu'r testun a gyflenwir
"Materion a Gedwir i'r Partïon"	sef yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 8.1.3
"Cyfraniad y Partïon"	sef yr arian a ddarperir gan y Partïon fel y nodir yng Nghymal 12.5.1(b) (<i>Cyfraniad y Partïon</i>)
"Parti"	sef unrhyw un o'r Cynghorau neu'r Ymgynghorwyr sy'n rhan o'r Cytundeb hwn o bryd i'w gilydd, ac mae " Partïon " yn golygu'r cwbl ohonynt
"Data Personol"	sef data personol fel y mae wedi'i ddiffinio yn y DDD
"Themâu Rhaglen"	sef yr ystyr a roddir iddo yn y Cynllun Gweithredu
"Sail Gymesur"	sef y gyfran berthnasol i bob Parti wrth gyfeirio at eu cyfraniad ffracsïynol unigol fel y nodir yng Nghymal 12.5.3 (<i>Cyfraniad y Partïon</i>)
"Costau Cyfieithu"	sef y costau cyfieithu a gyfyd i'r Corff Atebol wrth gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â'i rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn

1.2 Dehongliadau

Yn y Cytundeb hwn, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall:-

- 1.2.1 bydd cyfeiriad at yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd, ac i'r gwrthwyneb;
- 1.2.2 bydd cyfeiriad at unrhyw Gymal, Paragraff, Atodlen neu Groniciad, oni bai y nodir yn glir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at gymal, paragraff, atodlen neu

groniciad o'r fath yn y Cytundeb hwn;

- 1.2.3 bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn neu at unrhyw ddogfen arall yn cynnwys unrhyw amrywiad, newid neu ychwanegiad a ganiatawyd i'r fath ddogfen;
- 1.2.4 bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad, newid, uniad neu ailddeddfiad o'r ddeddfwriaeth;
- 1.2.5 tybir bod cyfeiriad at sefydliad cyhoeddus (yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, unrhyw Gyngor) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw olynydd i sefydliad cyhoeddus o'r fath neu unrhyw sefydliad neu endid sydd wedi cymryd swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliad cyhoeddus o'r fath drosodd;
- 1.2.6 mae cyfeiriad at berson yn cynnwys cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau a'u holynwyr, ac aseinau neu drosglwyddai a ganiatawyd;
- 1.2.7 nid yw penawdau ac eglurynnau'r Cymalau, y Paragraffau a'r Atodlenni sydd yng nghorff y Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn, ac ni chymerir hwy i ystyriaeth wrth greu neu ddehongli'r Cytundeb;
- 1.2.8 bydd geiriau sy'n dod o flaen "**yn cynnwys**", "**gan gynnwys**" ac "**wedi'i gynnwys**" yn cael eu dehongli, heb gyfyngiad, yn ôl y geiriau sy'n dilyn y geiriau hynny;
- 1.2.9 bydd geiriau o ystyr gwrywaidd yn cael eu dehongli i gynnwys y benywaidd neu'r diryw ac i'r gwrthwyneb; a
- 1.2.10 bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog o unrhyw un o'r Cyngorau yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Cyngor perthnasol y bydd y Cyngor hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

1.3 **Atodlenni**

Mae'r Atodlenni i'r Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn.

2. **CYCHWYN, OES A THERFYNU**

2.1 **Cychwyn**

Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn.

2.2 **Oes y Cytundeb**

Bydd y Cytundeb hwn yn parhau i fod mewn llawn rym o'r Dyddiad Cychwyn hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:-

2.2.1 ymrwymo i GA2; neu

2.2.2 pan fo'r holl Bartion yn cytuno'n ysgrifenedig i'w derfynu.

2.3 **Terfynu**

Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu gywiriadau eraill, gall y Partion eraill (y "**Partion Difeth**") ddod â'r Cytundeb hwn i ben mewn perthynas ag unrhyw Barti unigol (y "**Methianwr**"), gan wneud hynny'n unfrydol, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Methianwr sy'n dod i rym pan dderbynnir ef os yw'r Methianwr yn torri'n sylweddol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, ac os oes posib cywiro'r methiant hwn, yn methu â

chywiro pob methiant yn iawn o fewn trideg (30) Diwrnod Busnes (neu ryw gyfnod arall y mae'r Partïon Di-feth yn cytuno arno) o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r methiant gan y Partïon Di-feth ac o'r angen i gywiro'r methiant.

3. **EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL**

3.1 Mae'r Partïon yn bwriadu i'r Cytundeb hwn fod yn gytundeb cyfreithiol.

3.2 Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithio i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

3.3 **Amcanion**

Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:-

- Cytuno a sicrhau, ar y cyd, gynllun twf ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn cefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu; a
- Bwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Strategaeth Twf Ranbarthol

3.4 **Egwyddorion**

Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:-

3.4.1 **Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth**

Mewn perthynas â'r Cytundeb hwn bydd y Partïon yn agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd o wneud y cydweithio'n llwyddiannus. Gan barchu'r angen o bob ochr am gyfrinachedd masnachol, bydd y Partïon yn cofleidio'n barod ymrwymiad i dryloywder yn eu hymwneud ac yn benodol angen i gydymffurfio â mynediad statudol i ofynion gwybodaeth yn cynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r codau ymarfer sy'n eu cefnogi. Bydd y Partïon yn ymwybodol o'r angen i barchu materion o gyfrinachedd masnachol a sensitifrwydd posib;

3.4.2 **Ymrwymiad a Chymhelliant**

Bydd y Partïon wedi'u hymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau cyflawni'r Cynllun Twf yn llawn brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

3.4.3 **Sgiliau a Chreadigedd**

Mae'r Partïon yn cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Partïon, parhad, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff sy'n gweithio oddi mewn iddi. Cydnabyddir y bydd hyn yn golygu gwerthfawrogi a mabwysiadu gwerthoedd cyffredin;

3.4.4 **Perthnasau Effeithiol**

Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Parti yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr y naill a'r llall;

3.4.5 **Datblygu ac Addasu**

Mae'r Partïon yn cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

3.4.6 **Enw Da**

Mae'r Partïon yn cytuno, mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da'r naill a'r llall, ac yn gweithredu gan ystyried codau ymddygiad cyflogwyr ac aelodau pob Parti ei hun ac na fyddant yn gwneud na'n methu â gwneud dim byd a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Barti arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Barti arall;

3.4.7 **Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau**

Mae'r Partïon yn cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

3.4.8 **Caniatâd Angenrheidiol**

Mae pob Parti drwy hyn yn sicrhau i'r Partïon eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn;

3.4.9 **Ymrwymïadau Aelodau, Swyddogion, Cyfarwyddwyr a Gweithwyr**

Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau, eu swyddogion, eu cyfarwyddwyr a'u gweithwyr hwy sydd ynghlwm â'r Cynllun Twf yn gweithredu er pennaf les y Cynllun Twf bob tro, ac yn gweithredu gan ystyried cod ymddygiad cyflogwyr ac aelodau pob Parti ei hun, yn rhoi digon o adnoddau i gyflawni'r Cynllun Twf ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Partïon eraill.

3.4.10 **Cod Ymddygiad GA**

Mae'r Ymgynghorwyr yn cytuno y byddant yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad GA mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Cynllun Twf yn gyffredinol.

4. **Y CORFF ATEBOL**

4.1 Mae'r Partïon (gan weithredu bob yn un) wedi cytuno mai Cyngor Gwynedd fydd y Corff Atebol sy'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn ar gyfer ac ar ran y Partïon, ac y bydd hynny'n dod i rym o'r Dyddiad Cychwyn. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu yn y capasiti hwnnw yn amodol ar amodau a thelerau'r Cytundeb hwn ac yn unol â hynny.

4.2 Os yw'r Corff Atebol yn methu, a bod y Cytundeb yn cael ei derfynu yng nghyswllt hynny yn unol â Chymal 2.3 (*Cychwyn, Oes a Therfynu*), neu os yw'r Corff Atebol yn tynnu'n ôl yn unol â Chymal 15 (*Tynnu'n ôl*), bydd y Cyd-bwyllgor yn penodi Corff Atebol yn ei le, ac ni fydd gan y Corff Atebol sydd wedi tynnu'n ôl neu, fel sy'n briodol, wedi methu, yr hawl i bleidleisio yng nghyswllt unrhyw benodiad o'r fath.

4.3 Pan caiff Corff Atebol newydd ei benodi yn ei le, yn unol â Chymal 4.2 uchod, bydd unrhyw gyfeiriad at Gyngor Gwynedd (yn rhinwedd ei rôl fel y Corff Atebol cychwynnol) yn cael ei ddarllen gan gyfeirio at y Corff Atebol newydd sydd yn ei le.

- 4.4 Bydd y Corff Atebol yn gweithredu fel Corff Atebol a bydd yn derbyn:-
- 4.4.1 unrhyw Gyfraniad TEM gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ac ar ran y Partïon;
- 4.4.2 Cyfraniad y Partïon; ac
- 4.4.3 unrhyw arian arall y gellir ei dderbyn o bryd i'w gilydd yn benodol yng nghyswllt y Cynllun Twf ac sydd er budd yr holl Bartïon,

a bydd yn dal ac yn rheoli Cyfraniad TEM, Cyfraniad y Partïon ac unrhyw arian arall o'r fath yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

5. DYLETSWYDDAU'R CORFF ATEBOL

5.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd y Corff Atebol:

- 5.1.1 yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddiwyll ym mhopeth a wna gyda'r Partïon eraill a bydd yn gwneud ymdrech resymol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb hwn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-
- (a) Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
 - (b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
 - (c) unrhyw hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yng nghyswllt y Corff Atebol; a
 - (d) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)
- 5.1.2 yn gweithredu fel y priif ryngwyneb (ar ei ran ei hun ac ar ran y Partïon eraill) gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop ac unrhyw gorff arall sy'n angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf;
- 5.1.3 yn gweithredu fel y Corff Atebol i ddal unrhyw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU (os o gwbl), Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop (os o gwbl), y Partïon a/neu unrhyw ffynonellau eraill (os o gwbl) yng nghyswllt y Cynllun Twf a bydd ond yn defnyddio ac yn rhyddhau'r arian hwn fel y cytunir yn unol â thelerau arian o'r fath a'r Cytundeb hwn;
- 5.1.4 heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf ac o fewn cyfyngiadau'r arian sydd wedi'i ddarparu iddo (fel rhan o Gostau'r Cyd-bwyllgor), bydd yn darparu'r gwasanaethau cefnogaeth sydd angen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor (a'i is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir yn unol â Chymalau 9.21 a 9.23 a'r Swyddfa Ranbarthol y cyfeirir ati yn y Fframwaith Sicrwydd), yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau cyllid, adnoddau dynol, cyfreithiol, TGCh, ystadau, rheoli gwybodaeth, archwilio mewnol a chaffael.
- Er osgoi amheuaeth, ni fydd darpariaethau'r Cymal 5.1.4 hwn yw llyffetheirio gallu'r Corff Atebol i ymrwymo i drefniadau gydag unrhyw rai o'r Partïon eraill i ddarparu'r gwasanaethau uchod ar ei ran.
- 5.1.5 heb gymryd cyfrifoldeb am gyflawni unrhyw brosiect penodol o fewn y Cynllun Twf, darparu i Brif Swyddog Cyllid y Corff Atebol ("**Swyddog a151**") a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon a enwebir) i weithredu, yn eu trefn,

fel Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro i'r Cyd-bwyllgor; a

5.1.6 heb gyfyngu i'w rolau dan ddarpariaeth flaenorol y Cymal 5.1 hwn, bod â chyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer, ond heb fod yn gyfyngedig i, weinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor (a'i Is-bwyllgorau a'i grwpiau a sefydlir yn unol â Chymalau 9.21 a 9.23), yn cynnwys cyfrifo TAW, cadw cofnodion ariannol, sicrhau y paratoir cyfrifon blynyddol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol a gwneud trefniadau ar gyfer archwilio'r Cyd-bwyllgor yn allanol.

5.1.7 Defnyddio'r Grŵp Rheoli Prosiect fel sydd wedi'i nodi yng nghymal 11.

6. DYLETSWYDDAU'R PARTIÖN ERAILL

6.1 Ar gyfer oes y Cytundeb hwn, bydd y Partiön eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhopeth a wnânt gyda'r Corff Atebol a byddant yn gwneud ymdrech resymol i gynorthwyo'r Corff Atebol i gyflawni rhwymedigaethau'r Partiön yng nghyswllt y Cynllun Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb hwn a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

6.2 Cydnabyddir a chytunir y bydd rhwymedigaethau a chyfrifoldebau pob Parti yn rhwymo unrhyw endid olynol pe byddai unrhyw ad-drefnu Cynghorau neu Ymgynghorwyr yn digwydd.

7. CYNLLUN BUSNES

7.1 Cynllun Busnes GA2

7.1.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn paratoi (neu'n caffael paratoi), Cynllun Busnes drafft, a fydd yn cydymffurfio â darpariaeth Cymal 7.1.3 isod. Y bwriad yw creu Cynllun Busnes GA2 pum (5) mlynedd trosfwaol a fydd, ymhlith materion eraill, yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Partiön er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Yna, bwriedir i Gynllun Busnes GA2 gael ei ddiweddarau'n flynyddol.

7.1.2 Bydd cwblhau Cynllun Busnes GA2 ac yna'r penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Busnes GA2, yn weithredoedd dan GA2 gyda'r penderfyniad terfynol yn Fater a Gedwir i'r Partiön.

7.1.3 Bydd Cynllun Busnes GA2, ymhlith materion eraill, yn ymdrin â'r isod:

- (a) costau a buddsoddiad cyffredinol gan bob Parti dros gyfnod y Cynllun Twf;
- (b) y fethodoleg ar gyfer cytuno ar natur, ystod a blaenoriaeth y prosiectau i'w datblygu er budd cyffredinol Rhanbarth Gogledd Cymru (yn unol â thelerau'r Cynllun Gweithredu);
- (c) y fethodoleg a'r chyfrifoldeb ar gyfer unrhyw archwiliadau allanol yng nghyswllt y Cytundeb hwn;
- (d) methodoleg a chyfrifoldeb unrhyw fonitro perfformiad ynghyd ag unrhyw ddangosyddion perfformiad i alluogi i'r Cyd-bwyllgor fesur cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes GA2; ac
- (e) unrhyw adroddiadau monitro referniw a chyfalaf i'w paratoi ar gyfer y Cyd-bwyllgor ac amlder adroddiadau o'r fath.

8. GWNEUD PENDERFYNIADAU

8.1 Yn nhermau'r angen am benderfyniadau a champau eraill i'w cymryd a'u gwneud yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, mae'r Partïon wedi adnabod y tri chategori a ganlyn, ynghyd â'r modd y byddant yn cael eu gwneud:-

- 8.1.1 **"Mater Dirprwyedig"** - sef mater y disgwylir i'r Tîm Gweithredol neu is-bwyllgor sydd wedi'i sefydlu gan y Cyd-bwyllgor allu gwneud penderfyniad arno o bryd i'w gilydd a bod â'r pŵer i rwymo'r Cyd-bwyllgor wrth wneud hynny;
- 8.1.2 **"Mater i'r Cyd-bwyllgor"** - sef mater sydd o fewn cylch gwaith y Cyd-bwyllgor y gall wneud penderfyniad arno a bod â'r pŵer i rwymo'r Partïon wrth wneud hynny;
- 8.1.3 **"Materion a Gedwir i'r Partïon"** – sef mater y bydd rhaid ei gyfeirio at bob Parti er penderfyniad, ac er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-bwyllgor yn ymdrin â'r mater sydd angen penderfyniad hyd nes bod pob un o'r Partïon wedi penderfynu arno'n unfrydol,

ac ym mhob achos, mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 1 (*Polisi Dirprwyo*). Caiff y Polisi Dirprwyo ei ddiweddarau gan y Cyd-bwyllgor o bryd i'w gilydd.

9. Y CYD-BWYLLGOR

9.1 Bydd y Cynghorau'n ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r cytundeb hwn ("**Cyd-bwyllgor**") er dibenion:-

- 9.1.1 cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio'n wreiddiol ar y Cynllun Twf
- 9.1.2 rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi paragraff 9.1.1 uchod, yn benodol trafndiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;
- 9.1.3 uno partneriaid o amgylch diben cyffredin i gefnogi 9.1.1 uchod;
- 9.1.4 rhoi cyfeiriad i unrhyw Is-fyrddau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu penodi yn cynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol;
- 9.1.5 cynnig prosiectau y gellid ymgymryd â hwy fel rhan o'r Cynllun Twf;
- 9.1.6 trafod prosiectau o'r fath i asesu p'un a oes cyfiawnhad am ddiwydrwydd dyladwy pellach a chyrraedd cytundeb ar y costau y dylid mynd iddynt wrth ymgymryd â gwaith arfarnu pellach;
- 9.1.7 cytuno ar Gynllun Gweithredu profforma a fydd yn gosod y broses ar gyfer cytuno a blaenoriaethu prosiectau a gaiff eu cymryd ymlaen yn unol â'r Cynllun Twf;
- 9.1.8 paratoi Cynllun Busnes drafft yn unol â Chymal 7 (*Cynllun Busnes*); a
- 9.1.9 goruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau paratoadol y Cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf,
- 9.1.10 Gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Strategaeth Twf Ranbarthol
- 9.1.11 ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).

- 9.2 Gall y Cyd-bwyllgor ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill o'r fath fel y penna'r Cynghorau o bryd i'w gilydd a'u cymeradwyo fel Materion a Gedwir i'r Partïon.
- 9.3 Ni fydd gan y Cyd-bwyllgor y pŵer i gymeradwyo unrhyw Fater a Gedwir i'r Partïon.
- 9.4 Bydd gan yr Ymgynghorwyr yr hawl i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor.
- 9.5 Bydd pob Parti yn penodi un (1) cynrychiolydd i'r Cyd-bwyllgor. Mae manylion pob un o'r cynrychiolwyr wedi'u nodi yn Atodlen 7 (Manylion y Cynrychiolwyr).
- 9.6 Bydd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn gynrychiolydd Cyngor a benodir i'r Cyd-bwyllgor a chaiff ei benodi'n flynyddol gan y Cyd-bwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Ni fydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw
- 9.7 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy wedi'i enwi ar gyfer ei gynrychiolydd. Gall unrhyw ddirprwyon fynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ond ni fydd ganddynt hawl i siarad na phleidleisio mewn cyfarfodydd oni bai bod y prif gynrychiolydd cyfatebol yn absennol.
- 9.8 Gall pob Parti, ar ei ddisgresiwn, newid ei gynrychiolydd (a'i ddirprwy priodol) a benodir i'r Cyd-bwyllgor, ar yr amod:-
- 9.8.1 bod ganddynt, bob amser, gynrychiolydd wedi'i ethol i'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r rolau sydd wedi'u hadnabod yn Atodlen 2 (*Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor*);
- 9.8.2 nad oes gan yr olynydd statws nac awdurdod is na'r hyn sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2 (*Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor*) oni bai y cytuna'r Partïon fel arall; a
- 9.8.3 chaiff manylion unrhyw gynrychiolydd o'r fath eu rhannu gyda'r Partïon eraill yn ysgrifenedig, er mwyn diweddarau'r manylion perthnasol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 7 (Manylion y Cynrychiolwyr).
- 9.9 Oni bai bod y Cyd-bwyllgor yn penderfynu fel arall (e.e. os pennir nad oes angen cyfarfod), bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod naill ai bob mis neu fel sydd angen yn unol ag amserlen y Cynllun Twf. Caiff cyfarfodydd eu galw ar amseroedd priodol ac wedi rhoi'r hysbysiad statudol angenrheidiol (i'w gyhoeddi drwy'r Corff Atebol) i drafod Materion y Cyd-bwyllgor y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 (*Polisi Dirprwyo*).
- 9.10 Disgwylir i bob Cyngor a phob Ymgynghorydd fynychu holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor lle bo hynny'n bosib.
- 9.11 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i fater gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor, drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Tîm Gweithredol.
- 9.12 Bydd y Tîm Gweithredol yn sicrhau y caiff yr holl raglenni a'r wybodaeth berthnasol yng nghyswllt cyfarfod y Cyd-bwyllgor eu dosbarthu'n amserol a beth bynnag yn unol â gofynion deddfwriaethol.
- 9.13 Gall unrhyw gynrychiolydd ofyn i'r Cadeirydd ar ddechrau cyfarfod y Cyd-bwyllgor i eitem frys gael ei hychwanegu i'r rhaglen, os yw ef neu hi yn ystyried bod angen ystyried mater ar frys, ond mater i'r Cadeirydd benderfynu a yw am ei gynnwys fydd hyn.
- 9.14 Y cworwm angenrheidiol i gyfarfod y Cyd-bwyllgor fydd cynrychiolydd neu ddirprwy o o leiaf 4 Cyngor.
- 9.15 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol

(yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Cyngor un bleidlais.

- 9.16 Yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, bydd gan bob cynrychiolydd neu ddirprwy priodol (yn absenoldeb y cynrychiolydd perthnasol) o bob Ymgynghorydd yr hawl i gynghori'r Cyd-bwyllgor ar benderfyniadau a chaiff eu barn ei chofnodi gan y Cyd-bwyllgor. Er nad oes bwriad i'r Ymgynghorwyr gael hawliau pleidleisio ffurfiol, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried unrhyw farn neu sylw a wneir gan yr Ymgynghorwyr ac os nad yw'r Ymgynghorwyr yn cytuno gyda phenderfyniad arfaethedig, bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried (gan ymddwyn yn ddidwyll) datgan bod mater yn Fater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor.
- 9.17 Gwneir penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor drwy bleidlais fwyafrif syml o'r cynrychiolwyr (neu ddirprwyon fel sy'n briodol) o'r Cynghorau sy'n bresennol, ar yr amod os:
- 9.17.1 yw'r pleidleisiau'n gyfartal (h.y. sefyllfa ddiddatrys); neu
- 9.17.2 bod dau Barti neu fwy yn gwneud cais o'r fath yn y cyfarfod,
- caiff y penderfyniad hwnnw ei ddatgan fel Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ymdrinnir ag ef yn unol â Chymal 9.18.
- 9.18 Os, mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor, nad yw mater yn derbyn penderfyniad, caiff y mater hwnnw ("**Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor**") ei ohirio er mwyn ei ystyried yng nghyfarfod arferol nesaf y Cyd-bwyllgor, neu adeg gynharach o'r fath fel y cytunir. Os, yn yr ail gyfarfod, nad yw'r Cyd-bwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y Mater Heb ei Ddatrys, ni fydd cytundeb ar y Mater Heb ei Ddatrys gan y Cyd-bwyllgor ac ni chaiff ei weithredu gan y Cyd-bwyllgor.
- 9.19 Bydd pob Parti yn darparu'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ar gais gan y Cyd-bwyllgor i'r Tîm Gweithredol, a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw benderfyniadau gan y Cyd-bwyllgor i ofyn am wybodaeth o'r fath.
- 9.20 Bydd pob Parti yn ymgynghori â'r Partïon eraill i sicrhau bod y materion dydd i ddydd sy'n ymwneud â chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf yn mynd yn eu blaen yn ddiwyd.
- 9.21 Os yw Parti yn dymuno darparu unrhyw wybodaeth a/neu gyflwyno hysbysiad neu orchymyn ar y Cyd-bwyllgor, dylid cyflwyno'r rhain i'r Tîm Gweithredol yn unol â Chymal 23.3 (*Hysbysiadau*). Bydd y Tîm Gweithredol yn cadw cofnod o'r holl wybodaeth, hysbysiadau a gorchymynion a dderbynnir a bydd yn diweddarau pob cynrychiolydd yn brydlon.
- 9.22 Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno y bydd y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu (fel sy'n briodol) reolau sefydlog, rheolau gweithdrefnau ariannol ac unrhyw bolisiau a gweithdrefnau perthnasol eraill contract cyffredinol y Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partïon wrth gyflawni ei rwymedigaeth dan y Cytundeb hwn a bod prif swyddog cyllid y Corff Atebol ('**Swyddog A151**') a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon a enwebir) yn gweithredu, yn y drefn honno, fel Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor.
- 9.23 Mae'r Ymgynghorwyr yn cydnabod ac yn cytuno y bydd eu cynrychiolydd neu eu dirprwy yn cydymffurfio â thelerau Cod Ymddygiad y GA.
- 9.24 **Gall y Cyd-bwyllgor Ddirprwyo**
- 9.24.1 Gall y Cyd-bwyllgor ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddo dan y Cytundeb hwn:
- (a) i is-bwyllgor neu swyddog o un o'r cynghorau;

- (b) i'r fath raddau;
- (c) yng nghyswllt materion o'r fath; ac
- (d) ar amodau a thelerau o'r fath,

yr ystyria'n addas o bryd i'w gilydd (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau y gellid eu gosod ar ddirprwyo o'r fath gan unrhyw un o'r Cynghorau).

- 9.24.2 Gall y Cyd-bwyllgor ganiatáu y bydd dirprwyo fel hyn yn awdurdodi dirprwyo pwerau'r Cyd-bwyllgor ymhellach yn awtomatig, gan unrhyw berson y maent wedi'u dirprwyo iddo, ar yr amod bod y Cyd-bwyllgor yn nodi hyn yn benodol o fewn awdurdod dirprwyo o'r fath.
- 9.24.3 Gall y Cyd-bwyllgor ddiddymu unrhyw ddirprwyo yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu addasu'r amodau a thelerau unrhyw bryd.

9.25 Is-bwyllgorau

- 9.25.1 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu'r is-bwyllgorau neu'r grwpiau sydd wedi'u nodi isod. Bydd cylch gorchwyl cychwynnol yr is-bwyllgorau, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor a'i bwerau i amrywio neu ddiddymu dirprwyo o'r fath yn unol â chymal 9.24 uchod, fel y'i nodir yn nhrydedd rhan Atodlen 2 :
 - (a) is-bwyllgor trafndiaeth; a
 - (b) Chyflawniad Digidol.
- 9.25.2 Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i'r Cyd-bwyllgor a bydd adroddiadau archwilio yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor yn cael eu hystyried gan ei Bwyllgor Archwilio yn unol â'i reolau a'i arferion arferol.
- 9.25.3 Cydnabyddir a chytunir gan y Partion y bydd yr is-bwyllgorau neu'r grwpiau y cyfeirir atynt yng Nghymalau 9.21, 9.24.1 a 9.25.2:
 - (a) yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau archwilio, craffu a/neu ymgynghori yn unol â'u cylch gorchwyl; ac
 - (b) ni fydd ganddynt unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau (oni bai y cymeradwyir hynny'n benodol fel arall gan y Cyd-bwyllgor).
- 9.25.4 Rhaid i is-bwyllgorau neu grwpiau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dirprwyo unrhyw rai o'i bwerau iddynt ddilyn gweithdrefnau sy'n seiliedig gyhyd ag sy'n berthnasol ar y darpariaethau hynny yn y Cytundeb hwn sy'n llywodraethu'r Cyd-bwyllgor wrth wneud penderfyniadau.
- 9.25.5 Bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu aelodaeth, rheolau gweithdrefn a chylch gorchwyl yr holl is-bwyllgorau neu grwpiau neu unrhyw rai ohonynt er mwyn, ymhlith materion eraill, egluro eu rôl briodol ac ystod y dirprwyo a gaiff ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.
- 9.25.6 Gall y Cyd-bwyllgor greu is-bwyllgorau, is-grwpiau neu Gerbyd Pwrpas Arbennig (CPA) ychwanegol (yn amodol ar yr angen i sicrhau cymeradwyaeth anweithredol ar gyfer cwmni masnachu awdurdod lleol a sefydlir dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) fel y gwêl yn dda o bryd i'w

gilydd.

10. **CRAFFU**

- 10.1 Bydd penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor yn amodol ar graffu a galw i mewn gan unrhyw un o'r Cynghorau.
- 10.2 O bryd i'w gilydd, gall y Cynghorau alw grŵp ("y Grŵp Cydlynu Craffu") sy'n cynnwys cadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros y Cynllun Twf er mwyn:
 - 10.2.1 Cydlynu unrhyw waith craffu sydd wedi'i gynllunio o'r gwaith sydd wedi'i wneud neu sydd i'w wneud gan y Cyd-bwyllgor, a/neu unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud neu i'w gwneud gan y Cyd-bwyllgor
 - 10.2.2 Cydlynu unrhyw drefniadau i alw penderfyniad a wnaed gan y Cyd-bwyllgor i mewn
 - 10.2.3 Cytuno ar drefniadau i wahodd cynghorau o unrhyw rai o'r Cynghorau neu'r cyfan i fynychu cyfarfod o bwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor er mwyn craffu gwaith a phenderfyniadau'r Cyd-bwyllgor

11. **TÎM GWEITHREDOL A GRŴP RHEOLI PROSIECT**

11.1 **Cyfansoddiad ac Awdurdod y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Rheoli Prosiect**

- 11.1.1 Bydd y Partïon yn ffurfio'r Tîm Gweithredol er dibenion gweithredu'r Cynllun Twf a rheoli rhwymedigaethau'r Partïon o ddydd i ddydd yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2, (*Cylch Gorchwyl y Tîm Gweithredol*).
- 11.1.2 Ni fydd gan y Tîm Gweithredol unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn unol â'r Cytundeb hwn.
- 11.1.3 Bydd pob Parti yn penodi un cynrychiolydd o blith uwch swyddogion i'r Tîm Gweithredol ac unrhyw gynrychiolwyr eraill y gall y Cyd-bwyllgor eu pennu o bryd i'w gilydd. Bydd y cadeirydd yn gynrychiolydd fel y penna'r Cyd-bwyllgor o bryd i'w gilydd.
- 11.1.4 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy i'w uwch swyddog a bydd gan y dirprwy hwn (ym mhob achos) yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Tîm Gweithredol yn lle'r uwch swyddog.
- 11.1.5 Ar eu disgrisiwn, bydd y Partïon yn disodli eu cynrychiolwyr (a'u dirprwyon perthnasol) a benodir i'r Tîm Gweithredol ar yr amod bod hyn ar yr un sail â'r sawl a benodwyd yn wreiddiol ac ar yr amod na chaiff yr un uwch swyddog o'r Tîm Gweithredol ei symud na'i ddisodli gan unrhyw Barti heb i'r Parti hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o'i fwriad i symud neu ddisodli'r cynrychiolydd hwnnw.
- 11.1.6 Bydd y Tîm Gweithredol yn cyfarfod fel sydd angen yn unol â'r amserlen ar gyfer y Cynllun Twf a, beth bynnag, ar amseroedd y mae'r Tîm Gweithredol yn penderfynu arnynt.
- 11.1.7 Bydd y Tîm Gweithredol yn rhoi cyfarwyddyd a chyngor i'r Grŵp Rheoli Prosiect ar weithrediad penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor.
- 11.1.8 Bydd y Corff Atebol yn defnyddio swyddogion i weithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor, sef y Grŵp Rheoli Prosiect.

11.1.9 O bryd i'w gilydd, gall Partïon secondio'u gweithwyr i'r Grŵp Rheoli Prosiect

12. YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU

12.1 Cyffredinol

Yn amodol ar Gymal 15 (*Tynnu'n Ôl*), mae'r Partïon yn cytuno i ymrwymo i'r Cynllun Twf yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn, ac i beidio â chomisiynu neu ymgymryd ag unrhyw gaffaeliad a/neu brosiect a fyddai'n ceisio neu'n peri cyflawni'r cyfan neu unrhyw ran o'r Cynllun Twf y tu allan i delerau'r Cytundeb hwn.

12.2 Costau Mewnol

12.2.1 Yn amodol ar Gymal 12.2.2, bydd y Costau Mewnol a geir gan bob Parti (yn cynnwys y Corff Atebol) yn cael eu talu gan y Parti sy'n darparu'r adnodd mewnol hwnnw.

12.2.2 Mae'r Partïon yn cytuno drwy hyn, os yw un o'r Partïon yn credu ei fod yn debygol o gael Costau Mewnol anghymesur, y caiff y mater hwnnw ei gyfeirio at y Cyd-bwyllgor am benderfyniad ynghylch a fydd costau o'r fath yn anghymesur ac a ddylai'r Partïon eraill wneud unrhyw gyfraniadau i'r gost hon.

12.3 Costau'r Cyd-bwyllgor

12.3.1 Bydd unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor a geir gan y Cyd-bwyllgor yn cael eu rhannu ar Sail Gymesur rhwng y Partïon yn unol â'r Cytundeb hwn. Byddant yn ffurfio rhan o'r Gyllideb Flynyddol y cyfeirir ati yng Nghymal 12.4 isod.

12.3.2 Bydd gofyn i bob Parti baratoi cyfrifon yn cynnwys manylion unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor a geir yn unol ag Atodlen 4 (*Penawdau Gwariant*) ("**y Cyfrifon**") ar gyfer pob Cyfnod Cyfrifyddu ac ar gyfer unrhyw gyfnodau cyfrifo pellach a/neu eraill yn ôl penderfyniad y Cyd-bwyllgor ac a gaiff eu hymgorffori i Atodlen 5 (*Cyfnodau Cyfrifo*). Er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyfrifon hyn yn cynnwys unrhyw gostau refeniw na gofynion buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt gweithredu unrhyw brosiect arfaethedig a byddant yn ymwneud â chostau gweithredu a rheoli'r Cyd-bwyllgor.

12.3.3 Bydd pob Parti:-

- (a) yn y Cyfrifon, yn gwneud cofnodion gwir a chyflawn o'r holl daliadau perthnasol a wnaed ganddo yn ystod y Cyfnod Cyfrifyddu blaenorol;
- (b) o fewn un (1) mis o ddiwedd pob Cyfnod Cyfrifyddu, bydd pob Parti yn darparu Cyfrifon heb eu harchwilio i'r Corff Atebol ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu hwnnw ynghyd ag ardystiad bod y Cyfrifon hynny yn cydymffurfio â'r Cymal 12 hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*);
- (c) yn enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y Parti hwnnw ei hun yn cydymffurfio â'r Cymal 12 hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) a rhoddir gwybod i'r Partïon eraill beth yw enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob unigolyn sydd wedi'i enwebu yn unol â'r Cymal 12.3.3(c) hwn (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) yn unol â Chymal 23 (*Hysbysiadau*); ac
- (d) os yw unigolyn a enwebir gan Barti yn unol â Chymal 12.3.3(c) (*Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau*) yn newid, bydd y Parti

hwnnw yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill ar unwaith pwy yw'r enwebai newydd.

12.3.4 Bydd y Corff Atebol:

- (a) o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o dderbyn y Cyfrifon a gyflwynir gan y Partïon eraill yn unol â Chymal 12.3.3(b) yn paratoi datganiad cysoni yn adnabod y taliadau a wnaed gan bob Parti a'r gweddill sy'n daladwy gan bob un neu sy'n ddyledus iddynt; ac
- (b) o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes o baratoi'r datganiad cysoni, yn anfon copi o'r datganiad cysoni ynghyd â naill ai anfoneb mantoli neu, yn amodol ar Gymal 12.3.4(b), taliadau credyd i bob Parti.

12.3.5 Ni fydd gorfodaeth ar y Corff Atebol i wneud unrhyw daliadau sy'n dyladwy dan y Cytundeb hwn hyd nes bod y Corff Atebol wedi derbyn yr arian gan y Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cymal 12.3 hwn.

12.3.6 Bydd Parti sy'n derbyn anfoneb am daliad yn ei dalu'n llawn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw gamgymeriad mewn anfoneb mantoli i'r Corff Atebol o fewn pum (5) Diwrnod Busnes o anfon anfoneb mantoli o'r fath. Bydd anfoneb mantoli wedi'i diwygio yn cael ei chyhoeddi gan y Corff Atebol a bydd y Parti sy'n derbyn yr anfoneb hon yn ei thalu'n llawn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes.

12.3.7 Mae'r Partïon yn cytuno drwy hyn, os yw un o'r Partïon yn ymgymryd ag unrhyw waith neu'n cael unrhyw gostau neu dreuliau er mwyn ymgymryd ag unrhyw waith neu'n cael unrhyw gostau neu dreuliau nad ydynt o fewn cyllideb neu ystod y gwaith sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb hwn neu wedi'i gytuno ymlaen llaw gan y Cyd-bwyllgor, caiff y mater hwnnw ei gyfeirio gan y Tîm Gweithredol i'r Cyd-bwyllgor am benderfyniad ynghylch a fydd y gwaith, y gost neu'r treuliau hyn yn rhan o'r Cynllun Twf neu p'un a ddylai'r gwaith, y gost neu'r treuliau hyn fod yn gyfrifoldeb llwyr ar y Parti sy'n ymgymryd â hwy neu sy'n gofyn amdanynt (yn ôl fel y bo'n digwydd).

12.4 Cyllideb Flynyddol

12.4.1 Yn amodol ar Gymal 12.4.2, bydd y Gyllideb Flynyddol i'r Corff Atebol cyn derbyn unrhyw Gyfraniad TEM (sy'n cynnwys unrhyw gostau'r Cyd-bwyllgor), yn cael ei pharatoi ar ffurf drafft gan y Corff Atebol a'i chytuno gan y Cyd-bwyllgor a bydd pob un o'r Partïon yn cyfrannu tuag at y Gyllideb Flynyddol ar Sail Gymesur.

12.4.2 Yn gychwynnol, yng nghyswllt y Gyllideb Flynyddol:

- (a) bydd pob Cyngor (ac eithrio'r Corff Atebol) yn talu swm o bumdeg mil o bunnoedd (£50,000); ac
- (b) ac eithrio'r NWMD, bydd pob Ymgynghorydd yn talu'r swm o bum mil ar hugain (£25,000);

i'r Corff Atebol o fewn [deg (10) Diwrnod Busnes] o'r Dyddiad Cychwyn. Bydd y Corff Atebol yn ychwanegu £50,000 ei hun i'r Gyllideb Flynyddol.

12.4.3 Bydd y Corff Atebol yn dal ac yn cyfrifo am y Gyllideb Flynyddol ar ran y Cyd-bwyllgor a'r Partïon eraill.

12.4.4 Bydd yr NWMD, yn hytrach na thalu arian yn gorfforol i'r Corff Atebol, yn ymgymryd i gyfrannu £50,000 mewn nwyddau i'r Corff Atebol a'r Cyd-bwyllgor, sef gwasanaethau a gweithlu.

12.4.5 Bydd unrhyw orwariant ar y Gyllideb Flynyddol yn cael eu cyfrif amdanynt gan y Partïon ar Sail Gymesur.

12.4.6 Caiff Cyllideb Flynyddol i'r Corff Atebol yn dilyn cadarnhau'r Cynllun Twf ei chytuno fel rhan o GA2, ynghyd â'r broses o ddiweddarau cyllideb o'r fath a chanlyniadau unrhyw orwariant ar y gyllideb honno.

12.5 Cyfraniadau

12.5.1 Cyfanswm cyfraniadau

Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno yr ariannir cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf fel a ganlyn yn y pendraw:

- (a) swm y cytunir arno yn y Cynllun Twf gan TEM ("**Cyfraniad TEM**") a gaiff ei fanylu yn GA2;
- (b) swm y cytunir arno yn y Cynllun Twf fel cyfanswm gan y Partïon ("**Cyfraniad y Partïon**") a gaiff ei fanylu yn GA2; a
- (c) chyfraniad pob Parti tuag at y Gyllideb Flynyddol, ar Sail Gymesur, yn unol â Chymal 12.4 (*Cyllideb Flynyddol*).

12.5.2 Cyfraniad TEM

Cydnabyddir a chytunir y caiff Cyfraniad TEM ei gynnwys yn y Cynllun Twf. Byd GA2 yn nodi manylion amseriad Cyfraniad TEM, unrhyw eithriadau o Gyfraniad TEM ac unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â Chyfraniad TEM.

12.5.3 Cyfraniad y Partïon

- (a) Yn amodol ar Gymal 12.5.3(b), bydd pob Parti yn cyfrannu at gyfanswm Cyfraniad y Partïon yn unol â'r cyfrannau isod (a bydd unrhyw gyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at "**Sail Gymesur**" yn defnyddio'r cyfrannau hyn):

Partïon	Cyfran y Cyfraniad
Cyngor Conwy	1/8fed
Cyngor Sir Ddinbych	1/8fed
Cyngor Sir y Fflint	1/8fed
Cyngor Gwynedd	1/8fed
Cyngor Sir Ynys Môn	1/8fed
Cyngor Wrecsam	1/8fed
Prifysgol Bangor	1/16eg
Prifysgol Wrecsam	1/16eg
Coleg Cambria	1/16eg
Grŵp Llandrillo Menai	1/16eg
NWMD	£0 mewn arian gyda 1/8 i'w gyflawni "mewn nwyddau" yn unol â chymal 11.4.4
Cyfanswm	Cyfraniad Llawn

- (b) Cydnabyddir a chytunir y caiff amlen fforddiadwyedd ar gyfer pob Parti ei chymeradwyo gan y Partïon fel rhan o GA2 ac y bydd unrhyw benderfyniad i gynyddu'r amlen fforddiadwyedd yn Fater a Gedwir i'r Partïon.

12.5.4 Archwiliad

Bydd pob Parti yn caniatáu i'r holl gofnodion y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn gael eu harchwilio a'u copïo o bryd i'w gilydd gan y Corff Atebol, neu unrhyw gynrychiolwyr o'r Corff Atebol neu unrhyw gynrychiolwyr eraill sydd angen yn rhesymol fynediad iddynt er mwyn ymgymryd ag unrhyw archwiliad o'r arian sydd wedi'i dderbyn a'i wario yn unol â'r Cytundeb hwn.

12.5.5 Cadw Cofnodion

Caiff y cyfrifon y cyfeirir atynt yn y Cymal 12 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) eu cadw am gyfnod o o leiaf deg (10) mlynedd wedi cyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

13. LLINIARU

Bydd pob Parti bob amser yn cymryd pob cam rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled y mae gan y Cyngor perthnasol hawl i wneud hawliad amdano yn erbyn y Parti/Partïon eraill yn unol â'r Cytundeb hwn.

14. CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON

- 14.1 Bydd y Corff Atebol yn indemnio pob un o'r Partïon eraill yn y Cytundeb hwn ac yn parhau i'w hindemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau sy'n wynebu'r Parti hwnnw, os yw hynny'n codi o'r ffaith fod y Corff Atebol wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y Corff Atebol neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath).
- 14.2 Ni wneir unrhyw hawliad yn erbyn y Corff Atebol i adfer unrhyw golled neu niwed a allai ddigwydd wrth i'r Corff Atebol gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, neu sy'n codi o hynny, oni bai ac i'r graddau fod y fath golled neu niwed yn codi o'r ffaith fod y Corff Atebol wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan Gymal 14.1 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*).
- 14.3 Bydd pob un o'r Partïon eraill (yn gweithredu bob yn un) yn indemnio'r Corff Atebol ac yn parhau i'w indemnio rhag yr holl golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau a chyfrifoldebau a allai ddod i law'r Corff Atebol wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn ar gyfer y Parti hwnnw, neu sy'n codi o'r ffaith fod Parti wedi methu'n fwriadol neu dorri'n fwriadol ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac nid yw bwriadol yn y cyd-destun hwn, er osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion sydd y tu allan i reolaeth resymol y Parti hwnnw neu faterion sy'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath) oni bai ac i'r graddau y ceid yr un canlyniad o unrhyw dorri bwriadol gan y Corff Atebol o unrhyw rwymedigaethau o'r fath.
- 14.4 Mae'r Cynghorau'n cytuno ac yn cydnabod y bydd y swm sydd i'w dalu i'r Corff Atebol gan unrhyw rai o'r Partïon eraill dan Gymal 14.3 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) yn cael ei dalu gan bob un Parti i'r graddau y mae'n gyfrifol amdano, fodd bynnag, os yw'r cyfrifoldeb yn un a rennir rhwng y Partïon (fel nad yw'n rhesymol ymarferol pennu'r union gyfrifoldeb rhwng y Partïon) fe rennir y swm sydd i'w dalu yn gyfartal rhwng y Partïon ar Sail Gymesur.
- 14.5 Ar achlysur hawliad dan y Cymal 14 hwn (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) lle nad yw'n rhesymol ymarferol pennu i ba raddau mae pob Parti yn gyfrifol (gan gynnwys y Corff Atebol), caiff y swm ei rannu rhwng y Cynghorau (gan gynnwys y Corff Atebol) ar Sail Gymesur. Er osgoi amheuaeth, caiff unrhyw hawliad sy'n codi ac eithrio yn sgil y Corff Atebol neu'r Partïon eraill yn methu'n fwriadol neu'n torri'n fwriadol ei rannu ymhlith y Partïon (yn cynnwys y Corff Atebol) ar Sail Gymesur.
- 14.6 Bydd Parti sy'n derbyn hawliad am golledion, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac ymrwymadau yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac yn rhoi manylion yr hawliad iddynt.
- 14.7 Ni fydd yr un Parti wedi'i indemnio yn unol â'r Cymal 14 hwn (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) oni bai ei fod wedi rhoi rhybudd yn unol â Chymal 14.6 (*Cyfrifoldebau'r Partïon*) i'r Parti arall y bydd yn gorfodi ei hawl i indemniad dan y Cytundeb hwn yn ei erbyn.
- 14.8 Ni fydd yr un Parti ("**yr Indemniwr**") yn gyfrifol nac wedi'i rwygo i indemnio'r Partïon eraill (yn cynnwys y Corff Atebol) ("**y Buddiolwr**") os yw unrhyw yswiriant a gedwir gan y Buddiolwr ar yr adeg berthnasol yn rhoi indemniad rhag y golled sydd wedi arwain at hawliad o'r fath, ac os yw'r Buddiolwr yn adfer y golled dan bolisi yswiriant

o'r fath (eithr mai'r Indemniwr fydd yn gyfrifol am y swm a ddidynnir dan unrhyw bolisi yswiriant o'r fath ac am unrhyw swm dros yr uchafswm sydd wedi'i yswirio dan bolisi yswiriant o'r fath).

15. **TYNNU'N ÔL**

- 15.1 Ni chaiff unrhyw Barti dynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn heb dderbyn caniatâd y Partion eraill.
- 15.2 Caiff cyfnod cloi i mewn ei gytuno fel rhan o GA2, ac yn dilyn hynny bydd modd i Bartion dynnu'n ôl. Fodd bynnag, gall iawndal fod yn daladwy os yw Parti'n tynnu'n ôl a bydd y mecanwaith i gyfrifo'r iawndal hwn wedi'i chynnwys yn GA2.

16. **CANLYNIADAU TERFYNU**

- 16.1 Os caiff y Cytundeb ei derfynu yn unol â Chymal 2.3 (*Terfynu*), eithr y rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 12 (*Ymrwymiad y Partion a Chyfraniadau*), Cymal 14 (*Cyfrifoldebau'r Partion*), y Cymal 16 hwn (*Canlyniadau Terfynu*) a Chymal 18 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*), caiff y Partion eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau perthnasol a ddisgrifir yn y Cytundeb hwn.
- 16.2 Mae'r Partion yn cydnabod ac yn cytuno:-
- 16.2.1 bod y Cynllun Twf wedi'i fodolu ar sail cyfranogiad gan yr holl Bartion a bod buddion economaidd sylweddol i'w cyflawni o ganlyniad i'r cydweithio hwn; ac
- 16.2.2 yn unol â hynny, os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu yng nghyswllt unrhyw Barti yn unol â Chymal 2.3 (*Terfynu*) bydd y Methianwr hwn yn atebol i'r Parti neu'r Partion Di-feth am eu costau rhesymol a phriodol yng nghyswllt y Cynllun Twf.

17. **EIDDO DEALLUSOL**

- 17.1 Bydd pob Parti yn cadw holl Eiddo Deallusol yn ei Ddeunydd.
- 17.2 Bydd pob Parti yn rhoi i bob Parti arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio, addasu, newid a datblygu ei Ddeunydd ED er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Partion yng nghyswllt y Cynllun Twf ac er unrhyw ddiben arall sy'n deillio o'r Cynllun Twf, waeth a yw'r parti sy'n rhoi'r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb hwn ai peidio.
- 17.3 Heb ragfarnu Cymal 17.1 (*Eiddo Deallusol*), os oes mwy nag un Parti yn berchen ar Ddeunydd ED, neu a chanddynt hawl neu fuddiant llesol neu gyfreithiol ar unrhyw agwedd o'r Deunydd ED am unrhyw reswm (gan gynnwys, heb gyfyngiad, na all yr un Parti unigol ddangos ei fod wedi cyflenwi neu greu'r Deunydd ED perthnasol yn annibynnol heb gymorth un neu fwy o'r Partion eraill), bydd pob un o'r Partion a gyfrannodd at y Deunydd ED perthnasol yn rhoi i bob Parti arall yn y Cytundeb hwn drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd rhag unrhyw freindal, i ddefnyddio a manteisio ar Ddeunydd ED o'r fath fel petai'r holl Bartion eraill yw unig berchennog y Deunydd dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw statud perthnasol arall neu reol mewn cyfraith.
- 17.4 Er osgoi amheuaeth, bydd gan unrhyw endid neu berson sy'n barti i'r Cytundeb hwn ar ddyddiad y Cytundeb, ac sydd wedi trwyddedu unrhyw Eiddo Deallusol dan y Cytundeb hwn, hawl anghyfyngedig a pharhaol i barhau i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol trwyddedig yng nghyswllt y Cynllun Twf.
- 17.5 Mae pob Parti yn gwarantu bod ganddo, neu y bydd ganddo'r hawliau angenrheidiol i ganiatáu'r trwyddedau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 17.2 (*Eiddo Deallusol*) a 17.3

(*Eiddo Deallusol*) yng nghyswllt y Deunydd ED sydd i'w drwyddedu.

- 17.6 Mae pob Parti yn cytuno i weithredu unrhyw gamau neu ddogfennau pellach neu'n cytuno i wneud unrhyw beth y mae Parti arall yn gwneud cais rhesymol amdano (ar gost y Parti/Partïon sy'n gwneud y cais) i roi grym llawn i delerau'r Cytundeb hwn.

18. **CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU**

- 18.1 Bydd pob Parti ("**Cyfamodwr**"), yn ystod oes y Cytundeb hwn a thrwy'r adeg wedi iddo derfynu neu ddod i ben, yn cadw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol am y busnes neu Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i unrhyw Barti arall, ac sydd wedi dod i'w sylw drwy'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn breifat ac yn gyfrinachol, ac ni fydd yn ei defnyddio na'i datgelu (boed hynny er ei fudd ei hun neu er budd trydydd parti).

- 18.2 Ni fydd y rhwymedigaeth a nodir yng Nghymal 18.1 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) yn berthnasol i wybodaeth:-

18.2.1 sy'n dod i'r byd cyhoeddus neu a gaiff wedyn ei datgelu i'r cyhoedd (oni bai fod hynny drwy fethiant ar ran y Cyfamodwr neu unrhyw berson arall y mae gan y Cyfamodwr hawl i ddatgelu gwybodaeth iddo dan y Cytundeb hwn); neu

18.2.2 y mae'n ofyn cyfreithiol i'w datgelu; neu

18.2.3 oedd eisoes ym meddiant y Cyfamodwr (heb gyfyngiadau o ran ei defnydd) ar ddyddiad ei derbyn; neu

18.2.4 lle mae rheolau unrhyw gorff llywodraethol neu reolaethol gan gynnwys unrhyw ganllawiau o bryd i'w gilydd yn gofyn neu'n argymhell bod gwybodaeth yn agored ac yn cael ei datgelu gan gyrff cyhoeddus; neu

18.2.5 sydd rhaid ei datgelu er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i yswiriwr neu frocer yswiriant mewn perthynas â chael unrhyw yswiriant sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn.

- 18.3 Pan ganiateir datgelu dan Gymal 18.2.3 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) neu 18.2.4 (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) bydd y sawl sy'n derbyn y wybodaeth yn destun rhwymedigaeth cyfrinachedd tebyg i'r un yn y Cymal 18 hwn (*Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau*) a bydd y Parti sy'n datgelu'r wybodaeth yn rhoi gwybod am hyn i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth.

- 18.4 Ni fydd unrhyw Barti yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu ddatganiad i'r wasg nac yn cyhoeddi unrhyw ddogfen gyhoeddus arall sy'n ymwneud â, yn gysylltiedig â neu'n codi o'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall sy'n ymwneud â'r Cynllun Twf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Partïon eraill.

19. **CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)**

Nid yw'n fwriad gan y Partïon fel partïon i'r Cytundeb hwn i unrhyw un o'i delerau allu cael eu gorfodi dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw unigolyn nad yw'n barti iddo.

20. **DATRYS ANGHYDFOD**

- 20.1 Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Cytundeb hwn yn cael ei ddatrys yn unol â'r Cymal 20 hwn (*Datrys Anghydfod*). Mae'r Partïon yn ymrwymo ac yn cytuno i fwrw ymlaen ag ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio (yng nghyd-destun y bartneriaeth hon) canfod ateb, sy'n osgoi gweithdrefnau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng y Partïon.

- 20.2 Mewn unrhyw achos o anghydfod neu wahaniaeth rhwng y Partïon sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn (boed hynny'n fater o ddehongli'r contract neu fel arall), yna, ac eithrio mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb ynghylch Mater a Gedwir i'r Partïon, ymdrinnir â'r mater fel a ganlyn, gan ei gyfeirio yn y lle cyntaf i'r Cyd-bwyllgor a fydd yn ystyried unrhyw anghydfod neu anghytundeb o'r fath yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor sydd wedi'i raglennu, i geisio datrys y mater cynhennus mewn modd didwyll.
- 20.3 Mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb sy'n ymwneud â Mater a Gedwir i'r Partïon, neu os yw'r Cyd-bwyllgor yn methu â datrys yr anghydfod neu'r anghytundeb o fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gyfarfod yn unol â Chymal 20.2 (*Datrys Anghydfod*), yna gall y Partïon sydd mewn anghydfod neu'r Cyd-bwyllgor (yn ôl fel y bo'n digwydd) gyfeirio'r mater at:-
- 20.3.1 Brif Weithredwr, Rheolwr Gyfarwyddwr, Arweinydd Cyngor (neu unrhyw bennaeth sefydliad perthnasol arall) y Partïon perthnasol; neu
- 20.3.2 gyflafareddu gan y parti hwnnw fel y gall y Partïon perthnasol gytuno; neu
- 20.3.3 awdurdodaeth gyfyngedig Llysoedd Cymru a Lloegr.
- 20.4 Bydd unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb sydd i'w datrys gan y penaethiaid sefydliadau perthnasol, cyflafareddu neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) dan y Cytundeb hwn yn cael eu cyfeirio atynt ar fyrder er mwyn iddynt wneud penderfyniad.
- 20.5 Bydd y Partïon, ar gais, yn rhoi ar fyrder i'r penaethiaid sefydliadau perthnasol neu'r cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) unrhyw gymorth, dogfennau a gwybodaeth allai fod arnynt eu hangen er mwyn gwneud penderfyniad.
- 20.6 Os caiff cyflafareddwr ei benodi i benderfynu ar anghydfod yn unol â Chymal 20.3 (*Datrys Anghydfod*), yna pennir bod y cyflafareddwr yn gweithredu fel arbenigwr ac nid fel canolwr a bydd ei benderfyniad (yn absenoldeb camgymeriad amlwg) yn derfynol ac yn rhwymol i'r Partïon.
- 20.7 Bydd costau datrys unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb rhwng y Partïon dan y Cytundeb hwn yn cael eu hysgwyddo gan y Partïon perthnasol ar Sail Gymesur i'r anghydfod dan sylw, ac eithrio os yw'r penaethiaid sefydliadau perthnasol, y cyflafareddwr neu Lysoedd Cymru a Lloegr (yn ôl fel y bo'n digwydd) yn cyfarwyddo fel arall.

21. **DIOGELU DATA**

- 21.1 Mewn perthynas â phob Data Personol, bydd pob Parti yn cydymffurfio â'r GDPR bob amser (fel rheolydd data os oes angen) sy'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cadw cofrestrriad neu hysbysiad dilys a diweddar dan y GDPR sy'n diogelu'r holl weithgareddau prosesu data fydd yn cael eu gweithredu yng nghyswllt y Cynllun Twf.
- 21.2 Bydd pob Parti:-
- 21.2.1 yn prosesu Data Personol sy'n perthyn i unrhyw Parti arall yn sgil derbyn cyfarwyddiadau gan y Parti hwnnw yn unig (yn amodol ar gydymffurfio â chyfraith berthnasol);
- 21.2.2 ddim ond yn ymgymryd â phrosesu Data Personol sydd ei angen yn rhesymol yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ni fydd yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i unrhyw wlad na thiriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ac
- 21.2.3 yn gwneud pob ymdrech resymol i beri bod yr holl is-contractwyr a thrydydd parti perthnasol yn cydymffurfio â'r Cymal 21.2 hwn (*Diogelu Data*). Er osgoi

amheuaeth, mae is-gontractwr perthnasol yn un sy'n prosesu Data Personol sy'n berchen i un neu unrhyw Barti.

21.3 Ni fydd y Partïon yn datgelu Data Personol i unrhyw drydydd parti oni bai am:

- 21.3.1 i weithwyr ac is-gontractwr a thrydydd parti y mae datgelu'r wybodaeth iddynt yn rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Partïon gyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf; neu
- 21.3.2 i'r graddau sy'n angenrheidiol dan orchymyn llys neu er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau perthnasol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw statud, is-ddeddf, Cyfarwyddeb Ewropeaidd neu reoliad.

ar yr amod bod unrhyw ddatgeliad i unrhyw is-gontractwr neu unrhyw drydydd parti dan Gymal 21.3.1 (*Diogelu Data*) yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ysgrifenedig sy'n sylweddol yr un fath â'r telerau sydd wedi'u cynnwys yn y Cymal 21 hwn (*Diogelu Data*) a ddim llai llym na hwy, ac y bydd yr holl Bartïon yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r holl Bartïon eraill am unrhyw ddatgelu Data Personol sy'n berchen iddynt hwy y mae gofyn iddynt hwy neu is-gontractwr neu drydydd parti ei wneud dan Gymal 21.3.2 (*Diogelu Data*) ar unwaith pan fyddant yn ymwybodol o ofyniad o'r fath.

- 21.3.3 Bydd y Partïon yn gweithredu ac yn cynnal ac yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl is-gontractwyr perthnasol ac unrhyw drydydd parti yn gweithredu ac yn cynnal yr holl fesurau technegol a threfniadaethol rhesymol angenrheidiol i atal prosesu Data Personol heb ganiatâd neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn unrhyw golled, dinistr neu ddifrod damweiniol i Ddata Personol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr neu asiant i is-gontractwr perthnasol neu unrhyw drydydd parti sydd â mynediad i'r Data Personol yn ddibynadwy ac yn gywir.
- 21.3.4 Gall unrhyw Barti ofyn, ar ôl cyfnod rhesymol, am ddisgrifiad ysgrifenedig o'r dulliau technegol a threfniadaethol a ddefnyddir gan unrhyw Barti arall a'r is-gontractwyr perthnasol y cyfeirir atynt yng Nghymal 21.2.3 (*Diogelu Data*). O fewn pum (5) Diwrnod Busnes o gais o'r fath, bydd y Parti y gofynnwyd iddo wneud hynny, yn darparu manylion ysgrifenedig o'r holl fesurau hyn y mae'n eu cynnal i lefel resymol fel y gall y Parti sy'n gwneud y cais bennu p'un a yw'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, yng nghyswllt y Data Personol. Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr is-gontractwyr ac unrhyw drydydd parti perthnasol hefyd yn cydymffurfio â chais o'r fath gan unrhyw Barti arall.

21.4 Bydd yr holl Bartïon yn sicrhau fod unrhyw Ddata Personol y maent yn ei gael ac yn ei ddarparu i unrhyw Barti arall wedi'i gael yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac na fydd y defnydd ohono yn unol â'r Cytundeb hwn yn torri unrhyw ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

21.5 Os:-

- 21.5.1 dan y Ddeddf Diogelu Data bod gofyn i unrhyw Barti ddarparu gwybodaeth i destun data (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data) yng nghyswllt Data Personol pan fo'r data hwn ym meddiant neu dan reolaeth unrhyw Barti arall; a
- 21.5.2 bod y Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth yn rhoi gwybod i'r Parti sy'n rheoli yn ysgrifenedig mai dyma'r sefyllfa,

yna bydd y Parti sy'n rheoli yn gwarantu cydweithredu'n rhesymol ac yn amserol gyda'r Parti y mae gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth wrth iddo fodloni ei rwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data, yn cynnwys gwneud copïau o'r Data

Personol perthnasol i'r graddau y mae yn ei feddiant.

- 21.6 Bydd pob Parti yn darparu'r wybodaeth hon sy'n ymwneud â Data Personol a'i brosesu i'r llall cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol fel y gallai'r Parti arall wneud cais rhesymol amdano yn ysgrifenedig ac y gall y parti y gofynnir iddo ddarparu'r data perthnasol ei ddarparu'n rhesymol er mwyn i'r Parti arall allu:-
- 21.6.1 cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y Cymal hwn a'r Ddeddf Diogelu Data; ac
- 21.6.2 asesu p'un a yw prosesu'r Data Personol perthnasol yng nghyswllt y Cytundeb hwn yn torri neu y gall dorri'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd sy'n faterol a heb ei ganiatáu mewn gwirionedd gan unrhyw ddatganiad canllaw a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.
- 21.7 Bydd y Partïon oll yn cymryd camau rhesymol (gan roi sylw i natur eu rhwymedigaethau bob un dan y Cytundeb hwn) i warchod cywirdeb unrhyw Ddata Personol.
- 21.8 Bydd y Partïon yn gweithio gyda'i gilydd i greu a chytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth yn benodol yng nghyswllt eu cydweithio ar y Cynllun Twf a byddant yn adolygu'n barhaus unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth presennol a ddefnyddir yng nghyswllt y Cynllun Twf i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Twf ac adnabod pa Ddata Personol sydd angen ei brosesu ac ar ba sail i sicrhau y cydymffurfir â'r Cymal 21 hwn (*Diogelu Data*).

22. RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

- 22.1 Mae pob Parti yn cydnabod bod y Cynghorau yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**FOIA**") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("**EIR**") a bydd y Cynghorau'n cydymffurfio â pholisi'r Corff Atebol ar FOIA yng nghyswllt y rhwymedigaethau datgelu gwybodaeth hyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Cynllun Twf.
- 22.2 Pan fo Parti yn derbyn cais am wybodaeth dan naill ai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynghylch gwybodaeth y mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Cynghorau eraill mewn perthynas â'r Cynllun Twf, bydd yn:-
- 22.2.1 trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Corff Atebol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;
- 22.2.2 rhoi copi i'r Corff Atebol o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r Corff Atebol yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn deg (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Corff Atebol yn nodi hynny) o pan fo'r Corff Atebol yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac
- 22.2.3 yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Corff Atebol wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Corff Atebol ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amserlen i gydymffurfio a nodir yn y FOIA neu'r EIR.
- 22.3 Mae'r Cynghorau'n cydnabod ac yn cytuno y bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am gydlynu unrhyw ymateb ar ran y Cynghorau perthnasol i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Cynllun Twf a chyfrifir am yr holl gostau a geir fel Costau'r Cyd-bwyllgor.
- 22.4 Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am benderfynu yn ôl eu dewis eu hunain yn llwyr p'un a yw unrhyw wybodaeth y ceisiwyd amdani dan y FOIA neu'r EIR:-
- 22.4.1 yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y FOIA neu'r EIR;

22.4.2 i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.

22.5 Mae pob Parti yn cydnabod y gall fod rhaid i'r Corff Atebol, dan y FOIA neu'r EIR, ryddhau gwybodaeth:

22.5.1 heb ymgynghori â'r Partïon eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu

22.5.2 yn dilyn ymgynghori â'r Partïon eraill ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'w barn hwy.

23. HYSBYSIADAU

23.1 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i unrhyw Barti yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfôn â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y derbynnydd yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 3 (*Manylion y Partïon*) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan unrhyw un o'r Partïon i'r holl Bartïon eraill.

23.2 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i'r Cyd-bwyllgor yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfôn â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig neu e-bost, wedi'i gyfeirio at y [Tîm Gweithredol] yn y cyfeiriad fel y nodir yn Atodlen 3 (*Manylion y Partïon*) neu gyfeiriad derbynnydd arall gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd gan y [Tîm Gweithredol] i'r holl Bartïon.

23.3 Tybir bod y rhybudd neu'r gorchymyn wedi'i gyflwyno'n briodol os:-

23.3.1 danfonwyd ef â llaw, a'i gadawyd yn y cyfeiriad priodol i'w gyflwyno;

23.3.2 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, bedwar deg wyth (48) awr ar ôl iddo gael ei bostio (ac eithrio dyddiau nad ydynt yn Ddiwrnodau Busnes);

23.3.3 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo

cyn belled ag yn achos danfon â llaw neu drosglwyddo â llaw neu e-bost, y caiff ei ddanfôn neu ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, tybir bod y rhybudd/gorchymyn wedi'i gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes canlynol.

23.4 Er osgoi amheuaeth, pan gyflwynir achosion lle mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yn berthnasol, rhaid cydymffurfio â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yng nghyswllt cyflwyno dogfennau mewn cysylltiad â'r achosion hynny.

24. CYFRAITH LYWODRAETHOL

Caiff y Cytundeb hwn ac unrhyw rwymedigaethau digytundeb sy'n codi ohono neu yn gysylltiedig ag ef, ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr ym mhob cyswllt, ac fe'i dehonglir yn unol â hynny. Yn amodol ar Gymal 20 (*Datrys Anghydfod*), bydd gan Lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod a allai godi o'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad ag ef.

25. ASEINIO

Ni chaiff hawliau a rhwymedigaethau'r Partïon dan y Cytundeb hwn eu haseinio, eu hamnewid neu eu trosglwyddo fel arall heb ganiatâd y Partïon eraill.

26. ILDIO HAWL

26.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu ohiriad gan unrhyw Barti i gyflawni unrhyw hawl, pŵer neu

gywiriad yn golygu ei fod yn eu hildio, ac ni fydd eu gweithredu'n rhannol yn atal unrhyw weithredu pellach ar y rhain neu ryw hawl, pŵer neu gywiriad arall, oni bai fod y Parti hwnnw'n eu hildio'n ysgrifenedig.

26.2 Bydd pob Parti yn talu ei gostau ei hun yng nghyswllt paratoi, cyflawni, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb hwn.

27. **Y CYTUNDEB CYFAN**

Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r partiön wedi cytuno iddynt yng nghyswllt testun y Cytundeb hwn, ac mae'n disodli unrhyw gytundebau, sylwadau neu ddealltwriaethau blaenorol, ysgrifenedig neu lafar, rhwng y Partiön ynghylch y testun dan sylw. Nid yw'r un Parti wedi'i gymell i ymrwymo i'r Cytundeb hwn nac i unrhyw un o'r dogfennau hyn drwy ddatganiad neu addewid nad ydynt yn eu cynnwys, eithr ni fydd y Cymal hwn yn eithrio unrhyw gyfrifoldeb fyddai gan un Parti fel arall at y llall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad a wnaed drwy dwyll gan y Parti hwnnw.

28. **GWRTHRANNAU**

Gellir cyflawni'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, a bydd pob un o'r rheini'n gopi gwreiddiol os gweithredir hwy felly, ond gyda'i gilydd un ac yr un offeryn fyddant.

29. **PERTHYNAS Y PARTIÖN**

Mae pob Parti yn gorff annibynnol ac nid oes dim sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb hwn gaiff ei ddehongli i awgrymu bod yna berthynas rhwng Partiön y bartneriaeth neu (ac eithrio pan ddarperir yn llwyr am hynny yn y Cytundeb hwn) bennaeth/asiant neu gyflogwr/gweithiwr. Ni fydd gan yr un Parti yr hawl i weithredu ar ran Parti arall nac ymrwymo'r llall drwy gontract neu fel arall, ac eithrio i'r graddau y caniateir yn glir iddo wneud hynny yn nhelerau'r Cytundeb hwn. Yn benodol er osgoi amheuaeth, ni chymerir bod unrhyw un o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn sefydlu unrhyw bartneriaeth fel y diffinnir yn Neddf Partneriaeth 1890.

30. **CYFRIFOLDEBAU STATUDOL**

Er gwaethaf unrhyw beth sydd i'w weld i'r gwrthwyneb yn y Cytundeb hwn, wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol, ni chaiff disgresiwn unrhyw Gyngor ei lyffetheirio neu ei effeithio fel arall gan delerau'r Cytundeb hwn.

FEL Y TYSTIWIYD, mae'r Cytundeb hwn wedi'i gyflawni fel Gweithred ar y dyddiad a ysgrifennwyd ar ddechrau'r Cytundeb hwn yng ngŵydd y rheini sydd wedi'u nodi.

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR**)

BWRDEISTREF SIROL CONWY)

at hynny yng ngŵydd: -)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)

CYNGOR SIR DDINBYCH)

at hynny yng ngŵydd:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)

CYNGOR SIR Y FFLINT)

at hynny yng ngŵydd:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)

CYNGOR GWYNEDD)

at hynny yng ngŵydd:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin)

CYNGOR SIR YNYS MÔN)

at hynny yng ngŵydd:-)

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR**)

BWRDEISTREF SIROL WRECSAM)

at hynny yng ngŵydd:-)

[Gosodwyd Sêl Gyffredin)
PRIFYSGOL BANGOR)
at hynny yng ngŵydd: -)]

[Gosodwyd Sêl Gyffredin)
PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM)
at hynny yng ngŵydd: -)]

[Gosodwyd Sêl Gyffredin)
COLEG CAMBRIA)
at hynny yng ngŵydd: -)]

[Gosodwyd Sêl Gyffredin)

GRŴP LLANDRILLO MENAI)

at hynny yng ngŵydd: -)]

POLISI DIRPRWYO

[NODER: Caiff hwn ei ddatblygu ymhellach yn GA2]

PENDERFYNIAD	MATER Y GRŴP RHEOLI PROSIECT	MATER Y CYDBWYLLGOR	MATER A GEDWIR I'R PARTIÖN
THEMÄU ALLWEDDOL			
1. Cymeradwyo GA2			Ydy
2. Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Busnes			Ydy
3. Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Busnes wedi'u diweddaru ac eithrio i'r graddau y mae diweddariad o'r fath gyfystyr â newid materol i'r Cynllun Busnes pennaf (mewn achos o'r fath bydd y penderfyniad i gymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Busnes wedi'i ddiweddaru yn Fater a Gedwir i'r Partïon)		Ydy	
CYLLID A GWARIANT			
4. Cytuno ar unrhyw gynnydd i amlen fforddiadwyedd Parti			Ydy
5. Cymeradwyo unrhyw gynnydd i Gyfraniad y Partïon			Ydy
6. Cymeradwyo unrhyw Gostau Mewnol anghymesur yn unol â Chymal 12.2.2 (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau)		Ydy	
7. Cymeradwyo gwariant o fewn Cyllideb Flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar ran y Partïon fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 (<i>Cyllideb Flynyddol</i>)	Ydy		
8. Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol yn unol â Chymal 12.4 (<i>Cyllideb Flynyddol</i>)			Ydy
9. Cymeradwyo gwariant ychwanegol y tu hwnt i Gyllideb Flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar ran y Partïon fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 (<i>Cyllideb Flynyddol</i>)			Ydy
10. Cymeradwyo o bryd i'w gilydd ddsbarthu'r Gyllideb Flynyddol rhwng y gwahanol raglenni a phrosiectau y cytunir arnynt fel rhan		Ydy	

PENDERFYNIAD	MATER Y GRŴP RHEOLI PROSIECT	MATER Y CYDBWYLLGOR	MATER A GEDWIR I'R PARTIÖN
o unrhyw Gynllun Twf neu'r Strategaeth Twf Ranbarthol			
11. Ymrwymo i (neu gytuno i ymrwymo i) unrhyw drefniant benthycyca ar ran y Cyd-bwyllgor a/neu roi unrhyw sicrwydd yng nghyswllt y benthycyca hwn		Ydy	
12. Derbyn amodau a thelerau yng nghyswllt unrhyw arian trydydd parti ar gyfer y Cynllun Twf		Ydy	
CYFFREDINOL			
13. Disodli'r Corff Atebol yn unol â Chymal 4.2		Ydy	
14. Sefydlu is-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn a phennu ei gylch gorchwyl ac ystod y dirprwyo.		Ydy	
15. Gwneud unrhyw amrywiadau neu ildio unrhyw hawliau neu derfynu unrhyw gontractau a lofnodwyd gan y Partion / y Corff Atebol (ac eithrio'r Cytundeb hwn) sy'n faterol i'r Cynllun Twf.		Ydy	
16. Diwygiadau i delerau'r Cytundeb hwn			Ydy
17. Cyflogi (a thelerau cyflogaeth) unrhyw berson unigol lle nad yw gwerth y penodiad yn fwy na £25,000 ym mhob Cyfnod Cyfrifyddu	Ydy		
18. Cychwyn unrhyw hawliad, gweithrediadau neu ymgyfreithiad arall a ddygir gan neu amddiffyn unrhyw hawliad, gweithrediadau neu ymgyfreithiad arall a ddygir yn erbyn y Cyd-bwyllgor neu Barti unigol yng nghyswllt y Cynllun Twf, ac eithrio yng nghyswllt casglu dyled yng nghwrs arferol busnes.		Ydy	
19. Gwneud unrhyw gyhoeddiadau neu ddatganiadau o ba bynnag natur yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor a'r Cynllun Twf		Ydy	
20. Creu cwmni masnachu awdurdod lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003			Ydy
21. Unrhyw faterion eraill nad ymdrinnir â hwy yn yr Atodlen 1 hwn (<i>Polisi Dirprwyo</i>)		Ydy	

CYLCH GORCHWYL

Rhan 1

CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR

Nodau/Pwrpas

1. Y Cyd-bwyllgor fydd y corff allweddol i oruchwylio'r Cynllun Twf a chynrychioli buddiannau'r Partïon a'i randdeiliaid. Yn ogystal, bydd y Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am fonitro cynnydd y prosiect a rheoli dimensiynau gwleidyddol y Cynllun Twf.
2. Hefyd, bydd y Cyd-bwyllgor yn goruchwylio'r Strategaeth Twf Ranbarthol a bydd yn gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i hwyluso a gweithredu ei chyflawni.
3. Bydd y Cyd-bwyllgor yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:
 - Pennu ffurf a nifer y cronfeydd i gyflawni'r Cynllun Twf.
 - Cytuno ar brosiectau allweddol i gyflawni'r Cynllun Twf
 - Darparu cyfeiriad strategol i'r Tîm Gweithredol (i gynnwys cymeradwyo cylch gwaith y Tîm Gweithredol a chymeradwyo unrhyw faterion adnoddau)
 - Gweithredu fel cynrychiolydd i bob un o'r Partïon i sicrhau cysondeb gydag amcanion a gweledigaethau unigol
 - Monitro trefniadau perfformiad, rheoli a gwaith (i gynnwys y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol)
 - Sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u hymrwymo i'r Cynllun Twf
 - Cyflafareddu ar unrhyw anghydfod o fewn y rhaglen a negodi datrysiaid i unrhyw broblemau rhwng y rhaglen a chyrrff allanol
 - Cyfathrebu a darparu cynnydd ar faterion strategol o fewn y Cynllun Twf
 - Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y Partïon
 - Cyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol a Chyfrifon Blynyddol yn unol â'r Fframwaith Sicrwydd
 - Cysylltu â phartneriaid Cynlluniau Twf neu Gynlluniau Dinasoedd ledled y Deyrnas Unedig i rannu arfer gorau a sicrhau dull strategol wedi'i gydlyn
 - Darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Partïon
 - Diweddarau'r Polisi Dirprwyo o bryd i'w gilydd

Telerau

4. Ar ddechrau'r Cynllun Twf:
 - Cwblhau'r GA2 ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw Gynlluniau Busnes Cymal 7 a
 - Chytuno ar fanylion y broses gwneud penderfyniadau ac asesiadau (fel y cyfeiriwyd atynt yn y Fframwaith Sicrwydd ac os nad ydynt wedi'u cwblhau eto) cyn i'r Cyd-bwyllgor ystyried prosiectau unigol
5. Yn ystod y camau cynllunio a datblygu:
 - Adolygu statws y prosiect yn erbyn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo
 - Monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y prosiect
 - Hyrwyddo a chefnogi'r prosiect ymhlith rhanddeiliaid perthnasol a lle bo hynny'n briodol, derbyn eu caniatâd.
 - Ceisio datrys anghydfodau lle nad yw'n bosib datrys y rhain yn foddhaol drwy unrhyw ddull arall
 - Sicrhau bod y cynigion yn fforddiadwy ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus.

Caffael contractau ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau

Yn amodol ar gydymffurfio â: deddfwriaeth, rheolau sefydlog y contract a rheolau gweithdrefn eraill y Corff Atebol (os yw'r contractau i'w gosod yn enw'r Corff Atebol) ac nad yw'r mater yn disgyn o fewn Mater a Gedwir i'r Partion, mae'r darpariaethau a ganlyn yn berthnasol.

6. Os yw'r Cyd-bwyllgor yn caffael unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau, ar ddechrau'r caffaeliadau, bydd y Cyd-bwyllgor, neu os yw'n disgyn o fewn awdurdod dirprwyedig y Tîm Gweithredol, bydd y Tîm Gweithredol yn cytuno ar:
 - fesurau y dylid mesur gwireddu buddion yn eu herbyn;
 - trefniadau ar gyfer sicrwydd ansawdd a rheoli risg;
 - trefniadau ar gyfer cyfathrebiadau; a
 - threfniadau ar gyfer lansio caffael ar gyfer prosiectau penodol (lle bo hynny'n briodol).

7. Wrth i'r caffaeliadau fwrw ymlaen:-
 - adolygu statws y prosiect yn erbyn cynllun y prosiect;
 - monitro rheolaeth cyllideb, risgiau ac ansawdd y caffaeliad;
 - cytuno ar gynnydd drwy gamau allweddol (e.e. yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fater yr OJEU, cam cyn cymhwyso a cham bidiwr a ffafrir) a derbyn yr holl 'ganiatadau' cysylltiedig;
 - cytuno ar ddogfennau caffael drafft;
 - cytuno ar y broses ar gyfer gwerthuso bidiau a'r meini prawf gwerthuso manwl a'r sgoriau;
 - ystyried cynnydd y caffaeliad; a
 - gweithredu fel llysgenhadon y caffaeliad a'r prosiect y mae'n ei hwyluso.

8. Ar ddiwedd y caffaeliad:-
 - sicrhau bod yr adolygiad risg cyn contract wedi'i gwblhau;
 - cytuno ar unrhyw achosion busnes ariannol;
 - gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu'r contract a darparu'r holl 'ganiatadau' terfynol; a
 - sicrhau bod y contract wedi'i reoli'n briodol a bod y cynnyrch disgwylidig wedi'u cyflawni'n foddhaol.

Rhan 2

CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL

[CYNNWYS Y CYNLLUN DIRPRWYO A GYMERADWYWYD GAN Y CYD-BWYLLGOR YM
MIS MAI]

RHAN 3

CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU

[CYNNWYS Y CYNLLUN DIRPRWYO A GYTUNWYD GAN Y CYD-BWYLLGOR YM MIS MAI]

Atodlen 3

MANYLION Y PARTÏON¹

ENW'R DERBYNNYDD	CYFEIRIAD	E-BOST
Cyngor Conwy: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Cyngor Sir Ddinbych: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Cyngor Sir y Fflint: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Cyngor Gwynedd: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Cyngor Sir Ynys Môn: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Cyngor Wrecsam: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Prifysgol Bangor: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Coleg Cambria: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Grŵp Llandrillo Menai: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy: [Prif Weithredwr]	[]	[]
Tîm Gweithredol [I sylw xxxx]	[]	[]

1 Manylion i'w cadarnhau os gwelwch yn dda.

PENAWDAU GWARIANT

1. Mae'r hyn a ganlyn yn rhestr anghyflawn o'r penawdau gwariant y gallai'r Partïon eu cael yn y Cynllun Twf:-
 - 1.1 Golyga "**Costau Mewnol**" y costau sy'n gysylltiedig gyda phob Parti yn darparu adnoddau mewnol yng nghyswllt y Cynllun Twf sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - 1.1.1 gostau staffio a gorbenion cysylltiedig;
 - 1.1.2 rheoli prosiectau / cefnogaeth dechnegol a gweinyddol;
 - 1.1.3 cyfathrebu; a
 - 1.1.4 (lle bo hynny'n briodol) costau sydd ynghlwm â rheoli ceisiadau FOIA yn unol â Chymal 22 (*Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol*).
 - 1.2 Golyga "**Costau'r Cyd-bwyllgor**" gostau gweithredol a rheolaeth y Cyd-bwyllgor, (ei is-bwyllgorau a grwpiau a grëir yn unol â Chymalau 10.18 a 10.19) sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i
 - 1.2.1 gostau staffio a gorbenion cysylltiedig;
 - 1.2.2 rheoli prosiectau / cefnogaeth dechnegol a gweinyddol;
 - 1.2.3 cyfathrebu;
 - 1.2.4 Costau Cyfieithu;
 - 1.2.5 y costau a geir gan y Corff Atebol wrth weithredu dyletswyddau'r Corff Atebol (Cymalau 4 a 5); a
 - 1.2.6 chyngor proffesiynol allanol.
 - 1.3 Er osgoi amheuaeth, nid yw'r Costau Mewnol a Chostau'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys unrhyw gostau refeniw na buddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt gweithredu unrhyw brosiect sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf.

Atodlen 5

CYFNODAU CYFRIFYDDU

Y Cyfnod Cyfrifyddu cychwynnol fydd dyddiad y Cytundeb hwn hyd at 31 Mawrth ac wedi hynny:

[1 Ebrill i 31 Mawrth]²

Atodlen 6

**COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR BWRDD UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU
(y Bwrdd Uchelgais)**

1. Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, p'un a oes gennych fuddiant personol, a ph'un a yw'r cod ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.
2. Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais"):
 - a os yw'n debygol o effeithio ar les neu sefyllfa ariannol person o'r fath isod i raddau ehangach na threthdalwyr eraill Gogledd Cymru:
 - i chi,
 - ii unrhyw un yr ydych yn byw gydag ef/hi,
 - iii unrhyw un y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi,
 - b os yw'n gysylltiedig â'r isod, neu'n debygol o effeithio arnynt:
 - i unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan berson o'r fath;
 - ii unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi person o'r fath, unrhyw gwmni mae person o'r fath yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni y mae'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;
 - iii unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yng Ngogledd Cymru, ac y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;
 - iv unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Bwrdd Uchelgais a:
 - aa pherson o'r fath
 - bb cwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo,
 - cc cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu;
 - dd gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff iii uchod;
 - v unrhyw dir yng Ngogledd Cymru;
 - aa y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo;
 - bb trwydded (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;
 - vi unrhyw dir y mae'r Bwrdd Uchelgais yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn:
 - aa gwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo,
 - bb cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu
 - cc gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff iii uchod;
 - vii unrhyw un o'r cyrff a ganlyn y mae person o'r fath yn aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd o reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;
 - aa awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
 - bb cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;
 - cc corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;
 - dd undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
 - ee glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod;

Datgelu Buddiannau Personol

3. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu bodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

4. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eich awdurdod a'ch bod yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i aelod neu swyddog o'r Bwrdd Uchelgais ynglŷn â'r busnes hwnnw yna mae'n rhaid i chi;
- a gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu
 - b ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant.
- 5 Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad, roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais ar y ffurflen a ddynodir ganddo ef/hi yn cynnwys;
- a manylion y buddiant personol;
 - b manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef; a
 - c llofnod.
6. Ac eithrio'r hyn a ddarperir ym mharagraff 7 isod bydd buddiant personol hefyd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.
7. Ni ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os nad yw'r busnes hwnnw yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad ac
- a Mae'n ymwneud â'r isod:
 - i awdurdod cyhoeddus neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;
 - ii corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan y Bwrdd Uchelgais
 - iii eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chwsoch eich penodi neu eich enwebu gan awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych yn llywodraethwr arni;
 - iv eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chwsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais;
 - v ac na ystyrir buddiant yn fuddiant personol nac yn rhagfarnu lle mae'n gysylltiedig â'r Parti sydd wedi penodi'r Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.
 - b Mae'n ymwneud â'r isod:
 - i swyddogaethau tai awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais lle mae gennych denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;
 - ii swyddogaethau awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, yn rhiant neu'n rhiant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi;
 - c Lle mae'n gysylltiedig â'r Parti sydd wedi penodi'r Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.

Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

8. Hefyd, bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) :
- a pan fo'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (p'un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan y Bwrdd Uchelgais neu un arall o'i bwyllgorau, ei is-bwyllgorau, ei gydbwyllgorau neu ei is-gydbwyllgorau ac
 - b ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Ymgynghorwr i'r Bwrdd Uchelgais, pwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor

a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

- 9 Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y Bwrdd Uchelgais, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Arweiniol:
- a fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:
 - i lle y mae paragraff (ii) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu
 - ii mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;
 - b peidio ag arfer swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais o ran y busnes hwnnw;
 - c peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;
 - d peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw, a
 - e pheidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.
10. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.
11. Nid yw paragraff 10 yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:
- a os gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol;
 - b os ydych yn mynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.
 - c os oes gennych oddefeb cyn belled â'ch bod:
 - i yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a
 - ii cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:
 - aa manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;
 - bb manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;
 - cc manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd; a'ch
 - dd llofnod.
12. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Bwrdd Uchelgais gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Uchelgais o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

Atodlen 7

MANYLION Y CYNRYCHIOLWYR

[Manylion i'w cadarnhau]

Atodlen 8

FFRAMWAITH SICRWYDD

[Fframwaith i'w ychwanegu cyn llofnodi³]

Atodlen 9

CYNLLUN GWEITHREDU

[Profforma i'w baratoi gan y Cyd-bwyllgor]


ATODIAD / ENCLOSURE

2

CC-20677-LB/444215



MAP LLYWODRAETHU



Tudalen 265

Allwedd

Glas – Gwneud Penderfyniadau

Piws - Ymgynghorol

This page is intentionally left blank

DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

Dyfodol Neuadd y Sir – Future of Shire Hall, Llangefni

PRAWF BUDD Y CYHOEDD PUBLIC INTEREST TEST

<p>Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Paragraph(s) 14, of Schedule 12A Local Government Act 1972</p>	
<p>Y PRAWF / THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-</p> <p>Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cyngor yn bwriadu rheoli ei asedau er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu atebolrwydd a thryloywder • Herio penderfyniadau a wneir • Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau am y safle • Effaith ehangach yr opsiynau trawsnewid ar y gymuned a'r economi leol <p><i>There is a public interest in disclosure as:-</i></p> <p><i>The public will be interested in how the Council proposes to manage its assets in order to:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Review accountability and transparency</i> • <i>Challenge decisions made</i> • <i>Understand and participate in decisions regarding the site</i> • <i>The wider impact of transformation options on local community and economy.</i> 	<p>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:</p> <p>Gallai datgelu gael effaith ar fuddiannau masnachol partner datblygu neu'r sawl sy'n prynu'r eiddo.</p> <p>Nid oes unrhyw gynlluniau swyddogol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y safle ac o'r herwydd, nid yw gwybodaeth ynghylch cynlluniau o'r fath ar gael.</p> <p>Gallai rhyddhau gohebiaeth fewnol beryglu unrhyw gynlluniau y gall y Cyngor fod yn dymuno eu datblygu a gwerth posibl y safle mewn perthynas ag unrhyw gynigion yn y dyfodol, gan effeithio felly ar fuddiannau masnachol y safle.</p> <p>Nid oes unrhyw ymgynghori cyhoeddus wedi digwydd mewn perthynas â'r safle.</p> <p><i>The public interest in not disclosing is:-</i></p> <p><i>Disclosure could impact on the commercial interests of a development partner or purchaser of the building.</i></p> <p><i>No definitive development plans have been finalised for the site and so information regarding any such plans is not available.</i></p> <p><i>The release of internal correspondence could jeopardise any plans which the Council may wish to develop and the potential value of the site in relation to any future proposals, thus affecting the commercial interests in the site.</i></p> <p><i>No public consultation has taken place to date regarding the site.</i></p>

Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank